

Hydref 2017

Adroddiad Blynyddol 2016/17



I gael crynodeb 'Cychwyn cyflym' byr ar gyfer y ddogfen hon gweler ein [Crynodeb](#)

I fonitro cyflawniad y cynllun hwn, ewch i – www.sirgar.llyw.cymru

Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Ym mis Mai eleni, etholwyd Cyngor newydd gan bobl Sir Gaerfyrddin, i wasanaethu am y pum mlynedd nesaf. Yn sgil canlyniad yr etholiad mae gan fy ngrŵp i, sef Plaid Cymru, gynrychiolaeth gryfach ar y Cyngor, ac, o'r herwydd, fwy o lefydd ar y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio mewn clymblaid gyda'r Grŵp Annibynnol. Mae gan y ddau grŵp werthoedd a dyheadau tebyg, a gyda'n gilydd rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hunanasesu a gwerthuso ein perfformiad fel Cyngor a'r ffordd rydym yn llywodraethu.

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i alinio'n uniongyrchol i'r *Strategaeth Gymunedol Integredig* yr ydym wedi cytuno arni gyda'n partneriaid. Felly mae'n bwysig iawn ein bod yn cadw at ein hochr ni o'r cytundeb drwy gyflawni'r pum *canlyniad* a'r 30 o *nodau* yr ymrwymwyd iddynt gennym. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y Cyngor dros y 12 mis diwethaf.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod yn gyson ein bod yn "*deg ac yn gytbwys*" yn y ffordd rydym yn adrodd am ein perfformiad. Rhoddir gwybod am y newyddion da ochr yn ochr â'r newyddion anghyfleus, ond hoffwn feddwl nad oes rhyw lawer o hynny. *Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau mai'r Cyngor hwn yw'r un mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru, a thrwy hynny ein galluogi i wella'n barhaus.* Bydd cynllun gweithredu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn datblygu a gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn parhau i gael ei gyflawni.

Fel Arweinydd, mae adfywio'r economi leol wedi bod yn flaenoriaeth i mi o'r cychwyn. Rwyf am i ni greu swyddi a fydd yn cadw pobl ifanc yn y sir fel y gallant gyrraedd eu potensial. Rydym wedi cryfhau'r *Canlyniad - Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus.*

Er gwaethaf toriadau llym i'r gyllideb, rydym wedi cyflawni llawer ac yn bwriadu cyflawni rhagor. Byddwn yn parhau i ymgynghori'n eang ynghylch cynigion o ran lleihau'r gyllideb a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar bobl Sir Gaerfyrddin, sef y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn ymdrechu i wneud gwell defnydd o adnoddau, yn adeiladu gwell Cyngor, ac yn sicrhau bod gwerthoedd craidd y Cyngor yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Mae'r her ariannol sydd ynghlwm wrth fyw mewn cyfnod mor ansicr fel petai'n ddiwedd, ond daw cyfleoedd yn sgil yr ansicrwydd hwnnw a byddwn yn wynebu'r heriau ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau er llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Sir Gaerfyrddin.

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni:

Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch neges e-bost atom GwrandoArnochChi@sirgar.gov.uk

Y Cyngorydd Emlyn Dole

Yr Arweinydd



Mark James CBE

Y Prif Weithredwr



Cynnwys

	Tud
Rhagarweiniad	3
➤ Canlyniad A. Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau yn cynnwys Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella - (KIOP)	12
➤ Canlyniad B. Adeiladu Gwell Cyngor yn cynnwys KIOP	25
Adroddiadau Blynyddol ar gyfer cyflawni ein rhan ni o'r Strategaeth Gymunedol Integredig lle bu i ni a'n partneriaid gyttuno ar y 5 Canlyniad a'r 30 Nod a bennwyd	
Canlyniad: C. Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn lachach	
➤ C1: Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd	
➤ C2: Atal afiechyd ac annog ffyrdd iach ac egniol o fyw	
➤ C3: Gwella Iechyd a Llesiant Emosiynol a Meddyliol pawb yn y Sir	
➤ C4: Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd	yn cynnwys KIOP
➤ C5: Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd	yn cynnwys KIOP
➤ C6: Sicrhau ei bod yn haws i bawb, gan gynnwys grwpiau agored i niwed, gael gofal iechyd a chymdeithasol	
➤ C7: Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	
Canlyniad: D. Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	
➤ D1: Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb	yn cynnwys KIOP
➤ D2: Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb	yn cynnwys KIOP
➤ D3: Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant	
➤ D4: Datblygu Cymdeithas Gynhwysol	
➤ D5: Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.	
Canlyniad: E. Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	
➤ E1: Cynnal ac anelu at leihau ymhellach lefelau troseddau sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr	
➤ E2: Sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddau	
➤ E3: Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol	
➤ E4: Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol	
➤ E5: Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt	
➤ E6: Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd	
Canlyniad: F. Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy	
➤ F1: Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon	
➤ F2: Leihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff	
➤ F3: Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy	
➤ F4: Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Sir	
➤ F5: Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy	
➤ F6: Datblygu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy	yn cynnwys KIOP
➤ F7: Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig	
Canlyniad: G. Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus	
➤ G1: Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)	
➤ G2: Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb	yn cynnwys KIOP
➤ G3: Datblygu'r economi wybodaeth ac arloesedd	
➤ G4: Sicrhau lleoedd nodedig a fframweithiau cystadleuol	
➤ G5: Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol	yn cynnwys KIOP
➤ G6: Creu economi a gweithlu dwyieithog.	
Atodiadau – Ein Mesurau Statudol – canlyniadau 2016/17	138

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r holl addewidion a wnaed uchod, yn eu tro, ac yn ceisio cloriannu lle'r ydym arni, edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael o ran bodlonrwydd cwsmeriaid, canfyddiadau rheoleiddiol neu ddata perfformiad, amlinellu'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf a nodi a oes unrhyw un ar ei ennill.

Rhagarweiniad

Pwrpas:

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Uchelgais y Cyngor yw cael ei gydnabod fel y Cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru.

Yn ogystal, yn ôl y gyfraith o dan [Fesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2009](#) rhaid i ni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol am berfformiad yn y gorffennol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn, ac mae dyletswydd gyfreithiol arnom i wella lle y gallwn. Mae Llywodraeth Leol, ledled y DU, yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol. Mae'r disgwyliadau a'r galw am wasanaethau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni 'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'.

Gweithio gyda Phartneriaid:

Fel Cyngor nid ydym ar ein pennau ein hunain yn ein gwaith i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Cytunom ar un [Strategaeth Gymunedol Integredig](#) gyda'n partneriaid yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos ein cynnydd fel corff cyhoeddus unigol o gymharu â'r cynllun partneriaeth y cytunom arno. Mae'n dangos sut yr ydym yn cyflawni ein hochr ni o'r fargen. Mae'n defnyddio'r un strwythur Canlyniadau a Nodau a amlinellwyd yn y cynllun partneriaeth.

Strategaeth Gorfforaethol

Mae ein [Strategaeth Gorfforaethol 2015-2020](#) yn pennu dyheadau a blaenoriaethau strategol y Cyngor a sut y byddwn yn cefnogi cyflawni canlyniadau a nodau'r Strategaeth Gymunedol Integredig am y pum mlynedd nesaf.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae [Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol](#) yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys tair thema allweddol sy'n edrych ar ein rôl fel cyflogwr, darparwr gwasanaeth ac arweinydd cymunedol. Mae chwe amcan strategol o dan y tair thema hynny. Mae [Cynllun Gweithredu](#) manwl wedi cael ei baratoi i ddangos sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hynny.

Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwaith gyda grwpiau gwarchodedig allanol wedi parhau i dyfu ac mae ein partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a chyrrff sector cyhoeddus eraill wedi cryfhau trwy Gydraddoldeb Sir Gaerfyrddin. Mae ein Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi meysydd gwaith allweddol megis rhaglen ailsefydlu Syria Sir Gâr ac wedi hybu cyfleoedd hyfforddi mewn partneriaeth â Chymorth i Ddiodeffwyr/Gwasanaeth Cenedlaethol Troseddau Casineb.

Y Gymraeg

Yn ystod 2016/17 mae pwyslais y gwaith wedi bod ar gyflwyno [Safonau'r Gymraeg](#) yn y Cyngor. Paratowyd cynllun manwl er mwyn sicrhau gweithredu a bydd hwn yn sail i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17, i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae cyfathrebu a hyrwyddo wedi bod yn elfen allweddol o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Safonau ymysg staff. Mae cyfres o nodiadau canllaw wedi cael eu llunio ar gyfer staff ac rydym wedi cymryd rhan mewn cyfres o sioeau teithiol ar gyfer staff. Mae gweithredu'r Safonau wedi bod yn gyfle da i ni edrych ar ein sefyllfa bresennol o ran cydymffurfio a phennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.


Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyhoeddi Polisi ar y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, sy'n nodi'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ochr yn ochr â'r ddarpariaeth dysgu a gwella Cymraeg. Rydym hefyd wedi paratoi a chyhoeddi [Strategaeth i hybu'r Gymraeg](#) mewn partneriaeth â Fforwm Strategol yr Iaith Gymraeg y Sir.

Hunanasesu a Blaenoriaethu Gwella

Er mwyn asesu perfformiad a chlustnodi blaenoriaethau gwella, rydym yn defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau rhesymol, teg a chytbwys.

Drwy ddod â'r ystod eang hon o wybodaeth a safbwyntiau ynghyd, rydym yn gallu archwilio tystiolaeth er mwyn penderfynu ar yr hyn sydd bwysicaf ac ar y meysydd y mae angen inni ymdrechu fwyaf ynddynt.

Clustnodwyd y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella canlynol ar gyfer 2016/17:-



Canlyniad	KIOP ar gyfer 2016-17
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	<i>Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt - gan roi ystyriaeth i'r toriadau yn y gyllideb gan y llywodraeth ganolog a'u heffaith</i>
Adeiladu Gwell Cyngor	<i>Parhau i wella Llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored a thryloyw a'u cadw dan adolygiad gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.</i>
Iechyd	<i>Hyrwyddo Annibyniaeth a Llesiant i Bobl Hŷn</i> <i>Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a'r cartrefi ar rent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy</i>
Dysgu	<i>Gwella Cyrhaeddiad Dysgwyr</i> <i>Lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant</i>
Yr Amgylchedd	<i>Gwella'r seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach</i>
Economi	<i>Trechu Tlodi</i> <i>Creu swyddi a thwf ledled y Sir</i>

Newyddion allweddol am berfformiad cyffredinol

Dyfarniad y Dinasyddion

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Sir Gaerfyrddin oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i gynnwys canlyniadau'r arolwg hwn pan gychwynnodd gyntaf ac mae wedi parhau i wneud byth ers hynny. Clustnodwyd y Cyngor am ei arfer nodedig o ran ei barodrydd i gyhoeddi ystod eang o dystiolaeth wrth asesu ei berfformiad.

O 2016/17 ymlaen, daeth Arolwg Cenedlaethol yn lle Arolwg Cenedlaethol 2012-15, Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg Oedolion Egniol, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd wedi eu seilio ar fwy na 10,000 o gyfweiliadau a gynhaliwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. Rhoddwyd cyfweiliad i fwy na 600 yn Sir Gaerfyrddin.

Cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf ar 29 Mehefin a bydd mwy o ganlyniadau ar gael drwy gydol y flwyddyn. Ar 30 Mehefin, roedd 30 o ganlyniadau y manylir arnynt fesul ardal awdurdod lleol (gweler Atodiad A) ac adroddir ynghylch rhai ohonynt lle bônt yn berthnasol i nod. Gellir priodoli meysydd dau gwestiwn yn uniongyrchol i'r Cyngor, sef Segment y Cwestiwn Awdurdod Lleol a'r Cwestiwnau Democratiaeth Leol. Gweler y tabl isod.

Ceir 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tabl graddio isod yn dangos:-


- Canlyniadau Sir Gaerfyrddin o gymharu â chanlyniadau Cynghorau eraill, ac, os ydynt ar gael, ein safle a'n canlyniad blaenorol.
- Mae hefyd yn dangos y canlyniadau gorau a gwaethaf yn yr ystod

Tabl i ddangos sut mae canlyniadau Sir Gaerfyrddin o ran Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cymharu:-

Cwestiwnau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
	Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau										
				Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15 ● at ein sefyllfa 2016/17 ■																						
Cytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel	58	51	↓	24																						61
Cytuno bod y cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio	42	35	↓	21																						48
Cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol	37	36	↓	24																						53
Yn teimlo y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal	21	19	↓	12																						28
Cysylltwyd â chynghorydd yn y flwyddyn ddiwethaf	15	16	↑	10																						24
O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'n deall beth mae cynghorydd yn ei wneud	63	48	↓	40																						77
O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'r cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol	59	44	↓	37																						72


A yw'r awdurdod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn ddiwethaf yn 2014/15, y canlyniad oedd 58% (yn well na chyfartaledd Cymru o 53%) ac ar gyfer 2016/17 mae wedi gostwng i 51% (yn dal yn well na chyfartaledd Cymru o 48%). Mewn cyfnod o doriadau ar wariant cyhoeddus, mae canlyniad cyfartalog Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gostwng 5% a Sir Gaerfyrddin 7%. Y cwestiwn hwn yw un o'r mesurau newydd ym Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymru Gyfan a bennwyd ar gyfer llywodraeth leol yn 2017/18. Roedd y Cyngor wedi gwella 63% o'r Mesurau Cenedlaethol hyn ddwy flynedd yn ôl a 67% y llynedd.



Allwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau lleol sy'n effeithio ar yr ardal?

Nodir hyn yn Llywodraeth Cymru fel dangosydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hefyd yn rhan o adroddiad gan gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Lywodraethu. Y canlyniad gorau yng Nghymru oedd 28.3% a chyfartaledd Cymru oedd 20%, canlyniad Sir Gaerfyrddin oedd 19%. Ddwy flynedd yn ôl, y canlyniad oedd 21%.



Dyfarniad y Rheoleiddwyr

Mae rheoleiddwyr yn darparu asesiad annibynnol pwysig o'r Cyngorau a'r modd y maent yn gwarchod arian cyhoeddus.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am y Cyngor ar gyfer 2016/17 i'r casgliad bod:

'y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus'

[Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Gwella Blynyddol: 2016-17 – Cyhoeddwyd ym Mehefin 2017](#)

Casgliadau cadarnhaol y daethpwyd iddynt:-

- ✓ *Ymagwedd effeithiol yn gyffredinol ar gyfer pennu a chyflawni newidiadau sylweddol i wasanaethau...*
- ✓ *Trefniadau cadarn o ran cynllunio arbedion, sy'n cefnogi gwytnwch ariannol*
- ✓ *Rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ar faterion llywodraethu corfforaethol*
- ✓ *Wedi gwneud cynnydd ar yr holl gynigion gwella ar gyfer Rheoli Pobl*
- ✓ *Gwell cysylltiadau rhwng Rheoli Asedau Corfforaethol a Rheoli Asedau Gwasanaeth*
- ✓ *Cynnydd sylweddol yn y gwasanaeth TGCh*
- ✓ *Newidiadau cadarnhaol i gynllunio gwella*

Roedd ambell 'ond' yn perthyn i'r rhan fwyaf o'r casgliadau ✓ hyn. Fodd bynnag, mân faterion oeddent.

Sut yr ydym yn Cymharu

Pan gyhoeddodd [Strategaeth Gorfforaethol 2015 - 2020](#), pennwyd y mesurau canlyniadau canlynol gennym i gloriannu ein cynnydd. Ar gyfer blwyddyn dau (2016/17) rydym wedi cyflawni'r canlynol:-

Thema	Mesurau'r Canlyniadau	Cynnydd
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor	✘
	Lleihau 'costau cynnal' y sefydliad	✓
	Cynyddu gweithgarwch ar-lein i roi sylw i ymholiadau a thrafodion gan y cyhoedd	✓
Adeiladu Gwell Cyngor	Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd	✓
	Gwell lefelau boddhad staff (Arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl Mawrth '17)	Gwaelodlin 85%
	Gostyngiad yn lefelau absenoldeb salwch y staff	✘
Iachach	Gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant	✘
	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓
	Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden	✓
Dysgu	Gwell cyrhaeddiad addysgol	✓
	Gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol (ysgolion cynradd)	✘
	Gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol (ysgolion uwchradd)	✓
	Llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	✓
	Ysgolion mewn cyflwr gwell	✓
Diogel	Darparu cymorth priodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd	✓
	Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd	↔
	Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd	✘
	Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol	✘
Yr Amgylchedd	Cyfraddau ailgylchu uwch	✓
	Gwell mynediad digidol	✓
	Gwell cysylltiadau trafnidiaeth	✓
	Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy	✓
Economi	Cynyddu cyflogaeth	✓
	Lleihad yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra	✓
	Cynyddu cynhyrchiant a gweithgarwch economaidd	✓

Hefyd mae **cyfres o fesurau Cenedlaethol** y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu.

Mae dwy brif ffordd o fesur gwelliant:-

- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn
- Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

Yn ystod 2016/17, roedd **65%** o'n mesurau wedi gwella, tra bo **31%** wedi dirywio a **4%** wedi aros yr un fath; mae hyn yn adeiladu ar y gwelliant a wnaed yn 2015/16 ac mae'n galonogol o hyd yn yr hinsawdd bresennol o gwtogi ar gyllidebau. Dengys y tabl isod y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn:

Blwyddyn	Wedi gwella	Yn gyson	Wedi dirywio	Gwelliant Net (Wedi gwella - Wedi dirywio)
2016/17	65% (17 mesur) [#]	4% (1 mesur) [#]	31% (8 mesur) [#]	34% [#]
2015/16	57.5% (23 mesur)	17.5% (7 mesur)	25% (10 mesur)	32.5%
2014/15	56% (24 mesur)	14% (6 mesur)	30% (13 mesur)	26%
2013/14	59% (26 mesur)	11% (5 mesur)	30% (13 mesur)	29%

[#] Mae'r % gwelliant ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn y tabl uchod ychydig yn wahanol i'r ffigurau ym mwletin yr [Uned Ddata Llywodraeth Leol](#) a gyhoeddwyd ar 13 Medi 2017. Mae hyn oherwydd bod canlyniadau gofal cymdeithasol wedi eu cynnwys yn y tabl uchod, nad ydynt wedi eu cynnwys gan yr Uned Ddata gan y byddant yn cael eu cyhoeddi'n swyddogol gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref.

Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

Ffordd sefydledig o gymharu canlyniadau yw edrych ar gyfran y dangosyddion sydd gan awdurdod yn chwarter uchaf y canlyniadau, y chwarter isaf, ac uwchlaw ac islaw'r canlyniad canolrif.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein canlyniadau yn cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru yn 2016-17, ond ar hyn o bryd mae heb y tri mesur gwasanaethau cymdeithasol ac felly nid yw'r cyfanswm yn dod i 100%. Bydd hyn yn cael ei ddiweddarau pan gyhoeddir y canlyniadau a'r chwarteri'n swyddogol gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Hydref, 2017.

****	Upper quartile results	7 Results 25%			43%
***	Upper middle results	5 Results 18%			
**	Lower middle results	9 Results 32%			
*	Lower quartile results	4 Results 14%			
			25%	50%	

Ar hyn o bryd ar gyfer 2016/17, mae **43%** o'n mesurau yn y ddau chwarter uchaf, sydd yn llai na 2015/16, pryd yr oedd 62.5% ohonynt yn y ddau chwarter uchaf.


Mae **rhestr o'r holl fesurau** yn y tablau uchod, sy'n dangos y canlyniadau a sut y maent wedi gwella, dirywio neu aros yr un peth wedi ei chynnwys yn **Atodiad B**. Hefyd mae'n dangos sut rydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru.

Mae **Atodiad C** yn rhoi gwybodaeth fanwl am bob mesur ynghyd ag eglurhad ynghylch y perfformiad.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf newydd yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

- a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw **'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'**
- b) Mae'n rhaid i ni arddangos **5 ffordd o weithio**:
1. Tymor hir,
 2. integredig,
 3. cynhwysol,
 4. cydweithredol
 5. ataliol
- c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.



Cynnydd a wnaed yn ystod 2016/17:-

Fel corff cyhoeddus o dan y Ddeddf mae'n rhaid inni :-	Cynnydd yn ystod 2016/17 :-
<p>1 Pennu a chyhoeddi amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2017</p>	<p>Roeddem wedi nodi, ar ôl ymgynghori, cynnwys, dadansoddi ac adolygu, set o 13 o amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2017. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfarfod Craffu ar y Cyd o bob un o'r 5 Pwyllgor Craffu ar 15 Chwefror i graffu ar yr amcanion.</p> <p>Ar ôl etholiadau mis Mai 2017, ychwanegwyd amcan llesiant arall (Yn hyrwyddo'r laith Gymraeg a Diwylliant) ac ailgadarnhawyd amcanion llesiant y Cyngor.</p>
<p>2 Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu manwl a thargedau eu pennu i gyflawni'r amcanion hyn a chânt eu monitro drwy gydol 2017/18</p>
<p>3 Cyhoeddi datganiad am amcanion llesiant</p>	<p>Rydym wedi cynnwys datganiad ynghylch amcanion llesiant yn y ddogfen amcanion llesiant a gyhoeddwyd gennym.</p>
<p>4 Cyhoeddi adroddiad blynyddol am gynnydd</p>	<p>Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol llawn am y cynnydd o ran ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 ar ôl diwedd y flwyddyn.</p>
<p>5 Cyhoeddi ein hymateb i unrhyw argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.</p>	<p>Byddwn yn cydymffurfio â hyn pan fo'n digwydd.</p>

Canlyniad A: Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau...

Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol a pharhaus o ran y gyllideb, ac mae sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn gweithio mor effeithlon â phosibl er mwyn amddiffyn a chynnal gwasanaethau rheng-flaen lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl inni barhau i wneud rhai o'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn y gorffennol, a byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid i ganfod ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion lle bo'n briodol.

Ein nod yw '**Darparu Technoleg Drawsnewidiol i Wella'r Gwasanaeth a Ddarperir gan y Cyngor**' ac rydym wedi sicrhau bod gwasanaeth trafodiadol ar-lein yn cael ei weithredu fel rhan o'r Gwasanaeth Gwastraff Gardd Gwyrdd a lansiwyd ym mis Mawrth 2017.



Gwnewch gais am gasgliadau GWASTRAFF GARDD

Gan fod mwy o'n gwasanaethau yn cael eu cyrchu ar-lein, rydym wedi lansio gwasanaeth casglu gwastraff gardd newydd ac mae modd gwneud cais amdano'n ddiraffferth ar-lein drwy fynd i

www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/biniau-aigylchu-a-sbwriel/gwastraff-gardd

Bydd y rhai sy'n cofrestru ar gyfer y cynllun yn cael whilfin 240 litr a fydd yn cael ei wagio bob pythefnos rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd.

Os byddwch yn talu'n llawn wrth gofrestru, byddwch yn derbyn gostyngiad o 15% ac yn talu £40.80, neu gallwch ddewis talu ychydig ar y tro drwy Ddebyd Uniongyrchol a thalu cyfanswm o £48.

Hefyd mae biniau compost ar gael i'w prynu am £12 yn unig, yn cynnwys pris dosbarthu, a gellir eu harchebu'n uniongyrchol ar-lein.



Nodau:

A1 - Gwella'r rheolaeth ar arian a chaffael

A2 - Gwella'r rheolaeth ar eiddo

A3 - Gwella gwasanaethau trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Ein Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella (KIOP) 2016/2017 yw:

Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt - gan roi ystyriaeth i'r toriadau yn y gyllideb gan y llywodraeth ganolog a'u heffaith.

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor	✘
Lleihau 'costau cynnal' y sefydliad	✓
Cynyddu gweithgarwch ar-lein i roi sylw i ymholiadau a thrafodion gan y cyhoedd	✓

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 2016/17:

Nod: A1 Gwella'r rheolaeth ar arian a chaffael

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Rydym wedi cyhoeddi ein Hamcanion Llesiant sy'n cynnwys y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ac rydym wedi nodi sut y byddwn fel corff cyhoeddus yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n flynyddol i gyflawni [Ein Hamcanion Llesiant](#). Mae ein trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau i gyflawni ein hamcanion wedi gweithio'n dda i ni yn y gorffennol:



'Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus o ddarparu cyllidebau blynyddol yn unol â'r camau cynlluniedig roedd wedi eu cymeradwyo. Mae'r trefniadau rheoli a Rheolaeth ariannol yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.'

(Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad Corfforaethol Ionawr 2016 Para. 37)

Rydym wedi bod yn gweithio i wella sut gallwn wneud cysylltiadau amlwg rhwng ein cynllunio ariannol, strategol a busnes. Mae adroddiadau cyllideb bellach yn gysylltiedig â pherfformiad data a threfnwyd bod Cynlluniau Busnes ar gyfer 2017/18 yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ynghyd â'r Ymgynghoriad ynghylch y Gyllideb. Roedd gwella'r cysylltiadau hyn yn Gynnig ar gyfer Gwella yn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru.

Fodd bynnag, yr *hinsawdd ariannol* heriol a'r cyfyngu ar wariant y Sector Cyhoeddus oedd un o'r prif bethau a bwysleisiwyd yn 2016-17 ac mae'r Cyngor am leihau'r effaith ar y gwasanaeth a ddarperir gan wneud arbedion ar yr un pryd.

Yn ystod 2016 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru Adolygiad o Gynllunio Arbedion. Roedd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol:

A yw trefniadau Cynllunio Arbedion Ariannol y Cyngor yn cefnogi gwytnwch ariannol?

Daeth yr Adolygiad i'r casgliad *'Er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn o ran cynllunio arbedion, a oedd yn cefnogi gwytnwch ariannol yn y dyfodol, roedd rhywfaint o ddiffyg tryloywder o hyd o ran riportio ariannol'* (Mawrth 2016)



Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Cafodd y gwaith o Gau ac Archwilio Cyfrifon yr Awdurdod ei gwblhau'n llwyddiannus erbyn y dyddiadau perthnasol, a chafodd y Cyfrifon eu cau o fewn y gyllideb.
- ✓ Rydym wedi gwella riportio ariannol ymhellach drwy ddarparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn. Mae manylion yr holl gronfeydd wrth gefn wedi'u nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2017.



- ✓ Rydym wedi cyflwyno cyfleusterau talu hunanwasanaeth newydd yn Yr Hwb yng nghanol tref Llanelli, sy'n lleoliad gwasanaethau cwsmeriaid allweddol. Mae hyn wedi rhoi modd i gwsmeriaid wneud unrhyw daliad sy'n ddyledus yn y prif fan cyswllt heb fod angen galw wrth y ddesg arian yn Llanelli.

Roedd Gwiriad Ffitrwydd i Gaffael (2013) wedi amlygu ac argymhell ymagwedd rheoli categori, gan ddefnyddio arbenigedd caffael o fewn adrannau. I wneud hyn mae angen cynyddu capasiti'r Uned Caffael Corfforaethol ac offerynnau dadansoddi gwariant priodol, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2017/18.



- ! Mae'r Gyfradd Gasglu ar gyfer Trethi Annomestig fymryn yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ond roedd hyn yn ddisgwyliedig gan fod Llywodraeth Cymru wedi tynnu Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru yn ôl a oedd wedi arwain at gyfradd uchel i nifer helaeth o fusnesau bach:

% yr Ardrethi Annomestig a gasglwyd ar gyfer 2016/17

Targed ar gyfer 2016/17 - 98	% wirioneddol a gasglwyd
97.50%	98.20% (0.20% yn llai na ffigur 2015/16)
Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2016/17 sef 97.76%, ond rydym wedi symud o'r 3 ^{ydd} safle yng Nghymru i'r 9 ^{fed} safle o ran y gyfradd gasglu.	

- ✓ Cyfrifwyd y Gyfradd Gasglu ar gyfer y Dreth Gyngor yn unol â chanllawiau diwygiedig a roddwyd i'w holl gwsmeriaid gan y cyflenwr meddalwedd Northgate (sy'n darparu meddalwedd Refeniw a Budd-daliadau i 50% o holl Awdurdodau'r DU). Mae'r canlyniadau'n dangos y cyrhaeddwyd targed 2016/17.

% y Dreth Gyngor a gasglwyd ar gyfer 2016/17

Targed ar gyfer 2016/17	% wirioneddol a gasglwyd
97.00%	97.05% (Wedi gwella 0.42% o gymharu â ffigur 2015/16 er bod y cyfrifiad wedi'i ddiwygio)
Er i ni gyrraedd ein targed, mae'r canlyniad hwn yn is na chyfartaledd Cymru o 97.36% ac rydym yn safle 17 o blith y 22 o awdurdodau.	

- ✓ Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath. Mae Offeryn Mesur Buddion Cymunedol Safon Tai Sir Gaerfyrddin, sy'n nodi'r Buddion Cymunedol a gyflawnwyd drwy'r rhaglen, wedi cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Ar gyfer y 3 contractwr y dyfarnwyd gwaith iddynt am y cyfnod hwn, cyfrifwyd Lluosydd Lleol Cymreig cyfunedig o £1.80 am bob £1 a werir ar y gwariant o £2 filiwn drwy'r rhaglen waith hon.



Buddion cymunedol - Sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y bunt Gymreig

- ✓ Mae'r rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) wedi helpu i gefnogi mwy na 33 o brosiectau ac wedi helpu i glustnodi bron £11.5m o arbedion ers lansio rhaglen TIC yn ôl yn 2012.
- ✓ Mae'r gwaith o gyflwyno anfonebau electronig mewn swmp ar gyfer cyflenwr Bwydydd Castell Howell o ran prydau ysgol wedi'i gwblhau'n llawn, a derbynnir ffeil electronig bellach i dalu ei anfonebau.
- ! Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn cyflwyno anfonebau mewn swmp gan ddarparwyr ynni tebyg i'r cyflenwr bwydydd Castell Howell, ac mae hyn o achos newid yn y cyflenwyr ynni.
- ✓ Trwy sicrhau bod y costau a'r buddion a enillwyd drwy weithgareddau troseddol yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor ar ffurf Deddf Enillion Troseddol ac archwiliadau ariannol.

Rydym bob amser wedi gwneud ein gorau i roi gwerth yr arian wrth ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor, a thros y blynyddoedd diwethaf mae toriadau cyllidebol pellach gan y llywodraeth wedi peri inni nodi hwn yn un o Brif Flaenoriaethau Amcanion Gwella y Cyngor.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt - gan roi ystyriaeth i'r toriadau yn y gyllideb gan y llywodraeth ganolog a'u heffaith.

Cyflawnwyd £12.9 miliwn o arbedion yn 2016/17, ochr yn ochr â chyfeirio mwy o adnoddau at wasanaethau rheng-flaen, er gwaethaf y pwysau ar gyllidebau'r Cyngor yn gyffredinol

Yn ei Hadroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 (Mehefin 2017) daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:-
'Bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud â riportio ariannol a'r defnydd o adnoddau, er bod lle i wella o hyd mewn rhai meysydd



Enghreifftiau o Arbedion Effeithlonrwydd 2016/17

Incwm a Chodi Tâl : £850K o arbedion

- Cynnydd o ran casglu dyledion o ganlyniad i'r adnoddau ychwanegol i dîm y gyfraith a'r tîm dyledwyr drwy 'gynnig Buddsoddi i Arbed'.

Caffael : £532k o arbedion

- Nwyddau traul TG / llungopiwyr mewn ysgolion - £50k
- Arbedion gwasanaeth cyflenwi mewn ysgolion trwy asiantaeth New Directions y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol - £52k
- Arbedion effeithlonrwydd llety lechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu

Aros galwad : Arbedion o £98k

- Newidiadau i'r trefniadau aros galwad yn Adran yr Amgylchedd £86k a'r Cyfrif Refeniw Tai (£12k)

Trefniadau Cefn Swyddfa ym Mharc Dewi Sant : Arbedion o £40k

- Gostyngiadau yn nifer y staff sy'n gysylltiedig â diswyddo yn dilyn adolygu'r broses

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2015/16	2016/17	Cynnydd
Arbedion Effeithlonrwydd			
Arbedion Effeithlonrwydd Blynyddol	£12.6M	£12.9M	Wedi gwella
Rhesymoli adeiladau er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i'w gwerthu er mwyn creu derbyniadau cyfalaf - i'w hailfuddsoddi mewn adeiladau newydd neu rai sydd eisoes yn bodoli (2.1.2.12)	£1,268,589 Derbyniadau Cyfalaf	£2,358,776	Wedi gwella
Mwyafu ein hincwm ein hunain			
% y Dreth Gyngor a gasglwyd(CFH/007)	96.63%	96.66%	Wedi gwella
Er gwella ychydig, mae'r canlyniad hwn yn is na chyfartaledd Cymru o 97.36% ac rydym yn safle 17 o blith y 22 o awdurdodau.			
Lleiafu'r Cynnydd yn y Dreth Gyngor			
Y Dreth Gyngor Band D (Elfen y Cyngor yn unig, heb gynnwys praeseptau)	£1,117.67 (tâl am 16/17) cynnydd o 3.85%	£1,145.61 (tâl am 17/18) cynnydd o 2.5%	Mae % ein cynnydd yn is o dipyn na chyfartaledd Cymru 3.04%, ac yn is na'r tâl cyfartalog o £1,161.65
Cynnal Perfformiad Gwasanaethau'r Rheng-Flaen			
Perfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir gan holl Gyngorau Cymru	57.5%	65%#	65% wedi gwella 31% wedi dirywio 4% wedi aros yr un peth

#Mae hyn ychydig yn wahanol i'r ffigurau a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar 13 Medi 2017 gan nad oeddent yn cynnwys y canlyniadau Gofal Cymdeithasol a gaiff eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017, ond mae gennym ein ffigurau ni a gallwn fesur gwelliant o flwyddyn i flwyddyn.

Arbedion Effeithlonrwydd a Gyflawnwyd	
2011/12	£10.8M
2012/13	£9.1M
2013/14	£6.7M
2014/15	£11.9M
2015/16	£12.6M
2016/17	£12.9M

Pam mae'r mesurau hyn yn bwysig

Mae'n bwysig monitro effaith yr arbedion sy'n cael eu gwneud ar berfformiad cyffredinol, yn enwedig ar yr adeg hon, pryd y mae holl awdurdodau Cymru o dan bwysau ariannol o ganlyniad i'r dirwasgiad. Rydym wedi casglu refeniw trwy waredu adeiladau a chasglu'r Dreth Gyngor, ac mae'n bwysig ein bod yn monitro'r mesurau hyn yn chwarterol, i weld a ydym yn cyrraedd y targed, ac os nad ydym, i weld a allwn ni ddarganfod pam.


Yn y Llythyr Archwiliad Blynyddol dyddiedig 19 Rhagfyr 2016, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru 'bod y Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, ac er gwaethaf y pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009'.

Ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn

Mae awdurdodau lleol wedi wynebu'r un sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, sef toriadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau nawr nag yn y gorffennol. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau o £53 miliwn yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau.

Mae gwasgfydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfydd, ac adeiladau ysgol a phrifysgol y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Sut rydym yn cymharu ag eraill



(Ffynhonnell: StatsWales.llyw.cymru)

Mae'r graff uchod yn dangos bod y tâl cyfartalog rydym yn ei godi am y Dreth Gyngor Band D sef £1,145.61 ar gyfer 2017/18 ychydig islaw cyfartaledd Cymru o £1,161.65, ac mae hwn yn gynydd o 2.5% yn Sir Gaerfyrddin (y cynnydd cydradd 3^{dd} lleiaf) o gymharu â chynnydd cyfartalog o 3.04%.

Yr hyn sydd wedi bod yn digwydd hyd yn hyn

Ymgynghori ar y Gyllideb 2017-20:

Mewn ymateb i'r heriau ariannol, gwneir llawer o arbedion drwy effeithlonrwydd mewnol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai cynigion arbedion o bosibl yn cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir. Mewn ymateb i hynny, rydym wedi clustnodi arbedion posibl a chynhaliwyd ymarfer ymgynghori i ennyn sylwadau ar lefelau cytundeb, effeithiau posibl, a ffyrdd y gellid lliniaru'r effeithiau cymaint â phosibl.

Defnyddiwyd nifer o ddulliau gwahanol i gasglu sylwadau ar gyllideb 2017-20 yn ystod y cyfnod rhwng 21 Tachwedd 2016 a 8 Ionawr 2017. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i 15 o gynigion (gyda chyfanswm gwerth o £12.9 miliwn) wrth lunio'i gyllideb ar gyfer 2017-20.

Cynhaliwyd cyfres o seminarau adrannol ar gyfer pob un o'r Cynghorwyr Sir. Cafodd cynigion eu hystyried yn fanwl a cheisiwyd adborth. Yn ogystal ag ymgysylltu â Chynghorwyr, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus drwy:

- Arolygon – Electronig drwy borth Ymgynghoriad Ar-lein y Cyngor (Lleol-i)/Dosbarthwyd copïau sampl o'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb i aelwydydd ar draws Sir Gaerfyrddin gan ddefnyddio hap sampl â strwythur/Hyrwyddwyd copïau papur drwy ganolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, llyfrgelloedd ac ardaloedd lle mae nifer uchel o ymwelwyr.
- Digwyddiadau i Randdeiliaid - Gallai sefydliadau, cynrychiolwyr a thrigolion gynnig sylwadau a gofyn cwestiynau.
- Sesiwn Golwg Sir Gâr a oedd yn cynnwys Myfyrwyr Blwyddyn 12 ac 13 o Ysgol Dyffryn Aman, Ysgol Gyfun Emlyn, Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Maes y Gwendraeth ac Ysgol Gyfun y Strade.
- Ymatebion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Tref Caerfyrddin, Cyngor Tref Sanclêr, ac un o drigolion Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy'r grwpiau cydraddoldeb perthnasol, gan gynnwys Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin a chydaddoldeb a Chynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu.

O'r 15 o gynigion:

- cefnogwyd 11
- ni chefnogwyd 3
- 1 heb gonsensws clir

Wrth wneud arbedion, rydym yn awyddus i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar wasanaethau.

Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC):

Cafodd y rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' ei sefydlu mewn ymateb i'r heriau ariannol mwyaf llym, a hynny yn wyneb cefndir o ddisgwyliadau uwch gan y cyhoedd, cynnydd mewn gofynion o ran y gwasanaeth a 'gwella'r hyn rydym ni'n ei gyflawni am lai'. Nod y rhaglen yw cefnogi darparu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor drwy '*Wella'r modd y mae'n defnyddio ac yn rheoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol*'. Ffocws y rhaglen yw cynnal newid o ran ymddygiad a diwylliant trwy feddwl yn wahanol, gweithredu'n wahanol ac felly gyflawni'n wahanol (h.y. nid oherwydd 'ein bod ni wedi'i wneud fel hyn erioed'). Canlyniad naturiol a bwriadedig glynu wrth yr egwyddorion hyn yw gwaredu gwastraff a gwneud mwy am lai.

Un o'n prif amcanion ar gyfer 2016/17 oedd:

'Cynnal rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod TIC yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr/tymor canolig.'



Bu'r tîm TIC yn helpu i gefnogi 17 prosiect ac adolygiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd rhai ohonynt yn brosiectau newydd a rhai eraill yn brosiectau oedd ar waith o flynyddoedd blaenorol. Mae rhaglen TIC wedi helpu i glustnodi neu yn y broses o wneud mwy nag £11 miliwn o arbedion.

Prosiectau cyfredol

Prosiect	£
Gweithio Ystwyth	£2.5m
Caffael	£2.5m
Rheoli Fflyd y Cyngor	£1.4m
Incwm a Chodi Tâl	£850k
Aros galwad	£400k
AAA/Plant sy'n Derbyn Gofal	£280k
Caffael Ilyfregelloedd	£90k
Cyfanswm Prosiectau Cyfredol	£8M

Prosiectau a gwblhawyd

Prosiect	£
Prosiect 3ydd Sector	£1.0m
Argraffu'r Post	£655k
CCHSG	£666k
Tai Gwag	£444k
Llungopio	£300k
Dewisiadau Tai	£145k
Cynllunio	£90k
Cynnal a Chadw Eiddo	£23k
Swyddogaethau cefn swyddfa ym Mharc Dewi Sant	£40k
Tanysgrifiadau	£12k
Cyfanswm Prosiectau Cyfredol	£11.5M

Un o'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd cyflawni rhaglen TIC oedd yr angen i ddatblygu ymagwedd fwy cynaliadwy at yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn barod i fuddsoddi mewn mentrau neu wasanaethau os gellir dangos yn glir y bydd hynny'n rhoi bod i fanteision ariannol ychwanegol yn y tymor canolig i'r tymor hir.



Er enghraifft mae cynnig '*Buddsoddi i Arbed*' a ysgogwyd gan yr Adolygiad Incwm a Chodi Tâl wedi arwain at fuddsoddi £250k mewn adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau dyledwyr a gwasanaethau cyfreithiol, gyda golwg ar wella lefel a chyflymdra adennill dyledion. O ganlyniad uniongyrchol i'r adnodd staffio ychwanegol, roedd yr awdurdod yn gallu adennill dyled o £850k a chael sicrwydd ynghylch dros £1m o ddyled ychwanegol yn 2016-17.

Mae nifer o brosiectau TIC hefyd yn dangos bod modd gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ar yr un pryd â gwneud y gwasanaethau hynny'n fwy effeithlon. Yn ei dro, mae hyn yn caniatáu i'r gwasanaethau gynnal neu hyd yn oed wella safonau'r gwasanaethau a ddarperir, ond parhau i ryddhau arbedion ariannol neu reoli effaith y galwadau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y gwasanaethau hynny.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 7 o'n 8 ymrwymiad KIOP

Ymrwymiadau'r Llynedd	x✓	Sylw ar Gynnydd
Ein nod yw cynyddu % y Dreth Gyngor a gesglir o 96.63% i 97% (CFH/007)	✓	Cyflawnwyd Cyfradd Gasglu'r Dreth Gyngor o 97.05% yn ystod y flwyddyn, sydd wedi gwella 0.42% o gymharu â ffigur 2015/16 er bod y cyfrifiad wedi'i ddiwygio. Rydym yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 97.36% ac yn safle 17 o blith y 22 o awdurdodau
Byddwn yn parhau i resymoli adeiladau er mwyn lleihau costau a rhyddhau asedau i'w gwerthu er mwyn ariannu gwelliannau cyfalaf trwy gyflawni perfformiad o 100% yn erbyn y targed, er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf heblaw tai o £2,620,000 (2.1.2.12)	x	Rydym wedi cynhyrchu £2,358,776 o dderbyniadau cyfalaf heblaw tai yn ystod 2016/17, sy'n cyfateb i 90.03%. Mae'r diffyg o achos trafodiad eithaf sylweddol o ran hen Ganolfan Ddydd Myrddin yng Nghaerfyrddin, lle mae'r posibilrwydd o ddatblygiad strategol mwy o faint yn cael ei ystyried bellach.
Byddwn yn gwella riportio ariannol drwy ddatblygu cysylltiadau cliriach rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaeth gan gynnwys datblygu adroddiadau ariannol a pherfformiad ar y cyd i'r Aelodau. (11987)	✓	Rydym wedi cyflwyno Adroddiadau Monitro'r Gyllideb i'r un cyfarfodydd â'r adroddiadau perfformiad. Bellach mae adroddiadau monitro'r gyllideb wedi eu cysylltu â'r dangosfwrdd perfformiad a chafodd y Cynlluniau Busnes eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yr un pryd ag y buont yn ystyried yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.
Byddwn yn gwella riportio ariannol drwy fonitro a riportio ynghylch targedau arbed unigol er mwyn sicrhau bod meysydd o orgyflawni a thangyflawni yn cael eu nodi'n glir, gan alluogi herio effeithiol, camau adferol, a rhannu arfer da. (11974)	✓	Mae'r cynigion arbedion yn cael eu monitro bob deufis yn unol â chylch monitro'r gyllideb. Adroddir canlyniadau monitro i'r Tim Rheoli Corfforaethol ac i ddeiliaid y Portfolio Gweithredol.
Byddwn yn gwella riportio ariannol drwy ddarparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn. (11975)	✓	Paratowyd Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn ddrafft wedi ei seilio ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac adroddir yn ei chylch yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn y dyfodol. Mae manylion yr holl gronfeydd wrth gefn wedi'u nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2017.
Byddwn yn gwella riportio ariannol drwy Gydgyssylltu ag Aelodau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ariannol yn briodol i'w hanghenion. (11976) (Cynigion ar gyfer Cam Gwella)	✓	Mae fformat newydd ar gyfer monitro'r gyllideb wedi cael ei dreialu a bellach mae wedi cael ei roi ar waith ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.
Byddwn yn parhau i weithredu rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod y rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC) yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr/tymor canolig. (11977)	✓	Mae'r tim wedi cefnogi ystod o brosiectau Corfforaethol a phrosiectau wedi'u seilio ar Wasanaeth yn ystod y flwyddyn ac wedi cyflawni rhaglen waith fel y nodir yng nghynllun busnes rhaglen TIC ar gyfer 2016/17. Mae'r tim hefyd wedi cyflawni ei amcan o gyflawni rhaglen waith fwy cytbwys gan roi mwy o bwyslais ar gefnogi rhagor o brosiectau i wella gwasanaethau.
Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn (11978)	✓	Nifer o werthusiadau o'r tendrau a gyflwynwyd ac mae mwy o bwyslais wedi cael ei roi ar fonitro'r targedau Buddion Cymunedol sy'n cael eu rhoi ar waith ac yr adroddir yn eu cylch. Mae Offeryn Mesur Buddion Cymunedol Safon Tai Sir Gaerfyrddin, sy'n nodi'r Buddion Cymunedol a gyflawnwyd drwy'r rhaglen, wedi cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Ar gyfer y 3 chontractwr y dyfarnwyd gwaith iddynt am y cyfnod hwn, cyfrifwyd Lluosydd Lleol Cymreig cyfunedig o £1.80 am bob £1 a werir ar y gwariant o £2 filiwn drwy'r rhaglen waith hon.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Gofynnwyd i'r tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) gefnogi adolygiad meddwl ar ffurf systemau o Wasanaethau Cynhwysiant Cymunedol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, sy'n ystod amrywiol o wasanaethau dydd yn yr Adran Cymunedau. Cynhaliodd tîm o 25 o staff y "Gwiriad" dros gyfnod o 6 diwrnod, gan ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, rhieni a gofalwyr, eiriolwyr, staff a chydweithwyr eraill.

6 DIWRNOD

40 O BOBL

300 + O HOLIADURON

**'UN
TÎM'**



Yn ôl yr adborth, er bod defnyddwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr ar y cyfan yn gwerthfawrogi ac yn hoffi'r gwasanaethau, roeddent yn dameidiog ac roeddent yn dueddol o gael eu rhoi ar waith yma ac acw, heb fod gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaethau yn eu cyfanrwydd. Lluniodd y tîm Addewid newydd a'n Diben ni sef: *'Cefnogi oedolion i dyfu, datblygu a themlo'n ddiogel ac yn rhan o'u Cymuned!'* Yn eu hegwyddorion gweithredu roedd y tîm wedi ymrwmo i fod yn un oedd yn:

- ✓ canolbwyntio ar y person
- ✓ un gwasanaeth/un tîm
- ✓ cadarnhaol
- ✓ cyson
- ✓ canolbwyntio ar ganlyniadau a phobl
- ✓ onest a llawn ymddiriedaeth
- ✓ agored i newid

Cytunodd y tîm mai ei hanfod oedd hyrwyddo a meithrin perthnasoedd y tu mewn a'r tu allan i'r gwasanaeth, ymgysylltu ag eraill i ragweld y galw yn y dyfodol a datblygu eu gwasanaethau yn ogystal â deall yr hyn sy'n bwysig a chytuno ar ffordd ymlaen. Cytunodd y tîm hefyd y byddai'n dal ati i wirio ei fod ar y trywydd iawn ac yn gwneud rhywbeth ynghylch hynny os nad felly oedd hi, yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn oedd ganddo, ac yn rhoi cynnig ar bethau newydd gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio.

Nododd y tîm rai atebion cyflym i'w gweithredu ar unwaith i greu un pwynt mynediad, safon ofynnol ar gyfer gwaith papur atgyfeirio, proffiliau 1 dudalen, adolygu'r holl ffurflenni, ac amserlennu/gweithgareddau.

Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu grŵp prosiect i oruchwylio 4 ffrwd waith i sbarduno gwelliannau o ran datblygu gwasanaethau, cyfathrebu, y gweithlu a rheoli perfformiad.

i Ffynonellau eraill o wybodaeth Crynhoad o'r Gyllideb [crynhoad o'r gyllideb](#) Datganiad o Gyfrifon [datganiad o gyfrifon](#)

Nod: A2 Gwella'r rheolaeth ar eiddo

Mae tair elfen sy'n ymwneud â'r Nod hwn:-

1. **Mae perchenogaeth a rheolaeth gymunedol ar adeiladau ac asedau tir** yn rhoi grym i gymunedau lleol, yn rhoi'r awenau i sefydliadau lleol, yn hybu balchder bro, yn gwella'r amgylchedd lleol ac yn cynyddu'r dyheadau sydd gan bobl leol, gan hwyluso perchenogaeth gan y gymuned ar asedau er budd y gymuned.
2. Gwneud y defnydd gorau o eiddo ac asedau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar resymoli swyddfeydd a rhannu â phartneriaid eraill.
3. **Rheoli** portffolios eiddo y Cyngor a chymryd safbwynt masnachol strategol i sicrhau bod y portffolio yn cael ei reoli'n unol â datblygiad economaidd y Cyngor ac i ddiwallu unrhyw anghenion eraill.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Sicrhau deiliadaeth o 100% o ran daliadau Ystadau Gwledig y Cyngor, gyda throshiant cyson o denantiaid ac incwm rhent cynyddol, ynghyd â galw am dir noeth yn benodol. Bydd cyfle i adolygu cytundebau sy'n dirwyn i ben yn ystod y flwyddyn; bydd nifer yn cael eu hailosod a bydd eiddo sydd dros ben yn cael ei werthu fel rhan o Raglen Waredu'r Cyngor er mwyn creu derbyniadau cyfalaf.
- ✓ Roedd gwaredu swyddfeydd wedi parhau ac roedd Rhodfa'r Goron, Pibwr-lwyd a Thŷ'r Nant wedi cael eu gwacáu. Roedd ardal gweithio ystwyth wedi agor yn Nhŷ Elwyn, Llanelli, ac mae camau wedi'u cymryd o ran yr agwedd honno ar draws yr Awdurdod ar y cyd â'r gwaith a wneir mewn partneriaeth â Vodafone.
- ✓ Wedi cwblhau arolygon o adeiladau ac wedi diweddarau cynlluniau llawr ar gyfer yr holl ysgolion.
- ✓ Mae lefel ddeiliadaeth eiddo diwydiannol y Cyngor yn hynod uchel (hyd at tua 98%), ac mae'r portffolio fel arfer yn cynnwys oddeutu 2,000 o swyddi. Mae nifer o unedau mwy o faint, sy'n anos eu gosod, wedi cael eu gosod eleni. Mae'r broses ymgeisio syml, sy'n defnyddio cytundebau prydles 'mewn yn hawdd, allan yn hawdd', yn sicrhau bod cyn lleied o gyfnodau gwag â phosibl ac yn caniatáu hyblygrwydd i fusnesau.
- ✓ Hefyd mae'r Cyngor yn mynd ar drywydd polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol. I gefnogi'r broses hon mae'r Cyngor wedi sefydlu Tîm Trosglwyddo Asedau sydd â chynrychiolwyr o wahanol feysydd gwasanaeth ac sy'n canolbwyntio ar gefnogi cynghorau cymuned / tref a grwpiau cymunedol fel grwpiau chwaraeon drwy'r broses trosglwyddo asedau.
- ✗ Mae swm y derbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd yn ystod 2016-17 ychydig dros £2.3m o gymharu â tharged o £2.6m yn ein rhaglen gyfalaf (90%). Roedd y targed hwn yn cynnwys trafodiad eithaf sylweddol sy'n ymwneud â hen Ganolfan Ddydd Myrddin yng Nghaerfyrddin, lle mae'r posibilrwydd o ddatblygiad strategol mwy o faint yn cael ei ystyried bellach. Mae hyn wedi arwain at y diffyg yn y derbyniadau cyfalaf ond mae hyder y bydd targed 2017/18 yn cael ei gyrraedd ac yn cwmpasu diffyg 2016/17. Mae rhyw £7.5m o warediadau wedi cael eu nodi am y 3 blynedd nesaf. (2.1.2.12)
- ✓ Mae marchnadoedd y Cyngor wedi parhau i chwarae rôl allweddol yn "Economi Canol y Dref" Sir Gaerfyrddin. Mae'r lefelau deiliadaeth wedi parhau'n uchel yn ein Marchnadoedd Dan Do yn Llanelli a Chaerfyrddin ac mae ein Marchnadoedd Achlysurol naill ai wedi dal eu tir neu wella. Mae Marchnad Llanelli wedi gwella'n sylweddol ei Gwasanaethau Mecanyddol a Thrydanol i sicrhau bod yr adeilad yn cyrraedd y safonau cyfredol. Mae Polisi Gosodiadau newydd wedi'i gyflwyno sydd bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar ddewisiadau cwsmeriaid drwy

ymgysylltu â siopwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae Marchnad Llanelli wedi ennill Statws Cefnogi Pobl â Dementia, sef y farchnad gyntaf yn y DU i gael statws o'r fath.

- ✓ Rydym wedi helpu i gynyddu stoc dai y Cyngor drwy brynu 29 o dai sy'n eiddo preifat ar gost o ychydig o dan £2.7m.
- ✓ Mae dau safle busnes a chyflogaeth strategol newydd sy'n cynnig llawer o botensial wedi cael eu datgelu yn Sir Gaerfyrddin. Cam un o safle cyflogaeth strategol Dwyrain Cross Hands yw 22 erw o le datblygu o'r radd flaenaf dros naw llain sydd â photensial ar gyfer cyflogaeth sylweddol. Mae'r safle datblygu'n cael ei farchnata i'r sector preifat, ac yn benodol i'r rheiny ym maes gweithgynhyrchu uwch, ariannol/proffesiynol, technoleg amaethyddol greadigol a gwasanaethau amgylcheddol, ac mae cyfleoedd i adeiladu safleoedd masnachol o safon uchel ar bwys rhwydwaith ffordd yr A48/M4. Cafodd y safle cyflogaeth strategol, sy'n werth £14.5 miliwn, ei gyllido gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r Cyngor yn cyfrannu £1 filiwn arall i annog datblygiad ar safle Dwyrain Cross Hands ar ffurf grantiau datblygu eiddo.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae'r Cyngor wedi prynu saith eiddo yng Nghanol Tref Llanelli fel rhan o'r prosiect 'Stryd Cyfleoedd'.

Mae mwy na hanner yr adeiladau sydd ar brif strydoedd siopa canol y dref, gan gynnwys Stryd Stepney a Stryd Vaughan, yn eiddo i landlordiaid preifat sy'n gosod yr adeiladau ac yn pennu eu rhenti eu hunain.

Golyga hyn fod gan y Cyngor fwy o reolaeth dros yr adeiladau hyn bellach, a'r nod yw sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio unwaith eto gan gynnig amrywiaeth o unedau gwerthu a phreswyl.

Hefyd mae'n golygu bod y Cyngor yn gallu pennu rhent sy'n fforddiadwy.


Cafodd y Cyngor arian drwy **gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid** Llywodraeth Cymru i roi hwb i gronfeydd y Cyngor ei hun, gyda'r nod o brynu'r adeiladau a'u hadnewyddu gan ddefnyddio contractwyr lleol.



Nod: A3 Gwella gwasanaethau trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae TGCh yn rhan sylweddol o'n bywydau'r dyddiau hyn ac mae'n cael effaith fwyfwy ar wasanaethau cyhoeddus hefyd.

Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#) mae gan 83% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin fynediad i'r rhyngwrwd, ac mae hyn wedi cynyddu o 76% yn 2014/15, pryd y cynhaliwyd yr arolwg diwethaf. (Yn seiliedig ar faint sampl Cymru gyfan 10,450) Mae'r Cyngor yn benderfynol o groesawu'r chwyldro digidol a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fanteisio'n llawn ar y newidiadau mawr yn sgil technoleg newydd. Mae ein Strategaeth Trawsnewid Digidol ar gyfer 2017-20 yn pennu sut y bydd Cyngor, drwy ei ymagwedd uchelgeisiol, yn ceisio trawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i drigolion Sir Gaerfyrddin. Mae heriau anodd o'n blaenau o hyd a hynny yn ystod cyfnod o gyngor parhaus ac mae'n hanfodol inni wneud y defnydd gorau o'r datblygiadau arloesol digidol diweddaraf un i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ariannol gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod gan dechnoleg ddigidol y potensial i drawsnewid y Sir a bywydau ei thrigolion.

**Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**

- ✓ Ar hyn o bryd, mae gennym sefyllfa lle mae pob disgybl yn Sir Gaerfyrddin yn meddu ar fewngofnod HWB ac yn gallu dechrau elwa ar y manteision lawer sydd ynghlwm wrth hynny. Ystyrir bod y nifer sy'n manteisio ar hyn mewn ysgolion yn dda, ac mae Sir Gaerfyrddin o fewn y 5 awdurdod uchaf yng Nghymru o ran defnydd.

Hwb - Tuag at ddyfodol digidol

Mae plattform dysgu digidol newydd deinamig wedi cael ei lansio, a fydd yn gyfrwng i athrawon ac addysgwyr rannu a chael mynediad i ystod o adnoddau ac offerynnau digidol a fydd yn cefnogi dysgu'r holl blant rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru.

Hefyd bydd Hwb, sef amgylchedd dysgu rhithwir dwyieithog Cymru, yn rhoi cyfle i ddysgwyr ac athrawon greu a rhannu eu hadnoddau a'u gwaith eu hunain ar y cyd.

- ✓ Mae technoleg y Cyngor wedi'i rhesymoli a'i symleiddio ac rydym wedi bod yn buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf i sicrhau seilwaith technegol cynaliadwy tymor hir ac atebion meddalwedd, ynghyd â darpariaeth wi-fi well ar gyfer staff a dinasyddion.
- ✓ Mae cynnydd o 49% wedi bod yn nifer yr ymweliadau â'n gwefan

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

- Mae ein gwasanaethau TGCh wedi derbyn adborth cadarnhaol ar lefel reoli ynghylch gofal cwsmer a chymorth a ddarperir ar draws pob gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol o ran cael hyfforddiant a chadw llygad ar sgiliau a thechnoleg newydd ac mae hyn yn golygu bod gan y Cyngor staff technegol medrus.
- Mae sawl maes gwasanaeth gan gynnwys Adnoddau Dynol, Rheoliadau Adeiladu ac Iechyd a Diogelwch wedi cael eu hadolygu ar gyfer y rhaglen gweithio ystwyth ac mae TGCh wedi sicrhau bod y dyfeisiau priodol megis gliniaduron, iPads a meddalwedd angenrheidiol megis Skype for Business ar gael.
- Cafodd menter Digilab ei lansio yng Nghaerfyrddin, gyda'r nod o helpu busnesau lleol. Y Cyngor gynhaliodd y digwyddiad, a arddangosai adnoddau digidol newydd ar gyfer busnesau, yn unol â chanfyddiadau Adroddiad y Stryd Fawr Ddigidol 2020.
Bydd y Digilab yn cynnwys y canlynol:
 - Adnoddau datblygu digidol a datblygu busnes am ddim i fusnesau ac "Archwiliad Iechyd Digidol".
 - Arddangosiad a gweithgaredd ymarferol gydag offer a meddalwedd digidol newydd.
 - Cysylltiadau ag adnoddau cymorth i fusnesau a chyfleoedd rhwydweithio.
 Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan Gydgysylltydd Digidol Sir Gaerfyrddin a Band Eang Cyflym Iawn Cymru.



Rhoddwyd cyfle i ymwelwyr â Rhydaman bori'r we am ddim ar eu ffonau symudol.

Mae'r Wi-Fi mwyaf arloesol wedi'i osod yng nghanol tref Rhydaman gan Antur Teifi, trwy gydweithrediad â'r Cyngor.

Mae natur canol trefi yn newid wrth i dechnoleg ddigidol ac ymddygiad siopwyr ddylanwadu mwyfwy ar ein dulliau o siopa, o wneud busnes ac o dreulio ein hamser hamdden. Mae chwech allan o bob deg person (61 y cant) yn y Deyrnas Unedig bellach yn defnyddio dyfais symudol i fynd ar y we.

Gall trigolion lleol, busnesau lleol ac ymwelwyr ddefnyddio'r gwasanaeth wi-fi yn Rhydaman i ddarllen negeseuon e-bost ac i bori trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r we. Gall defnyddwyr wneud busnes, cael y newyddion diweddaraf a chadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Gellir defnyddio Lleoli-i (<http://lleoli.sirgar.llyw.cymru>) i ddod o hyd i wasanaethau a chyfleusterau lleol, neu Darganfod Sir Gâr (www.darganfodsirgar.com) i gael gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau hamdden ledled y sir.



Canlyniad B: Adeiladu Gwell Cyngor...

Mae'r Cyngor bob amser wedi gweithio tuag at adeiladu Sir Gaerfyrddin well ac mae ganddo brofiad llwyddiannus o gyflawni. Bydd cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adeiladu ar hyn. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau ein bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol ym mhopeth a wnawn ac mae wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.



Bu i ugain o Gynghorwyr Sir ymdeol adeg etholiad Mehefin 2017 a chawsant eu cydnabod am eu gwaith mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes yr wythnos cyn diwrnod yr etholiad. Rhyngddynt maent wedi crynhoi bron 300 mlynedd o wasanaeth dros eu cymunedau fel Cynghorwyr Sir. Roedd un yn Arweinydd, dau yn Ddirprwy Arweinydd, pump yn gyn-aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a phump yn Gadeiryddion y Cyngor.

Nodau:

- B1 - Bod yn agored, ymddiriedaeth, gonestrwydd, uniondeb
- B2 - Rhoi'r flaenoriaeth i gwsmeriaid
- B3 - Gwrando a chyflawni'n haddewidion
- B4 - Gweithio mewn Partneriaeth
- B5 - Gosod gwerth ar ein staff
- B6 - Sicrhau cyfle cyfartal
- B7 - Gwella ein gwasanaethau

Ein Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella (KIOP) 2016/2017 yw:

Byddwn yn adolygu'r trefniadau o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored ac yn dryloyw


Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd	✓
Gwell lefelau boddhad staff (Arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl Mawrth '17)	Gwaelodlin 85%
Gostyngiad yn lefelau absenoldeb salwch y staff	✗

Gwerthoedd Craidd

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau llywodraeth leol fwy effeithiol, moesegol, tryloyw ac atebol, sy'n ategu ac yn gwella cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth.

Wrth greu gwell Sir Gaerfyrddin mae'n bwysig bod ein camau gweithredu wedi'u seilio ar werthoedd ac egwyddorion allweddol sy'n tywys ein symbyliad a'n mentergarwch:-



Rhoi'r Flaenoriaeth i Gwsmeriaid - rydym yn sicrhau bod anghenion ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn

Gwranddo – rydym yn gwranddo er mwyn dysgu, deall a gwella nawr ac yn y dyfodol

Rhagoriaeth – rhagoriaeth yw ein nod parhaus, gan sicrhau'r safon uchaf posibl bob amser trwy fod yn greadigol, mabwysiadu ffyrdd arloesol o weithio, a chymryd risgiau ar ôl eu pwysu a'u mesur


Uniondeb – rydym yn gweithredu ag uniondeb ac yn gwneud y pethau iawn bob amser

Cymryd Cyfrifoldeb – rydym i gyd yn cymryd perchenogaeth ac atebolrwydd personol dros yr hyn a wnawn

B1 - Bod yn agored, ymddiriedaeth, gonestrwydd ac uniondeb

Uchelgais y Cyngor yw cael ei gydnabod fel y Cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru. Lles y cyhoedd yw byrdwn llywodraeth leol, a dylid bod yn agored ac yn atebol wrth gyflawni ei gweithgareddau.

Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#), mae **35%** o ddinasyddion Sir Gaerfyrddin yn dweud bod y *Cyngor yn dda am roi gwybod i bobl sut mae'n perfformio* – (roedd 38% yn anghytuno), y canlyniad gorau oedd 48%. Mae hyn wedi gostwng ers yr arolwg diwethaf yn 2014/15 pryd yr oedd 42% wedi cytuno, rydyn ni'n y **9fed** canlyniad uchaf yng Nghymru o'i gymharu â'r 7fed uchaf yn 2014/15.



Ar gyfer 2016/17:

- ✓ Yn **Adroddiad Gwella Blynyddol** Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 16/17 canfuwyd:

“Bod y Cyngor wedi dechrau sefydlu dull mwy rhagnodedig i hyfforddi cynghorwyr ac wedi cynllunio rhaglen sefydlu lawn i'w chynnal ar ôl etholiadau llywodraeth leol Mai 2017.”



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- ✓ Adolygodd Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad y Cyngor gynnwys gwefan y Cyngor o ran cwestiynau cyhoeddus, er mwyn gwella'r wybodaeth a roddir i'r cyhoedd. Teimlai Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ei fod yn glir, pan fo mater o ddiddordeb cyhoeddus wedi'i gynnwys ar agenda Pwyllgor Craffu, fod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o sut oedd cymryd rhan a chyflwyno cwestiynau i'w cynnwys ar yr agenda.
- ✓ Rydym wedi parhau i we-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- ✓ Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol am berfformiad y Cyngor ar gyfer 15/16 a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17 ym mis Gorffennaf 2016 a derbyniodd y ddwy ddogfen Dystysgrifau Cydymffurfiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ogystal, cafodd diweddariad am flwyddyn gyntaf y Strategaeth Gorfforaethol ei lunio fel Crynodeb i roi gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd.
- ✓ Rydym wedi ymateb i bron 95% o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Byddwn yn adolygu llywodraethu, gwneud penderfyniadau, bod yn agored ac yn dryloyw

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 7 o'n 9 ymrwymiad KIOP

Ymrwymiadau'r Llynedd	x✓	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn sicrhau bod gan yr holl Bwyllgorau Flaenraglen Waith sydd wedi'i diweddarau a'u bod yn cael adolygiadau'n rheolaidd. (12001) <i>Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella</i>	✓	Roedd Blaenraglen Waith gan bob Pwyllgor, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
Byddwn yn cyhoeddi Cofrestr o'r Penderfyniadau Dirprwyedig (12002) <i>Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella</i>	✓	Byddai penderfyniadau gweithredol sylweddol gan swyddogion yn cael eu cyhoeddi, er ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw rai, fel mater o drefn yn Sir Gaerfyrddin
Byddwn yn sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Aelodau perthnasol ar waith a fydd yn nodi anghenion dysgu i gynorthwyo â swyddogaeth Cynghorydd. (12003) <i>Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella</i>	✓	Mae Arweinwyr Grŵp/Dirprwyon wedi cael templedi i'w hannog i gynnal adolygiadau Datblygiad Personol blynyddol gyda'u haelodau, er mwyn trafod unrhyw anghenion dysgu unigol.
Byddwn yn adolygu maes gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn darparu'r hyn a ddisgwylir ganddo. (12004) <i>Swyddfa Archwilio Cymru - Cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella</i>	✓	Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i faes gorchwyl Archwilio o gymharu â'r Cyfansoddiad a chanllawiau CIPFA. Cytunwyd bod Archwilio wedi cyflawni'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ac y byddai'n parhau i ddatblygu ei faes gorchwyl
Byddwn yn cynnal arolwg sampl o Aelodau i weld a oes gwelliant wedi bod o ran y wybodaeth maent yn ei chael ynghylch gwaith neu ddatblygiadau a wneir yn eu wardiau. (Yn benodol, o ganlyniad i adborth Aelodau a gafwyd yn y gweithdai KIOP). (12005)	x	Er bod sylw Adrannau wedi cael ei dynnu at yr angen i wella'r wybodaeth a ddarperir i aelodau ynghylch datblygiadau yn eu maes, hyd yn hyn nid oes arolwg ar hap o aelodau wedi cael ei gynnal i gloriannu a oes gwelliant wedi bod. Fodd bynnag, bydd arolwg ar hap yn cael ei gynnal yn ystod 17/18.
Byddwn yn cynhyrchu <i>Canllaw Syml i'r Cyfansoddiad</i> ar gyfer aelodau a'r cyhoedd (12006)	x	Bydd y <i>Canllaw Syml</i> yn cael ei ddrafftio ar ôl cael gwybod a fydd y Cyngor Sir yn derbyn y gwelliannau yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Byddwn yn parhau i adolygu unrhyw gyfle i wella natur agored a thryloyw y Cyngor drwy gyfrwng Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a gweithredu unrhyw argymhellion y cytunwyd arnynt gan y grŵp a fydd yn parhau i gwrdd yn flynyddol (12007)	✓	Mae unrhyw gynigion ar gyfer gwelliannau i'r Cyfansoddiad a argymhellir gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 24 Mai 2017, yn ogystal â gwelliannau i'r Cyfansoddiad sy'n ofynnol gan ofynion statudol newydd.
Byddwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau newydd sy'n rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru yn y Cyfansoddiad drwy Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad (12008)	✓	Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio wedi newid a disgwylir deddfwriaeth newydd.
Byddwn yn adleisio unrhyw ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y Cyngor (12009)	✓	Y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yw'r Pwyllgor statudol ar gyfer craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

B2 - Rhoi'r flaenoriaeth i gwsmeriaid

Mae'r toriadau heriol yn y gyllideb a'r dechnoleg newydd sydd ar gael wedi ysgogi newidiadau i'r modd rydym yn ymdrin â chwsmeriaid, ac mae pwysau wedi bod arnom i arloesi, cydweithio, ac arbed arian. Mae'r cyflawniadau canlynol drwy gydol y flwyddyn oll wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth gwell am gost well.


Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:-
 - Cafodd tablau a oedd yn nodi perfformiad y Sir o gymharu â chynghorau eraill Cymru eu cynhyrchu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd.
 - Dechreuwyd ar yr hyfforddiant i'r Aelodau ynghylch gofynion y Ddeddf, a hynny drwy ganllaw 'ABC' syml.
 - Er mwyn nodi Amcanion Llesiant y Cyngor, cynhaliwyd gweithdy gyda'r aelodau i nodi 'pa bethau sydd bwysicaf iddynt mewn bywyd'. Arolygwyd y trigolion hefyd a phrofwyd set ddrafft o Amcanion Llesiant unwaith eto drwy arolwg arall i drigolion.
 - Er mwyn gwneud yn siŵr bod ein Hamcanion Llesiant drafft yn cael eu cefnogi'n llawn gan yr aelodau, cafodd cyfarfod Craffu ar y Cyd cyntaf y Cyngor ei gynnal i archwilio ein Hamcanion Llesiant drafft
 - Cyhoeddwyd ein 13 o Amcanion Llesiant erbyn y dyddiad statudol terfynol sef 31 Mawrth 2017. Ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai, ychwanegwyd un amcan arall (Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant), ac ailgadarnhawyd y set.
- ✓ Er mwyn annog cwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, rydym wedi cynnal gweithdai digidol i drafod â gwasanaethau sut y gallant fanteisio ar systemau megis 'Fy nghyfrif' i'w defnyddio gan eu cwsmeriaid.
- ✓ Mae hyrwyddo Cynllun Adfywio 15 mlynedd y Cyngor wedi parhau drwy gydol y flwyddyn drwy gyfrwng nifer o ddatganiadau i'r wasg, ac mae'r rhaglen wedi cael cyhoedduswydd eang ar y cyfryngau cymdeithasol, ei hysbysebu yn y wasg leol a'i chyhoeddi ar 'Newyddion' a'r wefan.
- ✓ Mae rhagor o ymwybyddiaeth wedi cael ei rhoi drwy gydol y flwyddyn i'r ymgyrch Ar-lein Amdani, er mwyn annog mwy o bobl i ryngweithio drwy'r wefan, gyda phostiadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio pobl at wasanaethau ar-lein, gan gynnwys esboniadau fideo/wedi eu hanimeiddio. Wrth ymateb i ymholiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, mae pobl wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau ar-lein. Ar ddiwedd unrhyw ddatganiadau newyddion perthnasol, cyfeirir at wasanaethau ar-lein â dolenni cyflym.



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



- ! Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y cwsmeriaid sy'n cysylltu dros y ffôn wedi lleihau'n raddol. Eleni fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn y cysylltiadau sy'n digwydd dros y ffôn oherwydd ad-drefnu'r llwybrau casglu deunydd Ailgylchu / Gwastraff tuag at ddiwedd 2016, a hefyd mae'r ganolfan gyswilt bellach yn ymdrin yn awr â galwadau derbyniadau ysgol. Amcangyfrifiad yn unig yw'r ystadegau wyneb yn wyneb. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gweithredu system TG newydd ar gyfer apwyntiadau a byddwn yn gallu cael ffigurau manwl gywir ynghylch niferoedd cwsmeriaid yn ddiweddarach.

B3 - Gwrando a chyflawni'n haddewidion

Mae ein gwaith ymgynghori ynghylch y gyllideb wedi cael ei glustnodi fel arfer gorau yng Nghymru ac rydym yn ei ddefnyddio fel sail. Anogir dinasyddion i gael dweud eu dweud ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol yn yr ymgynghoriad ar y gyllideb. Rhoddwyd nifer o gynigion ar gyfer newid gerbron i'w trafod. Roeddent yn cynnwys awgrymiadau ynghylch amrywiol feysydd gan gynnwys gwasanaethau gofal dydd, hamdden, glanhau strydoedd, anghenion addysgol arbennig, gwasanaeth cerdd, prydau ysgol a seicoleg addysg. Hefyd roeddem wedi cynnal ein hymgynghoriad Asesiad Llesiant, lle cafwyd dros 2,500 o ymatebion gan drigolion Sir Gaerfyrddin.

Mae dull ymgynghori ac ymgysylltu y Cyngor wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Lleol-i bellach yw'r lleoliad diodyn ar gyfer holl ymarferion ymgynghori y Cyngor. Drwy'r wefan ymgynghori, mae'r Cyngor yn gallu clywed beth sydd gan ddinasyddion i'w ddweud am unrhyw faterion sydd o ddiddordeb. Mae'r Cyngor wedi ymroi'n llwyr i broses benderfynu sy'n agored ac sy'n cynnal sgwrs. Rydym hefyd yn casglu barn ac adborth ynghylch gwasanaethau penodol drwy amrywiol grwpiau, gan gynnwys Panel Dinasyddion Sir Gâr, [y Cyngor Ieuenctid](#) a'r [Fforwm 50+](#).

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Rydym wedi cefnogi gweithrediad y dull ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer asesiad llesiant y tair sir, fel sy'n ofynnol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu ei ddatblygu, ei gytuno a'i weithredu yn rhanbarthol. Roedd y fframwaith yn amlinellu dull cyffredin o ymgysylltu â'r cyhoedd, a chafodd arolwg mawr ar y cyd ei lunio a'i roi ar waith gan bartneriaid ar draws y rhanbarth. Cafwyd ymateb gan fwy na 6,500 ar draws y tair sir.
- ! Mae rhywfaint o ddatblygu a gwaith drafftio wedi cael ei wneud o ran y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori. Fodd bynnag, penderfynwyd bod angen rhagor o fewnbwn gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y gwaith datblygu pellach sy'n ofynnol, i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r newid dull hwn yn golygu y bydd y gwaith yn cael ei gymryd ymlaen i 17/18.
- ✓ Mae cynyddu lefelau cofrestru pleidleiswyr yn nod parhaus ac rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol i hybu'r neges ynghylch pa mor bwysig yw "Dweud eich Dweud". Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar brosiect i weld pa ardaloedd sydd â lefelau isel o gofrestru/pleidleisio fel y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd hyn.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#) o ran y datganiad 'Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol', mae Sir Gaerfyrddin yn y 13^{fed} safle â chanlyniad o 19%, sy'n ddirywiad o'r canlyniad blaenorol o 21% a 9^{fed} safle.

Sut mae ein canlyniadau'n cymharu â 22 Cyngor arall Cymru:-

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17																					
"Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol"																					
Safle canlyniadau	Canlyniadau gwaethaf yng Nghymru											Canlyniadau gorau yng Nghymru									
	22	21	20	19	18	17	16	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2
2016/17										19%											28%

Ein canlyniad ar gyfer 2014/15:

Oedd
21%

B4 - Gweithio mewn partneriaeth**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu dull pendant o weithio mewn partneriaeth, sy'n gwella canlyniadau i'w ddinasyddion. Mae'r bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn arbennig o gryf; bellach mae cydweithredu yn rhan annatod o'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad ac mae nifer o swyddi ar y cyd ar waith.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae strwythur partneriaeth newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei sefydlu â chyfarfodydd grŵp amlasiantaeth newydd - 'Cymunedau Teg a Diogel', 'Cymunedau Ffyniannus a Chydnerth' a 'Theuluoedd a Chymunedau Iach' - i gymryd camau o ran gweithio mewn partneriaeth er mwyn ymdrin â meysydd allweddol. Mae gwefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fyw bellach - [Y Sir Gâr a Garem](#).
- ✓ Mae Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd y Cyngor yn cynnwys y blaenoriaethau allweddol canlynol:-
 - Cydweithio Digidol - a fydd yn ceisio dod o hyd i 'atebion digidol arloesol a fydd yn galluogi mwy o gydweithio ac yn helpu sefydliadau i weithio'n ddi-dor gyda'i gilydd'
 - Busnesau a Chymunedau Digidol – fydd yn 'galluogi trigolion a busnesau yn y Sir i ddefnyddio technoleg ddigidol i wella eu bywydau'
- ✓ Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi cefnogi datblygiad Aseiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2016, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Cyngor yn ogystal â chydweithwyr o Geredigion, Sir Benfro a Phartneriaid eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:-
 - Cynhyrwyd adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gyfer pob un o'r 3 chyngor lleol, ac yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhyrchodd pob cyngor ei Gynllun Aseiad Llesiant ei hun, a ddsbarthwyd wedyn er mwyn i'r cyhoedd ymgynghori yn ei gylch.
 - Mae Aseiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2016 bellach wedi'i gymeradwyo ac mae'n rhoi trosolwg o natur a chyflwr llesiant yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n rhoi sylw i ddylanwadau cadarnhaol a negyddol llesiant ac yn amlygu'r pwyntiau sbardun posibl neu'r meysydd sy'n peri pryder.

**Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?**

Cynhaliwyd cyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor Tref Caerfyrddin, y Lleng Brydeinig Frenhinol a chymunedau'r Lluedd Arfog i drafod sefydlu cangen newydd yng Nghaerfyrddin o'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Gall bod yn aelod roi llawer o foddhad wrth ichi ffurfio pwyllgor, derbyn hyfforddiant perthnasol, a chwarae rhan weithredol mewn gweithgareddau codi arian a digwyddiadau Coffáu. Dywedodd y Cynghorydd David Jenkins, sef Hyrwyddwr Lluedd Arfog y Cyngor: "Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn awyddus i ailsefydlu yma yng Nghaerfyrddin. Fel Hyrwyddwr Lluedd Arfog y Cyngor rwy'n awyddus i weithio gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol a byddaf yn gwneud popeth y gallaf i helpu." Mae gan y Lleng 175 o ganghennau a thros 10,000 o aelodau ledled Cymru.



B5 - Gosod gwerth ar ein staff

Rydym wedi helpu ein gweithwyr i gadw'n iach yn y gwaith – yn gorfforol ac yn feddyliol, ac wedi helpu gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o afiechyd, drwy roi cyngor ac arweiniad. Rydym yn cefnogi diwylliant lle mae'r staff yn iach ac yn ddiogel yn y gwaith ac yn cefnogi rheoli risgiau yn y gweithle drwy ein polisïau lechyd a Diogelwch.



Yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 16/17 canfuwyd:

"Bod y Cyngor yn nodi sut i wella ansawdd ac effeithiolrwydd proses arfarnu y Cyngor."



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ! Roedd un o'n Cynigion Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei seilio ar yr angen i sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad perfformiad unigol. Mae adolygiad arfarnu ar-lein wedi cael ei ddatblygu ac ar gael ar MY View – ResourceLink. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd yn yr Adran Cymunedau a bydd yn cael ei ategu gan wybodaeth reoli. Ar ôl cael ei werthuso bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i ymestyn i bob adran.
- * Bu cynnydd bychan yn lefel yr absenoldeb salwch o 10.1 diwrnod yn ystod 16/17 i 10.8 diwrnod eleni, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 10.3 diwrnod. Rydym hefyd wedi symud o'r seithfed i'r pedwerydd safle ar ddeg o ran ffigurau salwch uchaf ar draws Awdurdodau yng Nghymru (*CHR/002*). Fodd bynnag, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi ein staff yn ogystal â sicrhau bod gweithdrefnau pendant o ran rheoli absenoldeb salwch. Rydym hefyd wedi datblygu nifer o fentrau lechyd a Llesiant, er enghraifft:-
 - Cafodd modiwl e-ddysgu newydd ei lunio i helpu pob gweithiwr i ddeall salwch meddwl. Nod y modiwl e-ddysgu yw: gwella'r sgiliau arsylwi a rheoli presennol o ran iechyd meddwl yn y gweithle; cynyddu dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a sicrhau bod modd rhoi cymorth priodol yn gynharach
 - Drwy ein hymrwymiad i sicrhau gweithle diogel a diogelu iechyd a llesiant gweithwyr a datblygu diwylliant yn y gweithle lle ceir dim goddefgarwch i drais a chamdriniaeth - mae ein polisi Cam-drin Domestig yn amlinellu rôl y Cyngor o ran cynorthwyo gweithwyr.
- ✓ Yn dilyn ailasesiad llawn eleni, mae'r Cyngor wedi ail-ennill Safon Iechyd Corfforaethol Blatinwm Llywodraeth Cymru, a gedwir ar gyfer cyflogwyr penigamp sy'n dangos rhagoriaeth o ran busnes ac sy'n cymryd ystyriaeth lawn o'u cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Ni yw'r unig Gyngor yng Nghymru i gyrraedd y Safon hon o hyd.
- ✓ Rydym wedi datblygu datganiad ymddygiad trosfwaol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd newydd, i sicrhau bod gweithwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall y Ddyletswydd Gydraddoldeb a sut mae'n ymwneud â'u rôl yn ein sefydliad. Mae'r modiwl croeso corfforaethol ar-lein wedi cynnwys cyfres o fideos o staff yn disgrifio'r hyn y mae Gwerthoedd Craidd yn ei olygu iddynt. Bydd hyn hefyd yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwerthoedd a beth maent yn ei olygu.
- ✓ Mae'r rhan helaeth o lwyddiant neu welliant sefydliad yn digwydd pan fydd y bobl iawn sydd â'r sgiliau iawn yn cael eu lleoli yn y manau iawn, a nod cynllunio'r gweithlu yw helpu i gyflawni hyn. Mae datblygu pecyn cymorth Cynllunio'r Gweithlu i Reolwyr yn helpu i gefnogi eu gweithgareddau cynllunio'r gweithlu. Mae ystod o ddata Rheoli Pobl ar gael bellach i reolwyr ac mae proffiliau'r gweithlu yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Wedyn rhoddir cymorth i reolwyr ddehongli'r data a chynllunio'n unol â hynny.
- ✓ Mae rhaglen i ddatblygu sgiliau Cymraeg gweithwyr y Cyngor wedi cael ei datblygu. Cafodd rhaglen Croeso i'r Gymraeg ei chyflwyno i helpu'r staff i gyrraedd safon 1 Cymraeg.



Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae mewnwydd newydd ar gyfer y staff wedi ei lansio'n llwyddiannus ynghyd ag e-fwletin wythnosol i staff a sioeau teithiol chwarterol i'r staff mewn lleoliadau gwahanol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y datblygiadau perthnasol yn y Cyngor. Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol i reolwyr ym mis Hydref 2016 ac roedd yr adborth yn ardderchog. Bydd gweithlu gweithgar yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r newid sydd ei angen

Yn ôl arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl Mawrth 2017, dywedodd 85% o'r staff fod eu swydd yn ddiddorol ac yn defnyddio fy sgiliau a'm galluedd.
(403 o ymatebion)



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Bu i'r Adran Cymunedau arolygu ei staff; roedd 622 wedi ymateb (37% o gyfanswm y staff) ac 88% wedi dynodi eu bod yn fodlon yn eu swyddi yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu arferion gweithio modern sy'n helpu staff i gyflawni eu gwaith yng nghalon ein cymuned, gan ganiatáu ar yr un pryd i staff sicrhau cydbwysedd rhwng galwadau gwaith a bywyd. Rydym yn gwybod bod perfformiad yn y gwaith yn well os gall staff gael hyblygrwydd o ran eu trefniadau gwaith, ac mae'r Cyngor am gefnogi hyn. I gyflawni'r nod hwn mae Polisi Gweithio Ystwyth newydd ar gyfer y Cyngor wedi cael ei gymeradwyo sy'n ceisio:- 'helpu ein staff i fabwysiadu arferion gweithio gan fod mor hyblyg â phosibl a chyda chyn lleied o gyfyngiadau â phosibl er mwyn inni berfformio cystal ag y bo modd wrth ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol sydd o safon.'

Hefyd i gefnogi hyn mae Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd y Cyngor yn cynnwys blaenoriaeth allweddol:-

Gweithlu digidol - Bydd Sir Gaerfyrddin yn ceisio helpu ei staff i fabwysiadu arferion gweithio gan fod mor hyblyg â phosibl a chyda chyn lleied o gyfyngiadau â phosibl er mwyn iddynt berfformio cystal ag y bo modd wrth ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol sydd o safon

B6 - Sicrhau cyfle cyfartal

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth:-

- Rydym wedi ymrwymo i drin ein staff, a phobl Sir Gaerfyrddin, yn deg.
- Byddwn yn sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu hoedran, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, dosbarth cymdeithasol, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, newid rhywedd, statws priodasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion neu am unrhyw reswm annheg arall.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yn cael eu darparu i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn astudio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu'r ymrwymiad parhaus sydd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i greu amgylchedd o wir gydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y sir.

Mae'r gwaith o hyrwyddo yr iaith Gymraeg yn ein sir wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae cyhoeddi ein Strategaeth Hyrwyddo, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Cyngor a Fforwm Iaith Gymraeg Strategol y Sir, fel rhan o Safonau'r Gymraeg, wedi pennu cyfeiriad clir a her ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi sicrhau bod y Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn dilyn canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2011, gan ystyried datblygiadau polisi ar lefel genedlaethol. Mae'r gwaith o gyflwyno Safonau'r Gymraeg wedi bod yn gadarnhaol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gyfres o ymarferion sicrhau ansawdd sy'n cynnwys ymweld â derbynfydd, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chynnal sampl o alwadau ffôn. Canfu fod y Cyngor yn perfformio'n dda yn yr ymarferion hyn, a hynny'n benodol wrth edrych ar ein gwefan gorfforaethol a'n defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol lle roedd y lefel gydymffurfiaeth yn 100%.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae'r system apwyntiadau cwsmeriaid bellach wedi ei hen sefydlu ar draws y 3 canolfan gwsmeriaid yn achos rhai meysydd gwasanaeth. Mae'r cynnydd hwn yn golygu bod y cyhoedd yn gallu trefnu eu hapwyntiadau eu hunain ar-lein heb fod angen iddynt ffonio. Wrth i fwyfwy o wasanaethau fod ar gael ar-lein, sicrheir bod mwyfwy o bobl yn cael gwybod amdani.
- ✓ Rydym wedi parhau i weithio gyda rhannau o'n cymuned, yn enwedig y bobl ifanc a'r Bobl â Gofal mewn Cartrefi Gofal/Nyrsio, i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio.
- ✓ Mae Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol y Cyngor yn hwyluso gweithrediad Cynllun Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru gan roi pwyslais ar Sir Gaerfyrddin a'r gwaith cyffredinol sy'n digwydd ar draws y rhanbarth. Eleni mae nifer o fentrau wedi cael eu cynnal:-
 - Cafodd dwy sesiwn ymwybyddiaeth o droseddau casineb eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin
 - Cyflwyniad am Gydlyniant Cymunedol yn Sefydliad y Merched / Soroptimyddion - Cynhadledd Cynyddu Ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern a gynhaliwyd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys.
 - Croesawyd Ffoaduriaid o Syria o dan raglen ailsefydlu Syria Sir Gâr. Y bwriad yw croesawu 60 o deuluoedd i Sir Gaerfyrddin dros gyfnod o bum mlynedd.
- ✓ Mae gennym amrywiaeth o gyfleoedd i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg a bydd y rhain yn parhau i gael eu datblygu ar y cyd â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i Oedolion.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mentoriaid Cymraeg newydd

Mae 10 o swyddogion Is-adran Hamdden y Cyngor wedi cael cyflwyniad i gwrs Mentora.

Gan fod y 10 eisoes yn Arweinwyr Iaith yn eu gweithle, roeddent yn awyddus i ddysgu mwy am sut i gefnogi eu cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg mewn gwersi ffurfiol, neu anffurfiol. Bydd y swyddogion hyn bellach yn gallu darparu cymorth gwell i ddysgwyr yn y gweithle. Felly, os ydych yn dysgu Cymraeg, mae 10 mentor newydd sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, theatrau ac amgueddfeydd yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman a allai eich helpu i ddysgu Cymraeg.

Mae Ysgol Felin-foel wedi cael ei chydabod am ei gwaith o ran cefnogi Masnach Deg.

Ysgol y Felin yw un o'r ysgolion cyntaf yn ardal Llanelli i ennill Gwobr glodfawr Cyflawnwr Masnach Deg, sydd yn cael ei dynodi yng Nghymru gan faner Masnach Deg.

Codwyd y faner mewn seremoni yn ystod gwasanaeth yr ysgol a fynychwyd gan y Cyn-aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin dros Addysg, sef y Cyng. Gareth Jones, a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Dros Dro, Gareth Morgans.



Dywedodd y Cyngorydd Jones: *“Hoffwn longyfarch Ysgol y Felin ar ennill y wobr hon. Mae Masnach Deg yn sicrhau ein bod yn parchu cynhyrchwyr a'n planed. Darperir pris teg i gynhyrchwyr am eu cynnyrch ac mae'r premiwm Masnach Deg yn sicrhau bod ffermwyr yn gallu sefydlu ysgolion i'w plant; darparu gwasanaethau iechyd lleol neu fenthyciadau i ddatblygu busnesau newydd yn eu cymunedau.*

“Cymru oedd y wlad Masnach Deg gyntaf yn y byd. Cytunodd Sir Gaerfyrddin i gefnogi'r mudiad Masnach Deg ac ennill statws Masnach Deg fel sir wyth mlynedd yn ôl.”

Rhoddir addewid i blant ledled Sir Gaerfyrddin y bydd eu hawliau yn cael eu hanrhydeddu a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau - [Addewid Hawliau Plant](#). Mae Uwch-gynghorwyr a swyddogion wedi llofnodi addewid a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd y safonau gofynnol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn golygu y craffir ar benderfyniadau yn flynyddol gan bobl ifanc sydd wedi'u hyfforddi. Mae'r addewid yn cynnwys sefydlu tîm Hawliau Plant a Chyfranogiad newydd, Cyngor Ieuenctid Sir Gâr (sy'n cynyddu), a rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) 1989 yn nodi hawliau ehangach plant a phobl ifanc.

Bellach mae'r Cyngor yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall. Mae'r rhaglen hon yn darparu cymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion Sir Gaerfyrddin i'w helpu i fynd i'r afael â homoffobia, deuffobia a thrawsffobia (HBT) a hefyd yn rhoi mwy o gymorth i bobl ifanc LGBT yn ein cymuned. Mae ymuno â'r rhaglen Hyrwyddwyr Addysg yn helpu i ddangos ymrwymiad y Cyngor i atal a mynd i'r afael â bwlio HBT mewn ysgolion.

Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin: gweithio gyda'r gymuned i hyrwyddo tegwch

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth fel rhan o 'Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin' sy'n cael ei gefnogi hefyd gan yr heddlu, y gwasanaeth tân, y gwasanaeth iechyd a Choleg Sir Gâr. Rydym yn cydweithio â sefydliadau, grwpiau gwirfoddol ac unigolion sy'n gweithio ar draws y nodweddion gwarchoddedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, megis pobl anabl, y gymuned LGBT, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a grwpiau crefyddol. Mae Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin am ddylanwadu ar y ffordd caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a lledaenu neges gadarnhaol ein bod ni i gyd mor bwysig â'n gilydd a bod gennym oll ran bwysig yn ein cymuned:-

- Rydym am i Sir Gaerfyrddin fod yn gymuned ddiogel i bawb - wedi'i seilio ar werthoedd **#parch** a **#cydraddoldeb**.
- Rydym yn credu bod gan Sir Gaerfyrddin draddodiad balch o groesawu pobl o gefndiroedd amrywiol.
- Rydym yn dathlu ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pob aelod o'n cymuned yn ei wneud.
- Rydym yn cefnogi'r ymgyrch i ddweud bod gennym: **#MwyYnGyffredin** **#MoreInCommon**



Sir Gâr Cyfartal
Equality Carmarthenshire

B7 - Gwella ein gwasanaethau**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Canfu Adroddiad Gwella Blynyddol a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 16/17:-

- bod gan y Cyngor ymagwedd effeithiol yn gyffredinol ar gyfer penderfynu a chyflawni newidiadau sylweddol i wasanaethau,
- bod y Cyngor yn parhau i greu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn galluogi newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau;
- bod y Cyngor wedi pennu canllawiau clir ar gyfer llywodraethu newidiadau i'r gwasanaethau,
- bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau i gipio gwybodaeth am effaith y newidiadau i'r gwasanaethau
- mae gan y Cyngor brosesau sydd wedi eu hen sefydlu ar waith i geisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae gwasanaeth TGCh y Cyngor wedi llunio Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd ar gyfer 2017-2020. Mae'r Strategaeth hon yn ymgorffori ei Weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin sef "Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i galluogi'n ddigidol". Mae 4 maes blaenoriaeth allweddol a'r flaenoriaeth sydd o bwys yn achos y thema hon yw '**Gwasanaethau Digidol i Gwsmeriaid**' sy'n ceisio:-

- Darparu gwybodaeth a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n hawdd eu defnyddio ar-lein i drigolion
- Darparu mynediad digidol 24/7 amser real i wasanaethau sy'n ddwyieithog ac yn hwylus i'r cwsmer
- Darparu gwell sianeli cyfathrebu o ddewis trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf i sicrhau seilwaith technegol cynaliadwy ac atebion meddalwedd yn y tymor hir, ynghyd â gwell darpariaeth wi-fi i staff a dinasyddion. Hyd yn hyn, mae 104 o safleoedd yn Sir Gaerfyrddin wedi'u ffurfweddu ar gyfer mynediad wi-fi i staff ynghyd â'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd.
- ✗ Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17](#) yn gofyn y cwestiwn 'a yw'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel?' (PAM/002).
 - Yn ystod 2016/17, roedd **51%** o'r dinasyddion wedi cytuno ein bod yn darparu gwasanaethau o safon - **8^{fed} yng Nghymru**
 - Yn ystod 2014/15, roedd 58% o'r dinasyddion wedi cytuno ein bod yn darparu gwasanaethau o safon - **6^{ed} yng Nghymru**
 - Yn ystod 2013/14, roedd 53% o'r dinasyddion wedi cytuno ein bod yn darparu gwasanaethau o safon - **15^{fed} yng Nghymru**
 - Dirywiad 7% pwynt ac wedi colli dau safle rhwng 2016-17 a'r canlyniad blaenorol oedd ar gael o 2014/15.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Gwella gwybodaeth ar-lein a mynediad at wasanaethau ar-lein y Cofrestryddion - Bydd system archebu ar-lein ar gyfer apwyntiadau yn cael ei chyflwyno yn haf 2017 i ganiatáu i'r cyhoedd wneud archebion penodol yn annibynnol ar y gwasanaethau Cofrestryddion.

Os ydych chi'n aros am fws yn un o nifer o gysgodfannau'r sir, mae'n bosibl eich bod wedi sylwi ar negeseuon hysbysebu newydd sy'n cael eu harddangos. Mae'r negeseuon sy'n hyrwyddo'r ffaith fod croeso i chi gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin yn Gymraeg mewn sawl ffordd, p'un a ydych yn dysgu'r iaith neu'n siaradwr Cymraeg rhugl, i'w gweld mewn nifer o arosfannau bysiau ledled y sir.

Mae'r hysbysebion yn ymddangos ar gysgodfannau ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Rhydaman, Llanymddyfri, y Garnant, Cydweli a Llanfihangel-ar-arth.

Dywedodd y Cyngorydd Mair Stephens, yr Aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg: *"Mae'n bwysig fod preswylwyr y sir yn teimlo'n hapus i gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg ac ym mha ffordd bynnag, boed yn ffonio, yn e-bostio neu ar-lein, a bydd ein staff yn hapus i ymateb yn eich dewis iaith."*



Canlyniad C: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach ...

Mae ein ffordd o fyw yn newid. Mae pobl yn byw'n hwy, gydag ansawdd bywyd uwch, ond mae ein hanghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Yr her yr ydym yn ei hwynebu nawr yw atal afiechyd yn y lle cyntaf.



Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

C1 - Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd

C2 - Atal afiechyd ac annog ffyrdd iach ac egniol o fyw

C3 - Gwella lechyd a Llesiant Emosiynol a Meddyliol pawb yn y sir

C4 - Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd

C5 - Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd

C6 - Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed

C7 - Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOPs):

- Hyrwyddo Annibyniaeth a Llesiant i Bobl Hŷn
- Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy a'r tai ar rent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy

Byddwn yn hyrwyddo gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddarparu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen.

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant	✗
Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓
Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden	✓

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Yn gwyno mae'r Ddeddf yn:-

- Rhoi pobl wrth wraidd eu gofal ac yn eu grymuso i fanteisio i'r eithaf ar eu llesiant eu hunain
- Newid y pwyslais i atal drwy annog pobl i ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain, adnoddau eu perthnasau a'u hadnoddau cymunedol
- Hybu gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth

Mae'r Ddeddf yn nodi chwe safon ar gyfer hyrwyddo a gwella llesiant:

Safon 1 - Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau llesiant y maent am eu cael.

Safon 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Safon 3 - Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Safon 4 - Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Safon 5 - Helpu pobl i gynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac ar lefel bersonol.

Safon 6 - Helpu pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn paratoi at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a phartneriaid ac yn adlinio ein gwasanaethau i ymateb i'r gofynion newydd. Mae hyn wedi bod yn heriol i ni wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu mewn rhai meysydd mewn cyfnod o gyfi cyllidol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf wedi darparu cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ac sy'n adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl, a all wella canlyniadau mewn modd arwyddocaol i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn ein gwerthusiad gan AGGCC y llynedd nodwyd ein bod wedi gwneud:

“ Cynnydd da o ran gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac mae hyn wedi rhoi cryn bwysigrwydd ar sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn cael eu deall gan staff ac asiantaethau partner a'u rhoi ar waith a buddsoddiad i wireddu hynny. Mae bwrdd prosiect ar waith gyda chynllun gweithredu clir sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae cerrig milltir pwysig wedi ac yn parhau i gael eu cyflawni. ”

Cynhaliwyd Asesiad Poblogaeth i ddarparu dadansoddiad strategol lefel uchel o anghenion gofal a chymorth dinasyddion ac anghenion cymorth gofalwyr ledled Gorllewin Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu ar hyn o bryd ac yn nodi lle mae angen gwella a datblygu pellach i sicrhau bod unigolion yn cael y cymorth cywir ac yn gallu byw bywydau cyflawn.

Mae'r Asesiad wedi'i gynnal i fodloni gofynion newydd o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Adran 14A o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad ar y cyd o'r anghenion o ran gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr, yn ardal yr Awdurdod Lleol. Wedyn rhaid cyfuno'r asesiadau hyn mewn un adroddiad ar gyfer ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan bob un o'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 2016/17:

Nod: C1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd:

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17


Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd. Gosodir y sylfeini ar gyfer bron pob agwedd ar ddatblygiad dynol – corfforol, deallusol ac emosiynol – yn ystod plentyndod cynnar. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn (gan ddechrau yn y groth) yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd. I gael effaith ar anghydraddoldebau iechyd, mae angen inni fynd i'r afael â graddiant cymdeithasol mewn mynediad plant i brofiadau cynnar cadarnhaol. Mae ymyriadau diweddarach, er eu bod yn bwysig, gryn dipyn yn llai effeithiol lle na chafwyd sylfeini cynnar da.

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth GIG [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) ei data am Raglen Mesuriadau Plant Cymru 2015/16 sy'n cynnwys casgliadau'r rhaglen mesuriadau plant a gynhaliwyd gyda phlant sy'n mynychu dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion yng Nghymru.

- Roedd 92.9% o blant cymwys wedi cymryd rhan yn y rhaglen yn Sir Gaerfyrddin gyda 93.3% yng Nghymru.
- Mae % y bobl sydd dros bwysau neu'n ordew yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng ychydig o **30.7%** yn 2014/15 i **29.6%** yn 2015/16 ac rydym yn y 3^{ydd} **safe o hyd yng Nghymru** ac yn uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru o 26.2%.
- Mae cyfran y plant sy'n **ordew** wedi gostwng ychydig o **13.6%** yn 2014/15 i **12.9%** yn 2015/16.
- Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i oedolaeth, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon, a rhai canserau



Rhaglen Mesur Plant Cymru 2015/16



Mae rhaglen blynyddoedd cynnar **Dechrau'n Deg** yn elfen allweddol o agenda *Trechu Tlodi* Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cefnogi teuluoedd â phlant 0-3 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y Sir, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau atal dwys i wella iaith plant a'u datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, a'u hiechyd corfforol, yr ydym yn gallu eu darparu drwy:

- Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd gwell
- Gofal plant rhan-amser o ansawdd da am ddim i blant 2-3 oed
- Cymorth rhianta (yn cynnwys rhaglenni rhianta a sgiliau sylfaenol)
- Cymorth ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu

Yn Sir Gaerfyrddin mae 24 o Leoliadau Dechrau'n Deg mewn 17 o ardaloedd (Betws, Parc Waundew, Maes-llyn, Bigyn, Llwynhendy, Felin-foel, Carwe, Morfa, Trimsaran, Pwll, Pen-bre, Gogledd Tref Caerfyrddin, Glanaman, y Garnant, Porth Tywyn, Pantyffynnon a Dafen).

Mae **darpariaeth gofal plant** yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chynnig mewn partneriaeth â'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol, ac mae wedi parhau i ddatblygu. Yn ystod 2016-17 rydym wedi parhau i gefnogi a chynnal cyfanswm o **242** o ddarparwyr gofal plant cofrestredig (gyda chyfanswm o **4,165** o leoedd cofrestredig). Mae hyn ychydig yn is na 2015/16 pryd yr oedd 246 o ddarparwyr cofrestredig a 4,365 o leoedd, ac mae'n bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y lleoliadau gofal sesiynol cofrestredig sy'n gweithredu am lai na 4 awr.

Mae **model arferion systematig** o fewn Podiau yr Uned Plentyn a Theulu newydd wedi cael ei gyflwyno fesul tipyn, ac mae'r pedwar tîm gofal plant bellach yn defnyddio'r model, ond ar adegau gwahanol yn ystod y camau datblygu, sydd wedi galluogi newid graddol mewn arferion yn hytrach na newid sydyn. Mae dau o seicolegwyr addysg yn darparu gwasanaeth ymgynghori clinigol i'r timau gofal plant fel rhan o'r model, ac mae gweithwyr Cymorth i Deuluoedd a Chydgysylltwyr Uned gan yr holl dimau bellach. Mae rhaglen o sesiynau datblygiadol ar waith i gefnogi gweithredu'r ymagwedd. Mae staff o'r pedwar tîm wedi mynychu hyfforddiant (Mawrth 2017) am egwyddorion arfer systemig a ddarparwyd gan Morning Lane Associates, a luniodd y model yn wreiddiol.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Gweler hefyd nod **G5 Trechu Tlodi a'i effaith ar yr economi leol**

Mesurau Allweddol Dechrau'n Deg		Canlyniad 2015/16	2016/17 Targed	Canlyniad 2016/17	Sylw
✓	% sy'n bresennol yn y lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg sydd am ddim (9.1.8.1)	78.9%	77%	78.9%	Cyrraedd y targed
✗	Nifer y plant sy'n byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg sy'n gallu cyrchu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg drwy atgyfeiriadau allgymorth (9.1.8.2)	17	23	15	Heb gadw at y targed ac wedi'i ddirywio
Mae'r targed o 23 ar gyfer gwasanaethau Allgymorth yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhan ehangach o'r gwasanaeth ac nid yw'n statudol. Pennwyd blaenoriaethau drwy adolygu'r risgiau yn y gwasanaeth, ac, o ganlyniad dim ond hyn a hyn o atgyfeiriadau newydd ar gyfer y gwasanaeth allgymorth yr oedd modd eu derbyn					
✓	% y teuluoedd angen uchel oedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac oedd yn derbyn o leiaf un cyswllt misol gan Wasanaeth Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg (9.1.8.3)	96%	93%	96%	Cyrraedd y targed
✗	% y teuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac sy'n derbyn ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach (9.1.8.6)	96%	95%	90%	Heb gadw at y targed ac wedi dirywio
Siomedig fod y targed heb ei gyrraedd ond mae hyn yn adleisio'r problemau staffio rydym wedi eu cael ledled y rhaglen, oherwydd salwch, colli swydd a mamolaeth.					
✓	% absenoldeb heb ganiatâd yn lleoliadau Gofal Plant Dechrau'n Deg sydd am ddim (9.1.8.8)	Yn newydd ar gyfer 16/17	6.00%	4.07%	Cyrraedd y targed
✗	% y plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd, yn rhagori ar, neu o fewn un band oedran o'u carreg filltir o ran datblygiad yn 2 flwydd oed (aseswyd o fewn 23-25 mis) (9.1.8.9)	Yn newydd yn 16/17	85.00%	84.90%	Heb gadw at y targed
Mae hyn ychydig oddi ar y targed, a byddai angen i un plentyn ychwanegol fod wedi cyrraedd ei garreg filltir o ran datblygiad er mwyn cyrraedd y targed gofynnol. Hyd yn hyn mae asesiadau plant wedi cael cefnogaeth gan Dechrau'n Deg ynghyd â phlant yn ardaloedd newydd Dechrau'n Deg yn ystod 2016-17. Mae angen gwneud dadansoddiad pellach o'r asesiadau hyn i weld a oes gwahaniaeth rhwng plant					
✗	% y plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd, yn rhagori ar, neu o fewn un band oedran o'u carreg filltir o ran datblygiad yn 3 blwydd oed (aseswyd o fewn 35-37 mis) (9.1.9.0)	Yn newydd ar gyfer 16/17	90.00%	87.13%	Heb gadw at y targed
Canlyniad siomedig a byddai angen i 9 o blant ychwanegol fod wedi cyrraedd eu carreg filltir o ran datblygiad er mwyn cyrraedd y targed gofynnol. Mae angen gwneud dadansoddiad pellach o'r asesiadau hyn i weld a oes gwahaniaeth rhwng y plant sy'n cael cymorth gan Dechrau'n Deg yn y tymor hir a'r plant sydd newydd ddod yn gymwys.					

- ✓ Rydym wedi darparu [nofio am ddim](#) i bron 19,000 o blant (dan 16 oed) yn ein pyllau nofio yn ystod penwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2016-17, ac mae hyn yn gynydd o'r 16,000 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhaglen hon yn gysylltiedig â Llwybr Dysgu Nofio Cymru, [Pasbort y Dŵr](#). (3.4.2.2)
- ✓ Rydym wedi cynyddu % y plant sy'n gallu nofio 25 metr yn 11 oed o 63.6% i 66.4%. Mae darparu gwersi nofio mewn ysgolion wedi cynyddu 4% yn cynnwys dros 3,700 o blant, gyda gwersi tu allan i'r ysgol yn cynyddu 10% yn cynnwys dros 2,200 o bobl. (3.4.2.1)
- ✓ Cyflawni mentrau sy'n flaengar yn y sector ar gyfer blynyddoedd cynnar, fel rhaglen 'Amser Stori Actif' a ddarperir ar draws mwy na 100 o leoliadau yn y gymuned gan gynnwys Meithrinfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau teulu. Mae hyn wedi arwain at 1,642 o sesiynau'n cael eu cynnal a 21,460 o fynychiadau!
- ✓ Wedi dosbarthu dros £83k o gyllid Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru i fwy na 71 o glybiau cymunedol yn y sir i helpu i [ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad](#).
- ✓ Mae darpariaeth gwersi nofio i ysgolion wedi cynyddu 4% gan gynnwys dros 3,700 o blant ac mae gwersi nofio y tu allan i'r ysgol wedi cynyddu 10% gan gynnwys dros 2,200 o bobl.
- ✓ Mae ein Swyddogion Pobl Ifanc Egniöl wedi trefnu ras Parkrun i bobl ifanc yng Nghaerfyrddin, sy'n cael ei gynnal gan wirfoddolwyr cymunedol ac ar gyfartaledd mae 40 o bobl yr wythnos yn cymryd rhan.
- ✓ Mae '[Llysgenhadon Ifanc](#)' ar gyfer chwaraeon bellach ym mhob ysgol uwchradd (cyfanswm o 36 o Lysgenhadon Ifanc Arian) ac yn 79% o'r ysgolion cynradd (cyfanswm o 233 o Lysgenhadon Ifanc Efydd), a byddant yn datblygu i fod yn arweinwyr y dyfodol drwy ysbrydoli eu cyd-ddisgyblion i fod yn egniöl. Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu hyn drwy gyflwyno Llysgenhadon 'Efydd a Mwy' ym Mlwyddyn 7 (cyfanswm o 40 o Lysgenhadon Efydd a Mwy) i gadw Llysgenhadon Ifanc Efydd a datblygu eu sgiliau arwain wrth iddynt symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Hefyd ceir tîm o 1 Llysgennad Ifanc Platinwm a 6 Llysgennad Ifanc Aur i gydlynu rhwydwaith y sir.
- ✓ Mae Cynllun Addysgol Synnwyr Arian yn ceisio gwella sgiliau llythrennedd ariannol ymhlith pobl ifanc.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



Roeddech am i ni ddarparu mwy o warchodwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y sir.

Rydym wedi cynyddu nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg o 29 i 55 ac wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sir o 160 o leoedd i 295 o leoedd. Byddwn yn dal i recriwtio, cynorthwyo a hyfforddi gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd a dargedwyd lle na ddiwellir yr angen ar hyn o bryd.

- ❖ Mae **1832** o blant yn gallu elwa ar raglen ymyrraeth gynnar Dechrau'n Deg ar draws 17 ardal ddaearyddol yn y sir, gan ddarparu ymagwedd amlasiantaeth integredig.
- ❖ Cyflwynwyd rhaglen Splash i'r llwybr Gweithgareddau Dŵr gan gynnwys plant o 4 mis oed fel rhagofyniad i'r cynllun Dysgu Nofio. Bellach mae dros 240 o blant yn rhan o'r cynllun.
- ❖ Ystyrir bod dull mentrau blynyddoedd cynnar yn un sy'n arwain y sector ledled Cymru, gan gynnwys ehangu'r dull yn ddiweddar i feithrinfeydd, llyfrgelloedd ac ati (111 o gyfleusterau) ac nid yw'r sefyllfa hon i'w gweld yn un man arall yng Nghymru.



Nod y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc yw grymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn arweinwyr drwy chwaraeon. Mae'r rhaglen yn gwella sgiliau arweinyddiaeth a hyder pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu yn arweinwyr ifanc gan fod yn esiamplau da i'w cyd-ddisgyblion drwy hyrwyddo gwerthoedd chwaraeon a ffyrdd iach o fyw yn yr ysgol a'r gymuned. Maent yn gwneud hyn drwy drefnu sesiynau chwaraeon amser cinio neu ar ôl ysgol, ac

maent hefyd yn helpu i gynnal sesiynau chwaraeon yn y gymuned.

Mae llwybr y llysgennad ifanc yn dechrau gyda'r llysgenhadon ifanc Efydd sydd o oedran cynradd ac yn mynd ymlaen i lysgenhadon ifanc Platinwm sydd ym mlynnyddoedd 11 a 12 yn yr ysgol uwchradd.

Mae Emily Janas, sy'n ddisgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Pum Heol wedi bod yn Llysgennad Ifanc Efydd ers blwyddyn. Pan ddaeth hi'n llysgennad efydd, dywedodd ei mentor Hayley Lewis, Swyddog Pobl Ifanc Egniol, *'roedd hi'n eithaf tawel pan fu i mi gyfarfod â hi yn ystod yr hyfforddiant Llysgennad Ifanc Efydd cychwynnol, ond ers dod yn Llysgennad Ifanc rwyf wedi gweld cymaint o wahaniaeth ynddi, yn enwedig o ran ei hyder, a bellach mae'n llafar iawn wrth roi ei sesiynau ac mae wedi dod yn arweinydd ifanc rhagorol ac yn esiampl dda yn Ysgol Pum Heol!*

Nod: C2 Atal afiechyd ac annog ffyrdd iach ac egniol o fyw

Ein nod yw darparu ystod o gyfleusterau, gweithgareddau a rhaglenni sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant, y maent i gyd wedi'u hanelu at gael mwy o bobl yn fwy egniol yn amlach, er mwyn gwella iechyd a llesiant ein preswylwyr. Rydym am sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r lle mwyaf egniol ac iach yn y DU, a bod pawb yma yn rhan o 'Glwb Cymunedol' neu 'Gyfleuster Hamdden / Diwylliannol', a bod pob plentyn yn dwlu ar weithgarwch Hamdden / Diwylliannol gydol eu hoes.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae nifer yr atgyfeiriadau Meddygon Teulu ar gyfer y rhaglen ymarfer corff yn ystod 2016-17 wedi cynyddu o 1,129 o atgyfeiriadau i 1,235 **(3.4.2.5)**
- ✓ Rydym wedi cynyddu % y bobl a atgyfeirir i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ac sy'n mynychu'r sesiwn 1af o 49.7% i 58.1% **(3.4.2.6)** gyda 50.2% yn cwblhau'r rhaglen 16 wythnos **(3.4.2.7)**
- ✓ Mae nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fesul 1,000 y boblogaeth wedi cynyddu o 6,905 i 8,289 = 1,384 cynnydd o 20%, mae hyn yn cyfateb i 1.5 miliwn o ymweliadau (cynnydd o 17.5%). Mae hyn ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru o 8,387 ac rydym wedi symud o'r 20^{fed} safle i'r 12^{fed} safle ar gyfer 2016/17 o gymharu â'r holl Awdurdodau yng Nghymru. **(LCS/002b)**
- ✓ Rydym wedi datblygu cynlluniau ymhellach ar gyfer Canolfan Hamdden Llanelli newydd, sy'n gysylltiedig â'r pentref llesiant a'r ganolfan gwyddorau bywyd **(12045)**
- ✓ Mae Ras Parkrun i Oedolion wedi'i threfnu yn Llanelli gan y Tîm Chwaraeon a Hamdden, sy'n cael ei gynnal gan wirfoddolwyr cymunedol. Ar gyfartaledd mae 120 o bobl yr wythnos yn mynd i'r ras.
- ✓ Rydym wedi archwilio **100%** o'r safleoedd risg uchel o safbwynt hylendid bwyd, iechyd anifeiliaid ac archwiliadau safonau masnach. **(PPN/001i)**
- ✓ Rydym wedi cynnal y ganran uchel o sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd ar 97.5%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 95.16% a'n canlyniad ni yw'r 5^{ed} gorau yng Nghymru. **(PPN/009)**

- ✓ Atal afiechyd, drwy gadw golwg ar y farchnad a samplu bwyd / porthiant a ddarperir yn yr awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol o ran hawliadau, ychwanegion, lliwio a chyfansoddiad.

Sut rydym yn gwytbod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?




Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn gynllun sy'n galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i atgyfeirio cleifion 16 oed a hŷn, sydd ag ystod eang o gyflyrau iechyd.

Mae'r tîm Chwaraeon a Hamdden Actif yn derbyn tua 1,200 o atgyfeiriadau y flwyddyn am bob math o resymau, gan gynnwys clefyd y galon, clefydau anadlol, atal codymau, rheoli pwysau, adsefydlu yn dilyn canser ac iechyd meddwl, sydd wedyn yn cael cefnogaeth drwy raglen weithgareddau 16 wythnos i wneud gwelliannau i iechyd sy'n newid bywydau.

Cyfeiriwyd Mr X atom gan y Nyrs Practis ym Meddygfa Pen-y-groes yn ôl ym mis Gorffennaf 2016. Roedd wedi cael strôc a oedd wedi effeithio ar ei goesau. Roedd cydbwysedd yn ofid iddo gan ei fod yn simsan ar ei draed. Ei nod oedd cryfhau'r coesau, gwella ei gydbwysedd a gallu cerdded ymhellach heb ddefnyddio ei ffyn. Fe ddaeth i'n sesiwn allgymorth yn Llandybie â 2 ffon a bu'n rhaid iddo gael cymorth cadair drwy gydol y sesiwn, ac roedd digon o gadeiriau eraill gerllaw.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae wedi gwella hyd yn oed mwy na'r hyn oedd wedi ei ddisgwyl. Mae'n dal i ddod i'r sesiwn yn Llandybie, ond nid oes angen cymaint o gymorth arno. Bellach dim ond 1 ffon mae'n ei defnyddio ac mae hyd yn oed yn ei gadael wrth y drws ac yn cerdded i mewn hebddi, gan ei gadael yno drwy gydol y sesiwn. Erbyn hyn mae'n defnyddio'r gampfa hefyd, gan ganolbwyntio ar gryfder y coesau ac mae wedi sylwi ar wahaniaeth o ran ei gydbwysedd. Mae ei gydbwysedd yn well o lawer na'r hyn oedd ac mae fel pe bai'n gwella o ddydd i ddydd.

Roedd canlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar o [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#) yn dangos bod **66%** o bobl yn Sir Gaerfyrddin wedi dweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Y ganran hon yw'r **drydedd uchaf** yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 59%.



Nod: C3 Gwella Iechyd a Llesiant Emosiynol a Meddyliol pawb yn y sir

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi cyflwyno newidiadau pwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gosod dyletswyddau cyfreithiol newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ynghylch asesu a thrin y rheiny y mae eu hiechyd meddwl yn wael; a gwella mynediad i wasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol. Mae gweledigaeth y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl yn symud o'r syniad o salwch meddwl i un o lesiant meddwl, ac ymatebir i hyn drwy ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, ymyriad cynnar, cyfleoedd dydd arloesol, a mabwysiadu model adfer.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu yn ymdrechu i weithredu ymagwedd sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i reoli eu bywydau o hyd, a lle bo'n bosibl, reoli'r atebion sy'n bodloni eu dyheadau orau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Y nod yw canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd pobl, a'u helpu drwy ddefnyddio rhwydweithiau teulu, ffrindiau a chymuned ochr yn ochr â gwasanaethau. Mae'r newid hwn mewn diwylliant wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) sy'n pwysleisio modelau gofal a chymorth cymunedol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni ganolbwyntio ar wasanaethau hygyrch, gwybodaeth, cyngor a chymorth, atal a manteisio i'r eithaf ar botensial y gymuned fel adnodd. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth wraidd y ddeddfwriaeth hon ac mae ymgysylltu â'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn hanfodol.



Mae'r **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** yn galluogi teuluoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill i gael mynediad i ystod eang o wybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael yn y sir. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi bod yn cyfarfod â phersonél o 'Dewis' i weithio tuag at fudo i gronfa ddata Dewis. Mae gwefan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cael ei diweddarau a bellach mae'n haws ei defnyddio. Erbyn hyn ceir 'Hyrwyddwyr y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd' a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac wedi'i diweddarau, gan adolygu'n rheolaidd gynnwys eu tudalennau a helpu i wella gwybodaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Fel rhan o Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Plant Cydweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru rydym wedi bod yn adolygu sut yr ydym yn darparu **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** a mynediad i'n gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd. Yn dilyn yr adolygiad gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, mae gennym gynllun gweithredu rhanbarthol i'w roi ar waith. Rydym wedi cyfarfod â'r Rheolwr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd i 'fapio' ein holl fynediad 'drws ffrynt' ac mae cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi cychwyn.

- ✓ Mae'r niferoedd sy'n defnyddio gwefan y **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** wedi cynyddu 35% ac mae nifer yr ymweliadau â thudalennau wedi cynyddu 37% yn ystod 2016/17.

Blwyddyn	Nifer y sesiynau	Nifer y Defnyddwyr	Ymweliadau â thudalennau	Ymwelwyr newydd
2016-17	20,137	13,897	57,714	67.7%

- Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017 mae 1,870 o chwiliadau Gofal Plant ar-lein wedi bod
- Mae gennym 945 o ddilynwyr ar Twitter
- ✓ Mae ein Tîm Atgyfeirio Canolog (**CRT**) yn gwneud gwaith da o ran darparu un man cyswllt ar gyfer unrhyw un sydd â phryderon ynghylch lles ei blentyn, gan sicrhau ymagwedd gyson at wneud penderfyniadau. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gan gyfeirio teuluoedd (lle y bo'n briodol) i wasanaethau ataliol i sicrhau eu bod yn cael lefel yr ymyrraeth y mae ei hangen arnynt, a thrwy hynny osgoi cyfraniad statudol diangen.

- ✓ Yn 2016, bu inni sefydlu Bwrdd Arferion a Pholisi sy'n goruchwylio gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae uwch-swyddogion o'r gwasanaethau iechyd meddwl, anableddau dysgu a diogelu yn cael eu cynrychioli ar y grŵp hwn. Rydym wedi cytuno ar asesiad cyffredin ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ac wedi ei dreialu o fewn anableddau dysgu.
- ✓ Rydym yn gweithredu'r agenda ataliol o fewn y timau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ers Ebrill 2016 e.e. mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi ymateb i 30 o atgyfeiriadau "llesiant".
- ✓ Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi ymrwmo i gefnogi swyddi a datblygu prosiectau **Cynnydd** ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a **Cam Nesa** neu'r sawl sy'n NEET eisoes. O blith y saith o atgyfeiriadau sydd wedi dod i law ers mis Tachwedd, mae gan chwech ohonynt bellach lwybr addysgol sefydledig.
- ✓ Mae Llyn Llech Owain yn fenter ar y cyd gyda'n adran parciau sy'n cynnig gweithgareddau megis cynnal y parciau. Yn ystod 2016 cawsant hefyd y cyfle i weithio gydag adran hamdden y Cyngor.
- ✓ Mae Stryd Cyfleoedd, sy'n fenter ar y cyd â'n cydweithwyr yn y gwasanaethau adfywio, wedi cael ei gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Siop ydyw ar gyfer gwerthu crefftiau a wnaed gan unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Cafwyd sawl ffair Nadolig lwyddiannus yn y siop a oedd yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau yn y digwyddiadau hyn.
- ✓ Mae cynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelu wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod 2016. Rydym wedi parhau i gynnig hyfforddiant i sefydliadau partner fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) yn ogystal â chynllunio a darparu hyfforddiant ar y cyd ynghylch Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys. Mae nifer sylweddol o Staff yn yr is-adran hefyd wedi mynychu hyfforddiant Trais Domestig ac Atal Trais Domestig.
- ✓ Rhaglen Haf Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin 2016 – Mae gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau wedi galluogi Arts Care Gofal Celf (ACGC) i barhau i gefnogi gofalwyr ifanc mewn blwyddyn lwyddiannus arall o weithgareddau.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Ym mis Mehefin 2016, gweithiodd y Ffwrnes mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Chwmni Theatr Canoe ar gynhyrchiad a grëwyd yn benodol ac a seiliwyd ar yr heriau sy'n wynebu pobl â dementia a'u teuluoedd a rhwydweithiau cymorth. Gan weithio gydag Alzheimer's Cymru a Sir Gâr, cynhaliwyd Diwrnod Ymwybyddiaeth o Ddementia yn y Ffwrnes, a oedd yn rhoi cyfle i bobl â dementia, eu teuluoedd, a gweithwyr cymorth gwirfoddol weld y perfformiad a chymryd rhan mewn gweithdy Canu ar gyfer yr Ymennydd, ynghyd â llawer o weithgareddau cysylltiedig eraill. Mae digwyddiad tebyg yn cael ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18.

“Rwyf yn hapus dros ben â'r cymorth y mae Mam yn ei gael yn awr. Mae hi'n cyfathrebu'n well, mae ei hiechyd meddwl wedi gwella yn ogystal â'i bywyd cymdeithasol. Mae'r staff yn ddigon hamddenol ac mae awyrgylch hwyllog yn y cartref. Gwych!”

Aelod o'r teulu mewn perthynas â phrosiect byw â chymorth

Nod: C4 Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Yn gyffredinol rydym wedi gweithio'n galed i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd drwy ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i gynnal a chefnogi annibyniaeth pobl. Rydym yn ymwybodol bod angen inni ddarparu gwasanaethau i gefnogi pobl ac rydym wedi datblygu "Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf." Mae'r ddogfen yn nodi sut y byddwn yn wynebu heriau poblogaeth sy'n heneiddio â chyllideb sy'n crebachu. Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, rydym yn gwneud cynnydd.

"Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei gynlluniau a'u strategaethau, ddealltwriaeth glir o'r materion y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol wrth helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r rhain yn seiliedig ar boblogaeth sy'n heneiddio, pobl yn byw'n hwy a chynnydd mewn cyflyrau sy'n gyffredin ymysg pobl hŷn.


Swyddfa Archwilio Cymru, Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol, Hydref 2015.

Roedd cefnogi nifer cynyddol y bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP) Hyrwyddo Annibyniaeth a Llesiant i Bobl Hŷn

Mae gan y Sir 'seilwaith' Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol integredig. Mae'r model hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad polisi cenedlaethol a lleol gan gyfeirio at ddarparu gwasanaethau iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. Atgyfnerthir yr achos dros ofal integredig gan yr angen i ddatblygu gweithio system gyfan ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyd-forbidrwydd a bregusrwydd (yn cynnwys dementia). Felly un o'r pethau allweddol y canolbwyntir arno yn ein cynllun busnes yw datblygu system gofal integredig sy'n rhoi sylw i hyrwyddo llesiant a chynnal annibyniaeth ar gyfer ein poblogaeth sy'n oedolion, gan gefnogi'r anghenion gofal tymor hir a diogelu'r bobl fwyaf bregus ac agored i niwed.



Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol yn cynnwys Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol, Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, ac ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol sy'n gweithio fel tîm amlddisgyblaeth i gefnogi asesu a rheoli gofal ar gyfer unigolion y mae angen cymorth arnynt.

I reoli iechyd a llesiant poblogaeth Sir Gaerfyrddin a chynnal annibyniaeth ein pobl hŷn am gyn hired â phosibl mae gwasanaethau cymunedol integredig yn darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau ar draws y tri maes 'cynnig' a amlinellwyd yn nogfen Cyngor Sir Caerfyrddin, 'Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin'.

Yn fras, gellir rhannu'r rhain yn dair brif haen:

Haen Un: Gwasanaethau ac Ymyriadau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol megis gwybodaeth, cyngor a chymorth, cyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol.

Haen Dau: Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau wedi eu targedu er mwyn i unigolion adennill annibyniaeth a llesiant o'r un lefel ag o'r blaen yn dilyn cyfnod aciwt neu anaf, a hefyd gall helpu i osgoi derbyniad i'r ysbyty. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau Haen 1 i sicrhau cymorth parhaus o ran iechyd a llesiant gan eu cymuned eu hunain

Haen Tri: Mae darparu gwasanaeth ar y lefel hon yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal arbenigol a thymor hir. Bydd gwasanaethau yn yr haen hon yn cydlynu â gwasanaethau yn haen 2 er mwyn sicrhau bod pobl, adeg anafiadau neu gyfnodau aciwt o salwch, yn adennill annibyniaeth ar yr un lefel ag o'r blaen.

Mesur Llwyddiant Allweddol

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2015/16		2016/17	
	Gwirioneddol	Cyfartaledd Cymru	Gwirioneddol	Cynnydd
Cyfradd yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o bobl 75 oed a hŷn (SCA/001)	4.69 (87 o gleientiaid 18+ oed)	4.87	2.30 (43 o gleientiaid 75+ oed)	Sylwch: Mae'r canlyniad yn wahanol i 2015/16 gan fod canllawiau'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd yn nodi dylai'r rhifiadur ond cynnwys oedolion 75+ oed

Pam mae'r mesurau allweddol hyn yn bwysig

Ystyr oedi cyn trosglwyddo gofal (SCA/001) yw lle bo cleifion yn barod i ddychwelyd adref o'r ysbyty neu drosglwyddo i ffurf arall o ofal ond yn cael eu hatal rhag gwneud hynny am nifer o resymau. Gall hyn gael effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u llesiant. Gall oedi yn y tymor hir gael effaith sylweddol ar allu unigolyn i fod yn annibynnol unwaith eto a gall gael effaith negyddol ar ei lesiant meddyliol.

Mae tîm amlddisgyblaethol yn gweithio yn y ddau ysbyty cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin i wella'r cysylltiadau rhwng y gymuned a'r sector aciwt. Maent yn datblygu modelau sy'n helpu i osgoi derbyniadau a lleihau hyd arosiadau mewn ysbytai, gan wella llesiant pobl hŷn y mae cael eu derbyn i'r ysbyty yn gallu cael canlyniadau negyddol iddynt.

Mae gwasanaeth gofal cartref Ymateb Cyflym wedi cael ei sefydlu i ymateb yn syth er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty, helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, a hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynnar.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 11 o'n 11 ymrwymiad KIOP

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac sydd â phecon gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach (SCA/20a) Mesur newydd – gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 16/17	✓	38.89% Mae hwn yn fesur perfformiad newydd sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (6ed Ebrill 2016). Gan fod hwn yn fesur riportio newydd, rydym wrthi'n addasu ein systemau a'n hadroddiadau dylunio a fydd yn ein galluogi i riportio a chipio'r data.
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac sydd heb becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach (SCA/20b) Mesur newydd – gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 16/17	✓	59.34% Mae hwn yn fesur perfformiad newydd sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (6ed Ebrill 2016). Gan fod hwn yn fesur riportio newydd, rydym wrthi'n addasu ein systemau a'n hadroddiadau dylunio a fydd yn ein galluogi i riportio a chipio'r data.
Lleihau'r amser cyfartalog y mae pobl hŷn (sy'n 65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl (SCA/21) Mesur newydd – gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 16/17	✓	989 Mae hwn yn fesur perfformiad newydd sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (6ed Ebrill 2016). Gan fod hwn yn

		fesur riportio newydd, rydym wrthi'n addasu ein systemau a'n hadroddiadau dylunio a fydd yn ein galluogi i riportio a chipio'r data.
Y gyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed y mae oedi cyn trosglwyddo gofal yn effeithio arnynt o achos rhesymau cymdeithasol (SCA/001) <i>Cyfradd Darged 2016/17 2.40 – canlyniad 2.30 (43 o gleientiaid)</i>	✓	2.30 Rydym wedi cyflwyno proses newydd sy'n canolbwyntio ar nodi'n gynharach gleifion sy'n ffit yn feddygol ac yn weithredol sefydlog trwy weithio ochr yn ochr â Nyrsys Cyswllt Rhyddhau i sicrhau y ceir gwybodaeth gywir am bob unigolyn. Mae hyn wedi gwella ac wedi cynnal ein targed. Sylwch: Mae'r canlyniad yn wahanol i 2015/16 gan fod canllawiau'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd yn nodi dylai'r rhifiadur ond cynnwys oedolion 75+ oed
Nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002) <i>Canlyniad 2015/16 - 232 diwrnod) Targed 2016/17 220 o ddiwrnodau.</i>	✓	167 o ddiwrnodau yn ystod 2016-17 sy'n well na chyfartaledd Cymru o 225 o ddiwrnodau, a hwn yw'r canlyniad 4 ^{ydd} gorau yng Nghymru
Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr rhwng cyswllt cychwynnol ar gyfer addasiad a chael asesiad Therapydd Galwedigaethol ar draws pob math o Ddeiliadaeth (7.3.1.10) 2015/16 - 98 o ddiwrnodau. Targed 2016-17 91 diwrnod	✓	68 o ddiwrnod yn ystod 2016-17
Byddwn yn datblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) cadarn ac effeithlon. (12050)	✓	Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu gwasanaeth IAA cadarn. Mae hyn wedi cynnwys symud y tîm Llinell Gofal o Landeilo i Borth y Dwyrain i'r un man â'r tîm Adnoddau Cymunedol, uwch-sgilio holl asiantiaid y Llinell Gofal i ddarparu gwasanaeth IAA, datblygu tîm aml-ddisgyblaethol i fod yn bwynt mynediad cyntaf sy'n cynnwys gwaith cymdeithasol, therapyddion, nyrsys a swyddogion cydnerthu cymunedol. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn gwbl weithredol ac yn ffurfio un pwynt mynediad ar gyfer yr holl ymholiadau gofal cymdeithasol i oedolion.
Byddwn yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau sydd heb eu cwblhau a cheisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. (12051)	✓	Datblygwyd cynllun a gytunwyd gydag Uwch-reolwyr i sicrhau dull cydweithredol o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
Byddwn yn cynnal asesiad poblogaeth ar lefel leol i'w ddefnyddio at ddibenion asesiad anghenion poblogaeth a chynllunio gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd. (12052)	✓	Sefydlwyd grŵp rhanbarthol i wneud cynnydd o ran yr asesiad poblogaeth a ddiffinnir mewn themâu. Mae'r adroddiad hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu ar bob lefel ac yn arwain ar yr adroddiad oedolion hŷn rhanbarthol.
Byddwn yn moderneiddio ein gweithlu er mwyn cefnogi gweithredu'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r amcanion a amlinellwyd yng 'Ngweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Ddegawd Nesaf' a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. (12053)	✓	Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ad-drefnu ac mae rhaglen hyfforddiant lawn wedi cael ei rhoi ar waith ledled y gwasanaeth i sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â chyfarwydddeb ddeddfwriaethol a pholisi.
Byddwn yn cymryd camau ymlaen o ran y Cynllun Darparu ar gyfer Heneiddio'n Dda yng Nghymru a byddwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu â chynlluniau eraill y Cyngor a chyda phartneriaid perthnasol eraill. (12054)	✓	Mae adroddiad blynyddol wedi ei lunio i ddangos perfformiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2015-16. Mae cryn waith wedi ei wneud i sicrhau bod cynlluniau busnes yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Heneiddio'n Dda, ac mae Heneiddio'n Dda wedi cael ei brif ffrydio'n un o Amcanion Llesiant y Cyngor.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu gwybodaeth ansoddol am bobl sy'n defnyddio eu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol drwy holiadur blynyddol. Nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar gyfer gwasanaethau oedolion oedd 626.

Mae hyn yn gyfradd ymateb o 43%. Rydym yn ystyried bod hyn yn uchel dros ben, ac mae'r enghreifftiau o'r ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- ❖ Mae 81% yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu llesiant yn y modd gorau.
- ❖ Dim ond 3% a deimlai nad oedd eu cartref yn cynnal eu llesiant.
- ❖ Teimlai 49% eu bod yn rhan o gymuned.
- ❖ Dywedodd 18% nad oeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.
- ❖ Dywedodd 73% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref fel ei gilydd.
- ❖ Dywedodd 72% o bobl eu bod yn meddwl eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan fydd angen hyn arnynt.
- ❖ Roedd 85% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

O ran gofalwyr sy'n derbyn cynllun gofal a chymorth, anfonwyd 30 o holiaduron i gyd. Derbyniwyd 28 o ymatebion i'r arolwg. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 93%.

- ❖ Teimlai 43% o'r ymatebwyr eu bod yn rhan o gymuned.
- ❖ Teimlai 75% o bobl eu bod yn hapus â'r cymorth yr oeddent yn ei gael gan ffrindiau a theulu.
- ❖ Dywedodd 82% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref fel ei gilydd.
- ❖ Teimlai 71% o bobl eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau am y modd yr oedd eu gofal a'u cymorth yn cael eu darparu.
- ❖ Roedd 89% o'r ymatebwyr yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- ❖ Teimlai 86% o bobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- ❖ Roedd 70% o bobl yn hapus â'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn.

“Rwyf yn hapus â'r gofalwyr, maen nhw'n mynd â fi i gael coffi, i gael bwyd ac i'r eglwys”

Defnyddiwr gwasanaeth yn disgrifio beth sy'n bwysig iddo

Nod: C5 Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd

Rydym wedi darparu'r rhaglen i wella stoc dai y Cyngor ac rydym yn parhau i gynyddu mynediad i fwy o gartrefi sydd ar rent a thai fforddiadwy er mwyn cefnogi anghenion pobl leol.



Bydd **uwchraddiad gwerth £50 miliwn** yn cael ei wneud i stoc dai y Cyngor yn Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf.

Rydym wedi cytuno i fuddsoddi £50 miliwn arall yn ein stoc dai, gan ychwanegu at y swm o £200 miliwn sydd wedi ei fuddsoddi eisoes. Hefyd rydym wedi cytuno i fuddsoddi £36 miliwn arall tuag at wireddu ein hymrwymiad o ddarparu dros 1,000 o dai yn y pum mlynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i fodloni'r angen am dai, lleihau digartrefedd, gwella iechyd tenantiaid a diogelu sgiliau a swyddi ym maes adeiladu.

I gyflawni hyn, rydym wedi cytuno i gynyddu rhent yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd David Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau: *"Mae hyn yn adlewyrchu ein cynllun busnes 30 mlynedd, cynllun Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'n Strategaeth Tai Fforddiadwy.*

"Dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn disgwyl gwario £50 miliwn ar barhau i wella ein stoc dai. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu £36 miliwn i gynorthwyo ein Strategaeth Tai Fforddiadwy a lanswyd gennym y llynedd er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'r cynnydd arfaethedig mewn rhent yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru."

Ar ôl y cyfarfod, dywedodd y Cynghorydd Linda Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai: *"Rwyf yn croesawu penderfyniad y cyngor llawn sy'n ein galluogi i barhau i wella ein stoc dai ac i helpu i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy."*

PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy a'r tai ar rent sydd ar gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy

Dywed ein hasesiad o anghenion wrthym, er mwyn ateb y galw uchaf am dai, y byddai'n rhaid inni ddarparu o leiaf 2,000 o dai fforddiadwy ychwanegol erbyn 2020, sef cyfartaledd o 400 y flwyddyn.

Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein gweledigaeth 5 mlynedd Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. Diben y cynllun hwn yw egluro sut y byddwn yn darparu mwy na **1,000** o dai fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf, sef cyfanswm buddsoddiad o fwy na **£60 miliwn**. Hefyd byddwn yn egluro sut y gallwn bron ddyblu nifer y tai ychwanegol drwy ddatblygu dewisiadau darparu ar gyfer cynlluniau adeiladu newydd.

- Cynyddu'r llety sydd ar rent
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- Adeiladu tai newydd
- Ailddefnyddio tai gwag

Mesurau Llwyddiant Allweddol	Canlyniad 2015/16	Targed 2016/17	Canlyniad 2016/17	Cynnydd
Tai fforddiadwy ychwanegol yn y sir (7.3.2.24)	185	160	173	Wedi gwella

Pam y mae hyn yn bwysig

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym yn gwybod nad yw'r tai hyn ar gael yn achos llawer o leoedd a llawer o bobl. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2015 gwnaethom gyhoeddi Ein Hymrwymiad i Dai Fforddiadwy. Bydd y cynllun hwn yn helpu i unioni'r sefyllfa annerbyniol hon.

Er mai ar dai sydd ar rent fydd y pwyslais, byddwn hefyd yn cydnabod uchelgeisiau a dyheadau ein cymunedau. Felly byddwn hefyd yn galluogi ac yn darparu perchentyaeth cost isel lle mae'n briodol gwneud hynny.

Roedd datblygu ein cynllun tai fforddiadwy yn adlewyrchu ymarfer ymgynghori sylweddol gyda'r cyhoedd a'r sefydliadau partner, a wnaeth bara hyd at ddiwedd mis Mai 2015. Cafwyd bron 800 o ymatebion ac mae'r rhain wedi llunio meysydd blaenoriaeth y cynllun a amlinellir isod:

“Mae'r Cyngor yn ateb yr her enfawr sy'n ei wynebu drwy geisio cau'r bwloch rhwng y galw am dai fforddiadwy a nifer y tai sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd.”

Detholiad o [Adroddiad Gwella Blynyddol](#) Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16”
Cyhoeddwyd Mawrth 2016

Sut rydym yn bwriadu cyflawni'r KIOP eleni

Fe ddwedsoch chi

Fe wnaethom ni

Bod angen cartrefi llai o ran maint, yn bennaf i'w rhentu ac ar gyfer pobl leol. Roeddech am i ni fwyhau'r defnydd o gartrefi presennol, yn enwedig sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio eto.

Rydym wedi datblygu cynllun tai fforddiadwy sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ac sy'n nodi sut y byddwn yn darparu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y 5 mlynedd nesaf, gan fuddsoddi mwy na £60 miliwn.


Mae'r [Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy](#) yn pennu ein gweledigaeth 5 mlynedd i gynyddu'r cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin, wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- ❖ Targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy i'w rhentu
- ❖ Bod yn fwy hyblyg – boed trwy sicrhau bod tai adfeilledig yn cael eu defnyddio unwaith eto, prynu tai presennol neu adeiladu rhai newydd
- ❖ Gwneud beth bynnag sydd ei angen trwy ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o ddarparu rhagor o dai
- ❖ Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl i sicrhau cynifer o dai newydd â phosibl
- ❖ Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau'r rhai sy'n gweithio gyda ni

Dengys y tabl isod ein darpariaeth tai fforddiadwy dros y bum mlynedd nesaf

Darparu Tai Fforddiadwy	Amcan. Nifer y tai	Ffynhonnell y cyllid	Buddsoddiad y Cyfrif Refeniw Tai (£ miliynau)	Cyfanswm buddsoddiad (£ miliynau)
Rheoli tai yn y sector preifat (gan gynnwys yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol)	242	Cyfrif Refeniw Tai	1.1	1.1
Defnyddio tai gwag unwaith yn rhagor	280	Cronfa "Troi Tai'n Gartrefi" Llywodraeth Cymru/Cyfrif Refeniw Tai	4.0	5.6
Prynu tai sy'n bodoli eisoes yn y sector preifat	187	Cyfrif Refeniw Tai	20.2	20.2
Datblygiad Cymdeithas Dai – cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt	59	Y Grant Tai Cymdeithasol		0.5 ²
Datblygiad Cymdeithas Dai – blaenoriaethau'r dyfodol	6	Y Grant Tai Cymdeithasol	0.1	1.0
Ardaloedd Gwledig	43			5.3
Mentrau adfywio	77			10.3
Grant heb ei Ddyrannu				
Adeiladau newydd y Cyngor a chaffael tir Adeilad Newydd: Rhydaman a Dyffryn Aman, Llanelli a'r Cylch Caffael tir Caerfyrddin a'r Gorllewin Trefi Gwledig a Threfi Marchnad Sir Gaerfyrddin	45	Cyfrif Refeniw Tai	5.6	5.6
Cyfraniad datblygwyr at dai yn yr ardal ³	88	Cyllid Preifat		11.0
Cyfanswm	1027*		£31.0	£60.6

*Serch hynny, mae'r asesiad o anghenion a gynhaliwyd yn nodi bod angen inni ddarparu 2,000 o dai fforddiadwy dros 5 mlynedd i ateb y galw uchaf am dai, sef cyfartaledd o 400 o dai flwyddyn. Rydym wedi pennu targed uchelgeisiol o ddarparu 1027 dros yr un cyfnod, sy'n gynydd sylweddol ar gyfartaledd y tai fforddiadwy yr ydym wedi gallu eu darparu yn y gorffennol (70 y flwyddyn). Byddwn yn cynyddu'r ffigur hwn i 200 y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffynonellau cyllid newydd i allu darparu cynifer o dai fforddiadwy cynifer ag y mae'r adnoddau presennol yn ei ganiatáu.



Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 3 o'n 3 ymrwymiad KIOP

Ymrwymiadau'r Llynedd		Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn comisiynu ymchwil er mwyn gwella dealltwriaeth o'r angen am dai mewn ardaloedd gwledig (12058)	✓	Comisiynwyd CBA Associates ym mis Hydref 2016 i gynnal arolygon anghenion tai gwledig dros y blynyddoedd nesaf. Deilliodd y Comisiwn o broses dendro ffurfiol.
Nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu fel rhan o gynllun tai fforddiadwy 2016-21 (7.3.2.24) Gwaelodlin 2015/16 185 - Targed 2016/17 160	✓	Rydym wedi darparu 173 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod 2016-17 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy
Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (PLA/006b) Gwaelodlin 2015/16 8% - Targed 2016/17 30%	✓	Mae canlyniad 2016/17 wedi rhagori ar y targed (34%) ac mae ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 35%. Mae'r mesur hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o flwyddyn ariannol flaenorol 2015/16. Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 15/16 a gostyngiad yng nghyfanswm nifer yr unedau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn honno, ac felly dangosir cynnydd sylweddol yn y ganran ers y flwyddyn flaenorol.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



Mae pâr wedi symud i mewn i fyngalo dwy ystafell wely yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y ffermwyr sydd wedi ymddeol eisiau cartref oedd ar un lefel i ddiwallu eu hanghenion yn well, a chan nad oedd cartrefi ar gael yn stoc dai Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu dewis ardal, prynwyd y byngalo dan yr Ymrwymiad Tai Fforddiadwy.

“Roedden nhw wedi rhoi amrywiaeth o opsiynau inni yn yr ardal, ond doedd dim yn addas mewn gwirionedd. Roedden ni am fyw ger ein merch, ac oherwydd ein bod yn methu ymdopi â'r grisiau mwyach, roedden ni am fyw mewn byngalo.”

“Cyn gynted ag y gwelson ni'r byngalo, roedden ni'n gwybod mai hwn oedd yr un i ni ac 'ie' oedd ein hateb yn syth. Mae'r olygfa dros yr aber yn wych ac mae'n lle braf a thawel. Rydym yn hapus iawn.”

Nod: C6 Gwella'r gallu i gael gofal iechyd a chymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau agored i niwed

Rydym yn helpu pobl i aros yn annibynnol, ac i gadw dewis a rheolaeth dros eu bywydau. I wneud hyn, mae'n bwysig bod pawb yn cael mynediad at y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir ar eu cyfer.

Mae angen gofal neu gymorth ychwanegol ar rai pobl i fyw bywydau egniol ac i wneud y pethau pob dydd y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Ein nod yw eich helpu i gynnal ansawdd bywyd da, neu eich helpu i ganfod pobl eraill a allai helpu.

Rydym yn annog unigolion i chwarae rhan fwy yn eu cymunedau trwy eu hannog i ddefnyddio'r credydau amser Spice, lle caiff person sy'n helpu yn ei gymuned ei wobrwyo am roi o'i amser. Rydym hefyd wedi datblygu ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n darparu cymorth i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen gwybodaeth neu gyngor arnynt ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn yr awdurdod lleol ac yn y gymuned. I gefnogi'r gwasanaeth hwn rydym hefyd yn datblygu'r gwasanaeth DEWIS ar y we, a fydd yn galluogi unigolion i gael mynediad i'r holl wasanaethau cymunedol sydd ar gael iddynt yn eu hardal. Mae gennym hefyd Swyddogion Cydnerthedd Cymunedol sy'n gweithio i'r Awdurdod Lleol a'u hunig rôl yw helpu pobl i nodi gwasanaethau yng nghymuned y person a all ddiwallu ei anghenion. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ym maes iechyd, er enghraifft gyda mentrau megis y rhaglen Foodwise i helpu pobl i ddeall beth yw bwyta'n iach, a rhaglen cleifion arbenigol i hyfforddi pobl sydd â diabetes ynglŷn â sut i fonitro eu symptomau

Caiff y prosiect llythrennedd ariannol Synnwyr Arian ei ddysgu mewn ysgolion lleol, gan ddysgu hanfodion llythrennedd ariannol a rheoli arian. Hyd yma mae 69 o ysgolion wedi mabwysiadu'r rhaglen.

Mae Credydau Amser yn cefnogi'r gwaith o adeiladu cymunedau. Mae'r oriau a roddwyd gan y gymuned ers dechrau partneriaeth Spice â Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Caerfyrddin o'r diwedd wedi codi dros 45,000 i'r ffigur anhygoel o 45,895 awr o sgiliau a phrofiadau a roddwyd gan denantiaid a phreswylwyr Sir Gaerfyrddin drwy Gredydau Amser.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Cynhaliodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) adolygiad o'n gwasanaethau anabledau plant. O ganlyniad i'r canfyddiadau, datblygwyd offer safonol a gynlluniwyd i gefnogi treialu System Dyrannu Adnoddau a fydd yn darparu ffordd deg a thryloyw o ddyrannu gwasanaethau i deuluoedd ag ymagwedd bersonol. Bydd yr ymagwedd hon yn cael ei threialu gyda golwg ar ei chyflwyno ar draws gwasanaethau'n ddiweddarach yn 2017/18.

Roeddem wedi cyflwyno cynnig i'r Bwrdd Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth arbenigol ar safle Garreglwyd i blant a phobl ifanc ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig, a fydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r cyllid penodol ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistig y flwyddyn nesaf. Rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth eleni drwy'r lle ychwanegol sydd ar gael ers i'r ddarpariaeth addysg symud i Ysgol Bro Dinefwr. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu ac mae rhanddeiliaid allweddol o'r gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd ym mis Mai/Mehefin i gytuno ar flaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan AGGCC a arolygodd y gwasanaeth yn ystod mis Awst 2016:

“Roedd y gwasanaeth yn hyblyg iawn wrth ymateb i anghenion staffio y bobl ifanc. Roedd y staff yn gallu cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd, a wnaeth eu helpu i ddeall anghenion a dewisiadau y bobl ifanc’.

Helpu pobl ifanc i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae prosiect Cynnydd (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) ar waith, gan weithio gydag Addysg i helpu pobl ifanc agored i niwed i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a nodi plant anabl y mae perygl y gallent fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae gwaith ar y gweill hefyd i adolygu ein darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol o fewn yr is-adran Cynhwysiant Cymunedol. Bydd hwn yn gyfle i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu moderneiddio ac yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc agored i niwed.

Mae'r Tîm Pontio yn dîm sefydledig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl rhwng 16 a 25 oed ac sy'n cael ei reoli ar y cyd gan y gwasanaethau plant ac oedolion. Drwy ddefnyddio prosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, nod y tîm yw sicrhau bod newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn mor hwylus â phosibl. Nod y tîm yw sicrhau bod pobl ifanc anabl, lle bo'n bosibl, yn cael yr un cyfleoedd â phob person ifanc arall yn y gymuned.

- ✘ Mae'r gwaith o gwmpasu'r strategaeth Pontio ac Anabledd ynghyd ag adolygiad Sefydliad Gofal Cyhoeddus o'r gwasanaethau cyhoeddus, wedi dechrau ers meitin gan gymryd i ystyriaeth ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r diwygiadau sydd i ddod o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu er mwyn bwrw ymlaen â hyn.
- ✓ Rydym wedi datblygu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd yn ystod 2017/18. Mae ein tîm gwybodaeth, cyngor ac asesu newydd yn darparu un rhif, 24 awr y dydd er mwyn cael cyngor a chymorth ynghylch gofal cymdeithasol a bydd hyn, ynghyd â'r penderfyniad i greu gwasanaeth gwaith cymdeithasol pwrpasol y tu allan i'r oriau arferol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion, yn rhoi'r siawns orau bosibl i ni o gael yr help iawn i bobl ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn estyniad o'r gwasanaethau gwaith cymdeithasol sy'n cwmpasu'r Sir yn ystod y dydd, gan gynnwys ysbytai ar benwythnosau. Rwyf yn hyderus ein bod ar flaen y gad ym maes datblygiadau yn y maes hwn yng Nghymru.
- ✓ Mae nifer o brosiectau ar y cyd hefyd ar y gweill yn dilyn ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Canolraddol.
- ✓ Mae adolygiad o'r gwasanaeth dydd a'r ddarpariaeth gofal seibiant wedi cael ei gynnal eleni, sy'n helpu i lunio model gwasanaeth yn y dyfodol. Arweiniwyd hyn gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r staff rheng flaen y mae eu hegni, eu hymroddiad a'u chwant am newid wedi bod yn drawiadol.
- ✘ Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn ystod 2016-17 yn dangos gwelliant, ond rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau adferol mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac adolygiadau yn benodol.
- ✘ Ar y cyfan rydym yn gwneud cynnydd da ac er bod meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt, mae'r sylfaen yno i'n galluogi i wella'n barhaus ac i gyflawni'r amcanion busnes a bennwyd ar gyfer 2017-2020.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



Mae unig dîm pêl-rwyd pob gallu integredig Cymru yn mynd o nerth i nerth.

Dechreuodd Tîm Pêl-rwyd Sêr y Byd ymarfer yn 2010 yn ystod sesiynau Addysg Gorfforol neu amser cinio yn Ysgol Heol Goffa, Llanelli, gydag ond saith chwaraewr.

Dywedodd y prif hyfforddwr fod diddordeb disgyblion wedi cynyddu a'u bod wedi symud ymlaen i sesiynau neilltuedig yng Nghanolfan Hamdden Llanelli bob dydd Gwener, ac mae'r grŵp wedi tyfu i 21 aelod.

Mae'r disgyblion wedi ymuno â chleientiaid a staff yng nghanolfan hyfforddiant i oedolion Coleshill i ffurfio clwb ar y cyd o aelodau o'r ddau ryw.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Caerfyrddin: *"Mae'r clwb pêl-rwyd yn llwyddiant aruthrol ac mae'r aelodau'n edrych ymlaen at y sesiynau, at gwrdd â chyfeillion hen a newydd, ac at gydweithio fel tîm.*

"Mae integreiddio â defnyddwyr Canolfan Coleshill yn ysbrydoli ac mae'n hanfodol mai'r cam nesaf yw cynnwys ysgolion prif ffrwd."

Nod: C7 Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Nododd adolygiad o'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau risg y gall pobl ifanc ddisgyn drwy'r rhwyd rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Argymhellodd yr adolygiad fod gwasanaethau arbenigol i oedolion yn mynd ati i gyfrannu cyn pen-blwydd person ifanc yn 18 oed. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd yn rheolaidd i gynllunio ar gyfer y plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'r **tîm Camddefnyddio Sylweddau a'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd** yn dal i gydweithio'n agos, gan gyfarfod yn rheolaidd i ddyrannu gwaith achos. Datblygwyd cynnig ailstrwythuro i ad-drefnu'r tîm, a fydd yn rhoi mwy o gapasiti ac yn cynnal cysylltiadau rhwng timau gwasanaethau plant eraill.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Eleni rydym wedi gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Camddefnyddio Sylweddau a'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'r ddau dîm yn dal i weithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cael cyfarfodydd rheolaidd i ddyrannu gwaith achos. Penderfynwyd nad oes gwerth integreiddio'r ddau wasanaeth ar hyn o bryd.
- ✓ Datblygwyd cynnig ailstrwythuro i ad-drefnu'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau a fydd yn rhoi mwy o gapasiti ar gyfer gwaith achos ac yn cynnal y cysylltiadau rhwng y timau a thimau gwasanaethau plant eraill.
- ✓ Cafodd hyfforddiant ynghylch Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD) ei gomisiynu a'i ddarparu ar draws yr adran er mwyn i'r staff allu wynebu'r her gynyddol hon. Yn ddiweddar roedd ARBD wedi helpu unigolyn yn ôl i'r gymuned yn dilyn rhaglen gymunedol ddwys.
- ✓ Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau yn gweithio'n agos gyda phrosiect Derwen Newydd sy'n darparu amgylchedd â chymorth i bobl sydd am gael help llaw i ddal ati i barhau i ymwrthod â'r ddiod gadarn. Rydym yn rhan o'r panel dyrannu ac yn mynychu grwpiau llywio, ac yn ddiweddar wedi nodi'r angen i ehangu'r prosiect drwy ddarparu ystafell wely i lawr y grisiau ar gyfer achosion cymhleth.
- ✓ Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau yn dal i reoli cyfarfodydd partneriaeth wythnosol gan edrych ar ddyrannu achosion yn gyflym rhwng Gwaith Cymdeithasol, Hywel Dda a darparwyr Haen 2.
- ✓ Parhau i asesu pobl ar gyfer lleoliadau Haen 4 arbenigol, gan edrych ar y dewisiadau cymunedol lleiaf cyfyngol yn y lle cyntaf.
- ✓ Mynychu Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar ran y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac ymateb i unigolion sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth oherwydd Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau.
- ✓ Mae'r gwasanaeth wedi'i gydnabod fel model arfer gorau, a chyrhaeddodd rownd derfynol yn Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol a gwobrau tîm BASW Cymru.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Derbyniodd Tîm Camddefnyddio Sylweddau Sir Gaerfyrddin a thîm gwaith cymdeithasol Tywi, Teifi, Taf (3T) dystysgrifau am arferion a llwyddiannau arbennig eu gofalwyr/defnyddwyr y gwasanaeth yn y categori Tîm Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd y Cyngorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

"Mae'r dyfarniadau yma yn hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar ein galwedigaeth, arferion gwaith cymdeithasol gwych a sefydliadau cefnogol. Am lwyddiant i dîm gofal cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin! Derbynion ni ganmoliaeth ym mhob categori, sy'n dangos ymroddiad ac ymrwymiad y tîm. Rydym ni'n falch iawn o'r tîm sydd gennym yn Sir Gaerfyrddin."

Dywedodd rhywun a dderbyniodd wasanaeth gan y tîm camddefnyddio sylweddau:

"diolch yn fawr iawn i chi am bopeth a wnaethoch i mi, yn enwedig fy nghael i mewn i ofal adsefydlu a rhoi'r cyfle i mi fod yn berson ac yn rhiant gwell, allwn i ddim fod wedi gwneud hyn hebddoch chi"

Canlyniad D - Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon. Rydym am wella canlyniadau ar gyfer pobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes.



Roedd y Cyfarwyddwr, Gareth Morgans, wedi gosod her i ddisgyblion Blynyddoedd 7-9 ein lleoliadau uwchradd i greu gwaith celf ar y thema '**Eich ardal leol a/neu Sir Gaerfyrddin**' er mwyn gwella ein swyddfeydd.

Roedd staff yr adran a'r ysgolion cynradd wedi pleidleisio dros eu hoff lun ac roedd y **TRI GARETH** ar y panel beirniadu (y Cyng. Gareth Jones, Gareth Morgans a Gareth H. Davies) wedi helpu.

Roedd y llun ar y chwith, o Ganolfan y Gors, yn un o'r ceisiadau buddugol.

Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

- D1 - Darparu'r cyfleodd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb**
- D2 - Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb**
- D3 - Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant**
- D4 - Datblygu Cymdeithas Gynhwysol**
- D5 - Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg**

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) yw:

- Gwella Cyrhaeddiad Dysgwyr
- Lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Gwell cyrhaeddiad addysgol	✓
Gwell cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol	Cynradd ✗ Uwchradd ✓
Llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	✓
Adeiladau ysgolion mewn cyflwr gwell	✓

Ein perfformiad ar gyfer 16/17:

Nod: D1 Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad 2016/17



Llwyddodd ein disgyblion ysgol i gyflawni'r canlyniadau arholiadau gorau erioed o ran TGAU am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan gyflawni 65.1% o gymharu â'r dangosydd cynhwysol allweddol Lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A* i C yn cynnwys mathemateg ac iaith) gyda chanlyniadau profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar bob cam allweddol arall yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill. Hon oedd y bumed flwyddyn yn olynol y cafwyd gwelliant yn y dangosyddion allweddol ar gyfer canlyniadau arholiadau. Mae cyfraddau presenoldeb ysgolion unwaith yn rhagor wedi gwella ac erbyn hyn gryn dipyn yn well nag yr oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl.

Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gael arolygiad o'n gwasanaethau plant gan yr AGGCC o dan y fframwaith arolygu newydd sy'n cyd-fynd â disgwyliau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cawsom ddyfarniad da iawn, gydag ychydig yn unig o argymhellion syml i fynd i'r afael â hwy.

Mae ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yn ei hanterth, gyda phrosiectau datblygu mawr o ran ysgolion yn cael eu cwblhau yn Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol Carreg Hirfaen ac Ysgol Bryngwyn, gyda miloedd o blant ar eu hennill.

Catogoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru:

Prif ddiben y system yw nodi pa ysgolion y mae arnynt fwyaf o angen cymorth. Mae'r system yn un sydd wedi'i llunio ar y cyd rhwng y consortia addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ac mae'n defnyddio'r categori 4 lliw i ddynodi'r lefelau cymorth sy'n ofynnol: **Gwyrdd** – ysgolion hynod effeithiol; i **Goch** – ysgolion y mae arnynt fwyaf o angen cymorth.



- ✓ Mae dros dri chwarter, 79%, o'n hysgolion (Cynradd ac Uwchradd) bellach mewn **categori Gwyrdd neu Felyn**, 2 bwynt canran yn uwch na 2015-16.
- ✓ Mae cyfran yr **ysgolion uwchradd Gwyrdd** yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu 9 pwynt canran o gymharu â 2015-2016.
- ✗ Mae un ysgol gynradd, sef Ysgol y Fro, wedi llithro i'r categori coch ar gyfer 2016. (12074)

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2015/16, bu **Estyn** yn arolygu **15 o Ysgolion Sir Gaerfyrddin** (12 cynradd, 2 uwchradd ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion).

O blith y 15 ysgol a arolygwyd; dyfarnwyd bod gan 2 ysgol arfer sy'n arwain y sector; dyfarnwyd bod 3 ysgol yn ysgolion da; gosodwyd 2 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Monitro gan yr Awdurdod Lleol; gosodwyd 6 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Monitro gan Estyn a gosodwyd 2 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Angen Gwelliant Sylweddol. Y meysydd gwelliant a gafodd eu nodi oedd bod angen i hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad ymhellach i gefnogi dyfarniadau uwch o ran 'safonau' a gwella Arweinyddiaeth a Gwella Ansawdd.

Roedd y Cyngor yn ystyried gwella cyrhaeddiad dysgwyr yn KIOP ar gyfer 2016/17, oherwydd y mae'n hanfodol i ddatblygu addysg yn y sir. Yn y seminar i'r Aelodau ym mis Ebrill 2016, nodwyd bod hon yn brif flaenoriaeth gan yr Aelodau sydd wedi'i chysylltu'n agos ag adfywio. Roedd yr aelodau am sicrhau bod buddsoddi yn parhau i ddatblygu ein hanghenion addysgol ymhellach.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP) Byddwn yn gwella Cyrhaeddiad Dysgwyr

Yr awdurdod yn cyflawni ei ganlyniad gorau erioed o ran cyrhaeddiad dysgwyr am y 3^{edd} flwyddyn yn olynol

Mae addysg yn dal i fod yn o flaenoriaethau pennaf y Cyngor, er mwyn arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau a'r cymwysterau a fydd yn eu galluogi i sicrhau swyddi am gyflog da. Rydym am i Sir Gaerfyrddin fod yn gymuned lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle mae dysgwyr yn gallu cyflawni eu potensial addysgol llawn. Rydym yn parhau i gyflawni gwelliant yn y mesurau isod.

Mesur Llwyddiant Allweddol	Blwyddyn Academaidd 2013/14	Blwyddyn Academaidd 2014/15	Blwyddyn Academaidd 2015/16		
	Canlyniad	Canlyniad	Targed	Canlyniad	Cynnydd
% y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg (L2i) (EDU/017)	58.7%	61.1%	61.6%	65.1%	Wedi gwella

SYLWCH: Mae ein canlyniad ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 yr un peth â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar garfan Blwyddyn 11 ac sy'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nad yw'n wirioneddol gymaradwy â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar 13 Medi 2017, sy'n seiliedig ar 'ddisgyblion oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac nad yw'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol lle mae modd cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Canlyniad Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar gyhoeddiad Uned Ddata Llywodraeth Leol yw 64.5% ac mae'n dal i ddangos gwelliant.

- ✓ Mae ein canlyniad ar gyfer 2015/16 (blwyddyn academaidd) 4 pwynt canran yn well na chanlyniad y flwyddyn flaenorol ac mae'n dangos ein llwyddiant mwyaf hyd yma gyda'r dangosydd allweddol hwn.
- ✓ Mae'r canlyniad hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 60.3% a hwn oedd y 6^{ed} uchaf yng Nghymru.

Pam y mae hyn yn bwysig

Mae % y disgyblion blwyddyn 11 (15/16 oed) sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg yn cael ei hystyried ar hyn o bryd fel y mesur allweddol o gyflawniad ar ddiwedd addysg orfodol. Mae'r canlyniad yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf

Yn ogystal â'r mesur allweddol hwn, rydym yn barnu ein hunain yn ôl y canlynol...

Mesuriadau Perfformiad	Blwyddyn Academaidd dd 12-13	Blwyddyn Academaidd dd 13-14	Blwyddyn Academaidd dd 14-15	Blwyddyn Academaidd dd 15-16	Cyfartaledd Cymru	Sylwadau
Blwyddyn 2 (diwedd y Cyfnod Sylfaen / Babanod) - % y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (mewn iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9)	81.6	84.1	86.8	85.9	87.0	Canlyniad gwaeth nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac mae'r canlyniad yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi ac mae cymorth ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.
Blwyddyn 6 (Diwedd Cyfnod Allweddol 2 / Iau) - % disgyblion CA2 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwyliedig disgyblion Blwyddyn 6 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/003)	85.4	87.4	88.2	89.0	89.0	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r dangosydd pynciau craidd yn CA2 yn parhau i wella ac mae ar ei uchaf erioed, ac erbyn hyn mae'n uwch na chyfartaledd Cymru.

Blwyddyn 9 (Diwedd Cyfnod Allweddol 3 / 3 ^{edd} Flwyddyn Uwchradd) - % sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a Gwyddoniaeth) (EDU/004)	77.1	84.5	85.1	86.3	86.1	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r canlyniadau yn CA3 yn parhau i wella ac maent ar eu huchaf erioed ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.
Blwyddyn 11 (Diwedd Blwyddyn 4 / Uwchradd) % y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor, gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (L2) (5.0.2.2)	78.0	84.7	87.0	89.2	84.0	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru a hwn yw'n canlyniad gorau erioed.
Blwyddyn 13 (Safon Uwch) - % y bobl ifanc 17 oed a gofrestrodd am gasgliad o gymwysterau sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch a gyrhaeddodd Drothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch gradd A-E) (5.0.2.3)	97.3	98.6	98.1	99.5	98.0	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, a'r canlyniad gorau yng Nghymru
Cymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim						
Blwyddyn 11 (Diwedd Cyfnod Allweddol 4 / Uwchradd) % y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf a mathemateg (5.0.3.1)	29.3	28.9	33.7	41.5	35.6	Canlyniad gwell nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

✓ Wedi llwyddo i wella perfformiad disgyblion sy'n **gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim** ar draws pob Cyfnod Allweddol, gyda'r cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer 'L2i' yn parhau i wella'n sylweddol a pherfformio'n well na chyfartaledd Cymru. Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchu effaith y gwaith a wnaed mewn partneriaeth gan ganolbwyntio'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad uwch ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed. (12078)

Sut rydym yn cymharu ag eraill

Er ein bod wedi gwella ein canlyniadau'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, mae'n bwysig peidio â hunanfodlon. Mae 22 o Gynghorau yng Nghymru a gellir cymharu cynnydd Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:- Mae'r tabl isod yn cymharu canlyniadau mesurau allweddol ledled Cymru.

Mesurau	Ein canlyniad am 2015/16 (flwyddyn academaidd) a'r newid	Sut mae ein canlyniadau rheng o'l gymharu a 21 awdurdod yng Nghymru ac os mae newid yn ein sefyllfa																						
		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
		Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau											
		Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15 Flwyddyn Academaidd at ein sefyllfa 2015/16																						
% Disgyblion a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 (EDU/017)	65.1 ↑ 4.0																							
% disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9)	85.9 ↓ 0.9																							
% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	89.0 ↑ 0.8																							
% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	86.3 ↑ 1.2																							
% disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor, gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol (Lefel 2) (5.0.2.2)	89.2 ↑ 2.2																							

Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gwella ar gyfer y Dangosyddion Uwchradd, Lefel 2 (5.0.2.2) a Lefel 2 cynhwysol.

Er bod ein tuedd ar i fyny yn parhau o ran canlyniadau ar gyfer Dangosyddion CA2 a CA3, mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng. Nid oedd y 'naid' i fyny ar gyfer pob un o'r dangosyddion hyn mor amlwg a'r blynyddoedd blaenorol.

Mae ein canlyniad a'n safle cymharol yng Nghymru wedi gostwng ar gyfer Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Tîm Gwella Ysgolion wedi dadansoddi data perfformiad i dynnu sylw at y meysydd penodol lle mae angen cymorth ychwanegol. Mae hyn wedi darparu agenda ddiffiniedig ar gyfer datblygu.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 19 o'n 23 ymrwymiad KIOP

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
Parhau i gyflawni ein Rhaglen Moderneiddio Addysg / Cynllun Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif		
Byddwn yn dirwyn i ben Strategaeth Trawsnewid Ysgolion Uwchradd Dinefwr drwy gwblhau'r buddsoddiad moderneiddio ysgolion yn Ysgol Maes y Gwendraeth, i gyd-fynd â'r buddsoddiadau sylweddol yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Dyffryn Aman a gafodd eu cwblhau yn 2015. Bydd hyn yn dirwyn i ben yr ad-drefnu helaeth o ran darpariaeth ysgolion uwchradd y rhanbarth a buddsoddiad sy'n gyfanswm o £69 miliwn. (12069)	✓	Cwblhawyd yr holl gynlluniau adeiladu ac mae'r holl adeiladau wedi'u meddiannu , a hawliwyd cyfanswm grant o £57.3 miliwn yn llawn yn 2015/16. Cynhaliwyd agoriad swyddogol Ysgol Dyffryn Aman ym mis Rhagfyr 2015 ac agorwyd Ysgol Bro Dinefwr yn swyddogol ym mis Hydref 2016 ac Ysgol Maes y Gwendraeth ym mis Tachwedd 2016.
Byddwn yn buddsoddi tua £19 miliwn mewn prosiectau sylweddol o ran adeiladu a moderneiddio ysgolion yng Nghoedcae, Seaside, Trimsaran, Llangadog a Pharc y Tywyn. (12070)	✓	Yn ystod 2016-17 cafodd cyfanswm o £19 miliwn (gan gynnwys grant o £10.2m gan Lywodraeth Cymru) ei wario ar brosiectau sylweddol o ran adeiladu a moderneiddio ysgolion yng Nghoedcae, Seaside, Trimsaran, Llangadog a Pharc y Tywyn.
Byddwn yn cynyddu nifer y lleoedd gwag a gafodd eu dileu o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin (4.3.1.7) Canlyniad 2015/16 – 394 / Targed 2016/17 - 141	✓	Cyfanswm o 141 o leoedd gwag wedi eu dileu yn ystod 2016/2017 ar sail cau 2 ysgol ac adeiladu 1 o'r newydd ag ychydig yn llai o gapasiti.
Byddwn yn cynyddu % yr ysgolion y graddiwyd bod cyflwr adeilad yr ysgol yn "Dda" (Categori A) neu'n "Foddhaol" (Categori B). (4.3.1.8) Canlyniad 2015/16 – 55% / Targed 2016/17 - 56%	✓	Mae cyflwr adeilad 57% o ysgolion wedi'i raddio ar hyn o bryd fel "Da" neu "Foddhaol", ac mae graddau adeiladau tair ysgol uwchradd wedi gwella, sef Dyffryn Aman a Bro Dinefwr oherwydd bod prosiectau adeiladu wedi eu cwblhau a'r Strade gan fod prosiect adnewyddu wedi cael ei gwblhau.
Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol – Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif		
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 95.2% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 95.4%	✗	Roedd presenoldeb ysgolion cynradd wedi gostwng yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 i 94.8% , gan ein symud o'r 5ed safle yng Nghymru i'r 13 safle. Mae dadansoddi yn dangos bod cynnydd o 0.1% mewn absenoldeb oherwydd bod disgyblion yn sâl a bod cynnydd o 0.3% oherwydd gwyliau teuluol a gytunwyd
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion cynradd (4.1.2.3) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 4.0 / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 – 3.9%	✗	Absenoldeb awdurdodedig mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 i 4.4% gydag 0.1% oherwydd bod disgyblion yn sâl a 0.3% oherwydd gwyliau teuluol a gytunwyd.
Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU/016b) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 94.2% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 94.4%	✓	Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i wella ac roedd yn 94.5% yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, gan ein symud o'r 9 ^{fed} i'r 8 ^{fed} safle yng Nghymru.
Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion uwchradd (4.1.2.2) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 5.1% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 5.0%	✓	Mae absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion uwchradd wedi lleihau ymhellach i 4.9% yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16.
Asesiadau Athrawon ac Arholiadau		
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg (EDU/017) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 61.1% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 61.6%	✓	Rydym wedi rhagori ar ein targed gan fod 65.1% o ddisgyblion wedi cyrraedd trothwy Lefel 2 yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hwn yn gynnydd da o 4 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2 yn cyflawni iaith, mathemateg a datblygiad personol) (5.0.2.9) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 86.8% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 87.3%	✗	Mae % y disgyblion a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 heb fod yn unol â'r targed, gan ei bod yn 85.9% , ac mae wedi gostwng 0.9 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Tim Gwella Ysgolion wedi dadansoddi data perfformiad i dynnu sylw at y meysydd penodol lle mae angen cymorth ychwanegol. Mae hyn wedi darparu agenda ddiffiniedig ar gyfer datblygu.

Byddwn yn symud argymhellion adroddiad y Cyfnod Sylfaen yn eu blaenau (12071)	✓	Mae'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu yn parhau i gael eu cefnogi'n dda drwy hyfforddiant â ffocws, ymchwil a chymorth pwrpasol wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion unigol yr ysgol.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion CA2 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylledig disgyblion Blwyddyn 6 mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/003) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 88.2% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 88.7%	✓	Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 bu i 89% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd sef canlyniad gorau yr Awdurdod Lleol hyd yn hyn gan ddilyn ein tuedd barhaus ar y fyny. Yn anffodus, rydym wedi disgyn o'r 10 ^{fed} safle i'r 11 ^{eg} safle yng Nghymru.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion CA3 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (perfformiad disgwylledig disgyblion Blwyddyn 9 mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) (EDU/004) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 85.1% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 85.6%	✓	Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 bu i 83% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 gyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd sef canlyniad gorau yr Awdurdod Lleol hyd yn hyn gan ddilyn ein tuedd barhaus ar y fyny. Yn anffodus, mae eraill wedi gwella mwy ac rydym wedi symud o'r 8 ^{fed} safle i'r 14 ^{eg} safle yng Nghymru.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU neu ragor gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol(5.0.2.2) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 87.0% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 87.5%	✓	Roedd 89.2% o'r disgyblion wedi cyflawni 5 TGAU neu ragor gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Roedd cynnydd o ran her a monitro perfformiad mewn ysgolion wedi arwain at y canlyniadau gorau erioed i'r Awdurdod Lleol.
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg (5.0.3.1) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 33.7% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 34.2%	✓	% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg wedi rhagori ar ein targed yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 ac yn 41.5% gan ddangos cryn welliant.
Byddwn yn gwella deilliannau i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog. (12072)	✓	Mae ffocws parhaus wedi bod ar sicrhau a gwella cyrhaeddiad dysgwyr mwy abl a thalentog drwy gydol y flwyddyn. Roedd canlyniadau dangosyddion perfformiad allweddol Cyfnod Allweddol 4 yn dangos eu canlyniadau uchaf hyd yn hyn.
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch gradd A-E)(5.0.2.3) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 98.1% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 98.6%	✓	Roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd drothwy Lefel 3 (2 safon uwch gradd A-E) wedi gwella ymhellach yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 (99.5%) a hwn oedd y canlyniad gorau yng Nghymru.
Gweithredu fframwaith cefnogaeth, her ac ymyrraeth rhanbarthol cyson		
Byddwn yn gweithio i wella ansawdd arweinyddiaeth a'i heffaith ar wella deilliannau ledled y consortiwm. (12073)	✓	Rydym wedi cynnal adolygiad o 'ansawdd ac effaith arweinyddiaeth' pob ysgol drwy ymweliadau Craidd blynyddol ERW. Mae arweinwyr ysgol (gan gynnwys llywodraethwyr) ar draws y gweithlu yn parhau i dderbyn cymorth, arweiniad a chyfluoedd datblygu i gefnogi arferion a chanlyniadau gwell.
Byddwn yn cynyddu cyfran yr ysgolion a ddynodwyd â chategori cymorth 'Gwyrdd neu Felyn' o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion (12074)	✓	Mae dros dri chwarter, 79%, o'n hysgolion bellach mewn categori Gwyrdd neu Felyn, 2 bwynt canran yn uwch na 2015-16.
Gwella deilliannau Arolygiadau Ysgol Estyn		
Byddwn yn cynyddu % y Canlyniadau Da neu Well yn Nyfarniadau Estyn (12075)	✓	Mae % y Canlyniadau Cyffredinol yn Nyfarniadau Estyn wedi cynyddu i 91% o 50%. Cyfanswm nifer yr ysgolion a arolygwyd ag adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2016-17 = 11 (10 cynradd / 1 uwchradd).
Gostwng gwaharddiadau cyfnod penodol		
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn Ysgolion Cynradd (EDU/010b) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 0.015% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 0.013%	✓	Roedd 0.013% o ddiwrnodau ysgol wedi'u colli mewn Ysgolion Cynradd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac yn cyfateb i 284 diwrnod o gymharu â 334 diwrnod y flwyddyn flaenorol.
Byddwn yn gostwng % y diwrnodau ysgol sy'n cael eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd (EDU/010b) Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 0.039% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 - 0.037%	✗	Roedd 0.046% (837.5 diwrnod) o ddiwrnodau ysgol wedi cael eu colli mewn Ysgolion Uwchradd o achos gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hwn yn gynydd o 115.5 diwrnod o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r patrwm yn amrywio o ysgol i ysgol gyda phedair ysgol yn lleihau

	nifer eu diwrnodau o waharddiadau tra bo'r lleill wedi cynyddu ychydig, ond roedd un ysgol wedi cynyddu 60%.
Datblygu gwerthoedd a sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes	
Byddwn yn cyflwyno cyrsiau llythrennedd, rhifedd, a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r Sir (12076)	✓ Mae darpariaeth y cyrsiau hyn ar gyfer y flwyddyn 2015-2016 wedi'i chwblhau. Cynigiwyd rhaglen lawn a pharhaus o ddsbarthiadau llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) mewn canolfannau yn Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin ar gyfer 2016-17 ac roedd y niferoedd oedd wedi cofrestru ar gyfer y dosbarthiadau hyn wedi bod yn dda.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?


Ymrwymadau'r Llynedd:

- ✓ Roeddem wedi cynyddu % y rhai 15/16 oed a gyflawnodd y **Dangosydd Pwnc Craidd yn CA4** (y disgyblion hynny gyflawnodd gradd C o leiaf mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd) i **62.34%**, sy'n uwch na'r targed o 58.7% gan wella ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol o 58.22% (5.0.2.6)
- ✓ Roeddem wedi cynyddu'r **sgôr pwyntiau cyfartalog** ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol i **596.0%**, sy'n uwch na'r targed o 581.0% gan wella ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol o 580.3%. Hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod erioed a'r gorau yng Nghymru. (EDU/011)
- ✓ Rydym wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio **Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus** yn ystod y flwyddyn o 7,203 i **7,646** am bob 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn bennaf oherwydd mwy o ymgysylltu o ran yr ysgol a'r person ifanc a gwelliannau cyson o ran y defnydd o'r adnoddau digidol ar-lein a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd. (LCL/001b) Mae 98,104 o drigolion Sir Gaerfyrddin yn aelod o lyfrgell. O'r 22 o Awdurdodau, mae gennym yr ail nifer uchaf o ddefnyddwyr llyfrgell yng Nghymru, ac yng Nghaerdydd mae'r uchaf.
- ✓ Mae menter 'Cael pob plentyn yn aelod o lyfrgell' (ECALM) (Gwasanaethau Llyfrgelloedd ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth) i ddarparu 'profiad llyfrgell' ar gyfer plant ym mlwyddyn 4. (Cyfranogiad gan 1268 o blant o 30 o ysgolion).
- ✓ [Dechrau da](#) (Bookstart) – rhoddir pecyn llyfr dwyieithog am ddim i bob plentyn er mwyn annog cariad at ddarllen gydol oes pan fydd yn cofrestru yn unrhyw un o dair o Lyfrgelloedd Rhanbarthol Sir Gaerfyrddin. Y Reading Agency sy'n cefnogi [Her Ddarllen yr Haf](#) sy'n annog plant i ddarllen chwe llyfr llyfrgell, casglu sticeri a phethau eraill, ac roedd mwy na 379 o blant o Lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wedi cymryd rhan yn ystod haf 2016.
- ✓ Mae Oriel Myrddin yn gweithredu Clwb Artistiaid Ifanc ar gyfer plant 8-11 oed ac 'Artlab Club' bob pythefnos i bobl ifanc 12-15 oed (gyda chonchesiynau ar gyfer teuluoedd incwm isel).
- ✓ Roedd 1300 o ddisgyblion ysgol wedi ymweld ag Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin, gyda blychau benthyca gan yr ysgolion ar gael i 2500 o ddisgyblion.
- ✓ Y Reading Agency sy'n cefnogi [Her Ddarllen yr Haf](#) sy'n annog plant i ddarllen chwe llyfr llyfrgell, casglu sticeri a phethau eraill, ac roedd mwy na 379 o blant o Lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wedi cymryd rhan yn ystod haf 2016.
- ✓ Roeddem wedi parhau i ddal **ERW** a'r holl ysgolion i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth mewn ysgolion lle nad yw perfformiad yn foddhaol. Cynhaliwyd Ymweliadau Craidd gennym ar gyfer gwerthuso canlyniadau perfformiad ysgol a chynnal Categori Cenedlaethol ac adolygu'r ddarpariaeth Dysgu ac Addysgu. Mae Panel Craffu yr Awdurdod Lleol wedi parhau â'i waith gwerthfawr drwy wahodd ystod o ysgolion ar draws yr holl Gyfnodau i gyflwyno trosolwg ar eu cynnydd, eu llwyddiant a'r meysydd sy'n peri pryder iddynt i'r Panel. Mae'r gwaith parhaus o fonitro a chraffu ar ein 'Hysgolion sy'n Destun Pryder' wedi parhau i gael ei herio a'i gefnogi. (12077)

- ✓ Rydym wedi cwblhau a chyhoeddi **Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin 11-19** mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr eraill, gan ymgorffori datblygiadau polisi cenedlaethol, yn unol â'r strategaeth ddatblygu Palmantu'r Ffordd. (12079)
- ✓ Roeddem wedi cwblhau'r holl gamau fel y manylwyd arnynt yn y **Rhaglen Moderneiddio Addysg** ar gyfer 2016-17 mewn perthynas â Phrosiectau Adeiladu, Cynigion Trefniadaeth Ysgolion, Achosion Busnes, Data, Lleoedd Ysgol, Dalgylchoedd a Rheoli Ystadau (12080)



Cynhaliwyd agoriad swyddogol Ysgol Dyffryn Aman ym mis Rhagfyr 2015 ac agorwyd Ysgol Bro Dinefwr (gweler y llun) yn swyddogol ym mis Hydref 2016 ac Ysgol Maes y Gwendraeth ym mis Tachwedd 2016


 *Gweler adran 'Parhau i gyflawni ein Rhaglen Moderneiddio Addysg / Cynllun Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif' o'r Ymrwymadau KIOP uchod i gael manylion ychwanegol.*

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae ystadegau gan [Stats Cymru](#) yn dangos bod gan 37.4% o oedolion o oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin gymwysterau hyd at Lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn 2015 (33.6% yn 2015). Mae hyn yn welliant cyson wrth gymharu â'n ffigur o 22.8% yn 2005, a bellach mae'r un peth â chyfartaledd Cymru.


Mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau eto i 9.7% yn 2016 o 11.1% yn 2015. Mae hyn yn parhau â'r duedd ar gyfer gwella ar ffigur 2008 sef 16.1%.

Roedd canlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar o [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#) yn dangos bod **93%** o drigolion yn Sir Gaerfyrddin yn fodlon ar **Ysgol Gynradd** eu plentyn. Hwn yw'r canlyniad **5^{ed} gorau** yng Nghymru.




Mae'r Awdurdod wedi cydweithio drwy Adolygiad Gorchwyl a Gorffen i gefnogi 'Cau'r Bwlch Cyrhaeddiad ar gyfer Dysgwyr **sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.**' Rhoddodd y gwaith helaeth hwn fod i ddogfen ddefnyddiol ac ymarferol i'w defnyddio fel adnodd gwerthfawr yn ein holl ysgolion. Mae ei negeseuon allweddol yn cynnwys:

- Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin yn rhoi llawer o bwyslais ar godi safonau a chyflawniad ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy amrywiaeth o ymyriadau cynnar a gwell cyfleoedd cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau profiadau cyfoethog a gwell canlyniadau.
- Mae ein hysgolion yn gallu dangos tystiolaeth o nifer o elfennau o 'fentrau arfer da' (fel y cyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen) sy'n effeithiol o ran lleihau effaith tloidi ar ymgysylltu a photensial dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Mae dadansoddiadau o ddata perfformiad dros amser yn dangos bod safonau'n dal i wella ar ddiwedd yr holl gyfnodau allweddol ar gyfer pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Mae arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion a gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn modd cynaliadwy.



Canlyniadau Gwell ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal

Rydym wedi parhau i berfformio'n dda wrth gynnal plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol (2^{il} yng Nghymru yn ystod 2015/16) sydd wedi arwain at ddeilliannau addysg da. Mae'r Gwasanaethau Rhianta Corfforaethol yn parhau i gefnogi ysgolion ac i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol.



- ✓ Cyflawnodd 56.6% o'r plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (SCC/29a)
- ✓ Cyflawnodd 18.0% o'r plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 4 (SCC29b)
- ✓ Gadawodd yr **Holl Ddisgyblion sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol**, (a oedd yn 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol) a adawodd addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith gyda chymhwyster allanol cymeradwy

Presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion: Gweler Nod D3 Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant

Nod: D2 Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb

Ym mis Rhagfyr 2013 mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Datblygu Economaidd 2013–2030 Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Yn y strategaeth, ystyrir bod **gwella sgiliau a hyfforddiant i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb** yn hanfodol i ddatblygu economi wybodaeth ffyniannus a chynaliadwy â chyflogaeth lle ychwanegir gwerth uchel, a fydd yn golygu y bydd angen gwneud gwelliannau sylweddol i'n lefelau sgiliau, fel bod pobl leol yn gallu cynnig y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen ar fusnesau gwybodaeth-ddwys.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad 2016/17**Cyfoethogi'r Cwricwlwm**

Rydym wedi parhau i ddarparu ystod o brofiadau cyfoethogi'r Cwricwlwm sydd wedi cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

Cymryd rhan mewn **cystadlaethau darllen ac ysgrifennu** megis: cwis Cyngor Llyfrau Cymru 2015-16, lle enillodd Ysgol Llannon y Rownd Genedlaethol ar gyfer blynyddoedd 3 a 4; Cwis Llyfrau newydd ar gyfer CA3, gyda disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol y Strade yn ennill; BookSlam 2015-16 sef cystadleuaeth ddarllen genedlaethol gan Gyngor Llyfrau Cymru, gydag Ysgol Glanyfferi ac Ysgol Gynradd Tre Ioan yn cyrraedd y Rownd Genedlaethol; ac ugain o ddisgyblion 'Mwy Abl a Thalentog' o CA3 yn cymryd rhan yn ein Sgwad Sgwennu Cymraeg tymhorol.


Mae Menter **Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig** yn gwahodd ysgolion ledled Cymru i ymgymryd â phrosiectau treftadaeth a'u cyflwyno ar gyfer y gystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol hon, ac roedd eleni'n flwyddyn lwyddiannus arall i ysgolion yn Sir Gaerfyrddin gan i chwe chynnig ddod yn fuddugol.

Eleni roedd **partneriaeth y Scarlets** wedi canolbwyntio ar e-lyfrau ac roedd pump o **ysgolion Arloesi Digidol** yn Sir Gaerfyrddin wedi ystyried gwahanol agwedd ar brofiad y Scarlets megis diwrnod gêm ac effaith amgylcheddol y stadiwm.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn sir **Masnach Deg** ers bron i saith mlynedd. Mae nawdeg o ysgolion wedi cofrestru ar y cynllun Masnach Deg ac mae 20 ysgol wedi gweithio'u ffordd drwy'r rhaglen lawn ac wedi ennill baner Masnach Deg.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Cafwyd gostyngiad bach yn y cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn ein canlyniadau dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd cynnydd o 1 pwynt canran yn y nifer sy'n cwblhau cyrsiau tra bo'r gyfradd cyrhaeddiad wedi gostwng 4 pwynt canran. Mae hyn yn dilyn 5 mlynedd o welliant parhaus.



Cwblhau: o blith yr holl weithgareddau dysgu ar y cychwyn, faint gafodd eu cwblhau (Bod y dysgwr yn dal yno ar ddiwedd y cwrs)?

Cyrhaeddiad: o blith yr holl weithgareddau a gafodd eu cwblhau, faint o ddysgwyr fu'n llwyddiannus yn ennill y cymhwyster yr oeddent yn astudio ar ei gyfer?

Llwyddiant: mae hyn yn cyfuno cwblhad a chyrhaeddiad mewn un mesur cyffredinol: o blith yr holl weithgareddau dysgu ar y cychwyn, faint gafodd eu cwblhau a'u cyflawni'n llwyddiannus?

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Ymrwymadau'r Llynedd:

- ✓ Mae elfennau dynodedig y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** wedi cael eu cyflawni o fewn y sir. Mae cyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed bellach yn digwydd ar hyn o bryd yn dymhorol ym mhob un o Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyfarfodydd hyn yn nodi pobl ifanc y mae perygl y gallent ddod yn NEET ac yn galluogi cymorth ychwanegol i gael ei roi iddynt, mewn rhai achosion drwy gais Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cynnydd. (12086)
- ✓ Mae gwaith Grŵp **Dysgu Oedolion yn y Gymuned** Sir Gaerfyrddin wedi parhau yn ystod blwyddyn 2016-2017, a dylanwadwyd ar hynny gan y canllawiau strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ac Estyn ynghylch rôl y cyrff hyn yng ngwaith y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y dyfodol. (12087)
- ✓ Mae **adolygiad Cwricwlwm 11-19 Sir Gaerfyrddin** wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Roedd yr adolygiad yn nodi gweledigaeth unigryw a rennir ar gyfer Cwricwlwm 11-19 o fewn y sir, sydd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth agos ag ysgolion a Choleg Sir Gâr. Mae'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn nodi sut y bydd y cwricwlwm lleol yn datblygu i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau. (12088)
- ✓ Mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Penfro, Coleg Sir Benfro a Choleg Sir Gâr, mae rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi cael ei rhoi ar waith i gefnogi pobl ifanc **abl a thalentog** ym Mlwyddyn 12 sy'n dymuno symud ymlaen i'r prifysgolion mwyaf cystadleuol. (12089)

Llwyddiannau Allweddol Eraill:

- ✓ Gwasanaethau Cerdd – tymor proms ysgol llwyddiannus, a llwyddiant i'r Côr Merched Hŷn yn yr ŵyl Music for Youth, a oedd yn teilyngu perfformiad yn Neuadd Albert yn Llundain, ac ennill cystadleuaeth gorawl Côr Cymru, gan gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Eurovision yn Latfia.
- ✓ Cymraeg i Oedolion – rydym wedi sicrhau contract 2 flynedd i ddarparu Cymraeg Addysg Gymunedol ac yn ddiweddar rydym wedi tendro'n llwyddiannus i gael bod yn rhan o'r fframwaith cenedlaethol Cymraeg yn y Gweithle.
- ✓ Gwobr Dug Caeredin yn Sir Gaerfyrddin oedd yr un oedd yn perfformio orau o hyd yng Nghymru am y cyfnod:
 - Dyfarniadau a gwblhawyd: Efydd - 450; Arian - 85; Aur – 67 - Cyfanswm: 602
 - Swyddi newydd: Efydd - 763; Arian - 133; Aur – 87 - Cyfanswm: 983.

Mae'n bwysig iawn i wella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc. Nodwyd bod hwn yn KIOP ar gyfer 2016/17.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Byddwn yn lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Gostyngiad o 40% yn y rheiny sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn dod yn bobl ifanc NEET

Roedd yn hanfodol fod y Sir yn ymdrechu o'r newydd i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Cafodd y gwaith hwn ei gefnogi gan fentrau adolygu'r cwricwlwm sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan yr Adran Addysg a Phlant, ac amrywiaeth o raglenni gwaith sy'n ymwneud ag addysg gan y Tîm Adfywio. Yn ogystal, roedd y gweithgareddau a ddarperir trwy brosiect Cynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi helpu pobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn ystod cyfnod addysg Ôl 16.

Mesur Llwyddiant Allweddol	Blwyddyn Academaidd 2013/14	Blwyddyn Academaidd 2014/15	Blwyddyn Academaidd 2015/16		
	Canlyniad	Canlyniad	Targed	Canlyniad	Cynnydd
% ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1)	3.4% (69 / 2016)	3.5% (69 / 1962)	3.0%	2.1% (40/1892)	Wedi gwella
% ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2)	6.0% (46 / 767)	2.8% (21 / 761)	2.6%	2.0% (14/702)	Wedi gwella

Mae gwaith partneriaeth gan ysgolion, staff gwasanaethau cymorth ieuencid ac asiantaethau allanol gan gynnwys Gyrfa Cymru i ddarparu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid yn Sir Gaerfyrddin wedi arwain at ostyngiad yn nifer a chanran y bobl ifanc sy'n dod yn NEET. Er bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol yn gyffredinol, gan fod llai o allu gan Gyrfa Cymru i ganfod cyrchfannau pobl ifanc, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc y mae eu statws yn anhysbys, 1.59% (30 o ddisgyblion) o gymharu â 0.05% (10 o ddisgyblion) y flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol bod rhai o blith y garfan hon yn NEET ac mae rhagor o waith ar y cyd drwy'r grŵp Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (SEET) yn digwydd i fynd ar drywydd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.


Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ostwng nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru.

Felly mae gostwng nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET ar ôl gadael blwyddyn 11 yn hanfodol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau posibl ar gyfer y garfan hon. Mae sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu symud ymlaen i'r chweched dosbarth, Colegau Addysg Bellach, hyfforddiant neu waith yn helpu i sicrhau nad yw dysgwyr o oedran gadael ysgol statudol yn cael profiad o effaith tlodi a'u bod yn gallu cyfrannu at eu cymunedau a'r economi ehangach. Mae sicrhau bod disgyblion yn ymwneud â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant ôl-16 oed hefyd yn gostwng y costau ehangach i gymdeithas o ran dibynnu ar fudd-daliadau a chostau cyhoeddus troseddu.

Sut rydym yn cymharu ag eraill?

- **Blwyddyn 11** - Mae Sir Gaerfyrddin yn safle 16 o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ond dim ond 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan sef 2.0%. Er bod amrywiaeth o amgylchiadau lleol wedi cyfrannu at ein perfformiad, bydd angen i ni ystyried pam y mae llawer o'r Awdurdodau Lleol eraill yn dangos gostyngiadau sylweddol iawn o ran niferoedd ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn a gofyn i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am gymorth.



- **Blwyddyn 13** - Ar ôl cwblhau Blwyddyn 13, mae ein perfformiad yn gydradd drydydd o blith y 22 awdurdod lleol, yn well na chyfartaledd Cymru o 3.1%, ac yn welliant ar ein perfformiad yn 2016 o 2.8%.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 9 o'n 9 ymrwymiad KIOP

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ *	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.1) <i>Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 3.5% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 3.0%</i>	✓	Roedd 2.1% (40 o ddisgyblion allan o 1892) o'r rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol o 3.5% (69 allan o 1962)
Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (5.1.0.2) <i>Blwyddyn Academaidd 2014/15 – 2.8% / Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16 2.6%</i>	✓	Roedd 2.0% (14 o ddisgyblion allan o 702) o'r rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol o 2.8% (21 allan o 761).
Byddwn yn gweithredu'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn llawn ym mhob Ysgol Uwchradd ar gyfer Blynyddoedd 7-11 er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod yn gynnar yr holl bobl ifanc a allai ddod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (12081)	✓	Bellach mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn cael ei ddefnyddio ym mhob lleoliad ysgol uwchradd. Bydd data o'r proffil yn cael ei ddefnyddio i nodi'r bobl ifanc a allai elwa ar gymorth a dargedwyd drwy brosiect 'Cynnydd' Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
Byddwn yn diweddarau ac yn ehangu map Darpariaeth Sir Gaerfyrddin ac yn cynnal adnodd ar y we i dynnu sylw at y wybodaeth hon drwy hwb Un Sir Gâr. (12082)	✓	Cafodd map Darpariaeth Sir Gaerfyrddin ei ddiweddarau a'i ddsbarthu'n llwyddiannus i ddarparwyr perthnasol drwy hwb Un Sir Gâr.
Byddwn yn gweithredu elfennau o brosiect Cynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop Sir Gaerfyrddin er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (12083)	✓	Mae Prosiect Cynnydd bellach yn gwbl weithredol, ac mae elfennau ohono yn cael eu cynnal gan staff prosiectau Cyngor Sir Caerfyrddin, prosiectau a gaffaelir ac yng Ngholeg Sir Gâr. Hyd yn hyn mae elfennau CSC o'r prosiect wedi gweithio gyda tua 100 o bobl ifanc
Byddwn yn cefnogi datblygu prosiect rhanbarthol Cam Nesa Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn darparu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd. (12084)	✓	Roedd y gwaith papur mewn perthynas â phob prosiect yn Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno gan Sir Benfro fel rhan o'r cais rhanbarthol i'r gronfa. Mae'r cais bellach yn disgwyl penderfyniad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sydd wedi cael ei atal am y tro o achos y cyfyngiadau ar gyfrif cyhoeddus oherwydd y 'cyfnod cyn yr etholiad'.
Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34a) Mesur newydd - gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 16/17	✓	Roeddem wedi cefnogi 56.3% yr holl bobl sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal. <i>Byddwn yn defnyddio'r canlyniad hwn fel ein gwaelodlin i lunio targedau ar gyfer gwelliant wrth symud ymlaen.</i>
Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34b) Mesur newydd - gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 16/17	✓	Roeddem wedi cefnogi 50% yr holl bobl sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal. <i>Byddwn yn defnyddio'r canlyniad hwn fel ein gwaelodlin i lunio targedau ar gyfer gwelliant wrth symud ymlaen.</i>
Byddwn yn sicrhau bod panel newydd ar gyfer Pobl Ifanc Sy'n Agored i Niwed yn cael ei roi ar waith i gydlynu cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed yng Nghyfnod Allweddol 4. (12085)	✓	Mae panel Pobl Ifanc Agored i Niwed newydd wedi cael ei sefydlu bellach ac mae'n cwrdd bob deufis.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae'r tîm **Cam Nesaf** yn darparu ystod gynyddol o hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gadael gofal er mwyn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ar hyn o bryd mae gennym 40 o bobl a adawodd ofal mewn addysg bellach, 13 mewn gwaith amser llawn, 13 ar gynlluniau hyfforddi a 4 mewn Addysg Uwch.

- ✓ mae 56.3% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2015/16 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 9 allan o 16 o bobl ifanc).
- ✓ Mae hanner (50%) o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2014/15 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 10 allan o 20 o bobl ifanc).
- ✓ Mae 30+ o bobl ifanc bellach yn cael mynediad i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ac yn aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed os yw'n briodol.



DIGWYDDIAD BLASU COLEG SIR GÂR YN YSBRYDOLI POBL IFANC I WNEUD CAIS AM GYRSIAU

Bu staff y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid oedd ynghlwm wrth roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith yn gweithio gyda chydweithwyr yng Ngholeg Sir Gâr trwy dargedu ac atgyfeirio disgyblion Blwyddyn 11 nad oeddent wedi penderfynu beth oeddent am ei wneud o ran opsiynau yn 16 oed, wrth adael ysgol.

Mynychodd 11 o bobl ifanc Wythnos Blasu yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Aeth pob un o'r 11 o bobl ifanc ymlaen i wneud cais am gyrсияu, a hefyd ychwanegu at eu ceisiadau ar ôl cymryd rhan yn nigwyddiad blasu yr wythnos.


ceisiadau ar ôl cymryd rhan yn nigwyddiad blasu yr wythnos.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

- ✓ Rydym wedi cynyddu'r nifer sy'n mewngofnodi i blatfform Hwb, yn cynnwys Office 365, gan 57% (770,132 wedi mewngofnodi o gymharu â 490,761 y flwyddyn flaenorol)

Beth ddigwyddodd i'r bobl ifanc adawodd yr ysgol yn 2015/16?

Roedd 96% o ddisgyblion Blwyddyn 11 (Blwyddyn Academaidd 2015-16) wedi mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y gweithle. Bu cynnydd bychan o 1 pwynt canran, o gymharu a'r flwyddyn flaenorol, yn y nifer sy'n parhau mewn addysg amser llawn a chynnydd o 1 pwynt canran yn y nifer sy'n dechrau swydd neu hyfforddiant yn y gweithle.



LANSIO CANOLFAN RAGORIAETH NEWYDD AR GYFER ADEILADU

Mae cam nesaf Pentref Galwedigaethol newydd Llanelli wedi cael ei ddatgelu.

Canolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau adeiladu, sydd wedi'i hadeiladu ar safle Ysgol Bryngwyn, yw elfen ddiweddaraf y cynllun i gael ei lansio'n swyddogol. Bydd y gwaith datblygu yn dechrau cyn bo hir er mwyn creu cyfleuster hyfforddiant arlwyo arbenigol yn Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd; cyfleuster technoleg cerddoriaeth yn Ysgol Coedcae; cyfleuster celfyddydau perfformio a chyfryngau yn Ysgol y Strade; a chyfleuster gofalu a gofal plant yn Ysgol Glan-y-môr.

Mae'r pentref galwedigaethol yn cael ei wireddu drwy gyfrwng Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, gyda chyllid gan fenter Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru.

Bydd disgyblion yn gallu mynychu unrhyw un o'r pum elfen sy'n rhan o'r pentref, waeth pa ysgol maen nhw'n ei mynychu gan greu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolion o ran dysgu galwedigaethol.

Mae'r gyfran gyntaf o ddisgyblion eisoes wedi cael rhai gwersi yn y ganolfan adeiladu gwerth £900,000 ym Mryngwyn sef hwb y pentref.



MYFYRWYR YN GWNEUD EU MARC YM MAES GWYDDONIAETH A PHEIRIANNEG

Mae myfyrwyr o Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yn gwneud tipyn o farc ar fydd gwyddoniaeth a pheirianeg.

Mae staff o dîm Dylunio Eiddo y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 12 ar eu prosiectau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM).

Mae'n rhan o Gynllun Addysg Beirianeg Cymru sy'n annog myfyrwyr chweched dosbarth i astudio cyrsiau peirianeg mewn addysg bellach neu addysg uwch.

Mae'r myfyrwyr yn gweithio gyda sefydliadau a chwmnïau lleol a rhoddir briffiau ymchwil a datblygu iddynt sy'n gysylltiedig â phroblemau diwydiannol go iawn.

Gofynnwyd i fyfyrwyr Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ' greu amgylchedd addysgol addas i'r unfed ganrif ar hugain yng Nghymru, lle bydd yn diwallu anghenion y gymuned ac yn darparu'r ddarpariaeth ddysgu orau ar gyfer yr ardal'.




Datblygwyd y briff gan y tîm Dylunio Eiddo i adlewyrchu amcanion Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Roedd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r myfyrwyr ar ddau brosiect – un oedd ymchwilio i ddulliau gwaredu clorin o byllau a'r llall oedd dylunio ystafell ddosbarth wyddoniaeth gynaliadwy newydd. Enillodd y prosiect oedd yn ymchwilio i ddulliau o waredu clorin o byllau y categori Toddiant Cemegol Gorau a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer categori Toddiant Dŵr Gorau yn y Big Bang Fair (De Cymru) 2016.

Nod: D3 Cynorthwyo rhieni a theluoedd i ddatblygu dysgu eu plant

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo o hyd i **gefnogi bywyd teuluol** lle mae plant a phobl ifanc yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd a'u cymunedau pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, gan ddarparu ystod o wasanaethau ymyrraeth ac ataliol cynnar, gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad 2016/17

Mae'r **Strategaeth Cymorth i Deuluoedd** yn amlygu ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag effaith tlodi plant a rhoi sylw i'w effaith ar gyfleoedd a chanlyniadau addysgol. Mae'n pennu ein dull ar gyfer gweithredu a datblygu gwasanaethau i blant, teuluoedd a phobl ifanc.

Rydym yn gyfrifol am ddarparu rhaglen fawr o newid yn yr holl wasanaethau yr ydym yn eu darparu a'u comisiynu ar gyfer plant, pobl ifanc a theluoedd. Bwriad y newid hwn yw sicrhau ein bod yn nodi'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ac yn ymyrryd yn gynnar gan ddarparu cymorth ataliol.

Mae'r strategaeth hon yn cyfateb yn agos i Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ac Atal Sir Gaerfyrddin 2016, sy'n disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth ac y mae angen ymyrraeth statudol arnynt.

Unwaith eto rydym wedi rhoi cymorth i deuluoedd drwy amrywiaeth o **ymyrraethau wedi'u targedu drwy gynlluniau**

Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a rhaglenni eraill, gan gynnal teuluoedd a lleihau'r effaith bosibl y gall bod o dan anfantais ei chael o ran mynediad i wasanaethau cyhoeddus.

 **Gweler Nod: C1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a'r Thema lechyd**

Mae **darpariaeth gofal plant** yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chynnig mewn partneriaeth â'r sectorau preifat, gwirfoddol a statudol, ac mae wedi parhau i ddatblygu. Ym mis Mawrth 2017 roedd gennym:

- **113** o warchodwyr plant cofrestredig (gyda **735** o leoedd)
- **35** o feithrinfeydd diwrnod llawn cofrestredig (gyda **1,314** o leoedd)
- **42** o glybiau cofrestredig y tu allan i'r ysgol (gyda **1,161** o leoedd)
- **52** o leoliadau gofal sesiynol cofrestredig (gyda **955** o leoedd) gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg.
- **Cyfanswm o 242 o ddarparwyr**, gyda **4,165** o leoedd cofrestredig

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**Ymrwymadau'r Llynedd:**

- ✓ **Mae Presenoldeb yn yr ysgol uwchradd** wedi parhau i wella: cynyddu o 94.2 i 94.5 eleni; gan osod Sir Gaerfyrddin yn yr 8fed safle yng Nghymru. Mae Presenoldeb Cynradd wedi gostwng ychydig o 95.0 i 94.8 gan ein gosod yn y 13eg safle yng Nghymru. Prif achos hyn oedd absenoldebau awdurdodedig a salwch. Mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â hyn. (12090)

 **Gweler hefyd y KIOP: - Byddwn yn gwella ymrwymadau cyrhaeddiad dysgwyr, o dan Gwella Presenoldeb Ysgol - Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif, uchod.**

- ✗ Nid oeddem wedi gallu sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal peilot ar gyfer rhaglen 'Newyn Gwyliau', gan fod yr holl gyllid oedd ar gael wedi cael ei ddyrannu cyn pen

pythefnos wedi inni gael gwybod amdano. Rydym eisoes wedi sicrhau cyllid ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn gweithredu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau), gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau bwyd iachus, wedi'u hanelu at blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn benodol. (12091)

- ✓ Roedd y **Gwasanaeth Lles Addysg** yn parhau i ddarparu amrywiaeth o raglenni ar gyfer teuluoedd, gan ymgysylltu'n benodol â theuluoedd agored i niwed, oedd yn anoddach eu cyrraedd. Mae'r Llofnod Dysgu fel Teulu yn parhau i gael cymorth drwy rai ysgolion yn Llanelli, gyda theuluoedd yn ymwneud ag addysg eu plentyn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan deuluoedd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy abl i gefnogi presenoldeb eu plentyn. (12092)

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

GWEITHDY STORI DYSGU TEULUOL YN YSGOL BRYN TEG

Roedd llawer o rieni a neiniau a theidiau, yng nghwmni plant o ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, wedi cymryd rhan yng nghwrs sach stori Gruffalo, lle bu iddynt lunio sach stori Gruffalo, cael llyfr am ddim a gwneud gemau llythrennedd, pypedau ac ati. Roeddent yn sesiynau hwyliog a rhyngweithiol a oedd yn gysylltiedig â'r llyfr. Roedd hyd yn oed yn cynnwys sesiynau blasu ffrwythau a thasgau y gellid parhau â hwy gartref. Julie Thomas o sgiliau sylfaenol CCC oedd wedi trefnu a chynnal y cwrs.



'Cawsom ymateb gwych gan y teuluoedd ac roedden nhw hyd yn oed wedi dod yn ôl i mewn i gyflwyno eu stori mewn gwasanaeth, a bu i ddisgyblion y cyfnod sylfaen fwynhau hynny', dywedodd Mrs Austin, sy'n athrawes feithrin ac yn gyswllt cymunedol.

'Ein nod yw adeiladu ar y gwaith partneriaeth rhagorol hwn, a byddwn yn rhedeg cyrsiau bob tymor i groesawu teuluoedd i'r ysgol, gan ei fod yn meithrin y gorau ar gyfer dysgu'r disgyblion drwy gydweithio fel tîm. Rydym yn gweld yr effeithiau cadarnhaol ar y perthnasoedd a grëwyd ac mae'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y disgyblion yn sylweddol, Mr Geraint Jones, Pennaeth.

Ymhlith y dyfyniadau gan oedolion o'r cwrs y mae:

'Roeddwn wrth fy modd! Roedd treulio amser gyda'm plant yn gwneud gweithgareddau ac yn cofnodi'r stori i fynd â hi adref yn wych. Byddwn yn ei argymhell i bawb,' meddai Sarah B.

"Wedi mwynhau'n fawr, roedd yn dda ei fod yn ymarferol a braf oedd cwrdd â rhieni a theuluoedd eraill. Yr ochr gymdeithasol oedd orau." (Mam-gu disgybl ym mlwyddyn 1)

"Dim ond i ambell un roeddwn i wedi gallu mynd, ond roedd y fenyw'n hyfryd. Cefais lawer o syniadau i helpu fy mhentyn", meddai Katie, sy'n fam i un plentyn ym mlwyddyn 1.

Nod: D4 Datblygu Cymdeithas Gynhwysol

Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol ychwanegol, ac yn hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a lles plant.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Mae Sir Gaerfyrddin wedi comisiynu 'Area 43' i reoli a darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion sydd wedi'i achredu'n broffesiynol, ar gyfer pobl ifanc o flwyddyn 6 i 18 oed. Mae defnydd y disgyblion o'r gwasanaeth wedi parhau i fod yn dda ac mae bron pob un o'r plant a'r

bobl ifanc yn adrodd yn ôl bod eu hyder wedi gwella o ganlyniad i'r sesiynau cwnsela, eu bod yn llai pryderus, yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth a'u bod yn fwy abl i ymdopi â'r materion yr oeddent yn eu hwynebu.

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Sir Gaerfyrddin

Eleni rydym wedi gweld cynnydd bach yn unig yn ein poblogaeth Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae gennym fwy na 1200 o ddysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol ar ein cofrestr ac rydym yn cefnogi 400 + o ddysgwyr cyfnod A-C mewn 40 o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Eleni rydym wedi gallu cynyddu ein cymorth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae tîm Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) yn cynnwys 4 o athrawon arbenigol Saesneg fel iaith Ychwanegol, 2 Gynorthwydd Addysgu Pwylaidd, a 3 Chynorthwydd Addysgu Dwyieithog Arabeg sy'n gweithio gyda phlant sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd.

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Teithwyr Sir Gaerfyrddin

Eleni mae'r gwasanaeth wedi gallu cefnogi 6 ysgol uwchradd a 7 ysgol gynradd. Mae gennym 171 o blant ar ein cofrestr ar hyn o bryd, ac nid yw pob un o'r rhain yn derbyn cymorth ar hyn o bryd.

Bu gwelliant cyffredinol o ran presenoldeb plant teithwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cael ychydig o effaith ar wella eu lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd.

Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Cefnogi ysgolion o ran Diwygiadau ADY

Mae hyfforddwyr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi helpu ysgolion i ddod yn gyfarwydd ag offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u defnyddio. Mae adnoddau defnyddiol i ysgolion fel Proffiliau Un Dudalen a ffurflen Cynllun Datblygu Unigol wedi cael eu llunio.

Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad

Roedd y gwaith o ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad wedi parhau i fynd yn ei flaen eleni yn dilyn gwaith ymgynghori a gwerthuso y llynedd mewn perthynas ag ystyried yr hyn sy'n gweithio, yr hyn y mae angen ei ddatblygu a'r hyn y mae angen ei newid.

Canolfan Cothi a Garreglwyd

Agorwyd Canolfan Cothi yn ddarpariaeth awtistiaeth ADY arbenigol uwchradd newydd fel rhan o Ysgol Bro Dinefwr, sef ysgol newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd disgyblion a oedd wedi eu lleoli'n flaenorol yn Uned Garreglwyd eu trosglwyddo'n llwyddiannus i Ganolfan Cothi sy'n darparu cyfleusterau i gefnogi hyd at 30 o ddisgyblion uwchradd sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Mae Darpariaeth Awtistiaeth Breswyl Garreglwyd yn parhau i fod yn ei lleoliad presennol yng Nghwm Gwendraeth. Mae dau ddisgybl oed uwchradd ag awtistiaeth a oedd yn derbyn darpariaeth breswyl arbenigol y tu allan i'r sir yn flaenorol wedi dychwelyd i Uned Garreglwyd yn ystod y flwyddyn, sydd wedi lleihau'n sylweddol gostau darpariaeth y tu allan i'r sir. Mae trafodaethau cynllunio ar waith i ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach.

Gwasanaeth Cymorth Ieuencid

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuencid wedi bod yn ymwneud â darparu'r Prawf Rheoli Achosion Uwch (ECM) dros y ddwy flynedd ddiwethaf; dull yw hwn sy'n ymwneud â goruchwyllo pobl ifanc sydd wedi troseddu, ac mae'n cael ei gefnogi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cymru. Mae'r dull sy'n seiliedig ar y Model Adfer Trawma wedi cael ei werthuso gan Cordis Bright. Yn Sir Gaerfyrddin (sef un o 3 Tîm Troseddu Ieuencid ledled Cymru) rydym wedi gweithio gyda'r nifer mwyaf o bobl ifanc yn ystod y prawf (11 o bobl ifanc).

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Ymrwymadau'r Llynedd:


- ✗ Roedd tri o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin wedi **gadael addysg orfodol heb gymhwyster y llynedd**. Dyma'r tro cyntaf y mae unrhyw ddisgybl wedi gadael heb gymhwyster ers pedair blynedd. Roedd y tri disgybl wedi'u targedu ar gyfer ymyriadau ychwanegol drwy'r Proffil

Asesu Bod yn Agored i Niwed ac yn cael cymorth ychwanegol gan eu hysgol a'u timau Lles Addysgol a Gofal Plant. Fodd bynnag, oherwydd sefyllfaoedd sensitif, roedd y tri disgybl heb lwyddo i ennill cymhwyster cydnabyddedig allanol. Ar hyn o bryd mae'r tri pherson ifanc yn cael cymorth gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid. Rydym wedi symud o fod yn gydradd gyntaf i'r 14^{eg} safle yng Nghymru ar gyfer y mesur hwn yn 2016/17. (EDU/002i)

- ✓ Roedd yr holl **Blant sy'n Derbyng Gofal** a addysgwyd gan yr Awdurdod Lleol ac a adawodd addysg orfodol wedi ennill tystysgrif allanol a gymeradwywyd. Mae cymorth y Tîm Rhianta Corfforaethol a rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyng Gofal yn parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau bod plant yn gadael â chymhwyster a gymeradwywyd. (EDU/002ii)
- ✓ Roedd un gwaharddiad parhaol o ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym Mlwyddyn Academaidd 2015/16. Cynigiwyd **darpariaeth addysg briodol amser llawn** i'r disgybl ar ddiwrnod y gwaharddiad. (EDU/009a)
- ✓ Roeddem wedi cynyddu % y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau, o 34.8 i 43.9%, sef canlyniad sy'n uwch na'r targed o 40.0%. Er gwaethaf gwelliant, rydym yn parhau i fod yn y chwarter gwaelod ac wedi symud o'r 20^{fed} safle i'r 21^{ain} safle yng Nghymru. (EDU/015a)
- ✗ Roedd % y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 o wythnosau statudol (ac eithrio eithriadau dynodedig) wedi cwmpo o 80.0% i 71.4%. Roedd 10 achos o oedi o ran cyhoeddi datganiadau terfynol oherwydd diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau Seicoleg Addysg. Roedd pob un achos ac iddo agweddau/ problemau cymhleth yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd y Seicolegydd Addysg a Phlant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol am yr heriau oedd ynghlwm wrth rai o'r achosion hyn, a chytunwyd bod ansawdd y broses yn bwysicach na chyrraedd y targed fel y gellid cyflawni'r canlyniad gorau i'r plentyn. Ar gyfer 2016/17, mae gennym y canlyniad gwaethaf yng Nghymru. (EDU/015b)
- ✓ Cyflawnodd 56.7% o'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (SCC/29a)
- ✓ Cyflawnodd 18.0% o'r plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 4 (SCC/29b)
- ✓ Mae cynnydd cyson yn cael ei wneud o ran gwiriadau diogelu iechyd ysgol. Fel rhan o'r gwiriadau, rhoddir ystyriaeth i recriwtio ac i ddyletswydd **Atal**. Mewn arolwg diweddar, bu i 80% o ysgolion cynradd ddychwelyd yr arolwg ac roedd tystiolaeth dda i ddangos bod nifer dda wedi cymryd modiwl dysgu Atal. Mae trefniadau wedi'u gwneud i gynnis hyfforddiant WRAP (Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Raglen ATAL) i'r holl benaethiaid a staff dynodedig, a bydd hyn yn sicrhau bod pob ysgol wedi cael yr hyfforddiant gorfodol. (12094)
- ✓ Cwblhawyd adolygiad o wasanaethau rheoli ymddygiad ac roedd y canlyniadau'n cynnwys:
 - Ailfodelu'r staff yng Nghanolfan y Gors/y Ganolfan Ddydd yn barod ar gyfer mis Medi 2017;
 - Cytuno ar swydd Rheolwr Ymddygiad a Llesiant a'i hysbysebu'n barod ar gyfer mis Medi;
 - Cynnal sesiwn ddatblygu gyda chynrychiolwyr ysgol o ran sut mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu / ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg a thueddiadau mewn ymddygiad. (12095)
- ✓ Wedi lansio'r **Addewid Hawliau Plant** yn swyddogol, gyda Swyddogion Cyfranogiad yn hyrwyddo'r Addewid yn ystod cyfarfodydd a diwrnodau hyfforddiant perthnasol. (12185)

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

- ✓ Mae cyfraddau aildroseddu wedi gostwng 2.5 pwynt canran, 37.1% o gymharu â 39.6% y flwyddyn flaenorol, sydd islaw cyfartaledd Cymru o 43.6%. Mae'r cynnydd hwn yn gadarnhaol iawn o ystyried natur fwy cymhleth y grŵp bach o bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i aildroseddu.
- ✓ Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi parhau i gynnal y duedd ostyngol o bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol (am y tro cyntaf)



Yng ngwobrau cyntaf **Addysgu Proffesiynol Cymru** a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd yn ddiweddar, enillodd **Susan Treacy o Ysgol Dyffryn Taf**, Hendy-gwyn ar Daf, y wobr am gefnogi athrawon a dysgwyr a chipiodd **Susan Quirk o Ysgol Glan-y-Môr**, Porth Tywyn yr ail wobr am hyrwyddo cydweithio er mwyn gwella cyfleoedd dysgu.



CYDNABOD DISGYBLION DISGLEIRIAF AM EU HYMRODDIAD

Mae dau o ddisgyblion disgleiriaf Caerfyrddin wedi cael sylw am eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi.

Mae Luke Richards a Britany Day o Ysgol Rhyd-y-gors yn dathlu ar ôl ennill gwobrau yng Ngwobrau Cyflawnwr Ifanc Radio Sir Gâr 2016.

Cipiodd Luke y Wobr i Ddisgyblion Uwchradd am Gynnydd Rhagorol a hynny am drawsnewid ei fywyd er gwaethaf cael ei ddiagnosisio ag Awstisiaeth.

Enillodd Britany, sy'n 15 oed ac sy'n dioddef o ddysplasia gweddilliol symptomatig ar ei chlun dde, y wobr Gofalwr Ifanc am ofalu am ei theulu a'i brodyr/chwiorydd iau.

Yn 2014 roedd Luke yn gwrthod mynd i'r ysgol, gwrthod cymryd rhan mewn unrhyw waith ysgol, ac, ar y cyfan, nid oedd ganddo ddiddordeb mewn bywyd ysgol na bywyd gartref. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar ôl llawer o waith caled a dal i fyny, prin ei fod yn methu diwrnod, mae'n ymwneud â thrafodaethau yn yr ysgol, ac yn cymryd diddordeb go iawn yn ei ddyfodol.

Cyn i Britany ddod yn ddisgybl preswyl ym mis Medi byddai'n gadael ysgol bob dydd i fynd adref a choginio pryd i'r teulu cyfan, golchi eu dillad a chael ei brawd iau yn barod i'r ysgol bob bore. Mae hi'n dal i gyflawni ei rôl ofalu o ddydd Gwener i ddydd Llun.



Nod: D5 Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Rydym yn parhau i gynyddu'r ddarpariaeth o ran:

- **Gofal plant** - rydym yn parhau i gynyddu'n flynyddol nifer y gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, gofal diwrnod llawn, gofal sesiynol a gofal y tu allan i ysgol a ddarperir yn y Sir.
- **Addysg** - rydym wedi cynyddu nifer y lleoliadau **cyfrwng Cymraeg** mewn ysgolion cynradd gan 238 ac ysgolion uwchradd gan 923.
- **Hyfforddiant** - yn dilyn ailstrwythuro cyrsiau Cymraeg i Oedolion yng Nghymru yn genedlaethol, rydym wedi sicrhau contract 2 flynedd i ddarparu Cymraeg Addysg Gymunedol ac yn ddiweddar rydym wedi tendro'n llwyddiannus i gael bod yn rhan o fframwaith cenedlaethol Cymraeg yn y Gweithle, er mwyn darparu hyfforddiant mewn gweithleoedd ar draws y sir.

Mae **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020** wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf, yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Bydd hyn yn ein galluogi i hyrwyddo a chynyddu addysg ddwyieithog yn y Sir.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**Gofal plant**

Rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau gofal plant **Cymraeg** sy'n cael eu darparu yn y Sir (dangosir ffigurau'r llynedd mewn cromfachau):-

- ✓ 113 o warchodwyr plant cofrestredig gyda **55** (53) o'r rhain wedi'u cofrestru'n **warchodwyr plant** sy'n siarad Cymraeg gyda **295** (283) o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 735.
- ✓ 35 lleoliad gofal dydd llawn cofrestredig gydag **17** (16) o'r rhain wedi'u cofrestru yn rhai **gofal dydd llawn** sy'n siarad Cymraeg gyda 630 (524) o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 1,314.
- ✓ Mae **98%** (83%) (51 yn Gymraeg/cyfanswm o 52) o **leoedd gofal sesiynol** wedi'u cofrestru yn rhai sy'n siarad Cymraeg gyda **935** (981) o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 955
- ✓ Mae **57%** (53%) (24 yn Gymraeg/cyfanswm o 42) o'r lleoedd **gofal y tu allan i'r ysgol** wedi'u cofrestru yn rhai sy'n siarad Cymraeg gyda **653** (636) o leoedd cyfrwng Cymraeg o blith cyfanswm o 1,161

Addysg

Addysgir y Gymraeg fel pwnc i bob disgybl tan ddiwedd Blwyddyn 11 yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- ✗ Roedd % y disgyblion sy'n cael **asesiad athro yn Gymraeg** (iaith gyntaf) ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 2** wedi disgyn o 51.9% i 50.5% (EDU/006i)
- ✗ Roedd % y disgyblion sy'n cael **asesiad athro yn Gymraeg** (iaith gyntaf) ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 3** wedi disgyn o 43.2% i 42.2%, ac mae gennym y canlyniad 4ydd uchaf yng Nghymru o hyd. (EDU/006ii)

Mae her a chymorth pellach ar gyfer Asesiad Athro yn y Gymraeg wedi cael eu rhoi yn lleol mewn partneriaeth â threfniadau cenedlaethol drwy Gonsortia Rhanbarthol. Mae'r Awdurdod Lleol yn dal i gefnogi ysgolion yn y prosesau hyn drwy weithdai a seminarau arweinyddiaeth.

- ✓ Mae'r **Siarter Cymraeg Ail Iaith** wedi ei gyhoeddi ac yn cael ei weithredu mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn arwain ar y **Siarter Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg**, mewn cydweithrediad ag Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, a chaiff ei gyhoeddi maes o law. (12096)
- ✓ Roeddem wedi parhau i wneud cynnydd o ran holl amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** sy'n unol â'r targed. (12098)
- ✓ Penderfynodd y Cyngor Sir ar 13eg Gorffennaf 2016 i weithredu gweithdrefnau statudol i **newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin** o ddwyieithog (2A) i Gyfrwng Cymraeg a ddaeth i rym ar 1 Medi 2016 ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016-17. (12097)

Ysgol Bro Myrddin yw'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r tabl isod yn rhoi golwg gyffredinol ar y categorïau iaith o fewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Sir.

Categoriâu iaith Ysgolion	Nifer yr Ysgolion Cynradd	Nifer yr Ysgolion Uwchradd
Cyfrwng Cymraeg	57	1
Dwyieithog (2A)	-	2
Dwyieithog (2B)	-	2
Dwy Ffrwd	11	-
Ysgol Drawsnewidiol	2	-
Cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	4	3
Cyfrwng Saesneg	24	4

Darpariaeth AAA

Mae gwaith pellach wedi'i wneud gan yr Awdurdod Lleol ac ERW i sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad i adnoddau AAA o ansawdd uchel a dogfennau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- ✓ Cafodd y fersiwn Gymraeg o ChATT Sir Gâr (Asesiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Offeryn Ymyrraeth) ei sefydlu'n llawn yn yr holl Ysgolion Cynradd. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd wedi'i chryfhau drwy helaethu'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth yng Nghanolfan yr Eithin. Mae canolfannau iaith cynradd cyfrwng Cymraeg Nantgaredig wedi'u hen sefydlu.
- ✓ Mae'r Athro Ymgynghorol sydd newydd ei benodi ar gyfer Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn siaradwr Cymraeg rhugl, sy'n sicrhau bod arsylwadau ac asesiadau SLCN yn gallu cael eu darparu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg o hyd. Mae'r tîm allgymorth iaith yn parhau i gynnig cymorth i ysgolion cynradd a lleoliadau cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfforddiant

- ✓ Roeddem wedi recriwtio 400 o ddysgwyr ar gyrsiau **Cymraeg i Oedolion**, gan ddyblu'r targed a osodwyd i ni gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a gwella ar ffigur y llynedd o 292. Bydd cyrsiau yn parhau tan fis Gorffennaf 2017.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Y GYNTAF YN Y SIR I ENNILL GWOBR SIARTER IAITH NEWYDD

Un o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Llanelli yw'r gyntaf yn y sir i ennill gwobr siarter iaith newydd. Mae Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn Llwynhendy wedi cael Gwobr Efydd Codi Caerau Sir Gâr am y cynnydd mae'r ysgol a'i disgyblion wedi ei wneud o ran hybu'r defnydd o Gymraeg achlysurol. Nod y Siarter iaith yw helpu i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg gan blant trwy eu hysbrydoli i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Siarter yn gofyn i bob aelod o gymuned yr ysgol gyfrannu – y cyngor ysgol, disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach. Mae pob ysgol yn pennu ei gweledigaeth heriol ond cyraeddadwy ei hun.



Canlyniad E: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel....

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ac mae angen i ni ddal ati i gydweithio â'n partneriaid i fynd i'r afael â phroblemau a nodir gan gymunedau lleol.



I helpu i wella diogelwch ffyrdd, cefnogodd Scarlets Llanelli yr ymgyrch dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin i fynd i'r afael ag yfed a gyrru dros y Nadolig.

Ymunodd y bachwr Ken Owens a'r maswr Rhys Patchell â'r Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, i lansio'r ymgyrch dymhorol ym Mharc y Scarlets.

Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

E1 - Cynnal ac anelu at leihau ymhellach lefelau troseddau sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr

E2 - Sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddau

E3 - Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol

E4 - Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol

E5 - Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt

E6 - Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Cymorth priodol wedi ei roi i blant, pobl ifanc a theuluoedd fel y bo'r angen	✓
Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd	↔
Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd	✗
Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol	✗

Nod: E1 Cynnal ac anelu at leihau ymhellach lefelau troseddau sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr

Roedd cynnydd o 5.7% yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd ers yr un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, mae'r ymgyrch barhaus i gael cofnod cywir o droseddau yn dal i wneud unrhyw gymariaethau dros amser yn dasg anodd. Newidiadau gweinyddol a newidiadau o ran prosesau yn ôl pob tebyg sy'n gyfrifol am y cynnydd a welir, yn hytrach na newidiadau mewn ymddygiad troseddu.

Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn (5.1.1.2)	2015/16	2016/17	Cynnydd o 5.7% (+ 464 o droseddau) ↑
	8,160	8,624	

Y math mwyaf cyffredin o drosedd a gofnodwyd yw'r categori Trais yn erbyn y Person, sy'n cyfrif am 31% o'r holl droseddau yn Sir Gaerfyrddin. Mae gwelliannau yn y prosesau cofnodi wedi cyfrannu at y cynnydd hwn ac mae 41 o blith y 42 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi gweld cynnydd yn y math hwn o drosedd. (Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). Y canlynol yw'r mathau o droseddau a gyflawnir fynychaf yn Sir Gaerfyrddin:-

Sir Gaerfyrddin	Blwyddyn ariannol 2015/16	Blwyddyn ariannol 2016/17	Newid mewn troseddau	% y Newid	Cynnydd/Gostyngiad
Tanau Bwriadol a Difrod Troseddol	1511	1519	8	0.5%	↑
Byrgleriaeth Ddomestig	316	322	6	1.9%	↑
Byrgleriaeth mewn eiddo nad ydynt yn breswylfeydd	257	223	-34	-13.2%	↓
Troseddau Cyffuriau	952	698	-254	-26.7%	↓
Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas	158	198	40	25.3%	↑
Meddiant o arfau	42	64	22	52.4%	↑
Troseddau'r Drefn Gyhoeddus	275	305	30	10.9%	↑
Lladrad	9	31	22	244.4%	↑
Troseddau Rhywiol	333	349	15	4.5%	↑
Dwyn	1757	1760	3	0.2%	↑
Troseddau sy'n ymwneud â cherbydau	309	444	135	43.7%	↑
Troseddau Treisgar	2241	2711	471	21.0%	↑
Cyfanswm	8160*	8624	464	5.7%	↑

* Noder bod canlyniad 2015/16 wedi newid o'r canlyniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol sef 8126, i 8160 - cafwyd gwybod am hyn ym mis Ebrill 2017. Hefyd gallai ffigur 16/17 newid.

Ffynhonnell - Crynodeb Perfformiad Awdurdod Unedol Dyfed-Powys – Mawrth 2017

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae cynllun gweithredu ar gyfer 'Ymgyrch y Rhuban Gwyn,' sy'n ymwneud â dynion yn gweithio i atal trais yn erbyn menywod, wedi cael ei ddatblygu gyda phartneriaid diogelwch cymunedol eraill.
- ✓ Mae nifer o fentrau atal troseddau wedi cael eu cyflwyno drwy gydol y flwyddyn i ddiogelu eiddo sydd mewn perygl a'r sawl sydd wedi dioddef troseddau.
- ✓ Darparwyd hyfforddiant i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sydd bellach yn:-

- Ymweld â dioddefwyr troseddau ac yn rhoi cyngor helaeth iddynt am atal troseddau
 - Darparu taflenni newydd a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill.
- ✓ Mae gwaith yn parhau i gael ei ddatblygu rhwng swyddogion Safonau Masnach y Cyngor a'r heddlu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed drwy godi ymwybyddiaeth o sgamiau presennol, ac mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymgysylltu â thrigolion agored i niwed.
- ✓ Mae'r cydweithio agos rhwng y Cyngor a'r Heddlu wedi arwain at waith atal troseddau a dargedir, ac mewn rhai ardaloedd ceir patrolau a chryfheir diogelwch mewn eiddo preswylwyr agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys pecynnau atal troseddau newydd i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig, a fydd yn cael eu cyflwyno cyn bo hir.
- ✓ Cafodd nifer o brosiectau cam-drin domestig eu cyllido a bu partneriaid yn gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaethau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen i gefnogi teuluoedd y mae glasoed yn cam-drin rhieni yn effeithio arnynt, prynu adnoddau i ddarparu rhaglen ataliol wyth wythnos mewn ysgolion uwchradd ynghylch cam-drin domestig, perthnasoedd iach, secstio a cham-fanteisio rhywiol, a hyfforddiant arbenigol i staff a gwirfoddolwyr i'w galluogi i gynrychioli rhywun yn y llys.
- ✓ Cynllunnir parthau dim galw heb wahoddiad er mwyn ceisio rhoi stop ar yr arfer hwnnw, ac, yn benodol er mwyn amddiffyn trigolion agored i niwed a hŷn rhag sgamiau, twyll, a lladrad. Gan weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Caerfyrddin, mae'r gwasanaeth wedi creu 53 o barthau dim galw heb wahoddiad ac wedi sefydlu'r pentref dim galw heb wahoddiad cyntaf yn Sir Gaerfyrddin, yng Nghil-y-cwm.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae'r Cynllun Gwarchod Adeg Gwyliau yn gynllun arloesol sy'n rhoi benthyg offer diogelwch adeg gwyliau. Mae wedi cael ei sefydlu gan Dîm Datblygu Bro Heddlu Dyfed-Powys gyda chymorth grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel' Sir Gaerfyrddin, a elwid cynt yn Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ers i'r Cynllun ddechrau, mae'r pecynnau wedi'u defnyddio mewn dros 800 o gartrefi. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn Llanelli, mae dros 100 o becynnau ar gael bellach ledled y sir. Mae'r blychau'n rhoi sicrwydd mawr a bellach cânt eu cynnig i bobl sydd wedi dioddef byrgleriaeth, yn ogystal ag er mwyn atal byrgleriaeth.

Dywedodd yr Heddwes Dave White o'r Tîm Datblygu Bro: "Mae'n cynnig amrywiaeth o fanteision gan gynnwys lleihau cyfraddau troseddu, cadw draw ladron sy'n bachu cyfle, gwneud tai sydd yn ddiamddiffyn yn fwy diogel tra bydd pobl i ffwrdd ar eu gwyliau, a thawelu meddwl y cyhoedd."




Nod: E2 Sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddau

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Cafodd Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am [Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru](#) ei gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Cymysg oedd ei ganfyddiadau ar lefel genedlaethol, ac rydym bellach yn cyfrannu at adolygiad gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu ymateb i'r adroddiad a darparu arweinyddiaeth effeithiol i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n cefnogi'r nod o wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17](#), roedd **79%** o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn teimlo'n ddiogel yn y cartref, wrth gerdded a theithio yn yr ardal leol, a hon yw'r ganran **7^{fed} uchaf yng Nghymru**.



Yn seiliedig ar sampl o 10,450

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ! Mae nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i atgyweirio pob golau stryd diffygiol yn ystod y flwyddyn wedi gwella, o 5.44 diwrnod yn 2015/16 i 4.26 diwrnod yn 16/17. Er bod y canlyniad ychydig yn brin o'r targed o 4 diwrnod, mae'n ganlyniad da. (*THS/009*)
- ✓ Mae cynllun gweithredu y Cyngor i weithredu'r 'Ddyletswydd Atal', er mwyn rhoi sylw i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth, wedi cael ei ddatblygu a'i drafod gyda phartneriaid yn nghyfarfod Bwrdd **CONTEST** (yr enw ar strategaeth wrthderfysgaeth yr Deyrnas Unedig) ym mis Ionawr 2016. Mae cynlluniau gweithredu 'Atal' partneriaid eraill wedi cael eu rhannu ymysg aelodau'r Bwrdd i sicrhau lefel o gysondeb fel y bo'n briodol. Mae cynllun gweithredu y Cyngor yn aros i gael ei gymeradwyo drwy broses berthnasol y Cyngor, yn dilyn yr etholiadau.
- ✓ Rydym yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith partneriaeth sy'n helpu i leihau troseddau ac anhrefn, gan gynnwys gwybodaeth yn Newyddion Sir Gâr a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth am y prif broblemau yn lleol o ran troseddau a negeseuon atal troseddau. Ymhlith y meysydd y mae sylw wedi cael ei roi iddynt y mae sgamiau, diogelwch ffyrdd, cam-drin domestig a throseddau treisgar.
- ✓ Mae timau plismona bro wedi parhau i hyrwyddo ystod o ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys System Negeseuon Cymunedol sy'n anelu at gynyddu'r defnydd o'r dull ymgysylltu hwn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a hysbysu am faterion plismona lleol a mesurau atal troseddau. Mae'r fan heddlu symudol yn mynd i gymunedau lleol ym mhob cwr o'r sir i ymgysylltu mwy â thrigolion.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Cynllun Diogelu Rhag Camfanteisio Ariannol

Iechyd, Lles ac Annibyniaeth drwy Ddiogelwch Economaidd Ymorfrol

Yn darparu ar gyfer canfod ac atal cam driniaeth ariannol yn gynnar, sy'n arwain at arbedion hirdymor ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ac yn lleihau colledion i ddefnyddwyr

Yn creu model gwasanaeth integredig sy'n ponio bylchau mewn gwasanaeth gan ddarparu ar gyfer cydwethio a chydwaithredu rhwng adranau awdurdod, y sector preifat a'r trydydd sector

Yn cynhyrchu gwybodaeth bwysig a model adrodd at ddibenion gofodol troseddol

Yn cyflwyni am canion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014 drwy hyrwyddo Lles Cymdeithasol ac Economaidd, Diogelwch Rhag Cam driniaeth a Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd.

Financial Exploitation Safeguarding Scheme

Health, Wellbeing and Independence through Practical Economic Safeguarding

Provides for the early detection and prevention of financial abuse resulting in long term cost savings for adult social care services and a reduction in financial detriment experienced by consumers

Creates an integrated service model bridging service voids providing for joint working and cooperation between authority departments, the private and third sectors

Generates significant intelligence and a reporting model for criminal enforcement purposes

Fulfills the objectives of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 through the promotion of social and Economic Wellbeing, Protection from Abuse and Control over day to day life.



Cynllun Diogelu Rhag Camfanteisio Ariannol
Financial Exploitation Safeguarding Scheme



Cyngor Sir Gâr Safonau Masnach / Carmarthenshire County Council Trading Standards: 01267 242442
e: j.passe@cc.carmarthenshire.gov.uk



Safonau Masnach
Trading Standards



Mae gwaith Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin i gefnogi llesiant pobl sy'n agored i niwed wedi cael ei gydnabod ar ffurf gwobr iechyd cyhoeddus genedlaethol. Enillodd poster sy'n dangos [Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol](#) y brif wobwr yn ystod Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynharach y mis hwn.

Nid yn unig y mae'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol hwn yn helpu i atal twyll a nodi dioddefwyr, ond mae hefyd yn eu diogelu rhag camfanteisio pellach drwy roi ystod o fesurau ar waith gan y timau gofal cymdeithasol a thai. Mae'r poster yn rhan o becyn o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i rannu negeseuon allweddol â grwpiau sy'n agored i niwed.

Nod: E3 Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn.

Nifer y digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn (5.1.1.3)	2015/16	2016/17	
	6,443	6,780	Wedi cynyddu 5.2% + 337 o droseddau

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, fel gweddill Dyfed-Powys, yn dilyn patrwm tymhorol i raddau helaeth - mae mwy ohono'n digwydd yn yr haf na'r gaeaf. Mae'r Cyngor, yr Heddlu a phartneriaid eraill yn gweithio'n agos iawn wrth ddelio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae ystyriaeth gychwynnol wedi cael ei rhoi i fabwysiadu proses Asesu Risg gyffredin ar gyfer digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol, er mwyn sicrhau y nodir y lefel o risg a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Gwneir cynnydd o ran y broses fel rhan o'r gwaith rhanbarthol yn ystod 2017/18.
- ✓ Mae sefydliadau partner wedi parhau i fonitro achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi gweithio mewn partneriaeth i roi sylw i broblemau lleol a'u datrys. Mae nifer o achosion parhaus wedi cael eu hatgyfeirio i grwpiau sy'n datrys problemau a chynadledau achos er mwyn rhoi sylw i fannau problemus penodol neu broblemau difrifol a pharhaus yn ymwneud ag unigolion. Mae adrannau'r Cyngor, gan gynnwys Tai, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ac Iechyd yr Amgylchedd wedi darparu gwybodaeth werthfawr i gynorthwyo'r broses o ddatrys problemau ac maent yn gyfrifol am ddatrys nifer o achosion gan ddefnyddio eu deddfwriaeth berthnasol eu hunain.
- ✓ Mae'r system cofnodi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cael ei datblygu er mwyn i wybodaeth allu cael ei rhannu ag aml-bartneriaid, ac mae staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ynghylch y system er mwyn gwneud cynnydd o ran hyn.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae disgyblion ysgol wedi eu pennu'n Ddirprwy Siryfion yn Llyfrgell Rhydaman gan yr heddlu lleol, mewn cynllun a ariennir gan y grŵp Cymunedau Teg a Diogel.

Mae disgyblion o dair ysgol - Ysgol Bro Banw, Ysgol y Betws ac Ysgol Parc-yr-hun - wedi ymweld â'r Llyfrgell fel rhan o Fis Trosedd Cenedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth â'r heddlu.

Gwnaed y bobl ifanc yn Ddirprwy Siryfion gan eu tîm Heddlu Lleol; rhoddwyd hetiau pêl fas iddynt; cafodd ôl eu bodiau eu troi'n gylchau allweddî, a buont yn gwisgo gwahanol eitemau ac yn eistedd mewn car heddlu.

Plant ysgol lleol yw'r Ddirprwy Siryfion, sy'n gofalu am eu hysgol a'i gilydd. Maent yn cael eu hannog i gymryd diddordeb mewn gofalu am eu hysgol, gan roi gwybod am ddigwyddiadau i oedolion sy'n gallu cymryd y camau angenrheidiol.



Nod: E4 Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol

Mae'r ffigurau ar gyfer nifer yr achosion o drais sy'n gysylltiedig ag alcohol fel a ganlyn:-

	2014/15	2015/16	2016/17	
Cyfanswm trais sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Sir Gaerfyrddin	631	630	629	Roedd lefelau troseddau cysylltiedig ag alcohol wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn ac mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fynd i'r afael â phroblem

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae ymgyrch 'Addewid Paul' (gweler isod) wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon a chanlyniadau alcohol, trais a'r effaith bosibl ar unigolion a'u teuluoedd. Mae Paul Pugh wedi parhau, gyda chefnogaeth gan yr heddlu a thîm diogelwch cymunedol y Cyngor, i weithio'n galed i ymgyrchu yn erbyn trais a achosir gan alcohol drwy deithio o amgylch ysgolion, colegau, grwpiau ieuencid a chlybiau chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin. Derbyniodd Paul Wobr Clod arbennig am ei waith ymgyrchu gan y Prif Gwnstabl Mark Collins, mewn digwyddiad i nodi 10 mlynedd ers yr ymosodiad yn Rhydaman.
- ✓ Rydym wedi sicrhau bod gwaith yn parhau gyda safleoedd trwyddedig, siopau trwyddedig a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â phroblemau mewn cymunedau a lleoliadau domestig yn ystod y nos o ran troseddau cysylltiedig ag alcohol a chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Fel rhan o'r ymgyrch, ffilmiodd Paul raglen ddogfen 15 munud, sy'n dechrau gyda'r alwad 999 a wnaed i'r gwasanaethau brys ar ôl yr ymosodiad.



Mae'r lluniau'n dangos yr hyn ddigwyddodd heb ddangos yr ymosodiad yn glir, ac maent wedi cael eu rhyddhau gan grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel' Sir Gaerfyrddin a Heddlu Dyfed-Powys yn ôl dymuniad Paul. Maent yn cael eu dangos mewn ysgolion, colegau a chlybiau ieuencid ar draws Sir Gaerfyrddin fel rhan o'r ymgyrch. Dywedodd y Cynghorydd Pam Palmer, Cadeirydd y Grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel': "Mae Paul yn dal i fod yn hynod o ddewr, ac mae'n dyst i'w gymeriad cryf ei fod yn defnyddio ei ddioddefaint i helpu eraill. Mae neges Paul yn syml – cerddwch bant, pwyllwch. Ni ddylai neb fynd drwy'r hyn y mae Paul a'i deulu wedi gorfod ei ddioddef. Dylem i gyd ddal ar y cyfle hwn i addo na fyddwn byth yn esgusodi trais nac ymddygiad ymosodol."

Nod: E5 Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt


Diogelu pobl rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod yw ein blaenoriaeth uchaf fel Cyngor

Cafodd gwefan newydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ei lansio ar 14 Tachwedd 2016, ac fe'i datblygwyd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant (CYSUR) a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Oedolion (CWMPAS).

www.cysur.wales a www.cwmpas.wales


Diogelu Plant

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17



Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf o 271 yn ystod 2012/13 i **206 ar ddiwedd mis Mawrth 2017** (lleihad o 13%; 10% oddi ar 2015/16).

Mae ailffocysu gwaith timau gwaith cymdeithasol rheng flaen, a gosod rhagor o bwyslais ar waith ataliol wedi helpu i gyflawni hyn. Mae'r panel llety wedi cael effaith fawr o ran atal pobl ifanc rhag gorfod cael gofal, a hynny drwy ddarparu cymorth ychwanegol a rhoi cynlluniau amgen ar waith. Mae model arferion '**Signs of Safety**' wedi cael ei roi ar waith ers Mehefin 2016, ac rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant (yn dal i fyw gyda'u teulu â chynllun diogelu ar waith).



Yn ystod 2016-17 mae ein prif ffocws wedi bod ar:

- Adolygu ein hasesiadau a gwella ansawdd y cynlluniau gofal; a sicrhau bod Asesiadau Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) ac Asesiadau Risg Unigolion Coll yn cael eu cwblhau fel y bo'r angen.
- Rhoi'r model 'Signs of Safety' ar waith, ynghyd â threfniadau newydd mewn perthynas â'n gwasanaethau ymadael â gofal yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant a threfniadau 'Pan Fydda i'n Barod';
- Gwella sefydlogrwydd lleoliadau
- Atgyfnerthu gwasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rydym wedi datblygu ffurflen asesu newydd, sydd wedi'i seilio ar y 5 elfen asesu yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys cynllun ar gyfer Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n hyrwyddo llesiant ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyfforddiant ychwanegol wedi cael ei roi i weithwyr cymdeithasol ynghylch cwblhau asesiadau,

a chafodd sesiynau datblygu eu cynnal i alluogi gweithwyr i wella eu sgiliau o ran llunio cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol hefyd wedi ailddatblygu dogfennau ymgynghori a phrosesau sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio mwy ar y plentyn ac ar ganlyniadau.

Mae **Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru** yn parhau i chwarae rôl weithredol yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) gan gyfrannu at ddatblygiadau gwasanaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Roedd newidiadau staffio yn un o'r awdurdodau lleol wedi rhoi cyfle eleni i addasu strwythur Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rydym wedi dechrau gweld cynnydd yn nifer y plant y mae angen lleoliadau mabwysiadu arnynt, sy'n adlewyrchu'r duedd genedlaethol ac sy'n golygu y bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn blaenoriaethu recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr, ochr yn ochr â chymorth mabwysiadu.

Yn ystod 2016/17:-

- 50 o benderfyniadau 'dylid eu gosod' i'w mabwysiadu wedi eu gwneud
- 31 o Orchmynion Lleoli wedi eu cyflwyno
- 23 o blant wedi'u Lleoli ar gyfer eu Mabwysiadu
- 24 o Orchmynion Mabwysiadu wedi cael eu cyflwyno

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

	Mesurau Allweddol Diogelu Plant	canlyniad	canlyniad	Sylw
✓	% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau pontio (SCC/32)	3.9%	3.4%	Gwelliant
	% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud lleoliad deirgwaith neu fwy (SCC/33)		11.17%	Mesur newydd o 2016/17
	% yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol (SCC/24)		82.9%	Mesur newydd o 2016/17
	% y plant sy'n cael cymorth i barhau i fyw o fewn eu teulu (SCC/25)		79.7%	Mesur newydd o 2016/17
	% y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o leoliad gofal yn ystod y flwyddyn (SCC/26)		24.6%	Mesur newydd o 2016/17
	% ailgofrestru plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (SCC/27)		10.4%	Mesur newydd o 2016/17
	Y cyfartaledd amser yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (SCC/28)		275 diwrnod	Mesur newydd o 2016/17
	% y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal (SCC/30)		71.4%	Mesur newydd o 2016/17
	% y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau eu lleoliad (SCC/31)		94.0%	Mesur newydd o 2016/17


Roedd arolygiad AGGCC (Gorffennaf 2016) yn cydnabod ein hymrwymiad i helpu plant i barhau i fyw o fewn eu teulu:

"Gwelsom awdurdod lleol a oedd yn ymrwymedig i gynorthwyo plant a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd pryd bynnag yr oedd yn ddiogel gwneud hynny. Roedd yr ymagwedd at ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn ategu'r ymrwymiad hwn".

[Arolygiad AGGCC o Wasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin - Medi 2016](#)

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

- ✓ Mae gwelliant wedi bod yn 2016/17 o ran sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal ac mae gostyngiad wedi bod yn nifer y plant sydd wedi newid lleoliad 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn.



- ✓ Mae dull **Signs of Safety** wedi symleiddio a gwella'r gwaith uniongyrchol a wneir gyda theluoedd. Mae teuluoedd yn gliriach ynghylch yr hyn sy'n digwydd ac mae adborth wedi bod yn gadarnhaol gan fod teuluoedd wedi ei weld yn fwy ymgysylltiol a chyfranogol, ac mae'r ffocws ar gynlluniau teulu a chynnwys y plentyn y mae pryder amdano.

Mae'r tîm **Cam Nesaf** (gadael gofal) yn darparu ystod gynyddol o hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gadael gofal er mwyn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ar hyn o bryd mae gennym –

- 40 o adawyr gofal mewn addysg bellach,
 - 13 mewn cyflogaeth amser llawn,
 - 13 ar gynlluniau hyfforddi, a
 - 4 mewn Addysg Uwch.
 - Mae 30+ o bobl ifanc bellach yn cael mynediad i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ac yn aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed os yw'n briodol.
- ✓ Nid oedd yr un o'n plant sy'n derbyn gofal na'n 'gadawyr gofal' wedi gorfod aros mewn llety Gwely a Brechwast yn 2016/17. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella'r opsiynau llety a chymorth â thai i'r holl bobl ifanc agored i niwed (16-25 oed).

Mae ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol – "*Pe bai'n blentyn i mi*" – yn pwysleisio'r angen i bawb ledled y Cyngor gydweithio er mwyn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Panel Rhianta Corfforaethol yn goruchwyllo'r targedau a bennir er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y byddai rhiant cyfrifol yn ei wneud.

- ✓ Rydym yn sicrhau bod gan gynghorwyr yr holl rinweddau i gyflawni eu rôl rhianta corfforaethol. Mae hyfforddiant wedi cael ei roi ac mae ymrwymiad wedi cael ei wneud i dderbyn hyfforddiant yn flynyddol.
- ✓ Wrth i weithwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant newydd, ac yn dilyn hyfforddiant a datblygu, mae archwiliadau o asesiadau wedi dangos gwelliant mewn ansawdd a gwell ffocws ar ganlyniadau ac ymgysylltu â phlant a theluoedd.
- ✓ Rydym wedi adolygu'r protocolau sydd ar waith i sicrhau bod yr **Asesiadau Risg o Gamfanteisio Rhywiol** (SERAF) ac Asesiadau Risg Unigolion Coll yn cael eu cwblhau yn Sir Gaerfyrddin, ac yn rhanbarthol gan CYSUR. Yn Sir Gaerfyrddin, rydym wedi penderfynu y bydd asesiadau ychwanegol yn cael eu cynnal cyn bod SERAF ac Asesiad Risg Unigolion Coll yn cael eu cwblhau er mwyn llywio penderfyniadau'n well.
- ✗ Mae 88% o ofalwyr maeth presennol wedi cael adolygiad yn ystod 2016-17. Er ein bod wedi parhau i wneud cynnydd o ran sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, yn anffodus nid oeddem wedi gallu cyrraedd ein targed o gwblhau 100% o'r adolygiadau o fewn y terfyn amser. Ein nod yw gwella ar hyn y flwyddyn hon.

Diogelu Oedolion

Mae'r Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i Ddiogelu Oedolion ac yn helpu i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, a phroblemau cyffuriau ac alcohol. Mae hefyd yn diogelu oedolion agored i niwed a phobl sydd heb alluedd meddyliol mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi buddsoddi mewn strwythur newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn i wella amserau ymateb a sicrhau bod gennym y gallu i atal pobl agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Mae hon wedi bod yn rhaglen lwyddiannus o newid, ac mae'r amserau ymateb yn well sy'n ein galluogi i fod yn hyderus y bydd y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn fwy diogel nag erioed.

Mae Bwrdd Diogelu newydd Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi lansio ei wefan newydd, sydd wedi'i datblygu gan y byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion. Er mwyn cyflawni amcanion Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae un Bwrdd wedi'i ddatblygu i Oedolion ac un i Blant. Enw'r wefan newydd i Oedolion yw [CWMPAS: Cydweithio a Chynnal Partneriaeth ar gyfer Diogelu Oedolion \(Collaborative Working & Maintaining Partnership for Adult Safeguarding\)](#)

Mae Amcanion y Bwrdd fel a ganlyn:

- ❖ **AMDDIFFYN** oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru:

y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod ac

- ❖ **ATAL** yr oedolion hynny yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

Pwrpas y Wefan yw:

- ❖ Darparu hwb rhannu gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd ac asiantaethau proffesiynol ledled y rhanbarth – sy'n cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys.
- ❖ Cefnogi gweledigaeth y byrddau diogelu o gael asiantaethau proffesiynol i weithio gyda'i gilydd i hybu diogelwch a llesiant.

Roedd y lansiad yn cyd-fynd ag Wythnos Genedlaethol Diogelu a oedd yn hyrwyddo ac yn cynyddu ymwybyddiaeth gan gyfleu'r neges bod 'diogelu yn fater i bawb'.

Dywedodd Rebecca Evans, y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd: “Rydym am sicrhau bod plant ac oedolion yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a bod y rheiny sydd o'u cwmpas yn gwybod sut mae adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) rydym wedi cyflwyno dull partneriaeth effeithiol o ddiogelu.

“Bydd y wefan, sydd wedi'i datblygu gan y bwrdd rhanbarthol, yn helpu i rannu gwybodaeth ac arbenigedd ar faterion diogelu ac yn sicrhau bod oedolion a phlant agored i niwed yn ddiogel yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.”

Roedd ein gwerthusiad gan AGGCC ar gyfer y llynedd yn nodi'r canlynol:

“ Mae gan Sir Gaerfyrddin gynrychiolaeth gref ar ran gofawyr ar y bwrdd Partneriaeth Gofawyr a'r bwrdd gofawyr Strategol Rhanbarthol, mae ganddynt lais cryf ac maent yn dal yr awdurdod lleol i gyfrif wrth sicrhau bod anghenion y gofawyr yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn allweddol wrth godi materion yn ymwneud â diffygion mewn asesiadau gofawyr ac mae'r awdurdod wedi datblygu swydd newydd i gwblhau'r dasg hon yn fwy effeithiol. ”

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar gyfer gwasanaethau oedolion oedd 626. Mae hon yn gyfradd ymateb o 43%.

Rydym yn ystyried bod hyn yn uchel dros ben, ac mae'r enghreifftiau o'r ymatebion yn cynnwys y canlynol:-

- ❖ Mae 81% yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu llesiant yn y modd gorau.
- ❖ Dim ond 3% a deimlai nad oedd eu cartref yn cynnal eu llesiant.
- ❖ Teimlai 49% eu bod yn rhan o gymuned.
- ❖ Dywedodd 18% nad oeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.
- ❖ Dywedodd 73% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref.
- ❖ Dywedodd 72% o bobl eu bod yn meddwl eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan fydd angen hyn arnynt.
- ❖ Roedd 85% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

HEFYD

- ✓ Rydym wedi sicrhau bod 75% o ymholiadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod. *(SCA/18)*
- ✓ Mae'r Grŵp Gweithredol Lleol wedi ei sefydlu bellach ac mae diwylliant o ymddiriedaeth a thryloywder yn cael ei ddatblygu'n dda. Bydd y grŵp hwn yn profi ac yn herio arferion diogelu, ac, o bosibl, yn gyswllt ar gyfer Adolygu Arferion Oedolion.
- ✓ Ar hyn o bryd dim ond y tîm Diogelu, gyda chymorth gan nyrsys asesu, sy'n cynnal ymchwiliadau Diogelu. Mae hyn yn golygu bod arfer gorau a gwarsi a ddysgir yn cael eu rhannu'n rheolaidd. Mae grŵp rhanbarthol ar gyfer Adolygu Arferion Oedolion wedi cael ei sefydlu lle caiff achosion difrifol eu hystyried, ac, yn aml, eu hadolygu. Rhennir y gwarsi a ddysgir drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Grŵp Gweithredol Lleol.
- ✓ Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu'r prosesau presennol o ran diogelu a Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae sylw wedi'i roi mewn darn o ddeddfwriaeth i ddiogelu oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. O ganlyniad, mae ein tîm diogelu penodol wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill megis Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Heddlu Dyfed-Powys, i edrych ar ffyrdd nid yn unig o amddiffyn oedolion sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn perygl, ond hefyd ar ffyrdd o atal unigolion rhag dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth o'r fath.

Mae ein *Polisi Diogelu* Corfforaethol yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith staff, cynghorwyr a phobl sy'n gweithio ar ein rhan ynghylch y canllawiau sydd ar waith er mwyn diogelu plant ac oedolion. Mae gennym gynlluniau gweithredu ar gyfer y Tîm Diogelu Pobl, Amddiffyn Oedolion a Diogelu Corfforaethol, a rhoddir blaenoriaeth uchel i'r rhain.

Nod: E6 Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd

Mae anafiadau traffig ar y ffyrdd yn digwydd bob diwrnod ar ffyrdd Cymru, ond dylai fod modd osgoi unrhyw farwolaeth neu anaf difrifol ar ein ffyrdd. Ni ddylai neb gymryd yn ganiataol fod digwyddiadau o'r fath yn un o sgil-efeithiau anochel trafniadaeth, ac mae gan bob aelod o gymdeithas gyfraniad i'w wneud i leihau tebygolrwydd gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Gall pob gwrthdrawiad fod yn drychinebus i'r rhai sy'n rhan ohono a'u teuluoedd.

Rydym ni, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ymrwymedig i wella diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Rydym yn gweithio i wella diogelwch ffyrdd er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Wrth helpu i gyrraedd y targedau tymor hir rydym wedi parhau i weithio gyda grwpiau o ddefnyddwyr ffyrdd risg uchel, yn benodol reidwyr beiciau modur a gyrwyr hŷn ac iau, er mwyn hybu diwylliant o yrru diogel. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar addysgu plant a phobl ifanc mewn diogelwch ffyrdd gan fod addysg gynnar yn eu gwneud yn ddefnyddwyr ffordd mwy diogel yn y dyfodol.

Gweledigaeth

"Lleihad parhaus yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru, gan anelu yn y pen draw at ddim marwolaethau ar y ffordd." Ffynhonnell: Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru

Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd/anafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020. Gostyngiad o 25% yn nifer y reidwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd/anafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.

Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd/anafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.

**Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**

"Mae'r cyngor wedi cael grant o £137,000 ar gyfer addysg a hyfforddiant diogelwch ffyrdd. Bydd yr arian yn helpu i ddarparu hyfforddiant mewn pedwar maes blaenoriaeth, gan dargedu reidwyr beiciau modur, gyrwyr hŷn, gyrwyr iau a disgyblion ysgolion cynradd, a'u helpu wrth feicio a chroesi'r ffordd."

- ✓ Rydym wedi datblygu Cynllun Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin 2016-2020.
- ✓ Hyd yn hyn, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn diogelwch ffyrdd drwy ariannu addysg diogelwch ffyrdd, peirianeg diogelwch ffyrdd a gwerthuso.
- ✓ Rydym wedi parhau i gefnogi camau gorfodi gan yr Heddlu a Gan Bwyll drwy ein Gweithgor Rheoli Cyflymder.

Addysg

1046 o ddisgyblion wedi cwblhau cyrsiau Kerbcraft

90 o yrwyr wedi cwblhau PassPlus Cymru

143 o feicwyr modur wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch Beiciau Modur.

666 o ddisgyblion wedi cwblhau hyfforddiant beicio Safonau Cenedlaethol.

400 o yrwyr newydd wedi cael hyfforddiant Gyrwyr Ifanc a

226 o yrwyr hŷn wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch gyrwyr.



- ✓ Rydym wedi gweithio gyda Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac wedi cynnal cyrsiau hyfforddiant i reidwyr beiciau modur. Hefyd rydym yn gweithio gyda phartneriaid i geisio annog beicwyr modur i gael yr hyfforddiant.
- ✓ Mae ein gwaith gyda gyrwyr hŷn wedi cael ei rannu drwy Grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru a Diogelwch Ffyrdd Cymru.

Peirianeg

- ✓ Mae dau brosiect trin llwybrau yn Stryd yr Eglwys a Heol yr Orsaf, Llanelli wedi cael eu cyflawni yn 2016-17
- ✓ Rydym wedi diwygio a gweithredu model i flaenoriaethu mesurau rheoli traffig.
- ✓ Rydym wedi prynu a gweithredu'r feddalwedd mapio a damweiniau ddiweddaraf i wella ein defnydd o ddata.

Gorfodi

- ✓ Mae gweithgareddau gorfodi ar y cyd wedi cael eu cynnal gyda'n partneriaid, Heddlu Dyfed-Powys, yn yr ysgolion cynradd lleol: Pencader, Pontyberem, Nantgaredig, Llanybydder
- ✓ Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd i dargedu'r prif ymddygiad a risgiau sy'n arwain at farwolaethau ac anafiadau difrifol.
- ✓ Mae hyn o fewn amgylchedd lle mae'r traffig wedi cynyddu yn y flwyddyn i 1.95 biliwn cilometr y flwyddyn o gymharu ag 1.83 biliwn cilometr y flwyddyn yn 2012.

Strategaeth Diogelwch Ffyrdd 2020	2015/16	2016/17	Cynnydd
Y nifer a laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol yn sgil damwain ar y ffordd (5.5.2.21)	102	102	Dim newid
Nifer y reidwyr beiciau modur a laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol (5.5.2.22)	17	33	Wedi cynyddu
Nifer y bobl ifanc (16-24 oed) a laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol (5.5.2.23)	23	19	Gostyngiad

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



Roedd mentrau diogelwch ffyrdd beiciau modur yn Sir Gaerfyrddin wedi cael cydnabyddiaeth Frenhinol gan EUB Tywysog Cymru fel rhan o Benwythnos Beiciau Modur Llanymdyfri.

Helpodd y Tywysog i lansio'r digwyddiad dau ddiwrnod drwy gychwyn gorymdaith o feiciau o amgylch y dref; a hefyd roedd stondinau, atyniadau, arddangosfeydd beiciau, helpa drysor beiciau modur, reidiau ffair a sioe feiciau.

Roedd swyddogion diogelwch ffyrdd o'r Cyngor, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yno i hyrwyddo mentrau diogelwch amrywiol megis Beicio Diogel, Dragon Rider Cymru, Beiciwr Down Cymru a chynllun carden CRASH. Siaradodd y Tywysog â'r tîm am y mentrau y maent oll wedi eu cynllunio i helpu reidwyr beiciau modur i fod yn reidwyr mwy diogel, a bu iddo ganmol y swyddogion am eu gwaith.

Canlyniad F: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy...

Mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei chymunedau amrywiol a'i hamgylchedd naturiol hyfryd, ac rydym am sicrhau ein bod yn datblygu'n gynaliadwy fel y gall pawb yn y sir fwynhau ansawdd bywyd gwell yn awr ac am genedlaethau i ddod.



Cymerwyd cam sylweddol o ran y cynlluniau uchelgeisiol i ddarparu llwybr beicio rhwng Caerfyrddin a Llandeilo yn sgil grant o £581,000.

Derbyniodd y Cyngor grant Cronfa Trafnidiaeth Leol o £581,600 gan Lywodraeth Cymru tuag at greu cysylltiadau cerdded a beicio yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi.

Bydd y grant yn mynd tuag at gamau dylunio cynnar y cynllun, a fydd yn helpu i wneud Sir Gaerfyrddin yn brif gyrchfan beicio Cymru.

Rhagwelir y bydd y prosiect – a fydd yn

costio tua £5 i £7 miliwn - yn cynhyrchu rhwng £860,000 a £2 filiwn yn yr economi leol bob blwyddyn. Hefyd disgwylir y bydd hyn yn creu ac yn cynnal rhwng 17 a 41 o swyddi amser llawn y flwyddyn. Lle bo modd bydd y llwybr yn dilyn yr hen reilffordd, gan fod yn gysylltiedig â'r prif atyniadau i dwristiaid sydd yn y cyffiniau. Hefyd bydd yn rhoi cyfle i bobl deithio mewn modd cynaliadwy ac iach, gan greu cyswllt â phentrefi rhwng y ddwy brif dref.

Nodau: (fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

F1 - Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon

F2 - Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff

F3 - Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy

F4 - Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sir

F5 - Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy

F6- Datblygu dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy

F7 - Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) 2016/17 yw:

Gwella'r rhwydwaith seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach.

Cipolwg ar gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Cyfraddau ailgylchu uwch	✓
Gwell mynediad digidol	✓
Gwell cysylltiadau trafndiaeth	✓
Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy	✓

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 2016-17:

Nod: F1 Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Mae costau cyfleustodau cynyddol, ynghyd â chosbau cysylltiedig am allyriadau carbon, yn golygu ei bod yn ofynnol i roi rhaglenni effeithlonrwydd ynni mwyfwy heriol ar waith. Rydym yn archwilio cyfleoedd arbed ynni uchelgeisiol yn ein hadeiladau annomestig, gan gynnwys ysgolion, a hynny drwy raglen **Re:fit Cymru** a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sy'n defnyddio contractau perfformiad ynni i sicrhau arbedion ynni. Mae hyn yn cyflymu ac yn cyd-fynd â'n rhaglen effeithlonrwydd ynni corfforaethol llwyddiannus lle mae £2+miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn dros 200 o brosiectau effeithlonrwydd ynni a rhagwelir y byddant ar y cyd yn arbed £7+miliwn / 41,000 tunnell o CO₂ yn ystod oes y technolegau.



Ffitio lampau LED ynni isel

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Tabl i ddanqos y defnydd o ynni o flwyddyn i flwyddyn, y gost ac allyriadau carbon deuocsid.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2015/16	2016/17		
	Canlyniad	Canlyniad	Cynnydd	% y newid
Stoc adeiladau cyhoeddus annomestig y Cyngor				
Defnydd (kWh)	68,452,917	Ddim ar gael tan fis Medi		
Cost (£)	£4,440,880			
CO ₂ (tunelli)	20,855			
Goleuadau Stryd				
Defnydd (kWh)	xxxx	Ddim ar gael tan fis Medi		
Cost (£)	xxxx			
CO ₂ (tunelli)	xxxx			
Milltiroedd y Fflyd				
Milltiroedd	5,041,173	5,127,150	Wedi dirywio	+1.71% *
Cost (£)	£1,268,768.64	£1,323,491	Wedi dirywio	+4.31% *
CO ₂ (tunelli)	3,799	3852	Wedi dirywio	+1.40% *
Milltiroedd Busnes				
Milltiroedd	4,562,876	4,186,640	Wedi gwella	-8.2%
Cost (£)	£1,917,083	£1,764,985	Wedi gwella	-7.9%
CO ₂ (tunelli)	1,363	1,251	Wedi gwella	-8.2%
Cyfansymiau				
Defnydd (kWh)		Ddim ar gael tan fis Medi		
Milltiroedd				
CO ₂ (tunelli)				

* Mae cynnydd wedi bod ym milltiroedd a chost y Fflyd, gan fod rhai milltiroedd busnes blaenorol bellach yn ffigurau corfforaethol wrth inni gyflwyno cynlluniau cerbydau adrannol. Felly, dylai milltiroedd staff elwa ar y gostyngiad. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd o 2c y litr yng nghost tanwydd rhwng 15-16 a 16-17.

- ✓ Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn ôl-osod systemau ffotofoltäig solar ar ei adeiladau annomestig, ac mae 17 o osodiadau pellach wedi'u cwblhau y llynedd sy'n golygu bod ein capasiti o ran solar dros un megawat (MW).

- ✓ Rydym yn newid goleuadau stryd i unedau LED mewn ymgais i leihau costau ynni ac allyriadau CO². Drwy gyflwyno technoleg sy'n pylu'r golau, rhagwelir bydd y prosiect yn cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd o £627,000 o flwyddyn i flwyddyn ar ôl ei gwblhau. Er bydd angen buddsoddiad cyfalaf o £2.9milwn bydd y ffrwd gyllido yn defnyddio benthyciad di-log o £1.4m drwy fenter "*Buddsoddi i Arbed*" Llywodraeth Cymru, gan arwain at arbedion o £410,000 yn ystod y pedair blynedd gyntaf. Byddai £217,000 yn rhagor yn cael ei arbed o ganlyniad i lai o gostau cynnal a chadw a chostau cerbydau a llafur. Cafodd cam 1 y broses o drawsnewid i oleuadau LED ei chwblhau ar amser ac mae cyfanswm o 3400 o oleuadau wedi cael eu newid ac mae Cam 2 ar waith.
- ✓ Rydym wedi parhau i ddilyn ein polisi o gynnwys technolegau carbon isel a di-garbon yn rhan o brosiectau er enghraifft gosod y paneli ffotofoltäig yn ddiweddar yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Carreg Hirfaen. Rydym hefyd wedi darparu'r adeilad ysgol cyntaf yng Nghymru sy'n bodloni safonau Passivhaus sef Ysgol Porth Tywyn.
- ✓ Mae £7.60m wedi cael ei fuddsoddi mewn fflyd newydd o gerbydau a rhagwelir £1.8m yn rhagor yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- ✓ Rydym hefyd wedi lleihau nifer y cerbydau trwm yn y Gwasanaethau Priffyrdd o 35 i 21, sydd wedi sicrhau arbedion cyfalaf o £1.6m.
- ✓ Yn rhan o gyflwyno'r fflyd newydd, cafodd y llwybrau casglu sbwriel eu haildrefnu, gan arwain at leihau nifer y milltiroedd o 185,000 y flwyddyn, ac yn hynny o beth leihau ôl troed carbon y fflyd yn sylweddol.
- ✓ Rydym wedi buddsoddi £4.3m mewn fflyd cerbydau casglu gwastraff newydd. Mae'r holl gerbydau'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf o ran allyriadau sy'n sicrhau mai fflyd cerbydau Sir Gaerfyrddin yw'r fflyd fwyaf modern a chydawns â'r amgylchedd yng Nghymru.
- ✓ Yn ogystal, dyfarnwyd contractau ar gyfer 11 o fysiau lles newydd a addaswyd yn 2016.
- ✓ Drwy fuddsoddiad sylweddol rydym wedi newid mwy na 200 o gerbydau gan leihau'r fflyd weithredol 3.74% o gymharu â tharged o 2% eleni.



Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn dweud bod llygredd aer yng Nghymru yn "**argyfwng iechyd cyhoeddus**" a bod angen mynd i'r afael â hyn yn syth. Dim ond ysmegu oedd yn fwy argyfyngus, ac roedd yn fwy o bryder na gordewdra ac alcohol. Mae ei ffigurau'n dangos bod llygredd aer yn achosi 2,000 o farwolaethau y flwyddyn - 6% o gyfanswm Cymru. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud ei ran o ran lleihau allyriadau.

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru fod **88%** o'r rhai a holwyd yn bryderus/pryderus iawn ynghylch newid yn yr hinsawdd.

Mae fflyd y Cyngor heddiw yn defnyddio **26%** yn llai o danwydd i weithredu ein fflyd cerbydau nag a wnaethom yn 08-09 (o 2,088,185 o litrau i lawr i 1,550,082 o litrau).


Nod. F2 Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Mae cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol yn flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor ac mae gwelliannau parhaus yn cael eu cyflawni. Wrth gynllunio ein darpariaeth gwasanaethau yn 2016/17, bu inni ganolbwyntio ar weithredu'n unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Phum Ffordd o Weithio**.

Yn 2016/17 cynyddodd ailgylchu i 66.23% o 63.52% y flwyddyn flaenorol. Yn ychwanegol at gyfradd ailgylchu'r Cyngor sy'n gwella, mae cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn parhau i ostwng, yn bennaf o ganlyniad i anfon gwastraff gweddilliol i Sgandinafia lle mae'n cael ei ddefnyddio fel tanwydd ar gyfer cynlluniau gwresogi cymunedol. Rydym yn dal i berfformio'n dda o ran ailgylchu ac ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae angen i'n Tîm Ailgylchu Cymunedol



barhau ag arolygon i weld faint sy'n ailgylchu, er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n ailgylchu, gan fod gennym dargedau heriol i'w cyrraedd o hyd. Dim ond **4.73%** o'r gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2016/17, ond mae awdurdodau eraill yn gwneud hyd yn oed yn well a bellach rydym yn y 12^{fed} safle o blith y 22 awdurdod ar gyfer 2016/17 ac nid yn 1^{af} fel yn 2015/16.

**Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**

- ✓ Ym mis Hydref, cyflwynwyd cerbydau fflyd newydd i gasglu gwastraff yn y Sir, cytunwyd ar safon y cerbydau ledled y Sir ac aethpwyd ati i gaffael cerbydau newydd i gasglu gwastraff bwyd a bagiau ailgylchu/gwastraff. Cafodd y llwybrau newydd eu cyflwyno ddiwedd mis Hydref gan arwain at newidiadau yn y trefniadau casglu i tua 65,000 o aelwydydd o blith yr 87,000 o aelwydydd yn y Sir. Mae'r gwasanaeth newydd hefyd wedi golygu gostyngiad o 63% yn y tai sy'n cael gwasanaeth gan gerbyd bach â chaets, gan gynyddu effeithlonrwydd y gwasanaeth yn sylweddol. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn o £8m yn y fflyd cerbydau gall y Cyngor ymfalchïo yn y fflyd cerbydau fwyaf modern a lleiaf niweidiol o ran allyriadau carbon yng Nghymru.

Mesurau Llwyddiant Allweddol	2015/16		2016/17	
	Gwirioneddol	Cyfartaledd Cymru	Gwirioneddol	Cynnydd
% y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	5.25% ****	18.14%	4.73% **	Wedi gwella
% y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd ar gyfer ei aildefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall (WMT/009b)	63.52% ****	60.19%	66.23% ****	Wedi gwella

#1 Mae 22 o Gvndhorau vna Nohvrmu (*= v chwartel awaethaf (h.v. vmvsa v pum awaelod) **** = v chwartel aorau (vmvsa v

- ✓ Mae canran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn unol â'r targed. Canlyniad diwedd blwyddyn (4.73%) yn erbyn targed o (10%). Mae Sir Gaerfyrddin yn y 12^{fed} safle allan o 22 ar gyfer 2016-17, o gymharu â'r safle 1^{af} yn 2015/16.
- ✓ Mae canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd ar gyfer ei aildefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys bio-wastraff wedi'i wahanu yn y ffynhonnell sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall hefyd yn unol â'r targed. Canlyniad diwedd blwyddyn (66.23%) yn erbyn targed o (62.00%).
- ✓ Mae'r Dangosydd Glendid yn unol â'r targed. Canlyniad diwedd blwyddyn (73.2%) yn erbyn targed o (67%).
- ✓ Mae canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol yn unol â'r targed. Canlyniad diwedd blwyddyn (98.6%) yn erbyn targed o (92%). Mae Sir Gaerfyrddin yn y 3^{ydd} safle allan o'r 22 o awdurdodau yn 2016-17.
- ✓ Rydym wedi trefnu, fel rhan o brosiect **Creu Gardd Hardd**, sesiynau codi sbwriel, gweithdai plannu ac ymgyrchoedd amrywiol i lanhau'r gymuned er mwyn gwella golwg yr ardal leol.
- ✓ Mae'r awdurdod hefyd wedi cael gwybod am ddyfarniad cyllid llwyddiannus o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd.



Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae wedi bod yn ofynnol i ymgysylltu'n sylweddol ac mewn modd ystyrlon â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cyflwyno rowndiau gwastraff newydd yn llwyddiannus. Er mwyn gweithredu'r rowndiau newydd, a gyflwynwyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost, yn ogystal â gwella ein perfformiad o ran ailgylchu, mae rhaglen helaeth i gyfathrebu â tua 65,000 o aelwydydd wedi bod yn angenrheidiol.

Yn ôl astudiaeth [Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2014-15](#), mae 85% o ddinasyddion Sir Gaerfyrddin yn **fodlon** ar y **gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu** a ddarperir gan y Cyngor, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac rydym yn gydradd drydydd.

Nod: F3 Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy

Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.



Mae Sir Gaerfyrddin yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, trafniadaeth, tai, anghydraddoldebau iechyd, mynediad at wasanaethau, a thwf a swyddi. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain mae angen i ni weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill a chyda phobl a chymunedau er mwyn ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig i roi ansawdd bywyd da i'n plant a'n hwyryon. Mae angen i ni feddwl sut y bydd y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn awr yn effeithio arnynt.

Mae ardaloedd gwledig yn ffurfio rhan sylweddol, hyd at 94%, o Sir Gaerfyrddin, o ran arwynebedd tir. Mae ardaloedd gwledig yn cyfrif am fwy na 62% (Ffigurau Poblogaeth Wardiau Cyfrifiad 2011) o boblogaeth y sir.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Rydym wedi cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy **drwy'r canlynol:**
 - datblygu a darparu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau y Sir Gyfan drwy ddatblygu cynllun marchnata a chyfathrebu i gefnogi ymgysylltu cymunedol;
 - cysylltu prosiectau cyflogadwyedd (Cynnydd, Gweithffyrdd+, Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith, Esgyn, Cam Nesa, Hwb Un Sir Gâr) â chyfleoedd perthnasol;
 - datblygu cynllun gweithredu ar gyfer Buddion Cymunedol mewn partneriaeth â'n Tîm Caffael;
 - a darparu cymorth i ddatblygu ceisiadau am gyllid Ewropeaidd allanol; clustnodi cyfleoedd cyllid Ewropeaidd ehangach; datblygu'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Drwy:

- ✓ Sicrhau cyllid drwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru i nodi hyfforddiant i unigolion sy'n anweithgar yn economaidd mewn sgiliau sylfaenol, sef yn benodol rhifedd, rhifydddeg feddyliol, gweithio gydag arian a sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd gan y cyflogwyr.
- ✓ Helpu *Cymunedau am Waith* â Chymunedau yn Gyntaf, Gweithffyrdd, Un Sir Gâr a'r Adran Gwaith a Phensiynau i drefnu Ffair Swyddi yn Theatr y Ffwrnes ym mis Mawrth, lle roedd 400 o geiswyr gwaith yn bresennol.
- ✓ Helpu dros 1,500 o gyfranogwyr i gael mynediad i gyfleoedd gwirfoddoli, mwy na 340 i gael swyddi, ac mae mwy na 3,000 o gyfleoedd hyfforddiant wedi cael eu rhoi i drigolion.
- ✓ Sicrhau cyllid drwy gronfa LEADER ar gyfer rhaglen Buddion Cymunedol ddwy flynedd, gan weithio gyda CAVS a'n tîm Caffael ein hunain i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Buddion Cymunedol er mwyn cefnogi anghenion y Sir Gaerfyrddin Wledig sy'n deillio o'r buddsoddiad yn y Sir.
- ✓ Helpu 14 o brosiectau dan arweiniad y gymuned i symud ymlaen i'r ail gam cyllido dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi. Yn amodol ar gael cymeradwyaeth derfynol, bydd hyn yn arwain at fuddsoddiad ychwanegol o £2.24 yn y Sir Gaerfyrddin Wledig.
- ✓ Cael gafael ar arian drwy raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Sicrhawyd £400k ar gyfer Sir Gaerfyrddin drwy'r prosiect Buccanier, sy'n ceisio cynyddu'r gallu arloesol sydd gan Fusnesau Bach a Chanolig a mentrau cymdeithasol i gynyddu cynhyrchiant.

LEADER

- ✓ Mae rhaglen LEADER, sy'n ceisio cefnogi adfywio gwledig Sir Gaerfyrddin, yn darparu cymorth ariannol i 16 o brosiectau lleol, gan olygu bod y cyfanswm a ddyfarnwyd o raglen 2014-2020 yn fwy na £600K. Mae prosiectau'n cael cyllid drwy Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



Dyma enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi cael cyllid:

- Cynyddu ymwybyddiaeth plant ysgolion cynradd o dreftadaeth leol.
- Prosiect arloesi digidol newydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr â safleoedd treftadaeth
- Astudiaeth ddichonoldeb Cyngor Tref Cwmaman, i ganfod y modd mwyaf manteisiol ac economaidd gynaliadwy o ddefnyddio asedau yn y gymuned
- Sefydliad Awtistiaeth Caldwell, i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr plant ac oedolion ifanc ag awtistiaeth sy'n treialu rhaglen cyfathrebu ymatebol newydd

Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin

- ✓ Mae busnesau gwledig yn Sir Gaerfyrddin yn cael help i gyflawni eu potensial drwy gymorth cronfa Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n werth £2 filiwn. Mae Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi dyfarnu cyfres o grantiau er mwyn helpu busnesau ar draws y sir i ddatblygu safleoedd newydd a phresennol.


Hyd yma, mae Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi cymeradwyo grantiau gwerth £320,559.47, ac mae disgwyl iddynt ddenu buddsoddiad gwerth £682,874.36 o'r sector preifat a chreu 29 o swyddi yn y Sir Gaerfyrddin gwledig. Cafwyd ceisiadau pellach hefyd ac maent ar hyn o bryd yn cael eu hasesu. Gyda'i gilydd, mae disgwyl iddynt ddefnyddio'r gyllideb gyfan sydd ar gael, creu 120 yn rhagor o swyddi a denu buddsoddiad pellach gwerth £1.7 miliwn o'r sector preifat.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Un o'r ceisiadau diweddaraf i gael cymeradwyaeth o dan Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin oedd y cais am £128,000 a roddwyd tuag at adeiladu siop gyfleuster yng ngarej Woodlands, Drefach.

Mae Simon Lewis, yr ymgeisydd, yn fanwerthwr a chyfanwerthwr o Gwm Gwendraeth a gychwynnodd ei yrfa gyda'r cyfanwerthwyr adnabyddus Luther Lewis a sefydlwyd gan ei dad-cu. Bydd y prosiect yn darparu 12 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghwm Gwendraeth dros y ddwy flynedd nesaf.

Dywedodd y Cyngorydd Emllyn Dole, Arweinydd y Cyngor: “Diben Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yw creu cyfleoedd gwaith yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae'n gwneud hynny drwy gynnig grantiau er mwyn i'r busnesau wneud y gwelliannau angenrheidiol i'w safleoedd busnes.”



Siop pob dim yn Garej Woodlands, Drefach sydd wedi cael arian gan Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin

Nod. F4 Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Sir**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r cynefinoedd yn amrywio o arfordir i fynyddoedd a rhostiroedd a dolydd, ac mae'r rhain i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a lles ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth gyfreithiol o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod rheidrwydd arnom i 'geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth lle bo hynny'n rhan briodol o'u swyddogaethau, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ **Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin** - Roedd y Cyngor wedi cwblhau prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin, a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru. Roedd y prosiect yn gwneud gwaith rheoli ar dri safle a gweithiom gydag ysgolion a chymunedau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn perthynas â'r safleoedd anhygoel hyn. Gellir gweld llawer o'r wybodaeth a gasglwyd ar y dudalen we:

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/eich-cymuned/bioamrywiaeth/prosiect-corsydd-hlf.aspx#.Wc4w3meouHs>

- ✓ Mae'r prosiect yn rhoi sylw i sut ffurfiwyd y corsydd, eu hanes botanegol, a'u cysylltiadau â'r newid yn yr hinsawdd. Buom yn edrych ar sut y defnyddid y safleoedd yn y gorffennol gan bobl ac rydym yn cymryd camau i warchod y cynefinoedd pwysig hyn ar gyfer y dyfodol.



Prosiect Brithion y Gors Mynydd Mawr – Mae'r gwaith yn parhau ar brosiect a ddatblygwyd i wneud iawn am effaith datblygiadau yn ardal Cross Hands ar gynefin y glöyn byw gwarchoddedig hwnnw, britheg y gors. Defnyddir cyfraniadau a ddaw i law yn sgil cyflwyno ceisiadau cynllunio i brynu neu i reoli tir yn ardal Cross Hands. Rydym bellach yn rheoli 22 o safleoedd, ac rydym yn berchen ar 3 ohonynt. Yn ei 3 blynedd cyntaf, mae'r prosiect wedi dyblu faint o gynefin cynaliadwy sydd ar gael i frithion y gors yn ardal y prosiect, ac mae wedi ailgyflwyno pori i 7 safle a oedd wedi cael eu gadael. Rydym yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr a chontractwyr lleol.

- ✓ Mae swyddogion **Coed Cymru** yn gweithio ar draws y sir i roi cyngor am reoli coetiroedd, creu coetiroedd a materion cysylltiedig megis adfer perthi. Lle bo modd, darperir cyllid drwy gynlluniau grant Glastir. Mae'r gwaith mewn partneriaeth wedi cynnwys asesu dros 150 hectar o Safleoedd Coetiroedd Hynafol a Blannwyd, gan roi cyngor i berchnogion am ffyrdd o adfer y safleoedd hyn yn goetir lled-naturiol. Cafodd gwaith coetir ar safleoedd y Cyngor yn cynnwys Parc Gwledig Pen-bre, Parc Ynys Dawela a Pharc Coetir y Mynydd Mawr ei gynllunio a'i gyflawni.

- ✓ **Bioamrywiaeth** – yn rhan o waith y flwyddyn, sydd bellach yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, paratowyd Blaen-gynllun cyntaf y Cyngor ynghylch Deddf yr Amgylchedd, sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei bolisiâu, ei gynlluniau, a'i brosiectau, i ddechrau o fewn Adran yr Amgylchedd, yn adleisio'r rhwymedigaethau cyfreithiol newydd a bennwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.



- ✓ Cynhaliom nifer o brosiectau gyda phartneriaid ac rydym yn gweithio ar y cyd ar wastadeddau Llanelli i sicrhau bod pob prosiect a reolir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn yr ardal honno yn cymryd camau cadarnhaol tuag at warchod poblogaeth llygod pengrwn y dŵr yno, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Yr Amgylchedd Adeiledig

- ✓ Datblygwyd system gwybodaeth ddaearyddol i beirianwyr pontydd a phriffyrdd sy'n nodi ardaloedd o risg uchel i **ddyfrgwn**, er mwyn sicrhau y gall prosiectau yn yr ardaloedd sensitif hyn gael eu hasesu'n llawn cyn bod gwaith yn cychwyn, a chael eu dylunio mewn modd sy'n cael cyn lleied o effaith â phosibl.
- ✓ Wedi cwblhau dyluniad peirianegol ar gyfer pibell sych o dan yr A484 ger Cydweli, lle mae llawer o **ddwrgwn wedi trengi** yn y gorffennol.
- ✓ Datblygwyd prif gynllun ar gyfer gwastadeddau Llanelli ochr yn ochr â'r gwasanaethau Hydroleg, a fydd yn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw Sir Gaerfyrddin yn yr ardal hon yn cael ei wneud mewn ffyrdd a fydd yn cynnal ac yn cynyddu poblogaeth **llygod pengrwn y dŵr** yma, ac yn hyrwyddo gwytnwch yr ecosystem. Mae'r ardal hon yn un o'r safleoedd pwysicaf ar gyfer y rhywogaeth hon yng Nghymru. Fel cam cyntaf gweithredu'r cynllun, mae ffosydd sydd wedi tyfu'n wyllt wedi cael eu hailagor yn ofalus, er mwyn darparu gwell draeniad a gwella cynefin llygoden pengrwn y dŵr ar hyd y glannau.



Gwarchod a Gwella

- ✗ Yn ystod 2016/17 roeddem wedi clirio 85.92% o'r achosion o dipio anghyfreithlon a adroddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac nid oedd hyn mor gyflym â'r llynedd, sef 87.24%. Mae'r ffigur hwn yn llawer is na chyfartaledd Cymru o 95.37% a'r ffigur isaf ond un yng Nghymru. Gellir priodoli'r dirywiad hwn mewn perfformiad i ailgyfeirio rhai adnoddau o ran staff i'r gwasanaethau casglu gwastraff, gan fod hwnnw o dan bwysau. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddyrannu adnoddau er mwyn gwella ein perfformiad yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar addysg ac atal wth sicrhau ein bod yn parhau i erlyn unigolion a busnesau'n llwyddiannus, fel y bo'n briodol.
- ✓ Cafodd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ei gyflwyno gennym ar ddechrau haf 2016, sy'n ein galluogi i fynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig â chŵn mewn mannau cyhoeddus yn y sir. Mae'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn ein galluogi i ddelio â phroblemau baw cŵn, delio ag ymddygiad afreolus gan gŵn trwy ofyn i'w perchnogion eu rhoi ar dennyn, a gwahardd cŵn o leoedd chwarae plant caeedig. Mae mabwysiadu'r polisi hwn mewn modd cryf a llwyddiant camau gorfodi o ran baw cŵn a gorchymynion rheoli cŵn yn parhau i wella lleoedd ac amgylcheddau lleol yn Sir Gaerfyrddin.



Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Roedd yr arolwg Asesiad Anghenion Llesiant wedi clustnodi perthynas gref rhwng **Llesiant** pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

Mae'r amgylchedd yn cyfrannu £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau yn flynyddol i economi Cymru, 9% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru ac 1 ym mhob 6 o swyddi Cymru; gyda'r amgylchedd yn gymharol bwysicach i economi Cymru nag sy'n wir ar gyfer gwledydd eraill y DU. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn lefelau'r môr yn cael effaith nid yn unig ar y 5,587 eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes mewn perygl o lifogydd llanwol a llifogydd yn sgil cynnydd yn lefel afonydd, ond ar eiddo ychwanegol ar hyd cymunedau arfordirol ac afonol y sir.

Nod: F5 Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy

Gweler y **Canlyniad: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus** i gael gwybodaeth am y nod hwn.

Nod: F6 Datblygu dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y **Cynllun Trafnidiaeth Lleol** ac yn ein Cynllun Buddsoddi Cyfalaf. Rydym yn parhau i annog a chefnogi dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth yn y sir er mwyn helpu i leihau ein hallyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio ceir preifat. Drwy fuddsoddi mewn seilwaith priffyrdd newydd yng Ngorllewin Caerfyrddin, Cross Hands a Rhydaman, anelir at leihau tagfeydd a darparu ffyrdd cyswllt allweddol. Rydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cerdded a beicio allweddol yn Llanelli, Dyffryn Tywi a Chaerfyrddin.

Gan mai bod yn **unedig a chysylltiedig** yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun 'Symud Cymru Ymlaen'.

Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgáu cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant. Mae trafndiaeth gymunedol yn parhau i elwa ar wasanaeth arloesol Bwcabus / LINC a gwasanaeth bysiau Galw a Theithio, yn ogystal â chynllun Ceir Cefn Gwlad lle mae gwirfoddolwyr lleol yn gyrru pobl, er mwyn cefnogi mynediad i wasanaethau allweddol.

**Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?**

- ✓ Roeddem wedi llwyddo i gael cyllid grant i barhau i ddarparu gwasanaeth Bwcabus. Mae'r gwasanaeth cludiant hwn i'r gymuned yn sicrhau y gallwn fynd i'r afael ag arwahanrwydd a mynediad i ofal iechyd, cyflogaeth ac addysg. Mae hyn yn cyfrannu at lesiant unigolion a chymunedau.
- ✓ Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i edrych ar ddulliau y gallai gwasanaethau trafndiaeth gymunedol helpu â'r pwysau sydd ar drafnidiaeth iechyd nad yw'n ymdrin ag achosion brys. Buom yn gweithio gyda meddygfeydd yn ardal Llandysul i gysylltu apwyntiadau meddygfeydd â theithiau ar wasanaeth Bwcabus. Mae'r gwasanaeth Bwcabus wedi gweld cynnydd yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gyrraedd meddygfeydd yn y 18 mis diwethaf.



- ✓ Drwy ein gwasanaeth Bwcabus, rydym wedi gwella amseroedd teithiau, safon ac amlder gwasanaethau bws Traws Cymru.
- ✓ Rydym hefyd wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i edrych ar ddulliau y gallai gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol helpu â'r pwysau sydd ar drafnidiaeth iechyd nad yw'n ymdrin ag achosion brys. Buom yn gweithio gyda meddygfeydd yn ardal Llandysul i gysylltu apwyntiadau meddygfeydd â theithiau ar wasanaeth Bwcabus.

Llwybrau Beicio

- ✓ Rydym wedi cwblhau'r llwybrau beicio o Langennech i Ddafen, a neilltuwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi caniatáu i'r estyniad ar hyd Heol Llethri tuag at Ddyffryn y Swistir gael ei gwblhau. O ran Llwybr Dyffryn Tywi, yn 16/17 cwblhawyd rhan 1km yn Abergwili, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cytundebau tir allweddol ar y rhan orllewinol, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan orllewinol rhwng Abergwili a Nantgaredig, a neilltuwyd cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio yn 17/18.
 - ✓ Rydym wedi cwblhau llwybr beicio Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin, llwybr beicio y Gamlas ym Mhen-bre ar hyd yr A484 yng Nghwm-ffrwd ac ar hyd yr A4138. Rydym wedi datblygu cynlluniau ar gyfer llwybr beicio uchelgeisiol Dyffryn Tywi.
- ✓ Rydym wedi parhau i reoli'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus yn wyneb cyfyngiadau ariannol parhaus, ansicrwydd ynghylch cyllid y Llywodraeth, a disgwyliad cynyddol gan y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd trefniant bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ariannu gwasanaeth Parcio a Theithio Caerfyrddin yn rhannol, yn y gobaith y bydd hynny'n helpu i sicrhau parhad y gwasanaeth yn y dyfodol.



- ✓ Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, mae'r Cyngor Sir yn parhau i ddarparu cynllun Ceir Cefn Gwlad sy'n llenwi'r bylchau yn y gwasanaeth trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig, lle mae llai o wasanaethau bysiau ar gael ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn talu treuliau gwirfoddolwyr ac yn darparu canllawiau polisi a chymorth gweinyddol. Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn rhoi hyfforddiant i wirfoddolwyr lleol ddarparu'r gwasanaeth.
- ✓ Cafodd gwella'r rhwydwaith seilwaith priffyrdd er mwyn cefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach ei nodi fel **Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella** ar gyfer 2016/17, oherwydd:-
 - Mae rhwydwaith trafnidiaeth a phriffyrdd gweithredol yn sylfaenol bwysig o ran symud nwyddau a phobl yn ddiogel ac yn gynaliadwy mewn economi fodern, lwyddiannus.
 - Wrth gyflawni'r nod hwn, byddwn yn darparu nifer o ymyriadau i gefnogi datblygiad economaidd.



PRIF FLAENORIAETH AMCANION GWELLA (KIOP)

Byddwn yn gwella'r rhwydwaith seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach

Mae ffyrdd cyswllt economaidd newydd wedi cael eu hadeiladu ac mae cyflwr y ffyrdd yn gyffredinol wedi gwella

Mae ein gwasanaethau ym meysydd *Trafnidiaeth a Phriffyrdd* yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel. Maent yn galluogi mynediad i nwyddau crai a marchnadoedd, yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad i gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden, a gweithgareddau cymdeithasol.

Ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu 3,343 cilomedr, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd Cymru sef 1,566 cilomedr. Mae'n cynnwys 16 miliwn metr sgwâr o ffyrdd cerbydau. Hefyd ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru o ran hyd ffyrdd Dosbarth 1; yn ail i Wynedd yn unig.

Nodir ein perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf isod:

Mesurau Llwyddiant Allweddol	15/16	2016/17		
	Gwirioneddol	Cyfartaledd Cymru	Gwirioneddol	Cynnydd gwirioneddol
Canran y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011a)	4.6% *	3.7%	4.3% *	Wedi gwella
Canran y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011b)	4.0% ***	4.2%	3.5% ***	Wedi gwella
Canran y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011c)	13.7% *	15.0%	11.6% *	Wedi gwella
DS Mae canran enfawr y ffyrdd dosbarth C yn golygu.....				
Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012)	10.7% *	10.7%	9.2% *	Wedi gwella
Canran yr oedolion 60+ oed sy'n meddu ar gerdyn teithio rhatach (THS/007)	80.6% **	87.0%	81.4% **	Wedi gwella


#1 Mae 22 o Gyngorau yng Nghymru (*= y chwarterl gwaethaf (h.y. ymysg y pum gwaelod) **** = y chwarterl gorau (ymysg y pump ar y brig).

Pam y mae hyn yn bwysig

Mae darparu seilwaith trafndiaeth a phriffyrdd yn bwysig o ran cefnogi ein heconomi genedlaethol a lleol gan fod hwyluso symudiad traffig yn cefnogi cystadleurwydd yr economi, a chyda'r amrywiol ddatblygiadau seilwaith mae'n helpu i gyflawni gwelliannau mewn iechyd a lles.

Mae rôl allweddol gan y gwasanaethau trafndiaeth a phriffyrdd o ran cysylltu pobl â gwasanaethau, mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, iechyd ac addysg, adwerthu a hamdden.

Sut rydym yn cymharu ag eraill



Dengys y graff uchod fod Sir Gaerfyrddin yn y chwarter isaf, ond ar sail gwelliant yng nghyflwr cyffredinol y ffyrdd yn ystod 2016/17, rydym wedi symud o'r 19^{eg} safle i'r 17^{eg} safle.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

- ❖ Mae gan 81.4% o bobl 60 oed a hŷn docynnau teithio rhatach.
- ❖ Rydym wedi adeiladu 5.5 cilometr o lwybrau beicio yn 2016/17 i ddarparu teithio a hamdden cynaliadwy ac iach i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 13 o'n 14 ymrwymiad KIOF

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
Cynnal a Chadw Ffyrdd a Seilwaith		
Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu hierarchaeth rhwydwaith priffyrdd gyda'r Côd Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Priffyrdd er mwyn gwella sut rydym yn rheoli'r ased priffyrdd. (12127)	✓	Mae'r categorïau Hierarchaeth Rhwydwaith wedi'u datblygu yn unol â'r argymhellion a amlinellwyd yng nghôd ymarfer newydd y Seilwaith Priffyrdd sy'n cael ei Reoli'n Dda. Mae categorïau ychwanegol wedi'u pennu hefyd er mwyn diffinio a gwahaniaethu lefelau gwasanaeth yn well ar ffyrdd dosbarth is megis Cilffyrdd Agor i Unrhyw Draffig (BOAT) a Lonydd Gwyrdd. Mae adolygiad o'r hierarchaeth gan y rhanddeiliaid allweddol wedi cael ei gynnal ac mae rhannau unigol o'r rhwydwaith priffyrdd wedi cael eu hail-gategoreiddio. Categoriwyd holl rannau'r briffordd gyhoeddus bellach yn unol â diffiniadau'r categorïau Hierarchaeth Rhwydwaith newydd.
Byddwn yn buddsoddi £2.125 miliwn o gyfalaf er mwyn gwella cyflwr ein priffyrdd, pontydd a chwferi. (12128)	✓	Mae'r buddsoddiad cyfalaf priffyrdd wedi rhoi bod i 38 o gynlluniau priffyrdd a gwariwyd 100% o'r gyllideb a ddosrannwyd. Mae'r gyllideb Pontydd a Strwythurau wedi cael ei hailbroffilio i gyfrif am drosglwyddiadau a chymhlethdodau o ran cyd-drafodaethau tir, sydd wedi arwain at gyfanswm cyllideb net o £1,369,580 ar gyfer Priffyrdd, Pontydd a Strwythurau yn 16/17. Caiff y gyllideb hon ei gwario'n llawn. Mae swm o £2.125 miliwn wedi ei ymrwymo'n llawn i gynlluniau.
Byddwn yn lleihau % y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	✗	Er y bu gwelliant o 4.6% yn 15/16 i 4.3%, ni chyrraeddwyd y targed o 4%. Adolygir ac ailgloriennir sut y caiff adnoddau eu dyrannu'n gyffredinol o fewn y cyllidebau presennol er mwyn

<p>(THS/011a) (Canlyniad 2016/17 - 4.3%) Targed 16/17: 4.0%</p>		<p>cynnal cyflwr cyffredinol y dosbarth ffordd hwn. Mae targed 17/18 wedi'i addasu i adleisio'r cyflwr cyraeddadwy o fewn cyfyngiadau'r gyllideb bresennol.</p>
<p>Byddwn yn lleihau cymaint â phosibl ar % y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011b)(Canlyniad 2016/17 - 3.5%) Targed 16/17: 4.0%</p>	✓	<p>Rhagorwyd ar y targed o 4% ac roedd y canlyniad o 3.5% yn dangos gwelliant da mewn cyflwr. Er bod hyn yn gadarnhaol, adolygir sut y neilltuir adnoddau ar draws dosbarthiadau ffyrdd er mwyn helpu i gyrraedd targedau ar gyfer dosbarthiadau ffyrdd eraill.</p>
<p>Byddwn yn lleihau % y ffyrdd heblaw prif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/011c) (Canlyniad 2016/17 - 11.6%) Targed 16/17: 12.0%</p>	✓	<p>Rhagorwyd rhyw ychydig ar y targed o 12% gyda chanlyniad o 11.6%. Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau'n effeithiol ac yn trin rhannau y rhoddir blaenoriaeth iddynt o fewn y cyllidebau sydd ar gael.</p>
<p>Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012) - O 10.7% ar gyfer 2015/16 i 9.2% Targed 16/17: 9.5%</p>	✓	<p>Gellir ystyried bod cyllid Menter Benthycia Llywodraeth Leol (2012-2015) a'r buddsoddiad cyllid Cyfalaf a dargedwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn cael effaith uniongyrchol ar wella cyflwr cyffredinol cyfunedig ein dosbarthiadau A, B ac C o rwydwaith prifffyrdd. Mae'r ffigwr o 9.2% yn dangos gwelliant o gymharu â 10.7% y llynedd, ac mae'n llai o lawer na'r uchafbwynt yn 2012/13 o 17.2%, gan fynd yn groes i'r duedd gyffredinol h.y. gostyngiad yn y gyfran gyffredinol o'r rhwydwaith y dynodir ei fod mewn cyflwr gwael. Yn dilyn diwedd Menter Benthycia Llywodraeth Leol, gostyngiad mewn refeniw a lefelau isel o fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith prifffyrdd, mae Sir Gaerfyrddin yn debygol o aros yn y chwarter isaf heb fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol sylweddol yn yr ased brifffyrdd.</p>
<p>Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafnidiaeth strategol er mwyn cefnogi datblygu economaidd, drwy gyflawni'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin er mwyn cefnogi symud S4C a hwyluso datblygiad cymysg. (12129) • Symud ymlaen i Gam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun yn 2016/17. (12130) • Dechrau ar y gwaith o wella'r seilwaith prifffyrdd yn Rhydaman er mwyn gwella llif y traffig a lleihau tagfeydd. (12131) 	✓	<p>Caniatáu cwblhau rhan benodol ym mis Hydref 2016 a chyflawnwyd rhagor o waith ddechrau 2016 ym meysydd parcio Parc Dewi Sant.</p>
	✓	<p>Datblygwyd y cynllun ymhellach a phenderfynu ar y cais cynllunio ym mis Ebrill 2017. Mae caffael tir yn digwydd yn barhaus a daethpwyd i gytundeb ynghylch darn o dir allweddol er mwyn galluogi'r gwaith adeiladu i ddechrau fesul cam.</p>
	✓	<p>Datblygwyd y cynllun ymhellach a gwnaed cryn gynydd o ran cyd-drafodaethau ynghylch sawl eiddo allweddol yr oedd eu hangen ar gyfer cynllun cyffordd Stryd y Gwynt / Lôn Tir-y-dail. Caffaelwyd un eiddo ym mis Mawrth 2017. Cynllun cysylltiedig o ran y fynedfa i Faes Parcio Lôn Carregaman wedi'i gwblhau i raddau helaeth o fewn y chwarter.</p>
<p>Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gyflawni cynllun ffordd osgoi Llandeilo. (12132)</p>	✓	<p>Roedd 16/17 yn flwyddyn lwyddiannus o ran hyn. Yn dilyn cyfnod o lobio a thrafodaeth rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid ehangach eraill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ddechrau gwaith ar ffordd osgoi Llandeilo erbyn 2019. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniad gorau o ran ffurf derfynol y cynllun a'r amserlen.</p>

Llwybrau Beicio		
Byddwn yn cwblhau'r llwybr cerdded a'r llwybr beicio o Langennech i Ddafen ac yn dechrau'r gwaith ar brosiect blaenllaw Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, er mwyn gwella cysylltedd a hybu ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio. (12133)	✓	Mae'r camau gweithredu ar gyfer 16/17 wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus, ac mae'r llwybrau beicio o Langennech i Ddafen wedi eu cwblhau, gyda chyllid ychwanegol wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi caniatáu i'r estyniad ar hyd Heol Llethri tuag at Ddyffryn y Swistir gael ei gwblhau i raddau helaeth. O ran Llwybr Dyffryn Tywi yn 16/17 mae rhan 1 cilometr wedi'i chwblhau yn Abergwili, ac mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran cytundebau tir allweddol ar y rhan orllewinol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan orllewinol rhwng Abergwili a Nantgaredig, ac mae cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddyrannu i'w ddefnyddio yn 17/18.
Cludiant Teithwyr		
Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. (12134)	✓	Rydym wedi parhau i reoli effeithiau Trafnidiaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, a oedd yn gryn her yn ystod 2015/16 gan fod campws Llanymddyfri Ysgol Bro Dinefwr wedi'i gau fesul cam, a bod disgyblion yn cael eu cludo i'r hen safle a'r safle newydd yn Ffair-fach. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig heriau i ddarpariaeth trafndiaeth oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau, yn aml mewn ardaloedd gwledig lle mae'r cyflenwad yn gyfyngedig, ac oherwydd cynyddu disgwyliadau rhieni o ran darpariaeth amgen.
Byddwn yn anelu at sicrhau bod gan o leiaf 79% o oedolion 60+ oed gerdyn teithio rhatach (THS/007) Targed 16/17: 79%	✓	Rydym wedi parhau i ragori ar ein targed o 79% i gyflawni 81.4%, a hynny mewn cyfnod pan fo cyllidebau trafndiaeth yn lleihau, ond rydym yn yr 17 ^{eg} safle o gymharu â'r 22 o awdurdodau yng Nghymru.

Nod. F7 Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**

Mae 2016-17 wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid, wrth i Safonau'r Gymraeg ddod i rym ac wrth i'r Cynllun Iaith Gymraeg ddod i ben. Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi cefnogi adrannau drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r Safonau a delio ag ymholiadau mewn perthynas â'u gweithredu a chydymffurfio â hwy. Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o bolisiâu allweddol ac adnoddau canllaw wedi cael eu paratoi a byddwn yn parhau i ddatblygu deunydd i gefnogi gweithredu'r Safonau.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi cael ei pharatoi mewn partneriaeth â Phanel Ymgynghorol yr Aelodau a Fforwm Iaith y Sir. Mae wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol drwy'r Broses Ddemocrataidd ac wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Fel rhan o'r strategaeth, cynhaliwyd ymarfer mapio manwl, a oedd yn edrych ar yr adnoddau a'r gweithgarwch mewn perthynas â'r iaith ar draws y sir. Bydd y ddogfen fapio yn dystiolaeth werthfawr ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol.
- ✓ Wrth edrych ar gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd fel rhan o'r Strategaeth Hyrwyddo, cafodd gwaith ei wneud i greu cronfa o adnoddau Ymwybyddiaeth Iaith, fel bod pob sefydliad yn cyfleu neges gyson. Cafodd adnodd electronig ei greu ar Google drive, sydd wedi cael ei rannu â'r holl sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.
- ✓ Er mwyn dechrau cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd yn y sir, mae llyfryn cynhwysfawr wedi'i lunio a'i argraffu sy'n hybu manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n pennu'r llwybr tuag at ddwyieithrwydd. Bydd y llyfryn hwn yn cael ei ddsbarthu yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, i gefnogi nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- ✓ Cafodd ymgyrch i annog ein cwsmeriaid i gysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg ei chynnal drwy Newyddion Sir Gâr, drwy'r Papurau Bro a thrwy bosteri mewn cysgodfannau bysiau. Ein nod yw annog pobl i ddefnyddio eu sgiliau wrth gysylltu â ni fel Cyngor a hefyd annog y sawl sy'n dysgu'r iaith i ymarfer eu Cymraeg.
- ✓ Gwnaed gwaith datblygu yn ystod 2016-17 gydag Arweinwyr Iaith yn yr Adran Hamdden. Roedd yr Arweinwyr yn cyfarfod yn fisol a gwnaethant gynnydd cyson o ran sicrhau cysondeb mewn dwyieithrwydd gweledol yn eu gweithleoedd drwy restrau gwirio. Cafodd yr holl arwyddion dwyieithog parhaol a dros dro yn yr adran eu cywiro a'u hunioni, a'u cadw mewn man cyfleus i'w defnyddio yn y dyfodol, a chafodd gwaith ei wneud i sicrhau bod staff yn cael gwybod am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Hyfforddwyd arweinwyr iaith newydd ar gyfer Adran yr Amgylchedd, a byddant yn dechrau ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
- ✓ Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi gweithio'n agos gyda holl adrannau'r Cyngor i gynnig cymorth ac arweiniad ond hefyd i fonitro cydymffurfiaeth. Un enghraifft yw'r gwaith archwilio safonau a gwblhawyd gyda'r Tîm Uwch-reolwyr yn yr Is-adran Tai. Cynhaliwyd cyfarfod â'r Uwch-reolwyr i fapio'r safonau a'r lefel gydymffurfiaeth, ac i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Roedd canlyniadau'r cyfarfod yn gadarnhaol a chyflwynwyd y wybodaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth gydag argymhellion ar gyfer gweithredu. Penodwyd un o'r rheolwyr fel Arweinydd Iaith a bydd yr is-adran yn dilyn yr hyfforddiant 'Arweinwyr Iaith' yn ystod 2017-18. Un o'r meysydd a amlygwyd gan y rheolwyr oedd ei bod yn anodd rhyddhau staff ar gyfer gwersi Cymraeg yn y gweithle, gan fod cyfran fawr ohonynt yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Felly o ganlyniad, rydym wedi sefydlu cwrs penodol ar gyfer yr adran yn ei phrif swyddfa ym Mhorth y Dwyrain. Hefyd bydd y cwrs yn cael ei ddarparu yng Nghaerfyrddin ac yn Rhydaman, ac mae'r cynnwys wedi'i deilwra i'r maes gwasanaeth.


- ✓ Mae'r Adran Cymunedau hefyd wedi penodi un o'r tîm uwch-reolwyr yn Arweinydd Iaith, er mwyn arwain ar Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ddarparu Gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal. Yn ystod y flwyddyn, mae fforwm yr adran wedi cwrdd yn rheolaidd i drafod meysydd megis cynllunio'r gweithlu, comisiynu Gwasanaethau a hyfforddiant i'r staff. Yn dilyn cael canlyniadau'r archwiliad sgiliau iaith, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu i edrych ar y canlyniadau ac i gymharu nifer y cleientiaid sy'n cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg â'r cynnig gweithredol. Caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Cymunedau ac i'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod 2017-18.

Byddwn yn monitro ystyriaethau a nodwyd mewn perthynas â'r polisi o ran yr iaith Gymraeg a'r diwylliant, a goblygiadau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol.

Nid oedd canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law yn ystod y flwyddyn ynghylch gweithredu'r gofynion o ran y Gymraeg a bennwyd yn y Ddeddf Gynllunio. Mae swyddogion wedi cael gwahoddiad i Fforwm Iaith y Sir ac wedi mynychu'r fforwm i egluro sut yr ystyrir yr iaith ar hyn o bryd yn y system gynllunio, ac yn enwedig sut yr ystyriwyd yr iaith wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd, bu swyddogion mewn seminar a gynhaliwyd gan Gymdeithas yr Iaith er mwyn canolbwyntio ar Gynllunio a'r Gymraeg, ac mae cyfarfod dilynol wedi bod gyda grŵp bach o gynrychiolwyr i drafod y gwaith o ran adolygu'r CDLI.

Y gallu i siarad Cymraeg fesul oedran (Cymru)

■ Gallu Siarad Cymraeg ■ Siarad fwy nag ychydig o eiriau, ac yn ddyddiol



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? Oes unrhyw un ar ei ennill?

Y gyntaf yn y sir i ennill gwobr siarter iaith newydd

Un o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Llanelli yw'r gyntaf yn y sir i ennill gwobr siarter iaith newydd.

Mae Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn Llwynhendy wedi cael Gwobr *Efydd Codi Caerau Sir Gâr* am y cynnydd mae'r ysgol a'i disgyblion wedi ei wneud o ran hybu'r defnydd o Gymraeg achlysurol. Nod y Siarter Iaith yw helpu i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant trwy eu hysbrydoli i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Mae'r Siarter yn gofyn i bob aelod o gymuned yr ysgol gyfrannu – y cyngor ysgol, disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach.



Canlyniad G : Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus..

Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da a chyfleoedd hyfforddi i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. Gan weithio ar draws yr holl sectorau – cyhoeddus, gwirfoddol, a phreifat – rydym am wella ffyniant i bawb yn y sir.



Nodau: (fel y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid yn y Strategaeth Gymunedol Integredig)

- G1** Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)
- G2** Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb
- G3** Datblygu economi wybodaeth ac arloesedd
- G5** Sicrhau lleoedd nodedig a seilweithiau cystadleuol
- G5** Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol
- G6** Creu economi a gweithlu dwyieithog

Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOP) yw:

- Creu swyddi a thwf ledled y Sir
- Trechu Tlodi

Cipolwg ar Gynnydd:

Mesurau Canlyniadau (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)	Cynnydd
Mwy o gyflogaeth	✓
Lleihad yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra	✓
Cynyddu cynhyrchiant a gweithgarwch economaidd	✓

Bargen Ddinesig Bae Abertawe



Gwelwyd un o'r digwyddiadau mwyaf pwysig yn hanes modern Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth eleni wrth i Brif Weinidog Prydain, Prif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Arweinwyr Cyngorau Sir Caerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro gyfarfod yn Stadiwm Liberty i lofnodi'r Fargen Ddinesig ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae'n Fargen sy'n rhoi achos i'n dinasyddion gredu mewn dyfodol mwy llewyrchus a mwy ffyniannus; mae'n rhoi rheswm i'n pobl ifanc ddychwelyd adref o'u hastudiaethau gan wybod y bydd cyfleoedd a swyddi o ansawdd; mae'n rhoi hyder i'n busnesau fuddsoddi mewn rhanbarth sy'n adfywio'n feunol ac sy'n edrych tua'r farchnad fyd-eang, a hynny gyda syniadau ac arloesedd newydd ar draws cynifer o sectorau. Estynnwn oll groeso cynnes i fargen sy'n datganoli'r berchnogaeth a'r cyfrifoldeb dros adfywio i'r lefel ranbarthol ac i'r Fargen Ddinesig.



Daeth y Prif Weinidog *Theresa May*, Prif Weinidog Cymru *Carwyn Jones*, Ysgrifennydd Gwladol Cymru *Alan Cairns* ac Arweinwyr Cyngorau Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro at ei gilydd yn Stadiwm Liberty i lofnodi'r Fargen Ddinesig.

Rhodddwyd y fargen at ei gilydd yng nghyd-destun yr economi ranbarthol sydd, o ran ei gwerth ychwanegol gros (GVA), wedi disgyn o 90% o gyfartaledd y DU i 77% dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Rydym yn benderfynol o newid y duedd honno yn ein Rhanbarth, a chyda hynny mewn golwg cytunom ar fargen sydd ag amcanion clir iawn o ran twf economaidd ac sy'n ymwneud â gwerth ychwanegol gros y rhanbarth a swyddi ledled y rhanbarth.

BETH MAE'R FARGEN DDINESIG YN EI OLYGU...



£1.3bn
dros 15 mlynedd
Cyfanswm gwerth

£241m
Llywodraeth Cymru a'r
DU

£360m
Cymorth gan y
Sector Cyhoeddus



£673m
Cymorth Sector Preifat

Bron 10,000
o swyddi newydd wedi'u
creu

£1.8bn
Hwb Gwerth
Ychwanegol Gros

Bydd y Fargen, y mae 11 o brosiectau yn rhan ohoni, yn troi'r rhanbarth yn 'uwch-hwb' digidol i drawsnewid yr economi ranbarthol. Bydd yn datblygu seilwaith digidol, sgiliau a buddsoddi mewn: *Rhyngwyd Cyflymu'r Economi; Rhyngwyd Ynni; Rhyngwyd Iechyd a Llesiant; Gweithgynhyrchu Clyfar.*

DAN ARWEINIAD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ceir tri phrosiect penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – *Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llanelli; prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin; a menter sgiliau a thalentau a fydd yn cefnogi datblygiad sgiliau ar gyfer pob un o'r 11 prosiect.*

1. Mae'r *Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd* yn Llynnoedd Delta yn cael ei arwain gan y Cyngor o dan Raglen ARCH (Cydwethrediad Rhanbarthol ar gyfer lechyd), sef partneriaeth rhwng Byrddau Iechyd Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Abertawe.

Nod y prosiect gwerth £200 miliwn yw creu 1,853 o swyddi o ansawdd uchel a rhoi hwb sylweddol o £467 miliwn i'r economi dros 15 mlynedd.



Mae'r cynigion yn cynnwys Sefydliad Gwyddor Bywyd fydd â labordai a chlinigau a chyfleuster meithrin ar gyfer busnesau sy'n dechrau arni ac ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu; hwb llesiant a fydd yn cynnwys canolfan newydd o'r radd flaenaf ar gyfer hamdden a chwaraeon, canolfan lesiant, gwesty llesiant a phentref byw â chymorth a fydd oll yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn sefyll mewn parc eco 'gwyrd'.

2. Mae *Yr Egin/S4C* yn cynnwys adeiladu hwb creadigol a digidol a datblygu clwstwr ar gyfer sector y diwydiannau creadigol.

Bydd yn creu tua 203 o swyddi ac yn helpu'r economi leol, ynghyd â rhoi hwb i'r Gymraeg.

3. Bydd *menter sgiliau a thalentau* yn darparu llwybrau addysgol a hyfforddiant er mwyn cefnogi gweithlu'r genhedlaeth nesaf drwy ddarparu sgiliau sector penodol sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion themâu'r Fargen Ddinesig sef Digidol, Llesiant a Gwyddorau Bywyd, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar.

Dywedodd y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor: *"Mae hwn yn gyfle unigryw i Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth ehangach gynyddu ffyniant a chyfleoedd. Bydd y Fargen Ddinesig yn helpu cynaliadwyedd economi Sir Gaerfyrddin yn y tymor hir gan greu swyddi, twf a chyfleoedd hyfforddiant.*

"Mae'n amser gwirioneddol gyffrous i'r rhanbarth; mae lefel y buddsoddiad dan sylw yn un na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Bydd y Fargen Ddinesig yn ein galluogi i ddarparu'r hyn rydym wedi gweithio mor galed i'w gyflawni a bydd busnesau a phobl leol ar eu hennill yn fuan yn sgil hynny."

Mae'r Fargen yn hanfodol i ni yma yn Ne-orllewin Cymru o ran yr economi, ond nid dyma benllanw'r gwaith. Bydd y gwreiddioldeb a'r arloesedd a gynigir yn gatalydd i gymaint mwy yn ein rhanbarth wrth inni adeiladu ar y prosiectau hyn ac edrych allan tua'r marchnadoedd byd-eang.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd ar ffurf *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* sy'n ein cymell i ymgorffori yn ein polisïau a'n hamcanion saith egwyddor neu darged allweddol ym maes llesiant ac i ddilyn pum ffordd o weithio. Mae'r Fargen hon yn enghraifft berffaith o'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir gan y Ddeddf a thrwy gydol y rhaglen 15 mlynedd o hyd mae'n cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r heriau parhaus yr ydym yn eu hwynebu o ran newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldeb, swyddi a sgiliau. Y nod yw cyflawni hynny mewn ffordd drawsnewidiol ac ataliol a gwneud yn fawr o'n targedau llesiant o dan y Ddeddf drwy'r rhaglen fawr hon o fuddsoddi cyhoeddus.

Ein Perfformiad a'n Canlyniadau ar gyfer 2016/17:

Nod: G1 Datblygu twf busnes, cadw arbenigedd (gan gynnwys cadw pobl ifanc)

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Trwy wasanaeth cymorth busnes hir-sefydledig, sy'n canolbwyntio ar fusnesau Pareto allweddol a chymorth twristiaeth, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaeth personol o ansawdd da i'n mentrau allweddol, sydd wedi arwain at greu swyddi, gweithgarwch menter ieuenctid a mentrau sector preifat.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Datblygu Busnes

- ✓ **Crëwyd 253.5** o swyddi ar draws Sir Gaerfyrddin drwy fusnesau Pareto / busnesau y rheolir eu cyfrifon. Mae'r swyddi hyn yn cynnwys rhai yn y sectorau peirianeg, bwyd a chynnyrch llaeth, gweithgynhyrchu (nwyddau dur a gwifr) ac adeiladu.
- ✓ Yn ogystal mae **33 o fusnesau newydd wedi eu creu**
- ✓ Mae busnesau y rheolir eu cyfrifon wedi **buddsoddi £6.69m** o fuddsoddiad sector preifat mewn prosiectau ehangu yn ystod 16/17
- ✓ **Mae 192.5 o swyddi wedi'u diogelu** drwy gymorth busnes
- ✓ Rydym wedi helpu busnesau lleol drwy sicrhau bod **94.3% o'r anfonebau wedi cael eu talu** o fewn 30 diwrnod *(CFH/006)*

Economi Ymwelwyr/Twristiaeth

Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin, sy'n werth £370 miliwn y flwyddyn i'r Sir, ac mae hyn 2.7 y cant yn fwy yn 2016, gyda Thwristiaeth yn cefnogi 5,638 o swyddi amser llawn. Rydym yn parhau i arwain y ffordd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy ymgyrchoedd a deunydd hyrwyddo effeithiol. Drwy barhau i sicrhau cyllid, byddwn yn rheoli ac yn arwain y ffordd o ran hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel lle atyniadol o safon i ymweld ag ef. Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella'r economi drwy dwristiaeth, diwydiant, drwy'r canlynol:

- cynllunio a gwneud ymchwil strategol sy'n ein helpu, er enghraifft mewn astudiaethau llety a gwestai
 - bod yn gatalydd a meithrin perthynas â'r sector preifat, cyhoeddus a'r 3ydd sector er mwyn gwella twristiaeth
 - sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn cael ei hybu'n effeithiol ac yn arloesol fel ardal fyrlymus i aros ac i ymweld â hi
- ✓ Byddwn yn parhau â gwaddol *Blwyddyn Antur 2016* drwy greu llwybrau cyfeiriannu newydd yn Sir Gaerfyrddin
 - ✓ Fel rhan o ymgyrch *Blwyddyn Chwedlau 2017*, mae cyfres o lwybrau a fideos amlgyfrwng wedi eu sgrïptio a'u cynhyrchu lle rydym ni wedi cydgyssylltu'r mewnbynnau gan bartneriaethau cyhoeddus/preifat. Mae llwybrau wedi eu creu i ychwanegu gwerth at ymgyrchoedd *Cruise Cymru* a grwpiau teithio yng Nghymru
 - ✓ I gefnogi prif gynllun Tref Caerfyrddin a thrwy fforwm y dref, cafwyd cyllid twristiaeth drwy Lywodraeth Cymru i ddarparu *Gŵyl Myrddin* fel rhan o'r gyfres o gamau ar gyfer Cymru Gyfan yn ymgyrch y *Flwyddyn Chwedlau*.
 - ✓ Lanswyd y *Cylch Trefnwyr Digwyddiadau* a fydd yn golygu y bydd llawer mwy o ddigwyddiadau diddorol a safonol yn cael eu cynnal yn y sir, drwy wella mynediad i wybodaeth a chyngor i drefnwyr digwyddiadau - ar ôl llwyddo i gael arian drwy gynllun LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd y Gronfa Cymorth Digwyddiadau, a ariennir gennym ni, yn darparu cymorth ariannol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau sy'n newydd i'r Sir



- ✓ Agorwyd *Canolfan Fasnachol Parry Thomas* yn swyddogol a bellach mae wedi cael ei llenwi. Cafwyd cynigion am y pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod a'r bwyty ar y llawr cyntaf a llofnodwyd tenantiaethau gyda thri o'r pum busnes sy'n cynnig cymryd meddiant o'r unedau. *Tea by the Sea* fydd y cyntaf o blith pump o fusnesau i symud i'r ganolfan. Bydd cam nesaf y prosiect yn cynnwys canolfan ymwelwyr newydd Traeth y Gwibwyr; Eco-Gyrchfan; a Phrosiect Ymwelwyr.

Dewiswyd y prosiect fel un o ddeg prosiect sydd wedi cael blaenoriaeth ranbarthol fel cyrchfannau twristiaeth sy'n rhaid ymweld â hwy, a fydd yn rhannu'r £27 miliwn a geir yng nghronfa 'Cyrchfannau Denu Twristiaeth' Croeso Cymru Mae'r prosiectau wedi eu hanelu at gynyddu'r diddordeb yng Nghymru fel cyrchfan gwyliau. Mae grant pellach o £1.5m gan Gronfa Cyllid Cyfatebol a Dargedwyd Llywodraeth Cymru wedi cael ei sicrhau ac rydym ni fel awdurdod wedi ymrwymo £2.5m o gyllid cyfalaf i'r prosiect.

Cefnogi Entrepreneuriaeth

- ✓ Lansiodd cystadleuaeth Bwsariaeth y Goleudy 2017 ar 7 Mawrth, lle mae cynnig o gymorth ariannol, ynghyd â swyddfa a chymorth mentora ar gael i ddarpar entrepreneuriaid ym maes addysg bellach ac uwch. Cawsom 39 o geisiadau, sef y nifer fwyaf erioed, ac roedd y rownd derfynol ar ddiwedd mis Mehefin.

Enillydd y llynedd oedd Martin Goddard o *360 Entertainment*. Ei gynnydd buddugol oedd sefydlu asiantaeth adloniant a chwmni rheoli ar gyfer darparu cerddoriaeth fyw mewn priodasau yng Nghymru.

Dywedodd y Cynghorydd Emllyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin: *"Y weledigaeth ar gyfer y Goleudy yw bod ar flaen y gad o ran meithrin a hyfforddi sgiliau menter pobl ifanc a datblygu dawn busnes entrepreneuriaid a fydd yn ymuno â'r sector preifat ar draws Sir Gaerfyrddin a De-orllewin Cymru. Mae'r gystadleuaeth hon nid yn unig yn gyfle gwych i rywun ddechrau busnes ond mae cymorth hanfodol yn cael ei roi gan dîm o fentoriaid busnes o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus."*



Enillydd Bwsariaeth y Goleudy
Martin Goddard

- ✓ Mae'r Goleudy yn dal i ddenu mentrau newydd a bellach mae yno 20 o fusnesau o amrywiaeth o sectorau
- ✓ Cynhaliwyd digwyddiad Byd Gwaith llwyddiannus gyda Dunbia, a chafodd cynlluniau gweithredu eu datblygu a'u cyflawni gyda chyflogwyr allweddol/busnesau Pareto, Busnesau yn y Gymuned, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- ✓ Rhoddwyd cymorth hefyd i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Aman yn eu hymdrechion o ran elfennau Mentergarwch cymwysterau Bagloriaeth Cymru. Hyd yn hyn mae dros 30 o brosiectau wedi'u cyflwyno a'u beirniadu, a chyda chymorth pellach caiff cyfleoedd ychwanegol o ran cymorth busnes a mentergarwch eu nodi ar gyfer yr ardal

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?



Roedd ein marchnadoedd yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Llanymddyfri a Llandeilo wedi lansio cystadleuaeth lwyddiannus Masnachwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd, gyda'r nod o brofi eu sgiliau entrepreneuriaeth, dysgu mwy am hyd a lled bod yn fasnachwr a chael profiad o sefydlu eu busnes eu hunain drwy gymryd rhan mewn 'trade-off'. Roedd pobl ifanc o wyth ysgol wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd drwy ddatblygu syniad busnes a'i droi yn fenter broffidiol. Roedd yn rhaid i'r timau gynllunio, prynu deunydd/cynnyrch, brandio'r syniad a rhedeg y stondin yn y farchnad awyr agored am ddiwrnod. Dros

gyfnod yr her, roedd y disgyblion wedi gwella eu sgiliau cyflogadwyedd, cael gwell dealltwriaeth o'r byd gwaith a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned maen nhw'n byw ynddi.

Nod: G2 Creu cynifer o swyddi â phosibl i bawb

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Ym mis Medi 2016, roedd **74%** o boblogaeth oedran gweithio Sir Gaerfyrddin (**80,500** 16-64 oed) mewn cyflogaeth. Mae hyn wedi cynyddu o 69.1% ym mis Medi 2015 ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 71.1% a hwn yw'r ffigwr cyflogaeth 6^{ed} uchaf yng Nghymru.

Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r sector preifat yn cefnogi 74.6% o gyfanswm poblogaeth gyflogedig y sir, gan bwysleisio pwysigrwydd menter ac arloesedd i ffyniant a lles cyffredinol y sir a'i thrigolion. Rydym yn sir amrywiol mewn nifer o ffyrdd, ac mae gan ein trefi a'n pentrefi nodweddion unigryw; mae ein dwyieithrwydd yn ein cryfhau ac yn ein diffinio; mae ein cymuned fusnes yn gweithredu ar draws nifer o sectorau twf newydd allweddol.

Mae'r hyn rydym yn ei gynnig o ran twristiaeth a hamdden yn unigryw, ac yn cynnig llawer iawn i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym yn cynnig safleoedd cyflogaeth strategol er mwyn i fusnesau a gweithwyr ffynnu. Bellach mae lefelau uchel o gysylltedd digidol ar waith yn Sir Gaerfyrddin i ni gael manteisio arnynt yn ein bywydau personol a'n bywydau gwaith; a chyda mwy o fuddsoddiad ar y gweill ac wedi'i fuddsoddi yn ein seilwaith trafniadaeth, mae ein sir bellach wedi'i chysylltu'n dda.

Yn ystod 2016/17, drwy ein portffolio o gynnyrch a gwasanaethau, sydd wedi'u dylunio ar gyfer anghenion cymuned fusnes Sir Gaerfyrddin, gwnaethom greu **258.5** o swyddi, diogelu **192.5** o swyddi, a gwella ein seilwaith er mwyn sicrhau **28** o swyddi pellach.

Cafodd creu swyddi a thwf ledled y sir ei glustnodi yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17

Roedd hyn oherwydd:

- Bod adfywio a swyddi yn brif flaenoriaeth ar gyfer ein Gweinyddiaeth
- Er mwyn inni allu cyrraedd cerrig milltir 2016/17 ar gyfer y Prif Gynllun Adfywio



KEY IMPROVEMENT OBJECTIVE PRIORITY (KIOP) Creating jobs and growth throughout the County

Trawsnewidiwyd Sir Gaerfyrddin i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y Prif Gynllun Adfywio yn amlygu llawer o'r gwaith gwych sydd ar waith o ran adfywio'r sir. Bydd y prif gynllun yn rhoi sylw i 6 phrosiect trawsnewid allweddol y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin a'i bartneriaid strategol yn bwriadu canolbwyntio arnynt dros y 15 mlynedd nesaf – bydd hyn yn creu mwy na 5,000 o swyddi newydd a bydd yn creu economi yn Sir Gaerfyrddin ar lefel sydd yn 90% o gyfartaledd gwerth ychwanegol gros y DU.

Mae ein heconomi yn rhan o Ddinas-ranbarth arloesol Bae Abertawe, sydd eisoes wedi cynnig prosiectau newydd y bydd Sir Gaerfyrddin yn elwa arnynt, ac a fydd yn ddi-os yn parhau i wneud hynny.

Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. Felly, mae creu swyddi a darparu cyfleoedd ansawdd uchel ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant a phrofiad gwaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Er mwyn symud ymlaen â'r nod hwn pan fyddwn yn buddsoddi mewn ysgolion newydd, cartrefi gofal, cynlluniau adfywio a thai, byddwn yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau'r nifer mwyaf posibl o leoedd hyfforddi a chyflogaeth ar gyfer pobl leol.

Mesurau Llwyddiant Allweddol

Mesur	Canlyniad 2015/16	Targed	Canlyniad 2016/17	Targed
Nifer y Swyddi a Grëir (5.6.3.5)	180	91	253	299
Nifer y swyddi a ddiogelir (5.6.3.6)	109	120	192.5	166
Nifer y swyddi mewn lleoliad newydd (5.6.3.7)	1,220	1024	28	32

Eglurhad ynghylch y canlyniadau uchod

Ar ôl cwblhau Cylch Ariannu Ewropeaidd yn 2015/16 a chyda chylch newydd ar fin cychwyn yn 2016/17, y targedau allweddol ar gyfer y flwyddyn oedd sicrhau cyllid a pharatoi prosiectau a fydd yn rhoi bod i allbynnau economaidd sylweddol yn ddiweddarach yn y cylch cyllido.

Er inni ragori ar y targed o ran swyddi a ddiogelwyd, roedd y canlyniadau'n is na'r targed mewn perthynas â Chreu Swyddi a Swyddi mewn Lleoliad Newydd. Roedd y perfformiad oedd yn is na'r targed oherwydd oedi o ran cwblhau prosiectau a arweinir gan drydydd partion, a bydd y prosiectau hynny bellach yn rhoi bod i allbynnau yn 2017/18. Cyflawnwyd canlyniadau sylweddol mewn meysydd eraill o weithgarwch, sydd wedi gwrthbwysio effaith y prosiectau uchod yr oedd oedi yn eu cylch ac roeddent yn cynnwys y swyddogaeth cymorth busnes, cwblhau prosiect Canolfan Parry Thomas, a'r Gronfa Cyllid a Dargedir / Cymorth Mentrau Cymdeithasol.

Yn ogystal, rydym wedi cael llwyddiant sylweddol yn 2016/17 o ran sicrhau cyllid allanol i gyflawni prosiectau a fydd yn creu swyddi yn ddiweddarach yn y cylch ariannu.

Beth sy'n gweithio?

Roeddem wedi helpu i greu, cynnal a sicrhau swyddi mewn lleoliad newydd drwy'r canlynol:

Cymorth Busnes Caerfyrddin a'r Ardal Wledig - 106.5 o swyddi wedi eu creu drwy fusnesau Pareto / busnesau y rheolir eu cyfrifon gyda Swyddogion Busnes Tîm Caerfyrddin a'r Ardal Wledig. Yn ogystal, mae 83 o swyddi wedi cael eu diogelu.

Canolfan Thomas Parry, Pentywyn - Gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2016 gyda 28 o swyddi mewn lleoliad newydd. Mae'r holl unedau ar y llawr gwaelod a'r bwyty ar y llawr cyntaf dan gynig. Arwyddwyd tair prydles ac mae'r tenantiaid cyntaf wedi agor ar gyfer busnes.

Cymorth Busnes Llanelli a'r Llain Arfordirol – 73 o swyddi wedi eu creu drwy fusnesau Pareto / busnesau y rheolir eu cyfrifon gyda Swyddogion Busnes Tîm Llanelli a'r Llain Arfordirol. Yn ogystal mae naw busnes newydd wedi'u creu ac mae 66.5 o swyddi wedi'u diogelu. Mae'r Goleudy yn dal i ddenu mentrau newydd a bellach mae yno 20 o fusnesau o amrywiaeth o sectorau.

Cymorth Busnes Rhydaman a Cross Hands - 37 o swyddi wedi eu creu drwy fusnesau Pareto / busnesau y rheolir eu cyfrifon gyda Swyddogion Busnes Tîm Rhydaman a Cross Hands. Mae'r trafodaethau'n parhau â chyflogwyr allweddol yn yr ardal, ac mae cyflogwyr wedi rhoi syniad ynghylch cynlluniau recriwtio pendant drwy gydol 2017 ac i mewn i 2018.

Cronfa Cyllid a Dargedir / Cymorth Mentrau Cymdeithasol – mae Adfywio Cymunedol yn dal i gefnogi ein cleientiaid Cyfrif Allweddol, gan ategu'r Cynlluniau Trawsnewidiol yn ogystal â buddsoddi a chefnogi Mentrau Cymdeithasol newydd a phresennol yn y sir. Mae'r cymorth hwn wedi gwella eu cynaliadwyedd cyffredinol, gan annog mentrau cymdeithasol i ailfuddsoddi'r elw a wneir yn ôl yn y gymuned. Er mwyn cipio a thynnu sylw at lwyddiant prosiectau mentrau cymdeithasol y sir a'r cymorth a roddir iddynt, roeddem wedi comisiynu cynhyrchu nifer o ffilmiau hyrwyddo byrion. Drwy'r cyllid sydd ar gael, mae'r Biwro Cymunedol wedi creu 36 o swyddi ac wedi diogelu 50.

Sut rydym yn gwybod y byddwn yn gwneud gwahaniaeth? / A fydd unrhyw un ar ei ennill?



prentisiaeth gan Lloyd & Gravell; Bydd Declan Pugh, 17 oed o Lanelli, a Jamie Tanner, 17 oed o Lanaman, yn gweithio i TRJ, ar ôl cael eu coronï'n enillwyr Camau Nesaf 2016.

Carmarthenshire Construction Training Association Ltd

Mae pedwar o bobl ifanc yn eu harddegau yn dechrau ar yrfa adeiladu ar ôl ennill prentisiaeth â chyflog am ddwy flynedd â chwmnïau adeiladu lleol drwy gyfrwng y cynllun 'Camau Nesaf'.

Cystadleuaeth flynyddol yw Camau Nesaf sy'n gyfle i unrhyw rai sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, gystadlu am brentisiaeth yn y diwydiant adeiladu.

Mae'n cael ei gynnal gan *Adeiladu Gâr Gyda'n Gilydd* – sef partneriaeth sy'n ein cynnwys ni, Coleg Sir Gâr a

Bydd y pedwar enillydd hyn yn dwyn y cyfanswm o brentisiaethau Camau Nesaf sydd wedi cael eu cynnig dros y saith mlynedd diwethaf i 17. Mae 15 o bobl ifanc eraill wedi cael lleoliadau ar gynllun Prentisiaethau Ar y Cyd Sir Gaerfyrddin; mae 13 o bobl yn dilyn cyrsiau Llwybrau at Brentisiaethau ac mae pedwar arall wedi cael prentisiaethau traddodiadol.

Dywedodd y Cyngorydd Hazel Evans, sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd: *"Mae Camau Nesaf yn un o'n prosiectau hyfforddi a phrentisiaeth mwyaf blaenllaw sydd nid yn unig yn cynnig cyfleoedd gwych i unigolion, ond hefyd ar gyfer busnesau a chymunedau lleol. Rydym yn ffodus iawn yn Sir Gaerfyrddin - er gwaethaf y toriadau difrifol i'n cyllidebau - ein bod yn parhau i allu buddsoddi llawer yn ein cartrefi, ein hysgolion a'n cyfleusterau hamdden. Mae'n wych ein bod hefyd, fel rhan o'r prosiect, wedi gallu rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned"* – cafodd ardal hamdden awyr agored ei datblygu ar gyfer preswylwyr Llŷs y Bryn, ac roedd pwll padlo yng Nghwmaman wedi cael ei adnewyddu fel bod y gymuned yn gallu ei ddefnyddio unwaith yn rhagor.

Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd 7 o'n 10 ymrwymïadau KIOP

Ymrwymïadau'r Llynedd	✓	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu twf busnes, cadw ac arbenigo ym Mharth Twf Rhydaman a Cross Hands; Caerfyrddin a'r Ardal Wledig, a Llanelli a'r Llain Arfordirol drwy fentrau megis Pareto, Rheoli Cyfrifon, Gweithgarwch Menter Ieuenctid, Byd Gwaith, ac ailymweld â phrosiectau blaenorol sydd wedi cael cymorth grant. (12157, 12158, 12159) – Hefyd yn gysylltiedig â Nod G2	✓	<p>Yn sgil y gwaith a wnaed hyd yn hyn yn y maes hwn - mae 106.5 o swyddi newydd wedi'u creu, 83 wedi'u diogelu a £6.9m o Fuddsoddiad gan y Sector Preifat wedi ei wneud.</p> <p>Roedd busnesau Pareto wedi parhau i gael cymorth ac roedd cefnogaeth wedi'i rhoi i sawl prosiect oedd â photensial i fod yn rhai da, gan arwain at greu swyddi a buddsoddiad sector preifat.</p> <p>Rhodddwyd cyngor ac arweiniad hefyd i nifer o fusnesau llai yn ogystal â rhai busnesau cychwynnol newydd sydd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac sy'n ffynnu.</p> <p>Mae'r bartneriaeth rhwng CSC, Gyrfya Cymru, Coleg Sir Gâr a PCYDDS yn dal i weithio'n dda wrth ddylunio a chyflwyno gweithgareddau entrepreneuriaeth ym meysydd addysg bellach ac addysg uwch. Gwnaed rhai cysylltiadau da yn y <i>Confensiwn Sgiliau Ieuenctid</i>, lle roedd nifer o gyflogwyr allweddol yn bresennol.</p> <p>Trefnwyd digwyddiad Y Gymraeg mewn Busnes, o'r enw <i>Siarad Siop</i>.</p> <p>Roeddem wedi ailymweld â 15 o ymgeiswyr grant cyfalaf blaenorol Cynllun Datblygu Gwledig 1 a 2 i fonitro cynnydd ac i drafod y cymorth sydd ei angen i gael busnesau i dyfu wrth symud ymlaen.</p>

<p>Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yn Llanelli ar ardaloedd yn y Llain Arfordirol drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys: prosiect Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd/Llynnoedd Delta (penodi tîm a dylunio cysyniad); Prosiect 'Stryd Cyfleoedd' Canol Tref Llanelli (12160)</p>	<p>✓ Cadarnhawyd cyhoeddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe gyda chymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae'r Pentref Llesiant yn brosiect allweddol o fewn y cynnig cyffredinol. Mae dogfen prif gynllun wedi'i chwblhau ac mae cyfarwyddiadau wedi cael eu rhoi er mwyn bwrw ati i lunio cais cynllunio amlinellol. Mae hysbysiad ffurfiol wedi'i roi ar wefan 'gwerthwchigymru' i hysbysu ac ymgynghori â buddiannau partner posibl o fewn y sector preifat. Bydd ymarfer caffael ffurfiol yn cychwyn yn haf 2017.</p> <p>Mae cais wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae arian wedi'i ddyrannu i'r prosiect Stryd Cyfleoedd yng nghanol tref Llanelli ar gyfer prynu adeiladau wedi'u targedu yn Stryd y Farchnad a Stryd y Parc. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £800k ac roedd y Cyngor wedi rhoi £200k o'i gyllid ei hun.</p>
<p>Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yng Nghaerfyrddin ac Ardaloedd Gwledig drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys: Lansio ac ymrwymo'n llawn i gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, sydd werth £2 filiwn Lansio ac ymrwymo'n llawn i Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid, sydd werth £3 miliwn sicrhau a chefnogi tenantiaid newydd Canolfan Fasnachol Parry Thomas (12161)</p>	<p>✓ Cafodd Cynllun y Gronfa Mentrau Gwledig ei lansio ym mis Mai 2016. Mae saith cynnig grant ffurfiol wedi cael eu rhoi sy'n dod i gyfanswm o £475,372 ac mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar nifer o'r prosiectau hynny. Mae 23 o ymgeiswyr eraill wedi cael gwahoddiad i gam 2 ac mae holl arian y gronfa wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd.</p> <p>Lansiwyd Cynllun y Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid ym mis Mehefin 2016. Mae chwe ymgeisydd wedi cael gwahoddiad i fynd ymlaen i'r cam cais manwl. Os bydd yr holl brosiectau yn cael eu cymeradwyo yng nghanol 2 y prosiect, bydd hyn yn arwain at: 315 o swyddi mewn lleoliad newydd; creu arwynebedd llawr 80,000 metr sgwâr a sicrhau £5.35m o fuddsoddiad gan y sector preifat.</p> <p>Canolfan Thomas Parry, Pentywyn - cwblhawyd y gwaith adeiladu ym mis Mehefin 2016. Mae'r holl unedau ar y llawr gwaelod a'r bwyty ar y llawr cyntaf dan gynnig. Arwyddwyd tair prydles ac mae'r tenant cyntaf wedi agor ar gyfer busnes.</p>
<p>Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl i bawb yn ardaloedd Parth Twf Rhydaman a Cross Hands drwy wneud cynnydd o ran prosiectau gan gynnwys: darparu cymorth i Berchenogion Busnesau a Datblygwyr Sector Preifat ddod â datblygiadau allweddol arfaethedig a arweinir gan y sector preifat ymlaen yn Rhydaman a Cross Hands(12162)</p>	<p>✗ Mae sawl prosiect dan arweiniad eiddo yn yr arfaeth, ac mae llawer ohonynt wedi eiwa ar arian Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Gronfa Datblygu Eiddo - mae prosiectau'r ymgeiswyr ar draws mwy nag un flwyddyn brosiect, ac, o'r herwydd, ni chânt eu gwireddu ar gyfer 2016/17. Ar y rhestr o brosiectau presennol, mae llawer o'r buddiolwyr posibl ym Mharth Twf Rhydaman a Cross Hands, ac, yn bendant, caiff y prosiectau hyn eu gwireddu yn 2017/18.</p>
<p>Byddwn yn canolbwyntio ar greu cynifer o swyddi â phosibl drwy wneud cynnydd o ran prosiectau a nodwyd yn y Cynllun Cyflogaeth a Swyddi ar gyfer y Sir Gyfan gan gynnwys: darparu'r gronfa cyllid a dargedir; darparu cymorth i fentrau cymdeithasol; gweithio gyda 40 o sefydliadau/mentrau cyfrifon allweddol (12163)</p>	<p>✓ 36 o swyddi wedi eu creu, 50 o swyddi wedi eu diogelu, 1,470 o unigolion yn cael Hyfforddiant/Addysg a rhyw 1,504 o ymholiadau wedi eu rheoli.</p> <p>Rydym wedi helpu 225 o unigolion i wirfoddoli a 64 o unigolion i gael cyflogaeth, a chyfanswm cost buddsoddiad cymunedol oedd y swm trawiadol o £10,010,875 - mae'r swm hwn yn cynnwys cyllid mewnol ac allanol a sicrhawyd ar gyfer prosiectau yn y sir.</p> <p>Mae'r Biwro yn parhau i ddarparu gwasanaeth Rheoli Cyfrifon Allweddol ar gyfer y Trydydd Sector, ac mae'n canolbwyntio ei ymdrechion â chleientiaid cyfrifon allweddol - i gefnogi cynyddu ac uwch-sgilio capasiti'r trydydd sector ac i roi bod i fuddion economaidd drwy wirfoddoli, hyfforddiant a chynhwysiant digidol.</p> <p>Mae'r Biwro wedi llwyddo i gefnogi'r trydydd sector yn llwyddiannus er mwyn sicrhau ystod o raglenni grant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Hefyd mae'r Biwro yn helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau o dan Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ac yn ddiweddar roeddem wedi sicrhau £83,000 o gyllid o dan Raglen Grant y Weinyddiaeth Amddiffyn 'Cryfhau'r gwaith o ddarparu Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy Lywodraeth Leol'. Bydd yr arian yn caniatáu i ni benodi Swyddog Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog, a fydd yn helpu i gefnogi darparu Cyfamod y Lluoedd Arfog ar lefel ranbarthol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.</p>

Nifer y swyddi a grëwyd gyda chymorth Adfywio (5.6.3.5) (Targed 2016/17: 299 Canlyniad: 253)	✘	Mae 253 o swyddi wedi eu creu drwy'r Swyddogaeth Rheoli Cyfrifon Busnes, Canolfan Parry Thomas ym Mhentywyn, Cronfa Cyllid a Dargedir a Chymorth Mentrau Cymdeithasol yn ystod 2016/17. Roedd y targed gwreiddiol o 299 yn cynnwys 200 o swyddi a grëwyd drwy ddatblygiad Gorllewin Cross Hands a arweinir gan y Sector Preifat. Yn dilyn oedi cychwynnol, mae'r gwaith bellach wedi dechrau ar y safle a chyrrhaeddir y targedau hyn yn 17/18.
Nifer y swyddi a ddiogelwyd gyda chymorth Adfywio (5.6.3.6) (Targed 2016/17: 166 Canlyniad: 192.5)	✓	192.5 o swyddi wedi'u diogelu i gyd - drwy weithgarwch Cymorth Busnes (3 thim ardal) a Chronfa Cyllid a Dargedir / Cymorth Mentrau Cymdeithasol
Nifer y swyddi a grëir mewn lleoliad newydd gyda chymorth Adfywio (5.6.3.7) (Targed 2016/17: 32 Canlyniad: 28)	✘	Mae 28 o swyddi wedi'u creu mewn lleoliad newydd, sy'n gysylltiedig â datblygu Canolfan Parry Thomas, Pentywyn – sy'n darparu 5 uned fasnachol newydd ac a gwblhawyd ym Mehefin 2016. Cafwyd cynigion am y pum uned a llofnodwyd tenantiaethau gyda thri o'r pum busnes. Yn wreiddiol, pennwyd y targed arfaethedig yn erbyn gwaredu ac ailddatblygu safle hen Orsaf yr Heddlu yn Rhydaman, sydd nawr wedi'i ohirio.
Gweler Nod F3 ein rhaglenni LEADER a Chymunedau yn Gyntaf, sydd hefyd wedi'u cysylltu â'r Prif Flaenoriaeth Amcanion Gwella hwn		

Nod: G3 Datblygu economi wybodaeth ac arloesedd

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae yna nifer o brosiectau allweddol yn cael eu datblygu o fewn y rhanbarth lle bydd angen gweithlu medrus a chymwys. Bydd llawer o'r sgiliau hyn yn newydd i'r rhanbarth a bydd angen eu cyflwyno i'r Colegau a'r Prifysgolion neu drwy gyfleoedd Prentisiaeth, gan greu economi greadigol â chyfoeth o wybodaeth. Mae'n hollbwysig bod y rhanbarth yn ymateb i gyfleoedd newydd a chyfleoedd sy'n cael eu datblygu, er enghraifft, o fewn technolegau gweithgynhyrchu a pheirianneg y prosiectau newydd. Bydd hyn yn galw am y lefelau uchaf o addysg a datblygiad sgiliau ymhlith ein gweithlu cyfan, o'r prentisiaid ieuengaf i arweinwyr entrepreneuriaid ein cwmnïau.

Bydd newid yng nghyfansoddiad y gweithlu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bydd hwn yn gyfle i'r rhanbarth fod 'ar flaen y gad' a chynyddu cyfleoedd economaidd, ffyniant, ac, yn bwysicach, Gwerth Ychwanegol Gros y rhanbarth. Yn allweddol i'r cyflawniad hwn y mae'r gwaith parhaus o ddatblygu sgiliau y bydd eu hangen yn y rhanbarth dros y blynyddoedd nesaf i helpu i gyflawni'r Fargen Ddinesig.



Byddwn yn gwneud hyn drwy'r [Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol](#) gydweithredol (aelodau'r sectorau cyhoeddus a phreifat) i ddarparu gweithlu sy'n gallu gweithredu llawer o brosiectau allweddol a ddatblygir. Mae'r **Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol** yn bartneriaeth drawsnewidiol sy'n dod â phartneriaid addysg ac adfywio at ei gilydd er mwyn helpu i ddarparu gwell dyfodol ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr ar draws rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ Cafodd y **Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol** ei lansio'n swyddogol gan *Julie James AC*, y Gweinidog Sgiliau a Gwybodaeth yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ym mis Rhagfyr 2016. Roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd gyflogwyr, cyrff addysg, cyrff y sector preifat, a llunwyr polisi er mwyn helpu i lywio'r agenda sgiliau yn y rhanbarth. Cafodd ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r prif bartïon ac mae'n pennu'r blaenoriaethau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r diffyg sgiliau a fydd yn arwain at lefelau uchel o gyflogaeth, gweithlu y rhanbarth.



O'r chwith: *Barry Liles*, Cadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, *Paul Greenwood*, Teddington Engineered Solutions, *Julie James AC* a *Jane Lewis* Rheolwr y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol

Yr uchelgais yw trawsnewid llwyddiant economaidd y rhanbarth yn y dyfodol drwy ddarparu prosiectau trawsnewidiol allweddol, gan gynnwys y Fargen Ddinesig. Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu'n well â chyflogwyr, gwella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu sgiliau yn unol â'r prosiectau uchelgeisiol.

- ✓ Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, wedi datblygu adnodd newydd cyffrous a elwir yn '*Hoelio Sylw ar Dde-orllewin a Chanolbarth Cymru*'. Offeryn arloesol yw'r adnodd hwn sydd wedi cael ei ddylunio i dynnu sylw at y cyfleoedd gwaith sydd ar gael ar draws y rhanbarth i bobl ifanc sydd ar fin gadael ysgol.

Y Stryd Fawr Ddigidol:

- ✓ Mae arddangosfeydd finyl ffenestr blaen siop digidol sy'n rhyngweithio'n ddigidol drwy realiti estynedig â ffonau symudol pobl wedi eu gosod mewn dau eiddo masnachol gwag yn Nhref Caerfyrddin, ac mae dau hysbyswrdd i dwristiaid wedi eu gosod yn y Clos Mawr a maes parcio San Pedr, sy'n rhoi gwybodaeth leol a gwybodaeth newydd i dwristiaid a rhyngweithiadau digidol drwy realiti estynedig.
- ✓ Mae cynllun "Gardd Furiog" lle ceir Wi-Fi am ddim yng nghanol y dref wedi cael ei dreialu yn Rhydaman a Llanymddyfri (mewn cydweithrediad ag Antur Teifi), gyda'r bwriad o sefydlu un yng Nghaerfyrddin.

Datblygu Sgiliau a Chymunedau:

- ✓ Mae holiadur y Gwriad Iechyd Digidol, sydd wedi'i anelu at ddatblygu asesiad o allu Cynhwysiant Digidol, wedi ei ddosbarthu i fusnesau a sefydliadau'r trydydd sector.
- ✓ Fel rhan o'r ymgyrch Manteisio i'r Eithaf ar Gyfleoedd Digidol a Chynhwysiant Digidol, mae Sir Gaerfyrddin wedi ymuno â'r Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein drwy'r Biwro Cymunedol, sy'n caniatáu defnydd o adnoddau dysgu ar-lein.
- ✓ Mae cysylltiadau gweithio agos wedi cael eu datblygu â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Rhaglen GWLAD) a Choleg Sir Gâr (rhaglen brentisiaeth) i ddatblygu rhaglenni sgiliau digidol.

Ymgysylltu Digidol LEADER - Cynllun Datblygu Gwledig:

- ✓ Mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal i gynyddu ymwybyddiaeth o Weithgarwch Digidol a'r defnydd integredig cynyddol ohono mewn gweithgareddau gwasanaeth dyddiol - gan ganolbwyntio ar y budd economaidd yn sgil y nifer gynyddol sy'n defnyddio Band Eang Cyflym lawn o fewn busnesau a siopau yng nghanol y prif drefi.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Cafodd pobl ifanc o bob rhan o Sir Gaerfyrddin flas ar wahanol opsiynau gyrfa yn *Sgiliau Cymru Sir Gaerfyrddin*, sef ffair yrfaoedd ranbarthol â mwy na 100 o gyflogwyr yn bresennol, a gafodd ei chynnal yn ystod yr Wythnos Brentisiaeth ym Mharc y Scarlets yn Llanelli ar 9 a 10 Mawrth.

Nod y digwyddiad, a drefnwyd gan Gyrfa Cymru a Choleg Sir Gâr, gyda chymorth gennym ni a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, oedd ysbrydoli ac addysgu ymwelwyr ynghylch yr amrywiaeth o lwybrau galwedigaethol a gyrfaoedd sydd ar gael iddynt.



Daeth mwy na 4,000 o bobl ifanc i'r digwyddiad rhad ac am ddim dros y ddau ddiwrnod, gan deithio o ysgolion a cholegau lleol.

Roedd ymwelwyr yn gallu rhoi cynnig ar weldio rhithwir, creu animeiddiadau byrion, a gyrru tractor gan ddefnyddio offer modern 'rhoi cynnig arni' Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i greu i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd llwybrau galwedigaethol. Roedd y sawl oedd yn bresennol hefyd wedi profi eu sgiliau galwedigaethol drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau rhyngweithiol yr oedd cyflogwyr yn eu cynnig, o drin ewinedd a steilio gwallt i osod briciau a gwneud moctêls ecsotig.

Nod: G4 Sicrhau lleoedd nodedig a seilweithiau cystadleuol

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys nifer o leoedd nodedig a deniadol iawn. Mae'n glytwaith o ardaloedd trefol a gwledig ac yn gefndir ysblennydd iddo ceir Parciau Cenedlaethol, arfordiroedd gogoneddus a thirweddau trawiadol. Mae cyfoeth ac amrywiaeth ein hamgylchedd yn gryfder gwirioneddol ac mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn ei gadw ar gyfer y dyfodol.

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Roedd dau o brosiectau seilwaith strategol wedi'u cwblhau yn 2016/17 ac roedd nifer o brosiectau eraill wedi cael eu datblygu ymhellach, gyda golwg ar sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn cadw ac yn datblygu lleoedd nodedig y sir a seilweithiau cystadleuol yn y dyfodol. Ymhlith y prosiectau a gwblhawyd yn 2016/17 y mae: Canolfan Fasnachol a Digwyddiadau Parry Thomas; a chynlluniau Partneriaeth Canol y Dref Llywodraeth Cymru yn Rhydaman a Chaerfyrddin. Mae'r prosiectau sydd ar waith yn cynnwys: Stryd Cyfleoedd Llanelli; Gweithdai Glanaman; Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin; Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid; a'r Egin. Ymhlith y prosiectau cyffrous ym maes datblygu sy'n gwneud cynnydd sylweddol y mae: Parc Gwyddor Bywyd ac Academi Iechyd a Llesiant; Prosiect Denu Twristiaid Pentwyn; Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands (Cam 2); Cronfa Datblygu Eiddo Dwyrain Cross Hands; Cynllun Benthyciadau Canol Tref Llanelli; Cronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman; Ailddatblygu Lôn Jackson; a Chynllun Porth a Gwlyptiroedd Caerfyrddin.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Parth Twf Cross Hands a Rhydaman

- ✓ Mae *tasglu* wedi ei sefydlu i adfywio economi Dyffryn Aman, i ganolbwyntio ar symud Rhydaman yn ei blaen ac ar waith partneriaeth y dref, a ddaeth i ben ym mis Medi 2016.
- ✓ Mae *safle Hen Orsaf yr Heddlu*, a brynwyd rai blynyddoedd yn ôl, bellach wedi cael ei werthu i ddatblygwyr preifat gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd masnachol/adwerthu ar y llawr gwaelod a phedair fflat ar y llawr cyntaf i fodloni'r galw lleol. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys addasu adeilad presennol y Llys yn swyddfeydd.
- ✓ Cafodd mynedfa *maes parcio Carregaman* ei symud hefyd er mwyn gosod croesfan pelican a reolir yn dilyn adolygiad diogelwch ffyrdd.
- ✓ Sicrhawyd *cronfa datblygu eiddo* â chyllideb gymharol fach o £300,000.
- ✓ *Gweithdai Glanaman* – mae gwaith wedi dechrau i adnewyddu'r gweithdai a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2018. Bydd y gwaith adnewyddu yn darparu 13 o unedau â 1,000 metr sgwâr, a fydd yn ateb y galw a brofir gan ymholiadau rheolaidd am y math hwn o lety busnes.

- ✓ Cafodd *Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands* ei gwblhau a'i agor yn swyddogol ar 6 Hydref 2016, ym mhresenoldeb Gweinidog Llywodraeth Cymru *Jane Hutt AC*. Yn dilyn yr agoriad mae nifer o gwmnïau wedi dangos diddordeb mewn datblygu ar Safle Dwyrain Cross Hands. Mae Cam 1 o Ddwyrain Cross Hands yn cynnwys 9 llain o dir datblygu a photensial i greu 500-700 o swyddi yn y sectorau canlynol: Ynni a'r Amgylchedd; y Diwydiannau Creadigol; Gweithgynhyrchu Uwch; Gwaith Ariannol a Phroffesiynol; a Thechnoleg Bwyd-Amaeth. Daeth cyfanswm cost y prosiect seilwaith hwn, gan gynnwys y ffordd fynediad o'r A48, i oddeutu £14.5 miliwn a gyllidwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£6.7m), Llywodraeth Cymru (£2.16m - cyllid Trafnidiaeth a Chymoedd y Gorllewin), y Cyd-fenter (£0.54m) a'n cyfraniad ni ein hunain o £5m. Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer cwblhau Cam 2 y safle cyflogaeth strategol a fydd yn ei hun yn darparu 17,500 m/sg yn rhagor o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth, a hynny ar dir 9ha o faint.



Caerfyrddin a'r Ardal Wledig

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda *Fforwm Adfywio Canol y Dref* i ddatblygu a darparu prif gynllun ar gyfer adfywio Caerfyrddin ac ardaloedd economaidd cysylltiedig rhwng 2014 a 2030

- ! *Ailddatblygu Lôn Jackson* – ar ôl digwyddiad ymgynghori cyhoeddus, mae'r gwaith dylunio manwl yn cael ei gwblhau ac mae oedi wedi bod o ran y penderfyniad cyllido gan Lywodraeth Cymru.
- ✓ *Ailddatblygu Tref Caerfyrddin* – Mae Fforwm y Dref yn dal i fod yn gyfrwng i ystyried ac ysgogi cynigion adfywio ar gyfer y dref. Roedd y digwyddiadau llwyddiannus a gynhaliwyd yn cynnwys: Digwyddiad o'r Oes a Fu ym mis Gorffennaf; digwyddiad Lock-in i Fyfirwyr ym mis Medi - roedd hwn yn llwyddiant mawr ac roedd mwy na 900 o fyfirwyr wedi gwario dros £70,000 yn y busnesau oedd yn cymryd rhan.



Digwyddiad o'r Oes a Fu

- ✓ Rydym wedi parhau i helpu Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer *Yr Egin / S4C* ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle gyda'r nod o'i gwblhau ym Mehefin 2018.

Llanelli a'r Llain Arfordirol

- ✓ *Stryd Cyfleoedd* (blwyddyn olaf 3 o 3) - mae gwaith adnewyddu ar adeiladau 10 a 12 Stryd Stepney wedi dechrau ym mis Mehefin 2016 i adnewyddu a chreu dau lecyn masnachol newydd ar y llawr gwaelod a phedair fflat dwy ystafell wely newydd uwchlaw. Bydd y gwaith yn parhau i mewn i haf 2017, ar y cyd â gwaith yn 48 Stryd Stepney, cyn y bydd lleoedd yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gosod. Yn gynharach eleni cadarnhawyd y bydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prynu adeiladau penodol yn Stryd y Farchnad a Stryd y Parc. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £800,000 a gwnaethom ni fel Cyngor roi £314,000 ychwanegol. Mae'r trafodaethau â pherchnogion eiddo wedi mynd rhagddynt yn dda ac roedd wyth



adeilad wedi eu prynu erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyfanswm gwerth y prosiect hwn yn uwch na £4.3 miliwn a bydd 15 o adeiladau ac un safle datblygu wedi cael eu prynu yng nghanol y dref.

- ✓ *Cyllid benthyciadau* - Menter sy'n cael ei gyrru a'i chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Cyllid Benthyciadau Canol Tref Llanelli, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sicrhau £750,000 a allai gael ei ail-fuddsoddi, fesul achos, dros gyfnod o 15 mlynedd. Lansiwyd y prosiect yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2016. Yn dilyn asesiad cafodd y prosiect i ailddatblygu Adeilad Raffles ei ddewis fel yr hoff brosiect, gyda'r gwaith yn dechrau yn hwyr yn 2017 yn amodol ar gymeradwyo'r cais ar gyfer yr ail gam; yna bydd y cyllid yn cael ei ryddhau.
- ✓ *Parc Gwyddor Bywyd ac Academi Iechyd a Llesiant Llynnoedd Delta* - yn dilyn datblygu prif gynllun, mae cais cynllunio amlinellol ar waith bellach. Bydd y datblygiad hwn yn cael ei ystyried yn 'ddatblygiad sylweddol' ac felly bydd yn sbarduno deddfwriaeth newydd lle mae cyfnod ymgynghori ffurfiol yn ofynnol cyn cyflwyno'r cais cynllunio ffurfiol. Cafodd cais am £40m o gyllid ar gyfer y Pentref Llesiant ei gyflwyno drwy'r Fargen Ddinesig.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae'r cyffyrddiadau olaf wedi cael eu gosod ar ystafell de newydd ar draeth Pentywyn fel rhan o adeilad newydd Canolfan Fasnachol Parry Thomas, sydd newydd gael ei gwblhau. *Tea by the Sea* fydd y cyntaf o blith pump o fusnesau i symud i'r ganolfan. Cefnogwyd datblygiad yr adeilad deulawr gwerth £1miliwn yn y lleoliad arfordirol poblogaidd hwn gan £300,000 o'r Gronfa Loteri Fawr. Mae Canolfan Parry Thomas gerllaw promenâd newydd Pentywyn a bydd yn cynnwys pedair uned fusnes math ciosg ar y llawr gwaelod ac uned fasnachol fwy ar y llawr cyntaf, ynghyd â thoiledau cyhoeddus newydd a chawodydd allanol ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio'r traeth.



Tea by the Sea fydd y cyntaf o blith pump o fusnesau i symud i'r ganolfan

Llwyddodd busnes *Tea by the Sea* i sicrhau £12,559 o Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a bydd yn creu pum swydd amser llawn. Mae Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn gronfa cyfalaf gwerth £2m sy'n ceisio cynorthwyo busnesau gwledig yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu busnesau newydd neu rai gwell lle mae modd creu swyddi.

Dyweddodd y Cynghorydd Meryl Gravell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden: "*Prif nod Canolfan Parry Thomas oedd dwysau ac amrywio'r gweithgarwch economaidd yn y pentref er mwyn helpu i ddenu rhagor o ymwelwyr a'u hannog i aros yn hirach ac ymweld eto.*"

"Rwy'n falch bod cynllun Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi gallu cefnogi'r busnesau hyn. Bydd yn hyfryd gweld yr adeilad nodweddiadol hwn yn cael ei ddefnyddio. Nid yn unig y mae'r cynllun yn creu swyddi mewn ardaloedd gwledig ond mae hefyd yn helpu i greu cyfleusterau gwyb i bobl leol ac ymwelwyr eu mwynhau, gan wneud yr arfordir yn lleoliad dymunol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef."

Ers 2010, rydym wedi bod yn gweithio ar brif gynllun adfywio er mwyn mynd i'r afael â dirywiad ffisegol a masnachol pentref glan môr Pentywyn. Mae cam nesaf y prif gynllun yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o roi ar waith Gynllun Denu Twristiaid Pen-bre, lle gwerir £7.5 miliwn ar Amgueddfa Traeth y Gwibwyr newydd, eco-gyrchfan, lle chwarae antur, lle cyn digwyddiadau, llannerch arddangos, rhodfa bren a gwell darpariaeth barcio. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi hwb ychwanegol i economi'r rhanbarth o £3.3miliwn y flwyddyn.

Nod: G5 Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol

Mae tlodi'n cyfeirio at sefyllfa economaidd-gymdeithasol berthynol lle nad oes gan bobl yr incwm, yr adnoddau na'r cyfleoedd digonol i'w galluogi i gael safon byw dderbyniol yng nghyd-destun y gymdeithas y maent yn byw ynddi. (Y Cyngor Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd, 2004)

Fel y mae'r diffiniad uchod yn ei ddangos, mae tlodi'n golygu llawer mwy nag arian yn unig. Mae tlodi'n effeithio ar amddifadedd cymdeithasol, diwylliannol, materol, ac emosiynol yn ogystal ag amddifadedd economaidd, ac mae'r pethau hynny'n cael effaith ar dlodi hefyd. Mae tlodi'n eithrio unigolion a chymunedau rhag patrymau byw arferol.

Felly, mae mesurau megis lefelau amddifadedd sylweddol, sy'n edrych ar anallu aelwyd i fforddio nwyddau a gweithgareddau nodweddiadol cymdeithas, yn dod yn fwy arwyddocaol o ran dynodi a deall lefelau tlodi.

Dengys y tabl isod yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, fod **15%** o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn profi **amddifadedd sylweddol**, ac mae'r ganran hon yr un peth â chyfartaledd Cymru ac ychydig yn llai na'n canlyniad yn arolwg 2014/15 sef 17%. Hefyd roedd yr arolwg yn dangos mai dim ond **47%** o'r rhai nad oeddent yn bensiynwyr ddywedodd eu bod yn **'gallu talu'r holl filiau ac ymrwymadau yn brydlon heb unrhyw anhawster'**, sef y ganran isaf ond un yng Nghymru, a chyda phensiynwyr Sir Gaerfyrddin oedd y ganran isaf yng Nghymru sef **75%**.

	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
	Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf										Canlyniadau Gorau													
Aelwyd mewn amddifadedd materol	17	15	↑	21																						11	
Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (heb fod yn bensiynwyr)	Nid yw ar gael	51	Nid yw ar gael	47																							76
Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (bensiynwyr)	Nid yw ar gael	75	Nid yw ar gael	75																							91

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17**Pam yr oedd trechu tlodi yn dal i fod yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella yn 2016/17**

- gall ychydig dros draean o aelwydydd Sir Gaerfyrddin gael eu diffinio fel rhai sy'n byw mewn tlodi, mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- mae'n tlodi'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc, yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau, ac yn cael effaith andwyol ar iechyd a disgwiliad oes llawer gormod o bobl.
- yn ogystal â bod yn fater sy'n effeithio arnom ni yma nawr, mae tlodi'n cael effaith niweidiol yn y tymor hir ar fywydau pobl a'n cymdeithas yn y dyfodol.
- mae tlodi'n cael effaith niweidiol ar unigolion a chymunedau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol
- mae natur drawsbynciol tlodi yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor
- gwaith Grŵp Ffocws Trechu Tlodi yr Aelodau Etholedig



KEY IMPROVEMENT OBJECTIVE PRIORITY (KIOP) Tackling Poverty

“Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i drechu tlodi, sy'n her sylweddol, ond heb ei gyfraniad gallai'r sefyllfa fod yn waeth”

Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad Gwella Blynyddol 2016.

Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi bod yn clustnodi ac yn datblygu'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar draws holl adrannau'r Cyngor mewn perthynas â threchu tlodi.


Mesur Llwyddiant Allweddol:

Ffigurau Incwm Aelwydydd Ffynhonnell: Data 'PayCheck' CACI						
Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi	2014		2015		2016	
	Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin	Cymru
	29,956 (37.1%)	446,586 (33.6%)	29,086 (36.3%)	459,283 (35%)	29,020 (35.9%)	460,322 (34%)

Pam mae'r mesur hwn yn bwysig?

Yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, tlodi yw pan fo “incwm aelwyd yn llai na 60% o'r incwm canolrifol”. Ar gyfer Sir Gaerfyrddin mae hynny'n golygu aelwyd lle mae'r **incwm yn llai nag £23,825 y flwyddyn**.

Aelwydydd Sir Gaerfyrddin sy'n byw mewn Tlodi



Data 'Paycheck' CACI

Yn ôl y diffiniad hwn, gellir dweud bod **35.9%** o holl aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi yn 2016, sy'n ostyngiad o 0.4% o 36.3% yn 2015.


Yn ogystal, mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn **tlodi difrifol** yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf gyda nifer yr aelwydydd sy'n cael incwm o lai na £10,000 y flwyddyn, yn gostwng bron 16% yn 2015 i 14.5% yn 2016.

Data 'Paycheck' CACI

! Tlodi Gwledig

O blith y 29,020 o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi ar draws Sir Gaerfyrddin, mae 56% (16,386) ohonynt mewn ardaloedd gwledig (fel y'u diffinnir o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2015-20), gostyngiad o 2% o 2015.

Incwm Aelwydydd



	2013		2014		2015	
■ Cymedr (cyfartaledd)	£30,207	£29,386	£29,485	£31,452	£29,160	£31,131
■ Canolrif	£23,284	£24,721	£23,043	£24,108	£23,156	£24,271

Hefyd mae 90% o wardiau gwledig y Sir wedi cofnodi **cynnydd** yng nghyfartaledd incwm aelwydydd rhwng 2015 a 2016. Mae hyn yn gyson â thueddiadau Cymru a Sir Gaerfyrddin gyfan, lle mae'r incwm cyfartalog wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein strategaeth ar gyfer trechu tlodi yn dilyn blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru sef

- *Atal tlodi; Helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith; Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi*

Atal Tlodi

Gall byw mewn tlodi gael effaith sylweddol ar gyfleoedd plentyn mewn bywyd ac mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni'n dlawd a bod yn dlawd gydol eich oes. Mae'r cylchred tlodi hwn sy'n pontio'r cenedlaethau yn anghyfiawn ac yn annerbyniol. Nid ymyrryd yn achos plant a phobl ifanc yn unig sydd angen ei wneud i atal tlodi, ond yn achos yr holl grwpiau y mae mwy o berygl y byddant yn profi tlodi. Felly trwy ddarparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd i unigolion a grwpiau agored i niwed, nid yn unig y gallwn helpu i leihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau ond hefyd lleihau'r angen i sefydlu rhaglenni lliniaru ymatebol sy'n fwy costus.

Helpu pobl i gael gwaith

Mae sicrhau bod pobl yn cael gwaith yn un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Yn ogystal ag incwm, mae gwaith yn darparu cyfleoedd o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymenyddol yn ogystal ag iechyd a lles cyffredinol. Er bod pryder cynyddol ynghylch nifer y bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith, mae helpu pobl i gael gwaith ac i wneud cynnydd yn y gwaith yn dal i fod yn ffocws allweddol gan fod y perygl o wynebu tlodi'n cynyddu'n ddramatig mewn aelwydydd heb waith.

Gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi

Bydd wastad amgylchiadau'n bodoli lle mae pobl yn byw mewn tlodi, a hynny am nifer o wahanol resymau na ellir bob amser eu rhagweld na'u hatal. Mae'n hanfodol yn yr achosion hyn fod gan bobl fynediad i gymorth er mwyn cynnal safonau byw sylfaenol, ac i gefnogaeth er mwyn lliniaru yn y lle cyntaf effaith ddyddiol tlodi, ac, yn y pen draw, ddod o hyd i ffordd allan ohono.

Y Llynedd

Cyflawnwyd 15 o'n 17 ymrwymiad KIOP y llynedd

Ymrwymadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn datblygu datganiad polisi Trechu Tlodi a fydd yn amlinellu ymagwedd gyffredinol y Cyngor at drechu tlodi. (12137)	✓ Mae'r datganiad polisi wedi cael ei ddatblygu gan Banel Ymgynghorol Trechu Tlodi a'i ddisbarthu drwy raglenni a mentrau trechu tlodi allweddol.
Byddwn yn sefydlu Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi a helpu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Drechu Tlodi i gyflawni eu cyfrifoldebau. (12138)	✓ Sefydlwyd y Panel ym mis Mehefin 2016 ac mae'n cael ei gadeirio gan yr Hyrwyddwr Trechu Tlodi sef y Cynghorydd Pam Palmer. Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol a swyddogion allweddol gan gynnwys arweinwyr rhaglenni trechu tlodi Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac wedi nodi materion megis cymorth Banc Bwyd a chlybiau newyn gwyliau fel prif flaenoriaethau i ymchwilio rhagor iddynt.
Byddwn yn diweddarau'r cynllun gweithredu trechu tlodi fel ei fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 a'u sefydlu'n rhan o'r KIOP. (12139)	✓ Datblygwyd cynllun drafft trechu tlodi ar gyfer 2016/17. Roedd y Panel Ymgynghorol ar gyfer Trechu Tlodi wedi trafod y cynllun drafft yn eu cyfarfod cyntaf ar 11 Gorffennaf 2016. Wedyn cafodd y cynllun ei ddiweddarau a'i fonitro gan y Panel bob chwarter.
Atal Tlodi	
Byddwn yn datblygu ymhellach dull y Tîm o Amgylch y Teulu ledled y sir ar gyfer pobl 0-25 oed, fel ffordd o gyrchu gwasanaethau ataliol. Byddwn yn mynd ati'n weithredol i gynllunio ar gyfer newid yn y dyfodol a chynaliadwyedd gyda golwg ar y newidiadau i'r grant Teuluoedd	✓ Rydym wedi parhau i weithredu a hyrwyddo'r Model Tîm o Amgylch y Teulu . Mae hyfforddiant a chymorth i staff mewnol ac allanol, yn ogystal â dal ati i gynyddu ymwybyddiaeth, wedi parhau yn ystod y flwyddyn, a chynhaliwyd diwrnodau ymgynghori. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion sydd bellach yn cael eu hatgyfeirio at y Tîm o Amgylch y Teulu - cyfartaledd o 10 yr wythnos. Mae'r gwaith papur wedi'i symleiddio ac yn bodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r

yn Gyntaf a chanolbwyntio ar leihau'r angen am ofal a chymorth statudol. (12140)		Tîm o Amgylch y Teulu yn darparu'r seilwaith i alinio 4 llinyn Agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, gan ei helaethu'n sylweddol a chanolbwyntio mwy ar hyfforddi staff.
Byddwn yn parhau i weithredu blwyddyn olaf y rhaglen Dechrau'n Deg estynedig, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais â phlant (0-3 oed) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig penodol. Byddwn yn mynd ati i gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a chynaliadwyedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer y grant. (12141)	✓	Mae 1832 o blant yn gallu elwa ar raglen ymyrraeth gynnar Dechrau'n Deg ar draws 17 ardal ddaearyddol yn y sir, gan ddarparu ymagwedd amlasiantaeth integredig. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell, darpariaeth gynenedigol gynnar, cymorth ar gyfer cam-drin domestig, cyngor a chymorth o ran deiet, ymyrraeth therapi lleferydd, ynghyd ag elfen ganolog y rhaglen sef darparu gofal plant am ddim i blant 2-3 oed mewn 24 o leoliadau gofal plant ledled y sir.
Byddwn yn parhau i weithredu blwyddyn olaf y rhaglen Dechrau'n Deg a ailgomisiynwyd (0-25), gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd dan anfantais ledled y Sir. Byddwn yn mynd ati i gynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a chynaliadwyedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer y grant. (12142)	✓	Roedd prosiectau a gomisiynwyd gan Deuluoedd yn Gyntaf wedi cefnogi cyfanswm o 9,145 o unigolion (4,563 o unigolion newydd) yn ystod 2016-17, sy'n gynydd ar y flwyddyn flaenorol (8,626), a hynny er gwaethaf toriad yn y gyllideb o 12% (£262k), a oedd yn her enfawr. Rydym yn parhau i ariannu'r 14 o brosiectau a ailgomisiynwyd, er bod hynny wedi rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau. Bydd y gwaith yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
Byddwn yn datblygu rhagor ar gyfleoedd chwarae a gofal plant yn unol â bylchau a blaenoriaethau y manylwyd arnynt yn Nghynlluniau Gweithredu Gofal Plant a Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 16/17. (12143)	✓	Rydym yn parhau i gefnogi a chynnal cyfanswm o 242 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig (gyda chyfanswm o 4,268 o leoedd cofrestredig). Cyflwynwyd y 4 ^{ydd} Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant statudol a Chynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'n nodi'r angen am ofal diwrnod llawn ychwanegol, mwy o warchodwyr plant a gofal plant y tu allan i'r ysgol mewn ardaloedd a dargedwyd o fewn y sir. Gweithiwyd ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd adroddiad cynnydd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017. * <i>am ragor o fanylion gweler isod.</i>
% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg (5.0.3.1) Targed 2016/17 34.20% Canlyniad: 41.47)	✓	Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi gwella bron ym mhob Cyfnod Allweddol o 33.69% i 41.47% . Mae'r llwyddiant yn adlewyrchu effaith y gwaith a wnaed gan ysgolion a swyddogion sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad uwch ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed. Mae defnydd effeithiol o gyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cynnwys ystod o strategaethau ac ymyriadau penodol yn sail i'r llwyddiant hwn.
Helpu pobl i gael gwaith		
% y bobl 16-64 oed mewn Cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin (Hyd 15-Medi 16) (Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol) Canlyniad: 74% (Cyfartaledd Cymru 71.1%)	✓	Ym mis Medi 2016, roedd 74% o boblogaeth oedran gweithio Sir Gaerfyrddin (80,500 16-64 oed) mewn cyflogaeth. Mae hyn wedi cynyddu o 69.1% ym mis Medi 2015 ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 71.1% a hwn yw'r ffigwr cyflogaeth 6 ^{ed} uchaf yng Nghymru.
% y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith: (Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru - 2015) 14.6% (Cyfartaledd Cymru 15.3%)	✗	Yn ystod 2015, roedd 15.3% o blant yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn aelwydydd heb waith, sy'n cyfateb i 4,800 o blant . Mae hyn yn gynydd ar ffigwr 2014 sef 14.6 (4,200).
Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi		
Byddwn yn cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r cyngor ariannol sydd ar gael i drigolion. (12144)	✗	Y bwriad oedd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol i gynnal digwyddiad penodol yn ystod wythnos genedlaethol gallu ariannol y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Fodd bynnag, nid oeddem wedi gallu gwneud hyn oherwydd newid ffocws ar lefel genedlaethol i anelu'r ymgyrch at sefydliadau a llunwyr polisi, yn hytrach na defnyddwyr. Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i drosglwyddo i 2017/18.

Byddwn yn helpu cymunedau lleol i ddatblygu prosiectau/gweithgareddau i fynd i'r afael â materion tlodi gwledig drwy astudiaeth tlodi gwledig 2015. (12145)	✓	Mae'r tîm LEADER wedi bod yn gweithio gyda chymunedau gwledig i nodi ffyrdd arloesol er mwyn mynd i'r afael â thlodi gwledig, fel yr amlygwyd gan yr astudiaeth tlodi gwledig. Mae nifer o brosiectau wedi'u cymeradwyo i ymdrin â thlodi gwledig fel yr amlygwyd gan yr astudiaeth tlodi gwledig drwy arloesi. Rydym wedi llwyddo i helpu 14 o brosiectau dan arweiniad y gymuned i gyflwyno ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Bellach mae'r rhain yn symud ymlaen i ail gam y broses geisiadau, ac, os byddan yn llwyddiannus, byddant yn sicrhau arian grant ychwanegol o £1.79m i ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae buddsoddiad o fwy na £2m wedi cael ei sicrhau drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i ddarparu atebion trafnidiaeth sy'n ymateb yn ôl y galw mewn ardaloedd gwledig.
Byddwn yn cadw nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd (6.6.1.2) (Targed: 2016/17 23 diwrnod Canlyniad: 21.12 diwrnod)	✓	Mae'r canlyniad wedi gwella eto ar y llynedd o 21.76 diwrnod i 21.12 diwrnod. Cafodd staff asesu eu recriwtio i gymryd lle nifer oedd wedi gadael. Buont yn destun rhaglen hyfforddiant hir a bellach maent wedi ymuno â'r timau asesu.
Byddwn yn cadw nifer cyfartalog isel y diwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (6.6.1.3: (Targed 2016/17: 5.5 diwrnod Canlyniad 5.13 diwrnod)	✓	Mae canlyniad 2016/17 wedi gwella o 5.23 diwrnod i 5.13 diwrnod.
Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl (6.6.1.9) (Targed 2016/17: 95% Canlyniad: 98.13%)	✓	Mae canlyniad 2016/17 wedi gwella o 95.45% i 98.13%.
% y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra:(Tach 15 - Tach 16) (Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol) (5.6.3.4) (Canlyniad: 11.4% Oedran gweithio: 11.3%) Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau – gyda chipolwg ar yr hawlwyd o oedran gweithio (16-64) sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra ar adegau penodol.	✓	Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, ym mis Tachwedd 2016 roedd 12,520 yn derbyn 'budd-daliadau diweithdra' ac mae hyn yn cyfateb i 11.4% o'r boblogaeth oedran gweithio ac mae'n ostyngiad ar y ffigwr ym mis Tachwedd 2015 o 11.8% (13,040).
Byddwn yn helpu rhagor o drigolion yn Sir Gaerfyrddin i drechu tlodi tanwydd yn eu cymunedau drwy gydgyfylltu 'Clybiau Tanwydd' i swmp-brynu olew am bris gostyngol. (12146)	✓	Mae'r Gwasanaethau Tai wedi gweithio mewn partneriaeth â'n tenantiaid, cynllun Nyth, undebau credyd a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i sefydlu 17 o glybiau tanwydd mewn ymgais i helpu tenantiaid ac aelodau eraill o'r gymuned i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'r rhan fwyaf o glybiau yn rhannau gogleddol a gwledig y sir lle nad oes prif gyflenwad nwy. Mae'r clybiau'n agored i bawb fel y gallant archebu eu holerw gyda'i gilydd er mwyn cael y gostyngiad mwyaf posibl gan y darparwr olew.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth? / Oes unrhyw un ar ei ennill?

MWY O BLANT YN SIR GAERFYRDDIN I DDECHRAU'N DEG

Cymeradwywyd cynlluniau i ymestyn ystod oedran 4 o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, a fydd yn caniatáu i blant gael eu derbyn o 3 oed yn ysgolion y Betws, y Bynea, Pen-bre a'r Pwll. Ymgynghorwyd â phenaethiaid, llywodraethwyr a rhieni yn nalgylchoedd y 4 ysgol ynghylch y cam i ymestyn ystod oedran yr ysgolion, er mwyn sicrhau dilyniant i ddisgyblion o ran symud i'r ysgol o raglen Dechrau'n Deg, sy'n targedu gwasanaethau atal mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru. Y nod yw gwella canlyniadau i deuluoedd a pharatoi plant ifanc ar gyfer yr ysgol. Dywedodd y Cyngorydd Gareth Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg: "Mae'n



newyddion da ar gyfer teuluoedd yn y dalgylchoedd hyn, y bydd eu hysgolion lleol bellach yn gallu cynnig y cyfle hwn i blant."

Gofal Plant a Chwarae:

- Ar hyn o bryd mae 35 o feithrinfeydd dydd cofrestredig yn cynnig **1,314 o leoedd gofal plant cofrestredig**.
- Mae gennym 113 o warchodwyr plant cofrestredig yn y Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, sy'n cynnig **735 o leoedd gofal plant cofrestredig**.
- Cafodd 43 o glybiau ar ôl ysgol cofrestredig eu cefnogi a'u cynnal yn ystod 2016-17, gan gynnig **1,161 o leoedd gofal plant cofrestredig**.

Roedd ein tair Canolfan Blant Integredig wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau teuluol yn ystod gwyliau'r Pasg, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r celfyddydau, crefftau, a gweithgareddau eraill wedi'u dylunio i danio dychymyg plant a galluogi plant i gymryd rhan gyda'i gilydd.



Clybiau Tanwydd

Mae nifer y tenantiaid a'r trigolion sy'n elwa ar ymuno â chlybiau tanwydd wedi cynyddu ac mae effaith hynny dros y flwyddyn ddiwethaf yn drawiadol iawn

- ❖ Mae gan glwb tanwydd Brynman y nifer mwyaf o aelodau, 817 hyd yn hyn, ac mae wedi arbed **£43,088 i'r gymuned leol yn ystod y 12 mis diwethaf drwy brynu llawer iawn ar y tro**.
- ❖ Mae **cyfartaledd arbedion** yr 17 clwb tanwydd yn dod i **£1,215 y mis**.
- ❖ Mae aelodaeth bresennol y clybiau dros 2,500 o drigolion.

Hefyd rydym wedi cysylltu â'r 2 undeb credyd yn y Sir: Undeb Credyd Save Easy yn Llanelli ac Undeb Credyd Gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin. Maent wedi darparu nifer o fenthyciadau olew llog isel i aelodau'r clwb tanwydd.

Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

Cymunedau yn Gyntaf

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen amlwg Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd ati i drechu tlodi mewn modd sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, er mwyn cyfrannu at leddfu tlodi parhaus. Mae'r rhaglen yn cyfrannu, law yn llaw â rhaglenni eraill, i leihau'r bwlch ym meysydd addysg/sgiliau, iechyd a'r bwlch economaidd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai mwy cefnog. Mae'n cyflawni ar draws y tri maes canlynol:

- Cymunedau Ffyniannus (Economaidd)
- Cymunedau sy'n Dysgu (Addysg/Sgiliau)
- Cymunedau Iachach (Iechyd)

Cyflwynir y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ddaearyddol ar draws un Ardal Glwstwr – Ty-isa, Bigyn, Glan-y-môr, Llwynhendy, Hengoed, Lliedi, Rhydaman, Trimsaran a Felin-foel.

Canlyniadau Allweddol y llynedd o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

63 o drigolion Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau cyflogaeth	318 wedi cael cymorth drwy gymorth â chyflogaeth	78 o aelwydydd di-waith wedi cael cymorth	213 o oedolion wedi cael cymorth â sgiliau digidol
352 wedi cyrchu cymorth â chynhwysiant ariannol	926 o blant wedi cael cymorth i wneud yn dda yn yr ysgol	377 wedi cymryd rhan mewn gweithdai bwyta'n iach	299 o gymwysterau achrededig wedi cael eu hennill gan oedolion
501 o oedolion wedi cymryd rhan yn ein rhaglen les	Mae mwy nag 1,311 o bobl wedi gwirfoddoli 12,765 o Gredydau Amser wedi'u hennill	225 o oedolion wedi cael cymorth o ran bod yn rhan o addysg eu plant	387 o oedolion wedi cymryd rhan yn y rhaglenni gweithgareddau corfforol

Rhaglen Esgyn - Mae tîm Esgyn wedi cefnogi 78 o gyfranogwyr newydd o aelwydydd heb waith yn ystod 2016/2017 ac wedi darparu cymorth parhaus i gleientiaid presennol. Mae 29 o gyfranogwyr Esgyn wedi cael gwaith, mae 25 wedi cwblhau lleoliad gwaith a gweithgareddau paratoi at waith, ac mae 59 wedi cwblhau hyfforddiant galwedigaethol sy'n cyfateb i gyfleoedd swydd penodol.

Cymunedau Ffyniannus - Ers mis Ebrill 2016, mae'r Tîm Ffyniant wedi cefnogi 250 o gyfranogwyr dros 25 oed a 31 o gyfranogwyr 16 – 24 oed drwy roi iddynt gymorth a chynghor am gyflogaeth. Mae'r tîm wedi rhedeg hyd at bump o Glybiau Amcanion yr wythnos a darparu cyrsiau TG bedair gwaith yr wythnos mewn lleoliadau cymunedol. Yn ogystal, dros y 12 mis diwethaf mae'r tîm wedi unioni £44,772 o ddyled mewn sesiynau un i un.

Cymunedau sy'n Dysgu - Yn 2016/17 cafodd 299 o gyfranogwyr gymorth i gael hyfforddiant wedi'i achredu ac enillwyd 373 o gymwysterau. Mae 377 o unigolion wedi cael mynediad i raglenni nad ydynt wedi eu hachredu, gyda 76 yn gwella eu sgiliau rhifedd a 362 yn gwella eu sgiliau llythrennedd.

Cymunedau Iach - Ers mis Ebrill 2016 mae 312 o unigolion wedi cymryd rhan mewn rhaglenni coginio iach ac mae 305 wedi cymryd rhan mewn sesiynau sy'n hybu llesiant corfforol. Mae 82 wedi defnyddio rhaglen y gampfa Addas i Gyflogaeth ac mae 67 o unigolion wedi adrodd cynnydd mewn gweithgarwch corfforol ac mae 63 wedi adrodd agweddau cadarnhaol tuag at fod yn egnïol.

Gweithffyrdd+ - Ers mis Mehefin 2016, mae prosiect Gweithffyrdd+ wedi ymgysylltu â 200 o gyfranogwyr sydd naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn y tymor hir. Mae'r prosiect yn cefnogi cyfranogwyr drwy ddarparu gwasanaeth mentora un i un, chwiliadau am swyddi wedi'u teilwra, lleoliadau i wirfoddolwyr, cymwysterau a chyllid ar gyfer swyddi y mae cymhorthdal ar eu cyfer. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn cyflawni cyfradd mynediad swydd 30% i gyfranogwyr pan fyddant yn gadael y prosiect.

Cymunedau am Waith - Mae mentoriaid wedi gweithio gyda 101 o gyfranogwyr ers mis Mawrth 2016, ac wedi helpu cleientiaid â lleoliadau gwaith, gwirfoddoli, sicrhau cyflogaeth a hyfforddiant.

Ymgysylltu, Grymuso a Chynnwys Cymunedol - Mae ein cynllun cynnwys y gymuned yn cael ei gefnogi gan raglen wirfoddoli ac mae gennym nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n helpu i ddarparu'r rhaglenni bob wythnos ac roedd mwy na 90 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cyfuno: Mynd i'r afael â thlodi drwy ddiwylliant - Daeth clwstwr Sir Gaerfyrddin yn ardal arloesi llwyddiannus ar gyfer y Rhaglen Gyfuno yn 2016. Rhan o'r rhaglen oedd sefydlu rhwydwaith i nodi a datblygu prosiectau. Drwy'r bartneriaeth strategol hon, mae dros 40 o weithgareddau wedi'u cynnal sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi drwy ddiwylliant.

Atal Tlodi

- ✓ Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cynnal digwyddiad llwyddiannus sy'n cynnig cyngor defnyddiol a gweithgareddau hwyliog i rieni a darpar rieni yng Nghanolfan Hamdden Llanelli ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiynau iaith a chwarae, tylino babanod, sesiwn Ynni - y Fargen Orau, cyngor am fwydo a maeth, cyngor ariannol, sesiynau ymlacio, llecyn chwarae meddal a llawer mwy.
- ✓ Mae 962 o blant wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan Raglen Ddysgu Cymunedau yn Gyntaf, ac mae 517 yn dangos gwelliant mewn presenoldeb, 881 wedi dangos gwelliant mewn perfformiad academiaidd a 98% yn dangos gwelliant o ran ymddygiad
- ! Er bod cyfanswm nifer yr aelwydydd di-waith wedi gostwng o 11,200 (Rhagfyr 14) i 10,800 (Rhagfyr 15), mae nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith wedi cynyddu o 3,900 (Rhagfyr 14) i 4800 (Rhagfyr 15).



Helpu pobl i gael gwaith

- ✓ Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau cyflogwr yn 2016 i edrych ar y bylchau sgiliau a chael barn ceiswyr gwaith am rai mathau o swyddi. Gan edrych ar sut y gellir gwneud rolau o fewn y sector twristiaeth, sector adwerthu, gofal cartref a chanolfannau cyswllt yn fwy deniadol i'r rheiny sy'n ceisio cyflogaeth, roedd y digwyddiadau yn ceisio barn, adborth a gofynion sgiliau gan gyflogwyr, a ddefnyddiwyd i ddarparu'r sesiynau mewn ysgolion, prosiectau cyflogadwyedd, a chynlluniau eraill cysylltiedig â chyflogaeth, gyda golwg ar helpu'r rheiny sy'n ceisio cyflogaeth i gael y swyddi hynny a chynyddu ymwybyddiaeth o'r mathau o yrfaedd y gellir eu cael yn y sectorau. Dywedodd Daniel Thomas, a dderbyniodd hyfforddiant yn yr adain drafndiaeth: *"Rwy'n teimlo'n hynod ffodus – roeddwn mewn rhigol mewn gyrfan nad oeddwn eisiau bod ynddi, a nawr mae gen i NVQ mewn gweinyddu busnes ac rwyf wedi cael swydd gyda'r Cyngor, yn yr Adran Cymunedau.*
- ✓ Aethpwyd â'r Hwb ar daith o amgylch y sir gan sicrhau bod trigolion mewn cymunedau gwledig yn cael yr un mynediad i'r holl wasanaethau, cyngor, gwybodaeth, addysg a chyfleoedd gwirfoddol a chyflogaeth â'r hyn a gynigir gan Un Sir Gâr yn ei siop un stop, sef Yr Hwb yn Llanelli.
- ✓ Wedi cefnogi Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr i gynnal ffair recriwtio ar gyfer y diwydiant twristiaeth lleol. Roedd amrywiaeth o swyddi tymhorol neu ran-amser ar gael gan fusnesau twristiaeth lleol, a oedd yn ceisio llenwi rolau allweddol a chafodd y sawl oedd yn bresennol gyfle i gwrdd â darpar gyflogwyr, siarad am ddisgwyliadau'r rôl, cwrdd â thimau a chasglu gwybodaeth recriwtio.
- ✓ Mae cynllun Gweithfyrdd+ wedi dychwelyd i Sir Gaerfyrddin er mwyn helpu pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir yn Sir Gaerfyrddin a siroedd cyfagos. Mae'r cynllun yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith â thâl i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir i'w cael yn ôl ar ben ffordd eto.

Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

- ✓ Casglwyd dros 2,000 o anrhegion Nadolig ar gyfer plant difreintiedig fel rhan o Apêl Teganau Nadolig 2016. Roedd haelioni pobl Sir Gaerfyrddin yn neilltuol unwaith eto gan alluogi'r Gwasanaeth Ieuenctid i roi anrhegion i 662 o blant a Hamperi Nadolig i 257 o deuluoedd.
- ✓ Cynhaliwyd sesiynau galw heibio yng nghanolfan adnoddau tenantiaid Capel Hendre, lle bu'r swyddog tai a chynrychiolydd



o Fenter Cwm Gwendraeth yn rhoi cyngor i denantiaid a thrigolion ynghylch effeithlonrwydd ynni ac arbed arian.

- ✓ Mae gwaith Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin i gefnogi lles pobl sy'n agored i niwed wedi cael ei gydnabod gyda gwobr iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Enillodd poster sy'n dangos Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol arloesol y tîm y brif wobwr yn ystod Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynharach y mis hwn. Trwy gysylltu â banciau a sefydliadau eraill, mae'r cynllun hyd yn hyn wedi atal £434,000 rhag gadael cyfrifon banc dioddefwyr a dychwelyd dros £70,000 i ddiodeswyr lleol.



- ! Yn ôl MALIC 2014, mae 88% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) Sir Gaerfyrddin sydd yn y 30% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau wedi'u lleoli yn rhannau gwledig y sir, gan gynnwys tair LSOA sydd o fewn y 10% ardal mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau yng Nghymru.

Nod: G6 Creu economi a gweithlu dwyieithog

Ein Hadolygiad a'n Gwerthusiad ar gyfer 2016/17

Sectorau, Safleoedd, Glan y Môr a Shwmae – Rydym yn sir amrywiol mewn nifer o ffyrdd, ac mae gan ein trefi a'n pentrefi nodweddion unigryw; mae ein dwyieithrwydd yn ein cryfhau ac yn ein diffinio; mae ein cymuned fusnes yn gweithredu ar draws nifer o sectorau twf newydd allweddol. Mae ein heconomi yn gyfuniad o elfennau y mae pob un ohonynt yn elwa ar safleoedd cyflogaeth strategol; busnesau mewn sectorau amrywiol; economi ddwyieithog a chysylltiedig sy'n unigryw ac yn cynnig cyfleoedd rhagorol. Gall Sir Gaerfyrddin gynnig rhywbeth i bawb, ac mae ei ffordd o fyw, ei threftadaeth a'i synnwyr o le yn draddodiadol, yn fodern ac yn groesawgar.



Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron i 80,000 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Gan mai 183,777 yw poblogaeth y sir, mae bron hanner y cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. Fel awdurdod lleol mae'n ddyletswydd arnom i annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'r egwyddor hon yn rhan bwysig o ymdrechion sector cyhoeddus Cymru i gyfrannu tuag at ffyniant y Gymraeg fel iaith leiafrifol unigryw ond byw.

Mae defnyddio'r Gymraeg yn fanteisiol i fusnesau

Mae cynnig dewis o ran iaith i gwsmeriaid yn arfer da mewn gofal cwsmeriaid ac yn dangos parch i'r cwsmer ac i'r iaith Gymraeg.

Mae **Safonau'r Gymraeg** yn nodi sut rydym i fod i drin y Gymraeg wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'r safonau a basiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu pennu ar ein cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac o fis Ebrill 2016 mae'n ofynnol inni gydymffurfio â'r safonau newydd. Mae'r safonau'n nodi 'na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg', a 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y sir'.

Safonau iaith Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Welsh Language Standards



Sut gwnaethom berfformio yn ystod 2016/17?

- ✓ **Y Gymraeg a busnesau lleol:** bydd prosiect a gafodd gyllid LEADER, sy'n cael ei ddarparu ar y cyd gan Goleg Sir Gâr a'r Mentrau, yn ymgysylltu â chyflogwyr yn y Sir Gaerfyrddin Wledig i weld pa drywydd y gall myfyrwyr ei gymryd i gael swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol gyda golwg ar gael lleoliadau i fyfyrwyr yn y busnesau.
- ✓ Mae'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn ein sir wedi parhau yn ystod y flwyddyn, ac mae cyhoeddi [Strategaeth Hyrwyddo](#) ar lefel sirol, fel rhan o Safonau'r Gymraeg (gyda chymorth gan Banel Ymgynghorol yr Aelodau a Fforwm Strategol y Sir ar gyfer yr iaith Gymraeg) wedi

rhoi her a chyfeiriad clir i ni dros y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi sicrhau bod y Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn dilyn canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2011, gan ystyried datblygiadau polisi ar lefel genedlaethol.

- ✓ Yn yr un modd, mae'r gwaith o gyflwyno Safonau'r Gymraeg wedi bod yn gadarnhaol ac mae ein hadrannau'n dal i wella mewn perthynas â chynllunio'r gwasanaeth a'r gweithlu. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg wedi rhoi cyfle euraid i ni edrych ar ein gwaith a gweld ble rydym arni o ran sicrhau cydymffurfiaeth. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Safonau ac annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â ni.



- ✓ Trefnwyd digwyddiad Y Gymraeg mewn Busnes, o'r enw *Siarad Siop* ym mis Mawrth. Roedd mwy na 60 o bobl yn y digwyddiad ym Mhlas Llanelli, gan gynrychioli 35 o fusnesau yn ogystal â sefydliadau partner allweddol eraill.

Mae busnesau yn Llanelli wedi clywed sut mae defnydd gwella gwasanaethau ar gyfer eu cwsmeriaid. Roedd y noson ar gyfer siaradwyr Cymraeg o bob gallu, gan gynnwys pobl ddi-Gymraeg a'r rhai sy'n brin o hyder wrth ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd yn eu gwaith masnachu a marchnata. Gwella profiad y cwsmer ac ychwanegu gwerth at eu busnesau oedd un o amcanion sylfaenol y noson. Y neges oedd y gallai busnesau wneud mwy na dim ond arddangos arwyddion a thafleuni dwyieithog a hynny drwy wneud ymdrech i siarad Cymraeg â chwsmeriaid a chyflenwyr i'w helpu i deimlo'n gysurus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Y gobaith yw y bydd digwyddiadau Siarad Siop eraill yn cael eu cynnal mewn trefi allweddol eraill yn y sir cyn hir.



Siarad Siop

Atodiadau

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 yw'r canlynol, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol, ond ni ellir priodoli'r rhain i gyd i berfformiad y Cyngor.
Lle bo'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn yn yr arolwg blaenorol (2014/15), mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi gwella ein perfformiad a'n safle.

	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
		Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau											
		Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15															● at ein sefyllfa 2016/17											
1	Cytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel	58	51	↓	24																					61		
2	Cytuno bod y cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio	42	35	↓	21																					48		
3	Cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol	37	36	↓	24																					53		
4	Yn teimlo y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal	21	19	↓	12																					28		
5	Cysylltwyd â chynghorydd yn y flwyddyn ddiwethaf	15	16	↑	10																					24		
6	O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'n deall beth mae cynghorydd yn ei wneud	63	48	↓	40																					77		
7	O'r rhai sydd wedi cysylltu â'u cynghorydd - A yw'r cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol	59	44	↓	37																					72		
8	Bodddhad ag ysgol gynradd y plant	Nid yw ar gael	93	Nid yw ar gael	81																					99		
9	Bodddhad â'r system addysg (Pob agwedd o'r system addysg) (Graddfa 0-10 wael- dda)	6.6	6.0	↓	5.7																					6.5		
10	Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a teithio)	Nid yw ar gael	79	Nid yw ar gael	57																					91		
11	Teimlo synnwyr o gymuned	Nid yw ar gael	48	Nid yw ar gael	37																					67		
12	Perthyn i ardal leol	84	70	↓	63																					82		
13	Pobl yr ardal sydd o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu	87	68	↓	62																					87		

ATODIAD A

	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2016/17			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
		Canlyniad arolwg 2014/15	Canlyniad arolwg 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau											
		Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa 2014/15															● at ein sefyllfa 2016/17											
14	Pobl yr ardal yn trin ei gilydd â pharch	83	72	↓	56																					87		
15	Aelwyd mewn amddifadedd materol	17	15	↑	21																					11		
16	Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (heb fod yn bensiywyr)	Nid yw ar gael	51	Nid yw ar gael	47																					76		
17	Yn dod i ben â thalu biliau a ymrwymadau credyd (bensiywyr)	Nid yw ar gael	75	Nid yw ar gael	75																					91		
18	A oes gan y cartref fynediad i'r rhyngwyd	76	83	↑	77																					89		
19	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ac eithrio cerdded	Nid yw ar gael	55	Nid yw ar gael	39																					60		
20	Cymryd rhan mewn unrhyw gêm neu weithgaredd dan do	Nid yw ar gael	38	Nid yw ar gael	25																					47		
21	Cymryd rhan mewn unrhyw gêm neu weithgaredd awyr agored	Nid yw ar gael	30	Nid yw ar gael	19																					33		
22	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd awyr agored	Nid yw ar gael	54	Nid yw ar gael	25																					54		
23	Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon	Nid yw ar gael	66	Nid yw ar gael	45																					70		
24	% o bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos	Nid yw ar gael	39.4	Nid yw ar gael	18																					39		
25	Cytuno bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal (henoed, plant, anabl a gofalwyr)	53	56	↑	44																					68		
26	Gallu siarad Cymraeg	Nid yw ar gael	40	Nid yw ar gael	9																					75		
27	% o bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw	Nid yw ar gael	88.8	Nid yw ar gael	66																					95		
28	% o bobl sy'n gwirfoddoli	Nid yw ar gael	33.9	Nid yw ar gael	21																					38		
29	% o bobl sy'n unig	Nid yw ar gael	17.1	Nid yw ar gael	23																					10		
30	Sgôr lles meddygol oedolion (Sgôr allan o 70)	Nid yw ar gael	50.2	Nid yw ar gael	48.8																					52.2		

ATODIAD B

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ganlynol am fesurau y mae'n rhaid i bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ei chasglu -

- Ein canlyniad yn 2016/17 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2015/16
- Ein chwarter (graddiad seren) o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru
- Ein safle yn 2016/17 o'i gymharu â'n safle yn 2015/16

Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru		A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		Pa mor dda yw canlyniad 2016/17?	22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
		Ein canlyniad 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	★ = Gwaethaf ★★★★ = Gorau	Canlyniadau Gwaethaf										Canlyniadau Gorau												
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa yn 2015/16										at ein sefyllfa yn 2016/17												
Adeiladu Gwell Cyngor																											
1	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. (CHR/002)	10.8	↓	★★																							
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach																											
2	Ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCS/002b)	8,289	↑	★★																							
3	% Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau (PPN/009)	97.50	↑	★★★★																							
4	Nifer y dyddiau a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002)	167	↑	★★★★																							
5	Oedi wrth drosglwyddo gofal (SCA/001)	2.30		I ddilyn																							
6	% Unedau tai fforddiadwy newydd / holl unedau tai newydd (PLA/006b)	34	↑	★★																							
7	% Anheddau sector preifat gwag wedi'u llenwi (PSR/004)	6.53	↑	★★★																							
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu																											
8	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	89.0	↑	★★★★																							
9	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	86.3	↑	★★																							
10	Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cymwysterau allanol (EDU/011)	596.0#	↑	★★★★																							
11	% Disgyblion a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 (EDU/017)	65.1#	↑	★★★																							
12	Nifer yr ymwelwyr â Llyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001b)	7,646	↑	★★★★																							

ATODIAD B

Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru		A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17?		Pa mor dda yw canlyniad 2016/17?		22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
		Ein canlyniad 2016/17	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	★ = Gwaethaf ★★★★ = Gorau	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau												
						Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa yn 2015/16												at ein sefyllfa yn 2016/17											
13	% Disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002i)	0.2	↓	★★																									
14	% Disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002ii)	0.0	↔	★★★★																								Yr un fath ar y cyd	
15	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a)	94.8	↓	★★																									
16	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU/016b)	94.5	↑	★★★																									
17	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) (EDU/015a)	43.9	↑	★																									
18	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) (EDU/015b)	71.4	↓	★																									
19	% Disgyblion sy'n cyflawni Cymraeg (iaith gyntaf) Cyfnod Allweddol 3 (EDU/006ii)	42.2	↓	★★★★																							Yr un fath		
Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel																													
20	% Plant sy'n derbyn gofal sy'n symud ysgol (SCC/002)	3.4	↑	I ddilyn																									
21	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (SCC/004)	11.17	Nid tebyg gyda'r flwyddyn flaenorol	I ddilyn																									
Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy																													
22	% Newid yn y sgôr gyfartalog ar y Dystysgrif Arddangos Ynni (CAM/037)	-0.3	↓	★★																									
23	% Prifffyrdd a archwiliwyd ar gyfer safon uchel / derbyniol (STS/005b)	98.6	↓	★★★																									
24	% Gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	4.73	↑	★★																									
25	% Gwastraff wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (WMT/009b)	66.23	↑	★★★★																									
26	% Tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith (STS/006)	85.92	↓	★																							Yr un fath		
27	% Oedolion 60+ oed â thocyn teithio consesiynol (THS/007)	81.4	↑	★★																									
28	% Ffyrdd (A), (B) ac (C) sydd mewn cyflwr gwael (THS/012)	9.2	↑	★																									

Mesurau 10 ac 11 - Mae ein canlyniadau yr un peth â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar garfan Blwyddyn Ysgol 11 ac sy'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nad yw'n gymaradwy mewn gwirionedd â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn wahanol i'r data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar 13eg Medi 2017, sy'n seiliedig ar garfan 'y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac yn eithrio plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol, y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond sydd dal yn dangos gwell canlyniadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin sef 590.6 a 64.5%.

ATODIAD C

Mae'r tablau canlynol yn rhoi proffiliau manwl ar gyfer pob un o'r mesurau perfformiad sy'n cael eu mesur gan bob Cyngor yng Nghymru.

Diffiniad: Yr hyn yr ydym yn mesur?
Disgrifiad byr o'r mesur perfformiad

Ein targed a osodwyd ar gyfer 2016/17

A wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer 2016/17?
☺ (Do) neu ☹ (Naddo)

Y lefel perfformiad leiaf sydd ei hangen i fod ymysg y 5 cyngor gorau yng Nghymru

Perfformiad ystod ganol yng Nghymru.

Ein mesurau llwyddiant allweddol – canlyniadau 2016/17								
	Pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud?		Pa mor dda ydym yn gwneud?					
	Gweler esboniad o'r perfformiad			Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan				
	2015/16	2016/17						
Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****
Mesur (au) allweddol LCL/001b - Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.	7,203	7,274	7,646	☺	▲	5,828	4,835	****
Esboniad o berfformiad yn cael ei ddarparu yma pan nad yw'r canlyniad wedi cyrraedd y targed neu perfformiad cymharol wael, Fel arall mae esboniad yn ôl disgrisiwn y maes gwasanaeth.								

Sut wnaethom ni berfformio yn ystod 2015/16?

Ein canlyniad terfynol ar gyfer 2016/17

Cymhariaeth rhwng ein canlyniad yn 2015/16 a'n perfformiad yn 2016/17.
Wnaethom ni wella?
▲ (Do) or ▼ (Naddo)

Sut mae ein canlyniad yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill?
* Chwartel Gwaethaf i
**** Chwartel Gorau

ATODIAD C

Mesurau perfformiad sy'n cael eu mesur gan bob Cyngor yng Nghymru 2016/17									
	Pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud??	Pa mor dda ydym yn gwneud?							Thema'r adroddiad
		Gweler esboniad o'r perfformiad pan nad yw'r canlyniad wedi cyrraedd y targed neu perfformiad cymharol wael. Fel arall mae esboniad yn ôl disgrisiwn y maes gwasanaeth.				Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan			
Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16	2016/17							Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	
1 CHR/002 - Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gollwyd gan weithiwr awdurdod lleol oherwydd absenoldeb salwch.	10.1 diwrnod	9.6 diwrnod	10. diwrnod	☹	▼	9.7 diwrnod	10.4 diwrnod	**	Adeiladu Gwell Cyngor
	<p>Nid yw nifer y diwrnodau a gollwyd o achos salwch yn ystod 2016-17 yn cydymffurfio â'r targed, ac mae wedi cynyddu 0.7 diwrnod ers y llynedd. Mae cynnydd o hyd mewn salwch o achos straen, iechyd meddwl a gorflinder, sy'n cyfateb i fwy na chwarter cyfanswm y diwrnodau o salwch (26%). Yr ail achos mwyaf cyffredin o salwch yw problemau cyhyrsgerbydol sydd hefyd wedi cynyddu o 15% i 18%.</p> <p>Mae Adnoddau Dynol yn cydweithio â Phenaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwella, ac mae hyn yn cynnwys sesiynau briffio parhaus ynghylch rheoli presenoldeb yng nghyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol. Rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd i drafod perfformiad o ran absenoldeb salwch a'r cymorth sydd ar gael.</p> <p>Amlygir y cymorth mewnol sydd ar gael ar gyfer straen ac anogir rheolwyr i gynnal asesiadau unigol os oes achos pryder. Mae hyn yn cwmpasu profedigaeth, iselder o achos gorbryder, a chyflyrau iechyd meddwl eraill ac mae'n cynnwys absenoldeb o achos straen yn y gwaith neu yn y cartref.</p> <p>Mae fframwaith newydd ar gyfer rheoli presenoldeb wedi cael ei ddatblygu a cheir Fforwm Presenoldeb newydd dan gadeiryddiaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Reoli Pobl, sy'n defnyddio'r data i ddedol y Pennaeth Gwasanaeth y mae angen iddo/iddi fod yn bresennol. Y gobaith hefyd yw y bydd targedau adrannol yn cael eu cyflwyno.</p> <p>Oherwydd gwahanol newidiadau i strwythur adrannau, mae'n anodd cymharu'r rhain o flwyddyn i flwyddyn, ond y tri sydd â'r nifer gyfartalog uchaf o ddiwrnodau salwch o fewn meysydd gwasanaeth yn ystod 2016/17 yw Adran yr Amgylchedd - Gwasanaethau Gwastraff a'r Amgylchedd sef 20.6 diwrnod, yr Adran Cymunedau - Gwasanaeth Rhanbarthol Anghenion Cymhleth a Phontio sef 18.8 diwrnod ac Adran y Prif Weithredwr – Technoleg Gwybodaeth sef 17.5 diwrnod. Mae rhai o'r ffigurau hyn yn cynnwys achosion o salwch tymor hir sy'n cael eu rheoli drwy'r broses.</p>								
2 LCS/002 - Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn, lle bydd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fesul 1,000 o'r boblogaeth.	6,905	7,251	8,289	☺	▲	9,056	8,374	**	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	<p>Mae gwelliant sylweddol a chalonogol ar y flwyddyn flaenorol a'r targed wedi bod eleni. Gellir priodoli hyn i gynnydd net o tua 55,000 o bresenoldebau rydym yn eu 'rheoli' yn uniongyrchol, ynghyd â 220,000 o bresenoldebau ychwanegol a gesglir bellach oherwydd gwell dulliau casglu data. O ystyried y cyfnodau o darfu ar y gwasanaeth yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman (oherwydd gwaith adnewyddu'r gampfa), mae hwn yn ganlyniad gwych.</p>								

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16		2016/17						Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	
3 PPN/009 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	94.98%	93.00%	97.50%	☺	▲	96.52%	95.04%	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
4 PSR/002 - Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	232 diwrnod	220 diwrnod	167 diwrnod	☺	▲	190 diwrnod	235 diwrnod	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
5 SCA/001 - Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn.	Mesur newydd	2.40	2.30	☺	Mesur nerwydd	I'w ddilyn	I'w ddilyn		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	8%	30%	34%	☺	▲	50%	38%	**	
6 PLA/006b - Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.									Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
7 PSR/004 - Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.	5.73%	6.00%	6.53%	☺	▲	11.77%	6.41%	***	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
8 EDU/003 - Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	88.2%	88.7%	89.0%	☺	▲	89.9%	88.9%	***	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16		2016/17					Thema'r adroddiad	
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru		Ein safle yng Nghymru * ****
9 EDU/004 - Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	85.1%	85.6%	86.3%	☺	▲	88.2%	86.5%	**	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Mae'r canlyniad yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn a hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod hyd yn hyn. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran cynnydd mewn deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi'u rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith yn ein hysgolion.								
10 EDU/011 - Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	580.3	581.0	596.0	☺	▲	555.6	534.5	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Mae'r canlyniad hwn yn parhau i wella a hwn yw canlyniad gorau'r Awdurdod erioed a'r gorau yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod yr Awdurdod Lleol a Chonsortium ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) yn fwy trwyadl o ran tracio a herio. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i herio a chefnogi ysgolion a monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn cyrraedd targedau disgyblion, ysgolion a'r Awdurdod Lleol.								
11 EDU/017 - Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg.	61.1%	61.6%	65.1%	☺	▲	65.0%	60.1%	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Mae'r canlyniad hwn yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn a chafwyd cryn welliant yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Mae'r strategaethau her, cymorth ac ymyrraeth a weithredir gan y Tîm Gwella Ysgolion, gan weithio mewn partneriaeth ag uwch-arweinwyr mewn ysgolion (gan gynnwys targedu perfformiad adrannol penodol), wedi cyfrannu'n fawr at y llwyddiant hwn. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i herio a chefnogi ysgolion a monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn cyrraedd targedau disgyblion, ysgolion a'r Awdurdod Lleol.								
12 LCL/001b - Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.	7,203	7,274	7,646	☺	▲	5,828	4,835	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Gan fod mwy o ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc, mae gwelliannau cyson wedi cael eu gwneud i'r defnydd o adnoddau digidol ar-lein a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd. Drwy hyrwyddo a marchnata'r wefan gorfforaethol yn gyson, a pharhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau digidol ar-lein, y nod yw gwella rhagor ar y ffigurau hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod.								
13 EDU/002i - Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0%	0.0%	0.2%	☹	▼	0.0%	0.1%	**	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Nid yw'r mesur hwn yn cydymffurfio â'r targed ac mae wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd tri o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin wedi gadael addysg orfodol heb gymhwyster. Roedd pob un o'r tri wedi'i dargedu ar gyfer ymyriadau ychwanegol drwy'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed ac wedi cael cymorth ychwanegol gan eu Hysgol a'u timau Lles Addysgol a Gofal Plant. Fodd bynnag, oherwydd sefyllfaoedd sensitif, roedd y tri disgybl heb lwyddo i ennill cymhwyster cydnabyddedig allanol. Ar hyn o bryd roedd y tri pherson ifanc yn cael cymorth gan eu Gwasanaethau Cymorth Ieuenticid. Y nod bob amser yw sicrhau bod disgyblion yn gadael addysg amser llawn â'r cymwysterau priodol. Cyflawnir hyn drwy dargedu'r disgyblion hynny sydd mewn perygl a darparu ymyriad priodol wedi'i dargedu.								

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16	2016/17							Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	
14 EDU/002ii - Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd.	0.0%	0.0%	0.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	0.0%	0.0%	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
15 EDU/016a - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	95.2%	95.4%	94.8%	☹	▼	95.3%	94.9%	**	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
16 EDU/016b - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	94.2%	94.4%	94.5%	☺	▲	94.5%	94.3%	***	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
17 EDU/015a - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau.	34.8%	40.0%	43.9%	☺	▲	99.1%	84.5%	*	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16		2016/17						Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	
18 EDU/015b - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau.	80.0%	90.0%	71.4%	☹	▼	100.0%	100.0%	*	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Roedd yr holl achosion a fethodd y targed yn rhai ac iddynt agweddau/problemau cymhleth yn economaidd ac yn gymdeithasol. Hefyd roeddent yn bennaf yn achosion lle cafwyd heriau o ran cael hyd i'r ddarpariaeth briodol ar gyfer y plentyn. Roedd y Gwasanaeth Seicolegydd Addysg a Phlant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol am yr heriau oedd ynghlwm wrth rai o'r achosion hyn, a chytunwyd bod ansawdd y broses yn bwysicach na chyrraedd y targed fel y gellid cyflawni'r canlyniad gorau i'r plentyn. Yn ogystal, rydym yn cael lluo o geisiadau am asesiadau statudol gan rieni, sydd yn arwain at ragor o waith o ran prosesau statudol a datrys anghydfodau.								
19 EDU/006ii - Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	43.2%	43.7%	42.2%	☹	▼	19.4%	12.9%	****	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Er bod gwelliant parhaus wedi bod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafwyd dirywiad bach yn ystod blwyddyn academiaidd 2015/16. Mae'r Awdurdod Lleol a'r Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag ysgolion, llywodraethwyr a rhieni i wella dilyniant ar hyd y continwmm Cymraeg. Mae ein gweithgarwch parhaus o ran y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cefnogi'r mesur hwn yn effeithiol.								
20 SCC/002 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	3.9%	5.0%	3.4%	☺	▲	I'w ddilyn	I'w ddilyn		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
21 SCC/004 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	Mesur newydd	13.5%	0.11	☺	Mesur nerwydd	I'w ddilyn	I'w ddilyn		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
	Mae'r diffiniad ar gyfer y mesur hwn wedi newid o 2016-17, i gynnwys unrhyw ofal seibiant am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr ac felly ni ellir cymharu â blynyddoedd blaenorol.								
22 CAM/037 - Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr	7.2%	1.1%	-0.3%	☹	▼	4.1%	3.1%	**	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Adroddir y canlyniad hwn yn ôl-weithredol gan yr holl awdurdodau yng Nghymru o achos oedi o ran argaeledd data ynghylch defnydd o ynni gan gwmnïau cyfleustodau. Felly dyma'r newid % yn y sgôr DEC rhwng 2014/15 a 2015/16. Er bod newid % negyddol bach (cynnydd) yn y sgôr DEC rhwng 14/15 a 15/16, dynodwyd bod canlyniad newid % 2014/15 yn 'rhagorol' sef 7.2%. O ganlyniad, roedd y gwahaniaeth yn y canlyniad o flwyddyn i flwyddyn yn anochel. Gellir priodoli'r canlyniad i'r ffaith nad oedd adeiladau unigol wedi perfformio cystal â'r flwyddyn flaenorol - yn bennaf 3 Heol Spilman, Caerfyrddin a Swyddfeydd y Cyngor, Llandeilo.								

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16	2016/17							Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	
23 STS/005b - Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol	98.9%	92.0%	98.6%	☺	▼	98.6%	96.0%	***	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
24 WMT/004b - Canran y gwastraff trefol a gludir i safleoedd tirlenwi	5.25%	10.00%	4.73%	☺	▲	2.37%	4.54%	**	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Serch bod gwelliant o flwyddyn i flwyddyn, mae dirywiad cymharol wedi bod o gymharu ag awdurdodau eraill, a hynny am ddau reswm. Mae'r Awdurdod wedi cael problemau o ran allforio Tanwydd yn Deillio o Sbwriel i gyfleusterau Ewropeaidd o achos materion sydd y tu hwnt i reolaeth y cyngor, sydd wedi achosi cynnydd yn y gwastraff gweddilliol a gludir i safleoedd tirlenwi am gyfnod byr fel trefniant wrth gefn. Yn ogystal mae llawer o awdurdodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dyfarnu contractau i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi i Ynni o Wastraff, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd targedau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru bellach yn dibynnu llawer llai ar safleoedd tirlenwi.								
25 WMT/009b - Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddedfnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	63.52%	62.00%	66.23%	☺	▲	65.72%	64.89%	****	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
26 STS/006 - Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith.	87.24%	98.63%	85.92%	☹	▼	98.22%	96.85%	*	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Daethpwyd ar draws anawsterau o ran yr agwedd hon ar ein gwasanaeth glanhau o achos yr angen dros dro am ailddyrranu staff i swyddi gwag yn y gwasanaethau casglu sbwriel a glaswellt. Mae'r ailddyrranu hwn yn caniatáu i'r casgliad sbwriel fynd rhagddo'n effeithiol o hyd, er mwyn ateb y gofynion a flaenoriaethwyd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi rhoi bod i oedi wrth ymateb i rai achosion o dipio anghyfreithlon o fewn yr amserlen a bennwyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad glanhau i wella effeithlonrwydd gweithredol a gwasanaethau a ddarperir. Felly mae'r mesur hwn yn dal i fod yn y chwarter isaf ar gyfer 2016/17.								
27 THS/007 - Canran yr oedolion 60+ oed sy'n dal cerdyn teithio rhatach	80.6%	79.0%	81.4%	☺	▲	92.4%	85.5%	**	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

ATODIAD C

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2015/16	2016/17							Thema'r adroddiad
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	
	10.7%	9.5%	9.2%	☺	▲	5.3%	6.7%	*	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
28 THS/012 - Canran y priif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn briif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn briif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	<p>Gellir ystyried bod cyllid Menter Benthycyca Llywodraeth Leol (2012-2015) a'r buddsoddiad cyllid Cyfalaf a dargedwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn cael effaith uniongyrchol ar wella cyflwr cyffredinol cyfunedig ein dosbarthiadau A, B ac C o rwydwaith priffyrdd. Mae'r ffigur o 9.2% yn dangos gwelliant o gymharu â 10.7% y llynedd, ac mae'n llai o lawer na'r uchafbwynt yn 2012/13 o 17.2%, gan fynd yn groes i'r duedd gyffredinol h.y. gostyngiad yn y gyfran gyffredinol o'r rhwydwaith y dynodir ei fod mewn cyflwr gwael. Yn dilyn diwedd Menter Benthycyca Llywodraeth Leol, gostyngiad mewn referniw a lefelau isel o fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith priffyrdd, mae Sir Gaerfyrddin yn debygol o aros yn y chwarter isaf heb fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol sylweddol yn yr Ased briffyrdd.</p>								